

# Canolfannau Cymraeg a Rhwydweithiau Cymdeithasol Oedolion sy'n Dysgu'r Gymraeg: Ymdrechion i Wrthdroi Shiftt leithyddol mewn Cymunedau cymharol ddi-Gymraeg

Gan Heini Gruffudd a Steve Morris



© **Hawlfraint Heini Gruffudd, Steve Morris ac Academi Hywel Teifi**

**Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 2012**

**Cyhoeddwr:** Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru / Academi Hywel Teifi

Prifysgol Abertawe

Adeilad Keir Hardie

Parc Singleton, ABERTAWA SA2 8PP

**Ffôn:** 01792 602070

**[www.abertawe.ac.uk/academihywelteifi/ymchwil](http://www.abertawe.ac.uk/academihywelteifi/ymchwil)**

**Dyluniwyd y clawr gan:** Waters Creative, Abertawe

**Argraffwyd gan:** Waters Creative, Abertawe

**ISBN:** 978-1-900346-11-5



- 1           **CYNNWYS**
  
- II           DIOLCHIADAU
  
- III          RHAGAIR GAN YR ATHRO COLIN WILLIAMS
  
- IV          CRYNODEB GWEITHREDOL
  
  
- 1           **CEFNDIR YR YMCHWIL**
  - 1.1           Man cychwyn yr ymchwil
  - 1.2           Cylch gwaith yr ymchwil
  - 1.3           Dadansoddiad o broffil dysgwyr Cymraeg i oedolion  
2007 – 2009
    - 1.3.1          Lefel y dosbarthiadau a fynychir
    - 1.3.2          Rhyw
    - 1.3.3          Oedran
  - 1.4           Dysgu anffurfiol
  - 1.5           Y cyd-destun rhyngwladol
  
- 2           **METHODOLEG**
  - 2.1           Cefndir
  - 2.2           Diffinio natur ieithyddol yr ardaloedd dan sylw
    - 2.2.1          Sir y Fflint
    - 2.2.2          Abertawe
    - 2.2.3          Castell-nedd Port Talbot
    - 2.2.4          Pen-y-bont ar Ogwr
    - 2.2.5          Merthyr Tudful
    - 2.2.6          Casnewydd
  - 2.3           Holiadur
    - 2.3.1          Adrannau'r holiadur
    - 2.3.2          Dadansoddi'r holiadur
    - 2.3.3          Dewis y dosbarthiadau
    - 2.3.4          Peilota'r holiadur
    - 2.3.5          Dosbarthu'r holiadur
  - 2.4           Grwpiau ffocws
  - 2.5           Hanes y Canolfannau Cymraeg
  
- 3           **HOLIADUR**
  - 3.1           Cefndir personol
  - 3.2           Cyrsiau a fynychir
  - 3.3           Cyfleoedd
  - 3.4           Cyfryngau
  - 3.5           Newid arferion

- 4                    **GRWPIAU FFOCWS**
- 4.1                Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- 4.2                Hyder / Agwedd siaradwyr Cymraeg
- 4.3                Cymhelliant
- 4.4                Rhwystrau rhag cymdeithasu
- 5                    **MODELAU DARPARIAETH ANFFURFIOL**
- 5.1                Cyffredinol
- 5.2                Y Gogledd
- 5.2.1              Yr Wyddgrug
- 5.2.2              Canolfan Gymraeg i'r Wyddgrug
- 5.3                Y Canolbarth
- 5.4                Y De-orllewin
- 5.4.1              Menter Iaith Abertawe a Thŷ Tawe
- 5.5                Morgannwg
- 5.5.1              Canolfan Gymraeg a Menter Iaith Merthyr Tudful
- 5.6                Caerdydd a Bro Morgannwg
- 5.7                Gwent
- 5.8                Arweiniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- 5.9                Ystyried y modelau darpariaeth anffurfiol
- 6                    **CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**
- 6.1                Canfod y cyfleoedd sydd ar gael i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg
- 6.1.1              Argymhellion
- 6.2                Canfod a yw'r cyfleoedd yn fwy neu'n gyfartal os bydd dysgwyr yn astudio mewn Canolfan Gymraeg
- 6.2.1              Argymhellion
- 6.3                Canfod ac argymell strategaethau y gellid eu rhoi ar waith er mwyn ymestyn ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg y siaradwyr Cymraeg newydd hyn
- 6.3.1              Argymhellion
- 6.4                Canfod a oes patrymau neu strategaethau mewn cymunedau ieithyddol eraill y byddai modd eu haddasu at yr ymdrechion i integreiddio oedolion sydd wedi dysgu Cymraeg
- 6.4.1              Argymhellion
- 6.5                Ystyried y modelau darpariaeth anffurfiol
- 6.5.1              Argymhellion
- 7                    **ATODIADAU**
- ATODIAD 1 Copi o'r Holiadur
- ATODIAD 2 Cyfarwyddiadau i'r tiwtoriaid ynglŷn â sut i lenwi'r holiadur gyda'r dosbarth.
- ATODIAD 3 Canllawiau'r Grwpiau Ffocws
- ATODIAD 4 Hanes Canolfannau Iaith / Canolfannau Cymraeg
- ATODIAD 5 Canfyddiadau'r Holiadur
- ATODIAD 6 Grwpiau Ffocws
- ATODIAD 7 Cynnwys: Graffiau a Thablau
- 8                    **LLYFRYDDIAETH**

## II

## DIOLCHIADAU

Hoffai'r awduron ddiolch i'r canlynol sydd wedi hwyluso a helpu gyda'r ymchwil hon:

- Cyfarwyddwyr y 6 Chanolfan Cymraeg i Oedolion am anfon sylwadau, cydgysylltu â thiworiaid/dosbarthiadau, dosbarthu holiaduron a chefnogi'r ymchwil;
- Pawb a enwir yn y troednodiadau, ac eraill, yn y Mentrau iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydliadau eraill sydd wedi darparu gwybodaeth a chefnidir i ni;
- Yr holl diwtoriaid ledled Cymru am ganiatáu i ni ddefnyddio eu hamser dysgu prin i ofyn i'w dysgwyr lenwi'r holiadur neu i fod yn rhan o'r grwpiau ffocws. Gobeithio bod gwneud hyn wedi esgor ar drafodaethau defnyddiol ynglŷn â'u defnydd nhw o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth!
- Yr holl ddysgwyr a lenwodd holiaduron a/neu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Gobeithio y bydd ffrwyth yr ymchwil hon yn helpu i hwyluso'r broses o ddod yn siaradwyr Cymraeg cyflawn i chi ac i ddysgwyr y dyfodol.

### III

### RHAGAIR GAN YR ATHRO COLIN WILLIAMS

Ar ddechrau'r wythdegau, fe awgrymais y byddai'n dda o beth pe bai cynnyrch Ysgolion Uwchradd Cymraeg Cymru yn cael cyfleoedd i barhau i siarad eu hiaith yn anffurfiol unwaith y byddent wedi gadael yr ysgol. Roedd aelwydydd yr Urdd yn cynnig un math o brofiad, ond wrth gwrs, yr oedd pobl ifanc yno yn debygol iawn o orfod cymysgu gyda'u cyn-athrawon (nid bob amser yn brofiad annymunol!) ac nid oedd pawb am baratoi ar gyfer yr eisteddfod nesaf neu gael eu gorfodi i berfformio mewn cyngerdd yn festri rhyw gapel lleol.

Ar ddechrau'r nawdegau roedd gweld twf Mentrau Iaith yn rhyfeddol ac yn codi calon dyn. Mae eu record wrth gynnal y Gymraeg a'i lledaenu wrth greu rhwydweithiau newydd yn arwyddocaol iawn o ran hyfywedd yr iaith. Ond eto i gyd fe glywyd yn aml nad oedd siaradwyr ail iaith, neu hyd yn oed y rhai mwyaf selog, yn meddwl fod y Mentrau yn paratoi digwyddiadau penodol ar eu cyfer ac o ganlyniad teimlai nifer nad oeddynt yn debygol o integreiddio â'r gymuned yn y tymor hir.

Cefais gyfle, rhwng 2009-2011, i gynnig nifer o syniadau tebyg i'r rhai sydd yn yr adroddiad yma i sylw Llywodraeth Iwerddon, pan oeddwn yn rhan o dîm FIONTAR a gomisiynwyd i baratoi strategaeth iaith Iwerddon am yr ugain mlynedd nesaf.

Nid yw yn syndod, felly, imi groesawu'r adroddiad hwn. Mae gwaith trylwyr yr awduron yn fy argyhoeddi fod potensial enfawr i ddatblygu model y Ganolfan Gymraeg, yn enwedig gan ei fod yn gysylltiedig â rhai o brif lwyddiannau gwledydd eraill sydd yn poeni am sut orau i integreiddio 'siaradwyr newydd' e.e. arfer da Catalunya, gyda'r *Voluntaris per a la llengua*.

Y mae'r argymhellion yn rhesymol, yn amserol ac yn debyg o lwyddo. I'r rhai fydd yn dadlau mai ofer yw ceisio sefydlu canolfannau mewn ardaloedd lle nad oes gymuned 'naturiol' o siaradwyr y Gymraeg, cofiwch eich hanes, cofiwch dwf syfrdanol addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig Ysgolion Cymraeg de-ddwyrain a gogledd-ddwyrain ein gwlad. Yn wir y mae nifer o'r teuluoedd a samplwyd yn yr astudiaeth hon yn honni mai un o'r prif ffactorau sydd yn eu symbylu i wella eu gafael ar y Gymraeg ac wedyn ceisio ei defnyddio hi, yw oherwydd presenoldeb y Gymraeg ar yr aelwyd, ar wefusau pobl ifanc sydd yn gynnrych yr Ysgolion Cymraeg.

Pa fath o gymuned sydd dan sylw? Beth yw'r berthynas rhwng cymuned wyneb wrth wyneb a chymuned rithiol? Cyfrifoldeb pwy yw arwain yn y maes yma? Pwy ddylai dalu am y Canolfannau newydd? Ai rhywbeth atodol i'r canolfannau Cymraeg i Oedolion yn unig yw'r rhain? Beth yw eu perthynas gyda'r gymuned, y Llywodraeth Leol, y Cynulliad?

Y mae rhai o'r atebion amlwg eisoes wedi eu crybwyll yn y ddogfen ac mae eraill i'w cynnig wedi i'r drafodaeth gychwyn o ddifri yn sgil cyhoeddi'r adroddiad. Ond yr yn fath o gwestiynau a gyfyd pob tro y mae yna syniad amserol yn codi ei ben, a'r un math o ymateb negyddol ar brydiau mae'n rhaid brwydro yn ei erbyn.

Os am ddilyniant i waith ardderchog y *Canolfannau Cymraeg i Oedolion*, wrth gwrs mae'n rhaid creu cyfleoedd sefydlog, anturus, gwerth chweil, lle mae dyhead ac nid dyletswydd yn dylanwadu fwyaf ar ein cymhellion. Magu hyder wrth ei defnyddio yw'r hen wers wrth ddysgu a meistrolï unrhyw iaith, ond mantais ychwanegol nifer o'r awgrymiadau a geir yma yw eu bod yn rhagweithiol ac yn caniatáu i nifer o weithgareddau ddigwydd yn yr un man. Mae gan gynllunio ran amlwg i'w chwarae yn y broses o sicrhau arian, arweinwyr, cefnogwyr, mynychwyr ac yn y blaen, ond mae siawns hefyd yn chwarae rhan allweddol yn ein bywydau. Pe bai canolfannau tebyg

i'r rhai a awgrymir yma yn cael eu sefydlu rwy'n ffyddiog y byddai ansawdd bywydau nifer ohonom yn gwella am fod yna lleoliadau amlwg lle mae'r Gymraeg yn briod iaith y gweithgareddau a'r hinsawdd - rhywbeth prin iawn y tu allan i furiau dosbarthiadau ysgol yn ein cymunedau ôl-ddiwydiannol, amlddiwylliannol, esgeulus. Mae'r Canolfannau Cymraeg yn cynnig gobaith, egni ychwanegol ac ymrwymiad i lwyddiant y Gymraeg lle mae'r annisgwyl a'r anghyfarwydd yn ein haros. Nid estyniad o'r ysgol ac nid strwythur haearnidd, mesuradwy cynllun a phrosiect yr awdurdodau, ond gofod ffres i ymlacio, i ddysgu mewn nifer o ffyrdd newydd ac yn bennaf oll, dybiwn i, i ymhyfrydu wrth ystyried ein bod yn rhan o'r creu, y bwrlwm, yr awydd i fod yr hyn a fedrwn, sef siaradwyr normal o iaith normal mewn lleoliadau normal, h.y. mwynhad!

Yr Athro Colin H. Williams – Caerdydd

#### IV Crynodeb Gweithredol o brif ganfyddiadau ac argymhellion yr Adroddiad

##### 1 Cylch Gwaith yr Ymchwil

- I. Canfod y cyfleoedd sydd ar gael i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg;
- II. Canfod a yw'r cyfleoedd hynny'n fwy neu'n gyfartal os bydd dysgwyr yn astudio mewn Canolfan Gymraeg;
- III. Canfod ac argymell strategaethau y gellid eu rhoi ar waith er mwyn ymestyn ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg y siaradwyr Cymraeg newydd hyn;
- IV. Canfod a oes patrymau neu strategaethau mewn cymunedau ieithyddol eraill y byddai modd eu haddasu at yr ymdrechion i integreiddio oedolion sydd wedi dysgu Cymraeg.

##### 2 Y Prif Ganfyddiadau

- Roedd dros hanner y sampl yn 61 oed neu'n hŷn;
- Mae rhywfaint o allu yn y Gymraeg gan 54% o deuluoedd y sampl (er mai 45% sy'n defnyddio'r iaith gyda'r dysgwyr);
- Mae lefel y cymwysterau yn y Gymraeg yn amrywio'n fawr: doedd dim cymwysterau gan 17% o'r sampl a 31% yn unig oedd wedi llwyddo yn arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd;
- Roedd 62% o'r dysgwyr wedi dechrau mewn dosbarth unwaith yr wythnos a 73% wedi bod wrthi'n dysgu am bum mlynedd neu fwy;
- Mae 78% yn mynychu dosbarthiadau mewn canolfannau cymunedol neu golegau a 22% mewn Canolfannau Cymraeg;
- Y prif gymhelliant yw '*Dysgu Cymraeg achos fy mod i'n byw yng Nghymru*'. Cymhellion integreiddiol sydd amlycaf ond mae hyn yn creu her o ran diffinio pa fath o 'gymuned Gymraeg' y mae'r dysgwyr yn debygol o integreiddio â hi. Mae paradocs yma rhwng yr **awydd** o ran cymhelliant i integreiddio a'r **realiti** o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg;
- Mae chwarter y dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd a hanner arall yn defnyddio'r Gymraeg 'sawl gwaith' yr wythnos;
- Mae 32% o'r dysgwyr yn mynd Ganolfan Gymraeg sydd o fewn cyrraedd iddynt o leiaf unwaith neu'n fwy yr wythnos. Y dysgwyr sy'n **astudio** mewn Canolfannau Cymraeg yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fynd iddynt amlaf;
- O blith y rhai sy'n mynd i Ganolfan Gymraeg, mae 43% yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yno a 35% yn ei defnyddio weithiau;
- Er bod 56% yn nodi bod cyfle i siarad Cymraeg i ryw raddau yn eu hardal, 9% yn unig a nododd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gyda 21% byth yn ei defnyddio;
- Cynhelir nifer o weithgareddau a digwyddiadau Cymraeg yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd dan sylw mewn lleoliadau amrywiol iawn ond canran fach o'r dysgwyr sy'n manteisio arnynt yn rheolaidd. Y gweithgareddau hynny (e.e. sesiynau siarad) a gynhelir yn y Canolfannau Cymraeg ac o fewn amgylchedd 'cyfarwydd' i'r dysgwyr oedd fwyaf poblogaidd;
- Mae canran uchel o ddysgwyr yn peidio â defnyddio cyfleoedd sydd ar gael iddynt y tu allan i'r dosbarth. Er hynny, roedd traean yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol yn y teulu a chwarter yn wythnosol mewn Canolfannau Cymraeg;



- Mae S4C a Radio Cymru yn bwysig i nifer sylweddol o ddysgwyr. Mae tuedd arwyddocaol gan ddysgwyr i fanteisio ar adloniant ‘goddefol’ yn y Gymraeg yn y cartref e.e. llyfrau, radio, teledu a chylchgronau;
- Dywedodd 71% eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn awr na 5 mlynedd yn ôl. Roedd tair sefyllfa’n gymharol fwy effeithiol o ran cynnig cyfleoedd i ddysgwyr:
  - I. Y Teulu
  - II. Gweithgareddau a digwyddiadau mewn lleoliadau ‘cyfarwydd’
  - III. Y Ganolfan Gymraeg
- Roedd mynychwyr Canolfan Gymraeg yn fwy selog eu presenoldeb yno. O blith y rhai oedd yn defnyddio ‘llawer mwy’ o Gymraeg mewn Canolfan Gymraeg, roedd 62% yn mynychu o leiaf unwaith yr wythnos;
- Roedd dros 70% o’r dysgwyr wedi cael llawer neu dipyn o ffrindiau newydd wrth ddysgu’r Gymraeg. Roedd y canlyniadau mwyaf cadarnhaol ymysg rhai oedd yn mynychu Canolfan Gymraeg bob wythnos;
- Mewn Canolfannau Cymraeg, ni cheir ymyrraeth ieithyddol allanol a nodwyd gan lawer fod rôl allweddol gan y Ganolfan Gymraeg wrth roi hyder iddynt i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol;
- Diffyg hyder: mae’n rhwystr sylweddol rhag defnyddio’r Gymraeg gyda siaradwyr Cymraeg eraill yn y gymuned leol. Gall godi oherwydd diffyg adnoddau ieithyddol, prinder siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a pheidio â bod yn gyfarwydd â thafodieithoedd lleol;
- Mae rhai *Canolfannau Cymraeg i Oedolion* yn gwneud ymdrech fawr iawn i ddarparu cyfleoedd cymdeithasu i ddysgwyr gan gynnwys penodi swyddog datblygu penodol;
- Mae diffyg cyllid i Fentrau Iaith ddatblygu maes ‘dysgu anffurfiol’ yn peri amwysedd yn eu canfyddiad o’u rôl ac anhawster yn eu gallu i weithredu;
- Mae presenoldeb Canolfan Gymraeg gymunedol yn cynnig cyfleoedd cyson a pharhaus a systematig i ddysgwyr, yn fodd o ddenu nifer sylweddol o wirfoddolwyr ac yn sicrhau elfen helaeth o gymathu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr;
- Gwelwyd hefyd fod Canolfan Gymraeg yn:
  - hwyluso cyswllt dysgwyr â siaradwyr Cymraeg eraill ac yn darparu lleoliad pwrpasol ar gyfer y rhyngweithio yma;
  - darparu canolbwynt naturiol a gweladwy ar gyfer gweithgaredd Cymraeg mewn cymunedau gweddol ddi-Gymraeg nad oes ganddynt ganolbwynt clir arall y gall ei siaradwyr Cymraeg fynd ato;
  - golygu bod y dysgwyr sy’n mynd yno yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg;
  - ehangu cylchoedd cymdeithasol a ffrindiau dysgwyr sy’n mynd yno;
  - modd o godi hyder dysgwyr

### 3 Y PRIF ARGYMHELLION

#### Canolfannau Cymraeg:

- Mewn cymunedau cymharol ddi-Gymraeg, dylid rhoi sylw i sut y gellir ail-greu cymunedau Cymraeg ac mae Canolfan Gymraeg yn ddull o ddarparu amodau ar gyfer hyn;
- Dylid cynllunio ar gyfer bodloni cymhelliant nifer i ddefnyddio’r Gymraeg gyda’r teulu a rhoi cyfarwyddyd pendant ynglŷn â’r ffyrdd gorau o drosglwyddo’r Gymraeg i’r aelwyd – a thrwy’r aelwyd, i’r gymuned ehangach;
- Dylid safoni’r term ‘Canolfan Gymraeg’ ar gyfer cyfeirio at y math o ‘*ganolfan iaith*’ a argymhellir yn yr ymchwil. Ni ddylid cyfieithu’r term wrth sôn am ganolfannau o’r fath yn Saesneg ond dylid arddel ‘Canolfan Gymraeg’ yn y

ddwy iaith. Bydd hyn yn fodd o sicrhau y cyfeirir at fodel penodol o ganolfan yn ogystal ag osgoi drysu rhwng canolfannau o'r fath a'r chwe *Chanolfan Cymraeg i Oedolion*.

#### **Canolfannau Cymraeg i Oedolion:**

- Dylai pob *Canolfan CiO* benodi swyddog amser llawn i ddatblygu cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn eu hardal.

#### **Mentrau Iaith:**

- Dylai'r Mentrau Iaith sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu gweithgareddau a digwyddiadau a drefnir ganddynt a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny. Dylid darparu gweithgareddau a digwyddiadau penodol â'r nod o hwyluso integreiddio dysgwyr i brif ffrwd gwaith y Mentrau Iaith a chlustnodi cyllid penodol ar gyfer y gwaith hwn.

#### **Integreiddio â'r Gymuned:**

- Gan mai cymhellion integreiddiol sydd gan y dysgwyr yn bennaf, dylid cynllunio ar gyfer cyplysu'r cymhellion hyn ag ymdrechion i sicrhau bod y dysgwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg yn eu cymunedau;
- Mae angen hwyluso cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn wirfoddolwyr ac yn drefnyddion gweithgareddau a digwyddiadau ar lefel leol;
- Dylid ystyried strategaethau priodol i fagu hyder ymysg dysgwyr gan ystyried 'pendantrwydd ieithyddol';
- Dylid ystyried strategaethau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o anghenion penodol cyfathrebu â dysgwyr a phwysigrwydd dal i gyfathrebu yn Gymraeg.

#### **Y Gymraeg yn y cartref:**

- Dylid ymchwilio'n bellach i'r duedd gyfoes ymysg nifer o ddysgwyr i beidio â mynd allan i weithgareddau a digwyddiadau a derbyn eu hadloniant yn y cartref gan gydnabod mai tuedd gyffredinol yn y gymdeithas yw hon;
- Fel cam tuag at ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol 'go iawn' dylid edrych ar sut mae'r rhyngwyd a'r dechnoleg newydd yn cynnig ffyrdd i ddysgwyr ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol 'rhithiol' a all arwain at rai go iawn.

Clymir yr argymhellion isod ag adrannau penodol cylch gwaith yr ymchwil:

I

1. Derbyn bod cyrsiau dysgu oddeutu 1,500 o oriau'n hanfodol i greu siaradwyr rhugl yn y Gymraeg<sup>1</sup>.
2. Sicrhau proffil oedran iau ar y cyrsiau lefel 3 a 4 (Uwch a Hyfedredd) yn gyffredinol. Ategir yma ymdrechion y maes i weld mwy o ddysgwyr yn parhau i'r lefelau uwch.
3. O ystyried y proffil oedran presennol a'r potensial i ddefnyddio'r Gymraeg yn y teulu, cynllunio o fewn y strategaeth 'Cymraeg i'r Teulu' i wneud yn siŵr fod y potensial yn cael ei wireddu'n llawn.
4. Sicrhau bod cyrhaeddiad cyffredinol y dysgwyr ar y cyrsiau lefel uwch yn fwy hafal er mwyn darparu gweithgareddau a digwyddiadau ar eu cyfer yn fwy effeithiol. Dylid canolbwyntio ar sicrhau bod gan y dysgwyr ar y lefelau uwch

---

<sup>1</sup> Seilir y ffigur hwn ar yr hyn a welwyd yng Ngwlad y Basgiaid a'r ffigur a nodir gan Brifysgol Caergrawnt ar gyfer ESOL (Saesneg). Gw. [www.cambridgeesol.org/exams/exams-info/cefr.html](http://www.cambridgeesol.org/exams/exams-info/cefr.html) am fwy o wybodaeth.

yr adnoddau ieithyddol angenrheidiol i allu ymdopi'n effeithiol â'r sialens o ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i ddiogelwch yr ystafell ddisbarth neu gymdeithasau / gweithgareddau / digwyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â dysgwyr. Ni roddwyd digon o sylw i sut i godi hyder dysgwyr a lleihau eu 'pryderon' wrth ymwneud â'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, felly mae angen edrych ar y posibilrwydd o gynnwys elfen o godi hyder / lleihau pryder yn y ddarpariaeth lefel uwch. Yn yr un ffordd, mae angen sicrhau bod dysgu anffurfiol yn cael ei brif ffrydio i'r cwricwlwm ar y lefelau uwch, o bosib trwy fwy o 'ddysgu ar sail tasg'.

5. Annog ymchwilwyr i edrych yn fwy manwl ar dueddiadau cyfoes i dderbyn mwy o adloniant a gwybodaeth yn y cartref a goblygiadau hynny ar gyfer y Gymraeg ac yn benodol, dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae angen llunio strategaethau i fynd i'r afael â'r ffenomen gyfoes hon fel mater o frys.
6. Yn y cyfamser, dylid sefydlu cynllun tebyg i '*Voluntaris per a la llengua*' Catalunya neu gynllun '*Méts Iaith*' Cyngor Cymuned y Felinheli gyda'r nod penodol o sicrhau cyswllt gweddol gyson rhwng pob dysgwr ar lefel uwch y ddarpariaeth â siaradwr Cymraeg sydd yn rhan o rwydweithiau Cymraeg y gymuned leol. Ni ddylid disgwyl i'r *Canolfannau Cymraeg i Oedolion* redeg cynllun o'r fath ar eu pennau eu hunain. Mae angen gweld y gwaith hwn yn gyfrifoldeb ac yn flaenoriaeth i asiantaethau eraill fel Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth a'r Mentrau Iaith ac mae angen cyllido pob partner yn ddigonol.
7. Mae peuoedd 'traddodiadol' y Gymraeg yn denu nifer cyfyngedig o ymatebwyr. Er mwyn denu dysgwyr o sefyllfaoedd 'diogel' (hynny yw, rhai a ddarperir yn unswydd ar gyfer dysgwyr) i rai newydd, bydd angen cydweithio a hynny'n cynnwys yr asiantaethau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg (e.e. y Mentrau Iaith) yn ogystal â'r gyfundrefn Cymraeg i Oedolion. Dylai annog gwaith gwirfoddol gan y dysgwyr eu hunain fod yn flaenoriaeth. Ni ellir gorbwysleisio ddigon fod y cydweithio yma'n hanfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn newid o fod yn 'ddysgwyr y Gymraeg' i fod yn 'siaradwyr y Gymraeg' yn eu cymunedau.

## II

1. Mae angen datblygu model y Ganolfan Gymraeg fel model llwyddiannus o safbwynt creu cyswllt rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, codi eu hyder a darparu awyrgylch ieithyddol ddiogel ar eu cyfer.
2. Mae angen efelychu'r model hwn mewn ardaloedd eraill i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn cael yr un cyfleoedd a'r un potensial o ran ymestyn eu rwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg.
3. Dylid mynd ati i lunio rhaglen o ehangu Canolfannau Cymraeg ar draws ardaloedd mwy di-Gymraeg y wlad.

## III

1. Sicrhau bod y ddarpariaeth lefel uwch yn rhoi adnoddau ieithyddol digonol i ddysgwyr fedru cyfathrebu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg.
2. Ymchwilio i'r posibilrwydd o lunio sesiynau pendantrwydd ieithyddol i ddysgwyr er mwyn codi eu hyder wrth ymwneud â siaradwyr Cymraeg.
3. Llunio strategaethau priodol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o anghenion penodol cyfathrebu â dysgwyr ac yn enwedig, bwysigrwydd dal ati i gyfathrebu yn Gymraeg.
4. Llunio strategaethau priodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr sydd â'r cymhelliant i siarad Cymraeg â'r plant yn llwyddo i wneud hynny a nodi hyn fel blaenoriaeth.
5. Cynnwys elfen yn y ddarpariaeth uwch fydd yn canolbwyntio ar sefyllfa sosio-ieithyddol y Gymraeg yng nghymunedau lleol y dysgwyr. Dylent fod yn ymwybodol o realiti sefyllfa'r Gymraeg yn eu hardaloedd unigol.

6. Dylid ystyried sut y gellir sicrhau mwy o oriau cyswllt i ddysgwyr dros gyfnod llai o amser er mwyn i fwy ohonynt fagu'r hyder angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.
7. Gan fod y papur bro'n fwy poblogaidd na chylchgronau Cymraeg eraill ymysg yr ymatebwyr, mae angen sicrhau (i) deunydd perthnasol a diddorol i siaradwyr Cymraeg newydd (ii) ymwneud y siaradwyr hyn â byrddau golygyddol y papurau bro perthnasol er mwyn iddynt gael mwy o 'berchnogaeth' a (iii) gwerthiant effeithiol o'r papur bro mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.
8. Dylid ystyried cydweithio rhwng y *Canolfannau Cymraeg i Oedolion* a gwasanaethau llyfrgell lleol i annog darllen trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ardal bwrdeistref sirol Pen-y-bont mae hyn yn digwydd yn llwyddiannus a chynigir grwpiau darllen sy'n denu dysgwyr a siaradwyr mamiaith fel ei gilydd. Cynigir hyn gan y gwasanaeth llyfrgell ac mae yma fodel y gellir ei ddilyn a'i efelychu mewn ardaloedd eraill.
9. Byddai cynllun darllen penodol o fewn y dosbarth yn fodd o sicrhau bod y dysgwyr yn darllen mwy yn Gymraeg. Nid oes angen cynllun caeth ac fe all gynnwys pob math o ddarllen – gan gynnwys gwefannau. Mantais cynllun o'r fath fyddai (i) esgor ar fwy o ddarllen a (ii) sicrhau bod y darllen yn digwydd o fewn fframwaith penodol ac (o bosibl) strwythuredig.
10. Gall y rhyngwyd a'r dechnoleg 'newydd' gynnig cyfleoedd amgen i ddysgwyr greu cymunedau rhithiol newydd. Mae angen edrych ar hyn a'i ddatblygu fel rhan o gyfundrefn genedlaethol Cymraeg i Oedolion.

#### IV

1. Dylai'r *Canolfannau CiO* ystyried sefydlu canolfannau dysgu penodol mewn lleoliadau amlwg yn eu cymunedau i fod yn fan cychwyn ar gyfer datblygu Canolfannau Cymraeg cymunedol.
2. Dylai Adran dros Addysg a Sgiliau / Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth lunio rhaglen genedlaethol i dargedu manau priodol i ddatblygu Canolfannau Cymraeg cymunedol.
3. Dylai'r Mentrau Iaith, *Canolfannau CiO* a mudiadau lleol eraill gydlynu i sefydlu pwyllgorau lleol sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i lywio'r gwaith o sefydlu Canolfannau Cymraeg cymunedol yn lleol.
4. Byddai cael gwahanol sefydliadau, e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith, *Canolfannau Cymraeg i Oedolion*, Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth, Mudiad Ysgolion Meithrin, i rannu adeilad yn ffordd o gychwyn Canolfan Gymraeg gymunedol mewn ardal.
5. Mae angen ystyried ffynonellau ariannol cymunedol posibl, yn lleol ac yn genedlaethol i hybu'r gwaith.
6. Dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i ryddhau adeiladau priodol ar gyfer sefydlu Canolfannau Cymraeg cymunedol.

## 1 CEFNDIR YR YMCHWIL

“...byddai'n ymddangos fod faint y mae rhan fwyaf yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg ymaith o'r ystafell ddosbarth yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf yn aros o fewn yr amgylchedd dysgu, gan ddim ond siarad gyda chyd-ddysgwyr a mynd i ddigwyddiadau dysgwyr. Yn bennaf, nodwyd fod hyn oherwydd diffyg hyder a chyfle...” (Jones, 2005: 55)

### 1.1 Man cychwyn yr ymchwil

Dyma un o gasgliadau adroddiad a baratowyd gan Gyngor Defnyddwyr Cymru ar agweddau defnyddwyr at ddysgu Cymraeg. Gwelir bod yr un canfyddiad yn cael ei adlewyrchu mewn nifer o adroddiadau a gweithiau ymchwil yn ystod degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain:

“Roedd defnydd dysgwyr o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth yn amrywio'n fawr, ac yn dibynnu ar ffactorau fel cylohoedd cymdeithasu unigol; dymunai llawer o ddysgwyr gael mwy o gysylltiad allgyrsiol â'r iaith tu allan i'r dosbarth.” (SCYA: 2003, 62)

“Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn aml yn wynebu anawsterau yn dod o hyd i gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg a magu eu hyder mewn sefyllfaoedd dydd i ddydd. Mae'n hynod bwysig i ddarparwyr barhau i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn a meddwl am ffyrdd newydd o helpu dysgwyr i integreiddio'n llwyddiannus â siaradwyr Cymraeg.” (Estyn: 2004, 17)

“...gwelir tueddiad gan nifer o ddysgwyr i aros yn y gyfundrefn addysgiadol yn rhy hir gan ddibynnu arni nid yn unig o ran cynyddu a gwella eu gwybodaeth o'r iaith ond hefyd – ac mae hyn yn peri mwy o bryder – i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.” (Morris: 2005, 161-162)

“In the case of Wales, for instance, there are large areas.....where the only contact for many learners with Welsh is in a classroom and the rest of life – home, social and work – is conducted through the medium of English. In situations of this kind, learners have to seek opportunities to meet Welsh-speakers and converse. Disappointing encounters in the early days discourage some people from using the language in a naturalistic setting; consequently they only ever speak 'classroom Welsh', resort to simply reading the language or give up altogether.” (Newcombe: 2007, 3)

Yn fwy diweddar, nodir fel un o amcanion strategol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth fod angen 'adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ar fentrau i gynyddu cyfleoedd dysgu anffurfiol/heb fod yn ffurfiol o fewn lleoliadau addysg'(2010: 44). Un o nodau *laith Pawb* (2003:11) yw:

...bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001...[erbyn 2011].

Er mwyn gwireddu'r nod hwnnw, disgwyliad y byddai gan faes Cymraeg i Oedolion gyfraniad i'w wneud (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003: 44) ac mae'r cyd-destun polisi hwn yn sail resymegol i faes gorchwyl yr ymchwil hon ac yn rhoi fframwaith ar ei chyfer.

Mewn astudiaeth o grŵp o ddysgwyr lefel uwch yn Abertawe a'u hymdrechion i symud o'r dosbarth i'r gymuned Gymraeg ehangach, nodwyd gan Morris (2003: 10):

Tutors continually urge their students to get out and use the language with as many other speakers as possible however often the reality of the fragmented linguistic situation in an area like Swansea can make this difficult and some new speakers without children in Welsh medium schools or ready access to the few Welsh-speaking networks that exist in the city can sometimes flounder.

Daethpwyd i'r casgliad bod angen datblygu pedwar prif faes sef (1) ymdrechion i sicrhau y defnyddir y Gymraeg yn helaethach o fewn teuluoedd dysgwyr sydd wedi meistrolï'r iaith, gan gynnwys targedu dysgwyr ifancach a fyddai'n fwy tebygol o fedru defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant cyn i'w patrymau ieithyddol ymsefydlu'n barhaol; (2) y byd masnachol gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu arddel y Gymraeg mewn sefyllfaoedd masnachol yng nghanol y ddinas a'u bod yn gallu adnabod siaradwyr Cymraeg eraill yn hawdd; (3) y lefel leol gan ddatblygu mwy o ganolfannau iaith ar batrwm *euskaltegiak* Gwlad y Basgiaid o gwmpas y ddinas yn hytrach nag un yn unig yn y canol a (4) atgyfnerthu ac ehangu'r cyfleoedd a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli. Pwysleisiwyd (Morris, 2003: 13) bod integreiddio dysgwyr o oedolion i 'brif ffrwd' bywyd Cymraeg yn codi dau gwestiwn pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn ceisio adfer y Gymraeg yn iaith gymunedol mewn ardaloedd cymharol ddi-Gymraeg fel Abertawe, sef sut y gellir integreiddio'r siaradwyr newydd hyn a beth yn union yw ystyr 'prif ffrwd' yng nghyd-destun y Gymraeg heddiw mewn cymunedau sydd wedi colli'r Gymraeg fel eu prif gyfrwng.

Un model a ddatblygwyd mewn rhai ardaloedd<sup>2</sup> yw'r Ganolfan Gymraeg lle y cyfunir dosbarthiadau i ddysgwyr â gweithgareddau i garfanau Cymraeg eraill o fewn y gymuned yn ogystal â chyfleusterau amrywiol eraill, er enghraifft siopau llyfrau Cymraeg.

Ryw ugain mlynedd yn ôl cafwyd adroddiad ar gyfraniad canolfan iaith o'r math hwn gan Gruffudd, 1991. Meddai, "Un o anghenion mwya'r iaith heddiw yw sefydlu o'r newydd gylchoedd lle y'i defnyddir yn y gymdeithas" (Gruffudd, 1991: 3) a disgrifia sut y bu Tŷ Tawe yn Abertawe "o les mawr i ddysgwyr yn arbennig." Galwodd Gruffudd ar y Swyddfa Gymreig, o dan ei chynllun grantiau i fudiadau, i hyrwyddo sefydlu canolfannau iaith. Ar y pryd, roedd y Swyddfa Gymreig yn rhoi grantiau bron yn unig i fentrau a mudiadau 'cenedlaethol' gan honni hefyd nad oedd yn hawdd iddi roi grantiau cyfalaf. Yn sgil hyn, nid oedd modd i rai a oedd am sefydlu canolfannau iaith gael cefnogaeth o'r ffynhonnell yna.

Wrth nodi tair ffynhonnell gyfalaf bosibl, galwodd Gruffudd am newid y canllawiau ariannol, ac ar i'r Swyddfa Gymreig fuddsoddi £100,000 mewn dwy neu dair canolfan iaith newydd y flwyddyn. Awgrymodd y gallai'r Eisteddfod Genedlaethol, ac Eisteddfod yr Urdd, neilltuo canran o'r arian a godir yn lleol tuag at sefydlu canolfannau iaith (Canolfannau Cymraeg). Yn drydydd awgrymodd y gallai awdurdodau lleol gyfrannu adeiladau pwrpasol pe bai rhai'n dod yn rhydd.

Nod y cynllun hwn fyddai sefydlu, dros bymtheng mlynedd, ryw 40 o Ganolfannau Cymraeg ledled Cymru a fyddai'n bwerdai iaith i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr mewn ardaloedd Seisnigedig.

Ymgais i fesur cyfraniad 'canolfan iaith' o ran integreiddio dysgwyr<sup>3</sup> i'r gymuned Gymraeg ehangach yn ogystal â manteisio ar y cyfle i edrych ar eu rhwydweithiau

---

<sup>2</sup> Trafodir hyn yn llawnach yn Atodiad 7.4

<sup>3</sup> Diffinnir 'dysgwr' at ddiben yr ymchwil hon fel y rhai sydd wedi cwblhau cwrs lefel 2 o leiaf ac yn gweithio tuag at lefel 3 / Siawns am Sgwrs / lefel 4. Cyfeirir trwy'r ymchwil at lefel y

cymdeithasol yn y Gymraeg yw rhan o'r ymchwil hon. Gan fod y problemau a wynebir gan ddysgwyr o ran integreiddio yn debygol o fod yn wahanol mewn ardaloedd cymharol ddi-Gymraeg a'r rhagdybiaeth y byddai'r angen am ganolfannau iaith neu Ganolfannau Cymraeg yn llai mewn ardaloedd gyda chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg, penderfynwyd canolbwyntio ar ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith gymunedol.

## **1.2 Cylch gwaith yr ymchwil**

Cytunwyd ar y pedwar prif nod isod a fydd yn greiddiol i'r ymchwil hon:

- Canfod y cyfleoedd sydd ar gael i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg;
- Canfod a yw'r cyfleoedd hynny'n fwy neu'n gyfartal os bydd dysgwyr yn astudio mewn Canolfan Gymraeg;
- Canfod ac argymhell strategaethau y gellid eu rhoi ar waith er mwyn ymestyn ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg y siaradwyr Cymraeg newydd hyn;
- Canfod a oes patrymau neu strategaethau mewn cymunedau ieithyddol eraill y byddai modd eu haddasu at yr ymdrechion i integreiddio oedolion sydd wedi dysgu Cymraeg.

## **1.3 Dadansoddiad o broffil dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007 - 2009**

Er mwyn cael darlun clir a chytbwys o broffil dysgwyr Cymraeg i Oedolion ar lefel genedlaethol a hynny mor agos â phosibl i'r flwyddyn academaidd pan wnaethpwyd yr ymchwil, sef 2009 – 2010, cafwyd setiau o ddata<sup>4</sup> am y ddwy flwyddyn flaenorol, sef 2007 – 2008 a 2008 – 2009. Mae'r data'n gymorth o ran gosod cefndir i'r ymchwil a dangos tueddiadau cyffredinol, e.e. proffil oedran, sydd i'w cael ym maes Cymraeg i Oedolion. Cofnodwyd 17,570 o ddysgwyr yn genedlaethol am y cyfnod 2007 – 2008 a'r ffigur yn codi i 18,220 am y flwyddyn academaidd 2008 – 2009.

---

cwrs yn ôl Fframwaith FfCChC [CQFW], sef: E [Mynediad], 1 [Sylfaen], 2 [Canolradd], 3 [Uwch] a 4 [Hyfedredd]

<sup>4</sup> Derbyniwyd y data gan AdAS ac maent wedi'u seilio ar ffigurau dros dro HESA a LLWR am y cyfnodau dan sylw.

### 1.3.1 Lefel y dosbarthiadau a fynyichir:

LEFEL	NIFER 2007/2008	CANRAN 2007/2008	NIFER 2008/2009	CANRAN 2008/2009
Mynediad / cyn Mynediad	7,745	44.0%	7,975	44.0%
Lefel NVQ 1 neu gyfwerth	4,390	25.0%	5,383	29.5%
Lefel NVQ 2 neu gyfwerth	2,155	12.5%	1,885	10.5%
Lefel NVQ 3 neu gyfwerth	1,305	7.5%	1,150	6.0%
Tystysgrif AU / Lefel NVQ neu NQF 4	200	1.0%	360	2.0%
Ddim yn gwybod	5	0.03%	5	0.025%
Arbenigol	1,775	10.0%	1,470	8.0%
<b>CYFANSWM:</b>	<b>17,570</b>	<b>100.0%</b>	<b>18,220</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 1: Lefel dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007/08 – 2008/09 yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR

### 1.3.2 Rhyw

LEFEL	MENYWOD 2007/ 2008	DYNION 2007/ 2008	PAWB 2007/ 2008	MENYWOD 2008/ 2009	DYNION 2008/ 2009	PAWB 2008/ 2009
Mynediad / cyn Mynediad	5,430	2,315	7,745	5,495	2,475	7,975
Lefel NVQ 1 neu gyfwerth	3,030	1,360	4,390	3,700	1,685	5,385
Lefel NVQ 2 neu gyfwerth	1,465	690	2,155	1,290	595	1,885
Lefel NVQ 3 neu gyfwerth	810	495	1,305	735	415	1,150
Tystysgrif AU / Lefel NVQ neu NQF 4	125	75	200	225	135	360
Ddim yn gwybod	5	*	5	5	*	5
Arbenigol	1,160	615	1,775	1,040	430	1,470
<b>CYFANSWM:</b>	<b>12,025</b>	<b>5,545</b>	<b>17,570</b>	<b>12,490</b>	<b>5,730</b>	<b>18,220</b>

Tabl 2: Rhyw dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007/08 – 2008/09 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR



### 1.3.3 Oedran


LEFEL	Dan 16	16-19	20-29	30-39	40-49	50-59	60 +	Oedran Anhysbys	Pawb
Mynediad/ cyn Mynediad	10	80	1,215	1,885	1,630	1,360	1,440	120	7,745
Lefel NVQ 1 neu gyfwerth	10	30	550	1,000	965	745	1,010	75	4,390
Lefel NVQ 2 neu gyfwerth	5	5	160	390	480	415	670	35	2,155
Lefel NVQ 3 neu gyfwerth	*	5	85	170	275	265	495	10	1,305
Tystysgrif AU / Lefel NVQ neu NQF 4	*	*	20	40	40	35	55	10	200
Ddim yn Gwybod	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Arbenigol	5	30	305	365	405	270	315	75	1,775
<b>PAWB:</b>	<b>35</b>	<b>150</b>	<b>2,335</b>	<b>3,850</b>	<b>3,795</b>	<b>3,095</b>	<b>3,985</b>	<b>320</b>	<b>17,570</b>

Tabl 3: Oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007/08 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR

LEFEL	Dan 16	16-19	20-29	30-39	40-49	50-59	60 +	Oedran Anhysbys	Pawb
Mynediad/ cyn Mynediad	10	150	1,280	1,890	1,815	1,330	1,370	130	7,975
Lefel NVQ 1 neu gyfwerth	5	70	780	1,205	1,105	935	1,225	55	5,385
Lefel NVQ 2 neu gyfwerth	*	25	280	345	395	320	500	15	1,885
Lefel NVQ 3 neu gyfwerth	*	5	80	160	235	235	410	15	1,150
Tystysgrif AU / Lefel NVQ neu NQF 4	*	*	25	40	65	60	155	10	360
Ddim yn Gwybod	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Arbenigol	*	35	275	270	230	210	285	160	1,470
<b>PAWB:</b>	<b>15</b>	<b>285</b>	<b>2,720</b>	<b>3,915</b>	<b>3,855</b>	<b>3,095</b>	<b>3,950</b>	<b>385</b>	<b>18,220</b>

Tabl 4: Oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2008/09 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR

## Gostyngiad yn nifer y dysgwyr yn ôl oed a lefel ddysgu



Graff 1: Gostyngiad yn nifer y dysgwyr, yn ôl oed a lefel ddysgu

Yr hyn sy'n amlwg o'r ddwy set o ffigurau uchod yw bod proffil oedran y dosbarthiadau'n newid wrth i'w lefel gynyddu. Grŵp oedran mwyaf y cyrsiau lefel Mynediad yw 30 – 39 am y ddau gyfnod ond erbyn y cyrsiau NVQ 3 neu gyfwerth a thystysgrif AU / Lefel NVQ neu NQF 4, y grŵp oedran mwyaf yw'r rhai 60+. Mae hyn yn berthnasol iawn i'r ymchwil hon o ran ystyried potensial y dysgwyr hyn (i) i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg a chyfrannu atynt a (ii) i gyfrannu at ymdrechion i wrthdroi'r shifft ieithyddol yn eu cymunedau nhw.

### 1.4 Dysgu anffurfiol

Ar lefel genedlaethol, arweinid y gwaith yn y maes hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Dysgu Anffurfiol 2009 – 2012 (2009: 3) a luniwyd gan y Gweithgor Dysgu Anffurfiol, diffinnir dysgu anffurfiol fel:

...gweithgaredd dysgu sy'n galluogi dysgwyr y Gymraeg i estyn ac ymarfer y defnydd o'r Gymraeg er mwyn ennill hyder, cynyddu rhuglder yn yr iaith, a chymathu dysgwyr â siaradwyr rhugl. Fel arfer bydd y gweithgaredd dysgu yn digwydd y tu allan i gwrs ffurfiol, ac ni fydd wedi ei achredu. Gweithgaredd grŵp neu un ac un ydyw fel arfer, ond gellir dysgu'n anffurfiol yn annibynnol, e.e. drwy ddarllen neu wrando ar y radio.

Hyd at 2006, CYD oedd yn arwain yn y maes hwn ond wrth i grant CYD gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddod i ben yn y flwyddyn honno ac ar yr un pryd, sefydlu'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion, penderfynwyd mai Canolfan y Canolbarth fyddai'n cynnull a chydlynu gweithgor cenedlaethol i fwrw'r gwaith yn ei flaen. Dyma gylch gorchwyl y gweithgor:

- Cynnig arweiniad strategol, gan gynnwys bwydo syniadau er mwyn llunio strategaeth genedlaethol drwy gyfrwng y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Cenedlaethol;
- Llunio Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni amcanion neu redeg prosiectau cenedlaethol;

- Cytuno ar flaenoriaethau cenedlaethol;
- Rhannu arfer da;
- Annog cydweithrediad a chyfathrebu clir rhwng y Canolfannau a'u partneriaid;
- Tynnu ar arbenigedd allanol lle bo'r galw;
- Darparu fforwm i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg fedru ymgynghori â'r sector ar ddatblygiadau cenedlaethol.

Ymdrinnir â strategaethau dysgu anffurfiol y canolfannau Cymraeg i Oedolion fesul canolfan yn adran 5 yr adroddiad. Pan ddiddymwyd grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg i CYD yn 2006 (blwyddyn sefydlu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion), rhannwyd y swm yr arferid ei ddyfarnu i CYD rhwng y chwe chanolfan ar sail ceisiadau. Mae pob canolfan yn derbyn symiau gwahanol.

Yn y gwerthusiad a wnaed o CYD gan Gyngor Iaith Llais y Lli (Gruffudd et alia, 2006) nodwyd rhai o gryfderau CYD, a oedd yn cynnwys:

- Mudiad â 70 o ganghennau, a hyd at 1,500 o aelodau;
- Llauer o waith lleol yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr;
- Peth gwaith arloesol, gan gynnwys Cynllun Pontio, lle roedd siaradwyr Cymraeg yn dod i siarad â dosbarthiadau dysgwyr.

Mae'r gwerthusiad yn nodi rhai gwendidau a oedd yn perthyn i CYD fel mudiad ar y pryd:

- Wedi'i organoli yng Ngheredigion;
- Proffil oed y canghennau'n gymharol oeddrannus;
- Cychoedd CYD yn mynd yn gaeedig wrth iddynt ymsefydlu.

Fe welwyd yn barod yn yr adroddiad hwn fod her y proffil oed yn dal yr un fath o dan y drefn newydd heb CYD. Gwelir hefyd bod rhai o'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi ymateb mewn modd creadigol a chynhyrchiol wrth drefnu gweithgareddau. Ar y llaw arall, mewn manau, synhwyrir bod yr elfen leol, neu'r egni a ddaw o waith gwirfoddol, cymunedol, yn gallu bod yn eisiau.

Cynigiodd y gwerthusiad bedwar model, ond nid oes un ohonynt wedi cael ei weithredu. Un oedd bod CYD yn parhau fel yr oedd, a'r ail oedd bod CYD yn cael ei ariannu'n fwy helaeth. Daethpwyd â'r cyllid i CYD i ben, er bod y mudiad wedi parhau ar ffurf wirfoddol. Y trydydd model oedd sefydlu corff cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, ar ddull HABE yng Ngwlad y Basgiaid, yn cydlynu dysgu ffurfiol ac anffurfiol ac yn datblygu cadwyn o Ganolfannau Cymraeg cymunedol. Ni wireddwyd hyn. Y pedwerydd model oedd ailstrwythuro CYD yn ganolfan genedlaethol, gyda'r gwaith ar lefel leol yn cael ei drosglwyddo i'r Mentrau Iaith, mewn cysylltiad â'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion.

Yr hyn sydd wedi digwydd yw bod y cyllid wedi'i drosglwyddo'n unig i'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion. Mae'n drueni os bu hyn yn rhwystr i ambell Fenter Iaith roi ystyriaeth lawn i ddysgwyr fel rhan o'u cynulleidfa.

Erbyn hyn, gwahoddir y Canolfannau Cymraeg i Oedolion i wneud cais ar gyfer eu cynlluniau dysgu anffurfiol yn uniongyrchol o gynllun grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn y flwyddyn academaidd 2009 – 2010 cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd oedd £89,840.

### 1.5 Y Cyd-destun rhyngwladol

Mae dysgu'r Gymraeg yng Nghymru'n gallu bod yn wahanol iawn i ddysgu iaith mewn gwlad lle y mae'r iaith a ddysgir yn cael ei siarad gan ganran sylweddol o'i thrigolion. Mae diflaniad y fro Gymraeg yng Nghymru, sef ardaloedd lle roedd mwy nag 80% o'i phoblogaeth yn gallu siarad yr iaith (Aitchison a Carter, 1994: 42-67), yn gosod her i ddysgwyr ym mhob rhan o Gymru bellach.

Mae'r her, serch hynny, yn fwy o lawer yn yr ardaloedd Seisnigedig lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is nag 20%, sef de sir Benfro, Abertawe, yr hen Forgannwg a Gwent, dwyrain y canolbarth, Sir y Fflint, Wrecsam ac arfordir y gogledd-ddwyrain. Prin bod modd i ddysgwyr yn yr ardaloedd hyn ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.

Mae'r sefyllfa hon ychydig yn wahanol i rai o ieithoedd lleiafrifol Ewrop, lle mae'r iaith wedi gallu aros yn brif iaith ardaloedd penodol, er bod yr ardal honno'n rhan fach o wladwriaeth fwy. Yn Fryslân, mae Ffriseg yn dal yn iaith cartref 75% o drigolion yr ardaloedd gwledig Ffriseg traddodiadol (Fishman, 1991: 163). Yng ngogledd-orllewin y dalaith, mae Ffriseg yn famiaith i 350,000 o'r cyfanswm o 440,000 o'r trigolion (Douwes, 2010: 7). Yn Corsica, sy'n dalaith o Ffrainc, siaredir Corseg gan 64% o'r boblogaeth (Fusina, 2000 : 3). Yn Ne Tyrol yn yr Eidal, siaredir Almaeneg gan 68% o'r boblogaeth o 460,000 (Pircher, 2002: 3). Yng Nghatalwnia, sy'n wlad o fewn Sbaen, siaredir Catalaneg gan ryw 70% o'r boblogaeth o ryw 6 miliwn (Carulla, 1990: 14-21). Yn yr ardaloedd hyn mae'n debygol y gall dysgwr fod yn weddol sicr o ddod ar draws siaradwyr brodorol.

I gael cymhariaeth deg â Chymru mae angen enghraifft o ranbarth neu wlad lle mae'r iaith a ddysgir yn iaith leiafrifol yn y rhanbarth. Yn y rhan o Wlad y Basgiaid sydd yn Sbaen, mae mwy na chwarter y boblogaeth o 2,640,000 yn siarad Basgeg (Gardner, 2005: 8). Gall fod yn agosáu at draean y boblogaeth gyda chynnydd o 200,000 rhwng 1981 a 2001. Mae patrwm y siaradwyr Basgeg wedi newid yn sgil y cynnydd hwn. Bellach mae mwyafrif y siaradwyr yn rhai sydd wedi dysgu'r iaith, ac mae'r mwyafrif bellach yn byw mewn ardaloedd trefol (Cyngor Ewrop, 2007: 17).

Mae'r darlun traddodiadol o siaradwyr Basgeg yn newid o fod yn rhai gwledig sy'n siarad yr iaith yn y teulu a'r gymuned. Erbyn hyn mae 66.3% o'r siaradwyr yn byw mewn ardaloedd trefol, ac yn bennaf yn ardaloedd dinesig y tair prifddinas ac mewn cymunedau trefol o fwy na 10,000 (Cyngor Ewrop, 2007: 18). Mae gan hyn effaith ar y cyfleoedd sydd gan y siaradwyr newydd i ddefnyddio'r iaith. Sbaeneg yw eu prif iaith o hyd.

Yr hyn sy'n arbennig am yr ardal hon yw bod dysgu'r iaith wedi'i drefnu trwy nifer helaeth o ganolfannau lleol. Yn ôl Fishman, ceir bron 250 o ganolfannau (Fishman, 1991: 165). Yn ôl ffigurau'r llywodraeth (gw. isod), ceir 181 o ganolfannau yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid a Navarra.

Mae oedolion sydd am ddysgu Basgeg yn mynychu canolfannau neu ysgolion iaith swyddogol yr Adran Addysg, neu ganolfan iaith, yr *euskaltegi* yn eu hardal. Yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid, caiff yr *euskaltegiak*, yn rhai preifat a'r rhai'n perthyn i gynghorau tref, eu noddi gan HABE (*Helduen Alfabetatze eta Berreskalduntzerako Erakundea*) sef y sefydliad Adran Ddiwylliant sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ysgolion hyn. Yn 2010, roedd cyllideb HABE am yr holl gostau hyn, a chostau ei staff ei hun, yn 44,984,000 € gyda 34,164,000 € o hynny'n mynd fel '*subvenciones*' [grantiau] i'r maes dysgu Basgeg i Oedolion (HABE, 2010). Weithiau mae'r cyrsiau, yn enwedig yn yr haf, yn rhai preswyl (Gardner, 2005: 29).

Yn Navarra, cyfrifoldeb Gwasanaeth Basgeg yr Adran Addysg yw'r rhain. Mae rhwng 35,000 a 50,000 yn mynychu cyrsiau mewn un flwyddyn.

Mae gan yr Adran Addysg 8 ysgol yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid (CYB) a 2 yn Navarra. Mae 46 o ysgolion yn rhai cyhoeddus yn CYB a 3 yn Navarra, a 95 o rai preifat yn CYB, a 27 yn Navarra. Mae hyn yn gyfanswm o 181 o 'ysgolion' neu ganolfannau dysgu iaith wedi'u lleoli mewn cymunedau ledled y wlad. O blith y rhai preifat mae rhai'n eiddo i fudiad AEK (*Alfabetatze Euskalduntze Koordinakundea*) ac eraill i IKA (*Ikas eta ari*). AEK yw'r mudiad anllwywodraethol mwyaf sy'n darparu dosbarthiadau Basgeg i oedolion. Caiff y cyfan nawdd y wlad.

Yn 2006/07 roedd 37,073 o fyfyrwyr yn CYB, mewn 109 o ganolfannau (Eustat, 2010). Yn 2007/08 roedd 36,571 o fyfyrwyr mewn 107 o ganolfannau.

Mae'r system yng Ngwlad y Basgiaid, felly, yn dibynnu ar gyllid sylweddol gan y Llywodraeth, sydd wedi'i sianelu trwy HABE i ganolfannau cyhoeddus a phreifat. Mae HABE hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu deunyddiau a systemau dilyniant ac achredu. Ar y llaw arall mae mudiadau AEK ac IKA yn cyfrannu'n helaeth at eu canolfannau hwy, a ddatblygwyd yn raddol ers 1981 wedi i lywodraeth unbenaethol a gorthrymus Franco ddod i ben.

Mae natur y canolfannau'n amrywio fesul ardal a phwrpas. Rhoddir pwyslais ar greu perthynas agos rhwng athrawon a myfyrwyr, ac mae hyn yn estyn y tu hwnt i'r dosbarth.

Nid y canolfannau iaith yw'r unig wahaniaeth â Chymru. Gwahaniaeth mawr arall yw dwyster y dysgu. Mae 73% o'r rhai sy'n dysgu Basgeg yn astudio am fwy na 6 awr yr wythnos, a 65% ohonynt am fwy na 10 awr yr wythnos.

Y trydydd gwahaniaeth yw nifer yr oriau dysgu sy'n cael eu cynnig i'r dysgwyr i gyrraedd rhuglder. Cyrhaeddir y lefel uchaf (Lefel 12) yng Ngwlad y Basgiaid ar ôl 1,500 – 1,800 o oriau. Mae hyn tua thair gwaith yr hyn a gynigir i ddysgwyr yng Nghymru cyn iddynt gyrraedd cyrsiau gradd academaidd (SCYA, 2003: 76).

O'i gymharu â Gwlad y Basgiaid, nid yw'r ddarpariaeth yng Nghymru wedi mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol dysgu'r iaith leiafrifol yn llwyddiannus.

Mynegwyd gan lawer nad yw'r ddarpariaeth yng Nghymru'n debygol o ddysgu'r iaith yn llwyddiannus i'r mwyafrif o'r mynychwyr dosbarthiadau. Bu methiant cyffredinol yng Nghymru i ddiffinio rhuglder. Mae SCYA yn bwrw amcan bod rhyw 100 o ddysgwyr yn dod yn rhugl bob blwyddyn trwy'r system ddysgu (2003: 69), ond annelwig ac amrywiol yw canfyddiad tiwtoriaid. Gwelir gan Morris (2005) fod gan ddysgwyr eu syniadau eu hunain am beth yw llwyddiant, ac nid yw'r systemau dysgu ac arholi yng Nghymru wedi mynd i'r afael â'r pwnc. Cynhelir prosiect ymchwil sylweddol ar hyn o bryd sy'n edrych ar y modd y trosglwyddir y Gymraeg i oedolion a rhagwelir y bydd yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn ym maes Cymraeg i Oedolion<sup>5</sup>.

---

<sup>5</sup> Bwriad y prosiect yw ystyried ym mha ffyrdd y gellir gwella'r modd y trosglwyddir yr iaith Gymraeg i oedolion. Dechreuodd y prosiect ym mis Mai 2010 a bydd yn rhedeg am ddwy flynedd. Gw.

<http://www.cardiff.ac.uk/cymraeg/subsites/welshforadultsresearch/overview/index.html>

Cydnabyddir gan Estyn (2004) nad oes digon o gyfle i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg yn y gymuned ac yn y gweithle. Meddir hefyd bod gormod o ddysgwyr yn gorffen dysgu ar ôl cwblhau lefel 1 (Mynediad).

Yn wyneb y brwdfrydedd amlwg ymysg tiwtoriaid a dysgwyr yng Nghymru, byddai'n dda meddwl y gallai'r systemau sy'n glwm wrth ddysgu Cymraeg i Oedolion gynig rhaglen sy'n arwain at ruglder i fwyafrif y dysgwyr. I wneud hyn mae angen cynyddu nifer yr oriau cyswllt yn fawr, a hwyluso hyn trwy'r system gyllido, a hefyd hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol. Mae arweiniad Gwlad y Basgiaid a'r Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin ar y pwyntiau hyn i gyd yn glir.

Mae'r angen am oriau digonol ar gyfer dysgu wedi'i nodi yn Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin Cyngor Ewrop. Nodir yno chwech lefel ar gyfer dysgwyr gydag awgrym bod rhuglder yn cael ei gyrraedd ar y lefel uchaf. Mae Cynllun ESOL Prifysgol Caergrawnt, er enghraifft, yn nodi bod angen tua 1,000 – 1,200 o oriau i gyrraedd y lefel hon gyda'r Saesneg ond bod hyn yn dibynnu ar ffactorau fel dwysedd y dysgu, cefndir y dysgwyr, tueddiadau ac oed yr unigolyn a swm y cyswllt â'r iaith y tu allan i'r gwersi.

Erbyn cyrraedd y bedwaredd flwyddyn yng Nghymru, mae'n debygol fod dysgwr wedi derbyn tua 300 o oriau dysgu. Mae hyn yn ôl canllawiau'r Fframwaith yn ddigonol i'r dysgwr allu deall '*...prif bwytiau mewnbyn safonol am faterion cyfarwydd a ddaw ar eu traws yn y gwaith, yn yr ysgol, wrth hamddena ac ati. Gall ymdrin â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio mewn ardal lle siaredir yr iaith.*' (CBAC, 2004: 45). Mae hyn yn brin iawn o'r gobeithion ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, y disgwylir iddynt erbyn y cyfnod hwn all cymryd rhan ym mhrif ffrwd bywyd Cymraeg ac integreiddio â siaradwyr Cymraeg.

Mater arall sy'n peri gofid yw bod y mwyafrif o ddysgwyr yng Nghymru'n cychwyn gyda chysiau unwaith yr wythnos. Cydnabyddir gan Lightbown a Spada (1999) ymhlith eraill nad yw rhaglenni traddodiadol o oriau cyfyngedig yn wythnosol dros gyfnod o amser yn effeithiol wrth gaffael ail iaith.

Sonnir gan Gruffudd et al. (Gruffudd, Meek, Miller, 2006: 18) am gynllun *Voluntaris per a la llengua* sydd ar waith yng Nghatalwnia. Yma mae 22 o Gonsortia Catalaneg i Oedolion yn trefnu cynllun cysylltu newydd-ddyfodiaid i'r iaith â siaradwyr brodorol. Mae 140 o swyddfeydd lleol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn, ac mae 400 o gyrrff gwirfoddol yn rhoi cymorth trwy ddewis gwirfoddolwyr addas. Yn 2004 roedd 5,000 o barau siaradwyr brodorol-dysgwyr wedi'u creu mewn 58 o drefi. Mae arbrawf o'r math yma yn cynnig arweiniad i ddull gweithredu a allai fod yn effeithiol yng Nghymru.

Crynodeb o ddarpariaeth Gwlad y Basgiaid:

- Mae yno tua 180 o ganolfannau dysgu iaith.
- Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dysgu am fwy na 10 awr yr wythnos.
- Cynigir rhwng 1,500 a 1,800 o oriau i ddysgwyr i gyrraedd rhuglder.
- Mae'r Llywodraeth, trwy HABE, yn cyfrannu tua 45 miliwn Ewro y flwyddyn at waith dysgu iaith.

## 2 METHODOLEG

### 2.1 Cefndir

Wedi diffinio ardaloedd daearyddol y prosiect, penderfynwyd gweithredu'r gwaith mewn dau gam. Er mwyn cyrraedd cymaint o'r dysgwyr â phosibl a chasglu gwybodaeth gefndirol amdanynt yn ogystal â'u holi am eu rhwydweithiau cymdeithasol, lluniwyd holiadur cynhwysfawr. Yr ail gam fyddai cynnal grwpiau ffocws gyda samplau cynrychiadol o blith y dysgwyr a lenwodd yr holiadur er mwyn casglu gwybodaeth fwy manwl am eu defnydd o'r Gymraeg a'u rhwydweithiau cymdeithasol yn y ddwy iaith.

### 2.2 Diffinio natur ieithyddol yr ardaloedd dan sylw

Nodir isod yr ardaloedd a gynhwyswyd yn yr ymchwil ynghyd â chanran trigolion yr ardaloedd hynny sy'n medru'r Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001 (Bwrdd yr Iaith, 2003):

Awdurdod Lleol	Canran sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001
Sir y Fflint	14.4
Abertawe	13.4
Castell-nedd Port Talbot	18.0
Pen-y-bont ar Ogwr	10.8
Merthyr Tudful	10.2
Casnewydd	10.0

Tabl 5: Canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardaloedd yr ymchwil yn ôl Cyfrifiad 2001

Er bod yr ymchwil yn mynd i ganolbwyntio ar ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith gymunedol y boblogaeth, ni fyddai adnoddau nac amser yn caniatáu i bob ardal felly gael ei chynnwys yn y gwaith. Fel canlyniad, penderfynwyd canolbwyntio ar ddysgwyr yn ardaloedd y chwech awdurdod lleol uchod am eu bod yn cynnig rhychwant cynrychioliadol o'r mathau gwahanol o gymunedau ieithyddol sydd ar gael gan gynnig, hefyd, ddewisiadau amrywiol o ran y cyfleoedd posibl ar gyfer cymdeithasu a mynychu gweithgareddau yn Gymraeg. Oherwydd y sefydliadau, clybiau a chymdeithasau niferus sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Caerdydd, teimlwyd na fyddai cynnwys yr ardal honno'n gymorth o ran ceisio cael syniad clir a chytbwys o'r sefyllfa yn gyffredinol mewn ardaloedd cymharol ddi-Gymraeg nac ychwaith o ran argymell strategaethau posibl ar ddiwedd yr ymchwil. Sonir isod am y rhesymau penodol dros gynnwys pob ardal unigol.

**2.2.1 Sir y Fflint:** Anfonwyd yr holiadur at rannau helaeth o Ogledd-Ddwyrain Cymru, er enghraifft dosbarthiadau ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam a dosbarthiadau Canolfan Popeth Cymraeg, Dinbych. Teimlwyd y byddai hynny'n taflu'r rhwyd yn ddigon eang i gynnwys y rhan fwyaf o ddysgwyr ar y cyrsiau uwch yn y gogledd-ddwyrain gan roi ystyriaeth hefyd i'r ffaith fod (i) canolfan ddysgu yn Ninbych a (ii) canolfan benodol yn yr Wyddgrug – Canolfan Pendre – sy'n rhoi ffocws i ddysgu Cymraeg yn yr ardal. Yn ogystal â hynny, mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu canolfan iaith fwy cynhwysfawr yn nhref yr Wyddgrug felly yr oedd hyn yn cynnig cyfle i edrych ar fyfyrwyr mewn ardal sydd wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Gymraeg yn y dyfodol agos.

**2.2.2 Abertawe:** Dyma'r ddinas y seiliwyd ymchwil Morris (2003) arni. Cynhelir holl ddsbarthiadau uwch canol y ddinas yng Nghanolfan Tŷ Tawe (er bod mwy o ddsbarthiadau ar yr un lefel yn cael eu cynnig mewn canolfannau mwy traddodiadol ar gyrion y ddinas ac ar benrhyn Gŵyr). Mae Tŷ Tawe yn ganolfan – ac yn ganolbwynt – i nifer helaeth o weithgareddau Cymraeg Abertawe felly nid ganolfan ddysgu Cymraeg yn unig mohoni. Ar ben hynny, mae Abertawe yn cynnig cyfle i gymharu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg dysgwyr sy'n astudio mewn Canolfan Gymraeg â rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg dysgwyr sy'n astudio mewn canolfannau cymunedol eraill nad ydynt yn benodol ar gyfer dysgu Cymraeg i oedolion.

**2.2.3 Castell-nedd Port Talbot:** Mae'r ardal hon yn ffinio ag ardal Abertawe ond ar wahân i ganolfan Stryd y Frenhines yng nghanol tref Castell-nedd, sydd yn rhan o'r coleg addysg bellach lleol ac yn ganolfan i ddysgwyr o oedolion mewn nifer o ddisgyblaethau eraill, nid oes Canolfan Gymraeg benodol yno. Eto i gyd, mae gweithgareddau Tŷ Tawe yn Abertawe o fewn cyrraedd hwylus i rai o ddysgwyr yr ardal yma.

**2.2.4 Pen-y-bont ar Ogwr:** Ni cheir unrhyw Ganolfan Gymraeg benodol yn yr ardal hon ac mae'n ddigon pell o'r ddwy Ganolfan Gymraeg gyfagos yn Abertawe a Merthyr Tudful felly mae'n cynnig cyfle i gymharu rhwydweithiau cymdeithasol dysgwyr mewn ardal o'r un fath â'r ardaloedd hynny. Roedd yn gyfle hefyd i gael tystiolaeth am gyfraniad Clwb Cymraeg Brynmenyn, sydd bellach wedi cau. Mae gan Ganolfan Gymraeg i Oedolion Morgannwg swyddog dysgu anffurfiol penodol sydd yn weithgar yn yr ardal hon.

**2.2.5 Merthyr Tudful:** Dyma'r ail ardal yn yr ymchwil sydd â Chanolfan Gymraeg benodol yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol ychwanegol i'w dysgwyr. Mae gwahaniaethau rhwng y Ganolfan Gymraeg yma a'r un a geir yn Abertawe, er enghraifft, nid oes bar yng Nghanolfan Gymraeg Merthyr. Ar y llaw arall, mae siop lyfrau Cymraeg yn rhan o'r ddwy Ganolfan ac mae nifer o ddsbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal ynddynt.

**2.2.6 Casnewydd:** Ardal arall nad oedd unrhyw Ganolfan Gymraeg benodol i'w chael o fewn ei ffiniau. O ganlyniad – ac oherwydd hanes ieithyddol diweddar ardal Casnewydd, sef gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr yn bennaf oherwydd cynnydd mewn addysg Gymraeg a hynny o waelodlin isel iawn – dyma ddinas sydd o bosibl yn cynnig llai o gyfleoedd cymdeithasu gyda siaradwyr Cymraeg eraill na'r un ardal arall yn yr ymchwil. Yma, byddai modd edrych ar rwydweithiau cymdeithasol Cymraeg dysgwyr sydd â neb arall, mewn gwirionedd, ond dysgwyr eraill i gymdeithasu gyda nhw.

### **2.3 Holiadur**

Wrth gynllunio'r holiadur, derbyniwyd o'r cychwyn y byddai'n anodd ystyried yr holl ffactorau a all ddylanwadu ar rwydweithiau cymdeithasol dysgwyr yn ogystal â'r mathau o rwydweithiau a all apelio atynt. Gwelwyd, er enghraifft, gopi o adroddiad mewnol a luniwyd gan swyddog dysgwyr Canolfan Gymraeg Tŷ Tawe yn 2008 ar ôl holi dysgwyr yn ardal Abertawe am eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Gyda sampl o 142 o ddysgwyr ar wahanol lefelau, holwyd ynglŷn â'u diddordebau a gwelwyd bod cyfanswm o 15 o feysydd o ddi-ddordeb yn apelio at fwy na 5 ohonynt gyda llawer mwy yn apelio at lai na 5 ohonynt. Rhaid derbyn felly ei bod yn anodd iawn darparu a chael gwybodaeth ystyrion am sbectrwm mor eang mewn holiadur. Yn ogystal â hynny, mae personoliaeth a natur (allblyg / mewnblyg) dysgwyr yn debygol o fod yn ffactor y dylid ei ystyried ond un y byddai'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth ystyrion amdano trwy gyfrwng holiadur neu grŵp ffocws yn unig.



Y gamp felly yw ceisio creu darlun cyfan o brofiad dysgwyr mewn ardal a cheisio canfod a yw bodolaeth darpariaeth benodol fel Canolfan Gymraeg yn llwyddo i gyfrannu'n ddigonol at greu rhwydweithiau cymdeithasol newydd ac at greu cyfleoedd cyswllt fel bod modd argymhell sefydlu Canolfannau Gymraeg fel dull o greu presenoldeb ystyrlon i iaith mewn ardal.

Rhagwelwyd y byddai'r holiadur yn un digon cynhwysfawr ac fe'i lluniwyd fel bod modd i diwtoriaid y dosbarthiadau yn y sampl fynd trwy'r adrannau a'u defnyddio fel ysgogiad ar gyfer trafodaeth bellach ar ddefnydd y dysgwyr o'r Gymraeg yn eu cymunedau yn y dosbarth, hynny yw, fel deunydd neu weithgaredd dosbarth ychwanegol. Er mwyn hwyluso hynny, paratowyd nodiadau cryno i'r tiwtoriaid hefyd. Ar ben hynny, byddai'r nodiadau'n fodd o geisio sicrhau bod yr holiaduron yn cael eu llenwi yn yr un modd gan bob dysgwr ym mhob dosbarth ac o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd wrth beilota'r holiadur. Cynhwysir copi o'r holiadur ynghyd â'r cyfarwyddiadau i diwtoriaid yn Atodiadau 7.1 a 7.2 i'r adroddiad. Pwysleisir ar gopi caled yr holiadur (a thrwy'r tiwtoriaid) mai barn y dysgwyr sy'n bwysig ac nad oes ateb 'anghywir' i unrhyw gwestiwn. Nodir bod pob ateb yn gyfrinachol a bod canlyniadau'r holiadur yn mynd i fod o help wrth gynllunio gweithgareddau Gymraeg yn eu hardal yn y dyfodol.

### **2.3.1 Adrannau'r holiadur**

Rhannwyd yr holiadur yn adrannau ar wahân gyda nod penodol i bob un:

- Adran gyffredinol – byw, rhyw, oedran, magwraeth;
- Cefndir – cefndir ieithyddol teuluoedd y dysgwyr, profiad o'r Gymraeg yn yr ysgol a faint o Gymraeg a ddefnyddir gyda'r teulu erbyn hyn. Gwaith, addysg a chymwysterau addysgol;
- Diddordeb yn y Gymraeg – cymhellion. Cyrsiâu blaenorol, lleoliad y dosbarth ac amllder mynychu Canolfan Gymraeg;
- Mannau siarad Gymraeg – amllder defnyddio'r Gymraeg heddiw ac ymhle. Gwybodaeth am y potensial o ran rhai peuoedd i fod yn Gymraeg neu'n Saesneg eu hiaith, mynychu Sadyrnau siarad;
- Y bobl sy'n siarad Gymraeg â'r dysgwyr;
- Digwyddiadau a gweithgareddau Gymraeg – y math o ddigwyddiadau a gweithgareddau Gymraeg y mae'r dysgwyr yn eu mynychu, pa mor aml ac ymhle;
- Defnyddio'r Gymraeg i gymdeithasu;
- Defnyddio'r Gymraeg mewn print;
- Radio a theledu Gymraeg;
- Y cyfrifiadur a'r we;
- Newid arferion – ymgais i fesur y cynnydd yn nefnydd y dysgwyr o'r Gymraeg o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl. Edrychir hefyd ar ble mae'r cynnydd wedi digwydd a chyda phwy.

### **2.3.2 Dadansoddi'r holiadur**

Cynlluniwyd yr holiadur er mwyn iddo allu cael ei ddadansoddi'n weddol hwylus trwy becyn meddalwedd SPSS. Ar ôl penderfynu ar yr adrannau a'r cwestiynau penodol (a chynnal peilot) i'w cynnwys yn yr holiadur, aethpwyd ati i addasu'r atebion tebygol er mwyn eu codio yn unol ag anghenion SPSS. Dadansoddwyd copïau enghreifftiol o'r holiadur er mwyn sicrhau bod y codau'n rhai cynhyrchiol ac yn ddigonol ar gyfer rhoi mynegiant llawn i'r holl atebion posibl.

### 2.3.3 Dewis y dosbarthiadau

Gan fod y prosiect yn ymwneud â dysgwyr y disgwylid eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn weddol rwydd heb orfod newid i'r Saesneg ar y cyfan, cyfyngwyd y dosbarthiadau a gynhwysir ynddo i'r lefelau canlynol:

- Dosbarthiadau lefel 3 [Uwch]
- Dosbarthiadau lefel 4 [Hyfedredd]
- Dosbarthiadau Siawns am Sgwrs / Grwpiau Trafod

### 2.3.4 Peilota'r holiadur

Defnyddiwyd drafft o'r holiadur gydag un dosbarth (Uwch 1) cyn pennu ei ffurf derfynol. Rhoddodd hyn gyfle i amseru gweinyddu'r holiadur hefyd fel bod modd rhoi amcangyfrif i diwtoriaid ynglŷn â faint o amser y byddai ei angen i fynd trwy'r holiadur gyda'u dysgwyr. Yn sgil y peilota yma, cafwyd mân newidiadau i ambell adran yn yr holiadur yn bennaf er mwyn osgoi amwysedd wrth i'r dysgwyr fynd ati i'w gwblhau a'i drafod yn y dosbarth.

### 2.3.5 Dosbarthu'r holiadur

Wedi'r cyfnod drafftio a pheilota, dosbarthwyd yr holiadur terfynol ym mis Tachwedd 2009 gan ofyn i'r dosbarthiadau eu dychwelyd erbyn Rhagfyr 2009. Cafwyd gwybodaeth am y dosbarthiadau priodol ym mhob ardal trwy gydweithrediad parod y Canolfannau Cymraeg i Oedolion priodol. Nodir isod nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd ym mhob ardal ynghyd â nifer yr holiaduron a ddychwelwyd:

Dosbarthiadau	Dosbarthwyd	Dychwelwyd
<b>Abertawe</b>		
Lefel 3	104	41
Siawns am Sgwrs	55	32
<b>Castell-nedd/Port Talbot</b>		
Siawns am Sgwrs	40	25
<b>Gwent [Casnewydd]</b>		
Lefel 3	10	6
Lefel 4	10	7
<b>Merthyr Tudful</b>		
Lefel 3	20	5
Lefel 4	15	10
<b>Pen-y-Bont ar Ogwr</b>		
Lefel 3	55	29
Siawns am Sgwrs	10	-
<b>Sir Ddinbych/Sir y Fflint</b>		
Lefel 3	225	113
Sgwrs a Stori/Cylch Darllen	35	28
	<b>579</b>	<b>296</b>

Tabl 6: Holiaduron – Ardaloedd, nifer a ddosbarthwyd a nifer a ddychwelwyd

O gymryd bod 1,510 o ddysgwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau lefel 3 neu 4 yn ôl ffigurau HESA a LLWR yn 2008/2009 (gw. tabl 5), mae maint y sampl yn y prosiect hwn (579) yn awgrymu bod ychydig dros draean o'r dysgwyr ar y lefelau hynny wedi cael cyfle i gyfrannu ato gydag un o bob pump o'r cyfanswm cenedlaethol tybiedig (296) yn ei gwblhau a'i ddychwelyd.

Dychwelwyd y mwyafrif helaeth o'r holiaduron erbyn 15 Rhagfyr 2009. Anfonwyd nodyn atgoffa ac erbyn Chwefror 2010, roedd ychydig dros hanner yr holiaduron a ddsbarthwyd wedi cael eu dychwelyd.

#### 2.4 Grwpiau ffocws

Er mwyn gallu holi'n fwy manwl ynglŷn ag ymddygiad ieithyddol dysgwyr a'u rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg, trefnwyd cyfres o grwpiau ffocws mewn sampl cynrychiadol o'r dosbarthiadau a ddychwelodd yr holiadur. Cynhaliwyd dau beilot cyn Pasg 2010 ac ar sail y rhain, cytunwyd ar y drefn ganlynol ym mhob un o'r grwpiau ffocws:

- Defnyddio holiadur byr iawn (un ochr tudalen A4) yn sail i bob grŵp ffocws er mwyn sicrhau cysondeb a chymaroldeb (gw. Atodiad 7.3). Cynhwysir pum rhan i bob grŵp ffocws gyda pheth amrywiaeth yn 4 a 5 os cynhelir y grŵp ffocws mewn Canolfan Gymraeg:
  1. Pryd dechreuon nhw ddysgu Cymraeg a'u prif gymhelliant;
  2. Faint o gyfle a geir i gymdeithasu yn y Gymraeg;
  3. Y prif anawsterau o ran cael cyfle i siarad Cymraeg;
  4. Amllder mynd i ddigwyddiadau/gweithgareddau Cymraeg [gan nodi'r ganolfan yn benodol yn y grwpiau ffocws mewn Canolfan Gymraeg];
  5. Faint o help yw'r digwyddiadau/gweithgareddau Cymraeg a beth fyddai'n help iddynt siarad mwy o Gymraeg / Ydy Canolfan Gymraeg X yn bwysig iddynt.
- Ar ôl i'r dysgwyr gwblhau'r holiadur byr, byddai'r grwpiau ffocws yn para am oddeutu awr gyda thrafodaeth agored wedi'i seilio ar bwyntiau'r holiadur. Bu'r ddau ymchwilydd yn naw o'r canolfannau, a bu un i Ferthyr ac un i Gasnewydd. Rhannwyd y gwaith rhwng (i) holi/hwyluso a (ii) cofnodi'r trafodaethau. Cofnodwyd trwy deipio'r sgwrs air am air.
- Paratowyd nodiadau cynhwysfawr yn syth ar ôl pob grŵp ffocws gan amlygu'r rhannau hynny a oedd yn ymwneud yn benodol ag ystyriaethau'r prosiect, er enghraifft *diffyg hyder, cymhelliant, ymwneud â siaradwyr Cymraeg* a.a.

O ran lleoliadau'r grwpiau ffocws, cynhaliwyd un ym mhob ardal a gafodd sylw wrth ddsbarthu'r holiaduron. Yn ardal Abertawe, dewiswyd dau ddsbarth nad oeddynt yn cwrdd yn Nhŷ Tawe a dau arall a gynhelid yn y ganolfan ei hun er mwyn gallu cymharu ymatebion y dysgwyr mewn Canolfan Gymraeg a'r tu allan i Ganolfan Gymraeg. Cynhaliwyd cyfanswm o 11 grŵp ffocws, gan gynnwys y ddau beilot oedd yn ddigon cymharus i gael eu cynnwys yn y prif waith.

Abertawe [yn y gymuned]	2
Abertawe [yn Nhŷ Tawe]	2
Castell-nedd / Port Talbot	1
Pen-y-bont ar Ogwr	1
Merthyr Tudful	1
Yr Wyddgrug	3
Casnewydd	1

## 2.5 Hanes y Canolfannau Cymraeg<sup>6</sup>

Bu awydd ers yr 1960au i sefydlu Canolfannau Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd trefol a gwledig, mewn ymdrech i hyrwyddo dysgu'r Gymraeg ar y naill law ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ar y llall. Cafwyd sawl model gwahanol mewn gwahanol rannau o'r wlad, ond ni bu i unrhyw fodel gael ei efelychu. Mae rhai'n canolbwyntio ar ddarparu adnoddau i ddysgwyr Cymraeg, eraill ar ddarparu adloniant a chyfleoedd cymdeithasu Cymraeg, a rhai'n cyfuno'r ddwy elfen.

Hyrwyddo gwaith ymysg dysgwyr oedd y sbardun am sefydlu'r rhan fwyaf o'r canolfannau hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau hyn wedi'u sefydlu o ganlyniad i frwdfrydedd unigolion yn eu hardaloedd, a oedd yn gweld angen i ddarparu ar gyfer dysgwyr, ac i gyflwyno dysgwyr i'r byd Cymraeg mewn ardaloedd lle na fyddai hynny'n gallu digwydd yn ddirwystyr.

Cafodd y rhan fwyaf o'r canolfannau gefnogaeth ariannol o wahanol gyfeiriadau cyhoeddus, gan gynnwys sefydliadau'n gyfrifol am addysg oedolion, y Loteri Genedlaethol, cronfeydd Ewropeaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (yn achos Nant Gwrtheyrn) a chynghorau lleol. Serch hynny, ni chafwyd arweiniad gan gyrff sy'n ymwneud â datblygu'r Gymraeg ar lefel genedlaethol ar sefydlu Canolfannau Cymraeg. Yn wahanol i brofiad Gwlad y Basgiaid, ni welwyd yng Nghymru, ar lefel genedlaethol, yr angen am greu canolfannau lleol i fod yn ffocws i ymdrechion oedolion i ddysgu'r iaith.

Nid yw Adolygiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith, 2009-10, yn crybwyll bodolaeth Canolfannau Cymraeg, o bosibl am nad yw Canolfannau Cymraeg wedi gwneud cais am gymorth, ond pan wnaed ceisiadau o'r fath gan Ganolfan Gymraeg Abertawe yn y gorffennol, cafodd y rhain eu gwrthod. Yn yr un modd, nid yw *Iaith Pawb* (Llywodraeth Cynulliad Cymru: 2003), strategaeth iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn crybwyll canolfannau Cymraeg. Er bod *Iaith Pawb* yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo rhwydweithiau cymdeithasol (pwynt 2.37) ac yn annog gweithredu cymunedol, gan hyrwyddo busnesau, nid yw'n rhoi ystyriaeth i'r cyfraniad sydd gan wahanol fodolau o gymunedau iaith i adfywio'r Gymraeg yn gymunedol, boed y rheiny'n fentrau cymunedol neu breifat, yn ganolfannau integredig neu'n sefydliadau hamdden, yn dafarnau neu gaffis.

\* Ceir nodiadau cefndir i sefydlu canolfannau iaith / Canolfannau Cymraeg gwahanol yn Atodiad 7.4.

---

<sup>6</sup> Sonnir yma am adeiladau a'u safleoedd, nid am y Canolfannau Iaith Rhanbarthol a sefydlwyd mewn sefydliadau addysg yn 2006 i weinyddu'r gwasanaeth Cymraeg i Oedolion.

### 3 HOLIADUR

*“I lawer o ddysgwyr y Gymraeg, nid boddi yn y Gymraeg yw'r broblem ond chwilio am bwllyn ohoni i drochi'u traed ynddo.” (Crowe, 1988: 88)*

Yn yr adran hon, ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r holiadur. Ceir gwybodaeth fwy manwl am bob adran yn Atodiad 7.5. Er hwylustod, mae pob canran wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

#### 3.1 Cefndir personol

- **Rhyw:** Mae'r ffigurau yn y sampl yn debyg iawn i'r rhai cenedlaethol gyda 61% yn fenywod a 39% yn ddynion.
- **Oedran:** Ceir cadarnhad yma o'r duedd genedlaethol a welwyd yn 1.3.3, sef bod aelodau dosbarthiadau lefel 3 a 4 yn hŷn ar y cyfan gydag ychydig dros hanner y sampl yn 61 oed neu'n fwy. 13% yn unig o'r sampl sydd o dan 40 oed, sef y grŵp oedran mwyaf arwyddocaol o ran sicrhau trosglwyddo'r Gymraeg i'r plant. Mae proffil oedran y dysgwyr ar lefelau 3 a 4 yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â phroffil oedran y dysgwyr sy'n astudio ar lefelau Mynediad ac 1. Yma mae tua 40% ohonynt o dan 40 oed.
- **Ardal magwraeth:** Magwyd dros draean o'r dysgwyr yn Lloegr a 60% o'r dysgwyr hyn yn byw yn siroedd Dinbych a Fflint. Abertawe a Merthyr Tudful sydd â'r canrannau uchaf o ddysgwyr a fagwyd yn yr ardaloedd hynny sydd hefyd yn dysgu ynddynt nawr.
- **Gallu'r teulu i siarad Cymraeg, clywed Cymraeg yn y teulu / yn yr ysgol pan oedd y dysgwyr yn blant:** Ceir awgrym o gefndir goddefol o ran Cymraeg yn y teulu gan chwarter y sampl pan oeddynt yn blant gyda nifer gyffelyb yn nodi eu bod wedi clywed y Gymraeg yn weddol gyson pan oeddynt yn yr ysgol.
- **Gallu'r teulu i siarad Cymraeg nawr / defnydd o'r Gymraeg gyda'r teulu nawr:** Gwelir yma wahaniaeth rhwng gallu a defnydd. Yn gyffredinol, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn nheuluoedd y dysgwyr (yn eu plentynod ac yn awr) yn uwch na'u defnydd o'r iaith. Nodir gallu da/ eithaf da / ychydig o allu gan 54% ond mae'r un lefelau o ran defnydd yn disgyn i 45%. Felly, awgrymir bod 9% o deuluoedd sy'n medru'r Gymraeg yn dewis peidio â'i defnyddio gyda'r dysgwyr ond mae'n galonogol iawn fod 45% yn defnyddio lefelau amrywiol o Gymraeg gyda nhw. Mae potensial sylweddol o ran annog aelodau o deuluoedd y dysgwyr nawr i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy gyda nhw ac mae angen ystyried strategaethau posibl i gyflawni hynny.
- **Gwaith:** Mae 45% o'r sampl yn perthyn i ddosbarthiadau cymdeithasol A/B a 36% yn aelodau o grwpiau C1 a C2.
- **Addysg a chymwysterau yn y Gymraeg:** Nododd 58% o'r sampl lefel uchaf yr addysg fel 'gradd neu uwch'. O ran cymwysterau yn y Gymraeg, yr oedd 31% wedi llwyddo yn arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd ond nid oedd unrhyw gymwysterau yn y Gymraeg gan 17% ac 16% heb ennill cymhwyster uwch na lefel Mynediad neu Sylfaen. Felly, mae'r lefelau'n amrywio'n sylweddol gan gynnig her i'r tiwtor ac i drefnwyr gweithgareddau / digwyddiadau.

### 3.2 Cyrsiau a fynychir

- **Dosbarth Cymraeg cyntaf fel oedolyn / Cyfnod dysgu:** 62% o'r dysgwyr wedi dechrau dysgu mewn dosbarth unwaith yr wythnos. Tua chwarter y dysgwyr a ddechreuodd mewn dosbarth Wlpan/Mynediad Dwys. Mae 73% o'r dysgwyr wedi bod wrthi'n dysgu Cymraeg am bum mlynedd neu fwy.
- **Man cynnal y dosbarth:** Canolfan Gymraeg – 22%; Coleg neu ysgol – 8%; Canolfan gymunedol (e.e. neuaddau cymunedol, Tŷ Pendre) 66% ac arall (e.e. llyfrgell) 4%. Defnyddir 'Canolfan Gymraeg' yma fel canolfan lle mae'r dysgwyr yn derbyn dosbarthiadau ac yn gallu disgwyl yn rhesymol i bawb sydd yn ymwneud â'r lle allu siarad Cymraeg. Felly, mae 78% o'r dysgwyr yn mynychu dosbarthiadau mewn canolfannau lle y byddai angen defnyddio'r Saesneg y tu allan i'r dosbarth ac mae hyn yn ystyriaeth bwysig o ran creu awyrgylch Cymraeg a rhoi hyder i ddysgwyr o ran defnyddio'r Gymraeg gyda phobl eraill.
- **Cymhelliant:** Yn aml iawn mae mwy nag un cymhelliant gan ddysgwyr. Gofynnwyd i'r dysgwyr ddewis o blith wyth cymhelliant cyffredin a nodi pob un a oedd yn berthnasol iddynt:-
  - **Cymhelliant - siarad â'r plant:** 24%. Mae angen llunio strategaethau penodol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod dysgwyr sy'n nodi'r cymhelliant hwn yn gallu gwneud hynny. Hyd yn oed pan fydd plant y dysgwyr wedi troi'n oedolion, mae potensial cyfraniad y dysgwyr hyn fel rhieni cu wrth arddel y Gymraeg â'u hwyrion yn sylweddol.
  - **Cymhelliant – siarad â phobl yn eich ardal:** 48%. Mae canfyddiad y dysgwyr o faint o Gymraeg a siaredir yn eu cymunedau yn aml yn uwch na'r hyn a geir mewn gwirionedd. Her fawr yr ymchwil hon yw sut y mae modd asio'r awydd i fod yn rhan o'r gymuned Gymraeg ac integreiddio â 'phobl eu hardal' â realiti sefyllfa ieithyddol yr ardaloedd dan sylw.
  - **Cymhelliant – aelodau eraill o'r teulu:** 27%. Mae hyn yn ategu'r angen am strategaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg oddi mewn i deuluoedd.
  - **Cymhelliant – deall y radio / teledu:** 56%. Dylid rhoi sylw priodol i botensial a dylanwad y cyfryngau (yn eu holl ffyrdd) ar ddysgwyr.
  - **Cymhelliant – darllen llyfrau / papurau:** 43%.
  - **Cymhelliant – byw yng Nghymru:** 72%. Mae'n cynnwys y cysyniad cyffredinol o fyw yng Nghymru a theimlo, felly, y dylid siarad Cymraeg. Dyma'r cymhelliant mwyaf heriol o ran dyfeisio strategaethau i'w drosglwyddo yn ddefnydd o'r iaith yn y gymuned. Mae modd bodloni'r ymdeimlad o ddyletswydd i siarad Cymraeg achos 'ein bod yn byw yng Nghymru' trwy feithrin y gallu yn yr iaith heb feithrin yr arfer o'i defnyddio o angenrheidrwydd.

- **Cymhelliant – helpu gyda gwaith:** 27%. Awgryma proffil y dysgwyr yn y sampl fod nifer wedi ymddeol. Eto i gyd, mae 27% yn arwydd fod a wnelo'r gweithle â chymhellion tua chwarter o'r dysgwyr.
- **Cymhelliant – trafod gyda chwsmeriaid:** 12%. Ceir yma awgrym fod rhai yn gweld bod dysgu Cymraeg yn helpu yn y gwaith a'i fod yn cael ei ystyried yn sgil ychwanegol ganddynt.
- Y cymhelliant integreiddiol sydd amlycaf ac mae mynd i'r afael ag integreiddio a pha fath o gymuned Gymraeg i integreiddio â hi'n greiddiol i'r ymchwil hon.

### 3.3 Cyfleoedd

Mae'r adran hon yn greiddiol i'r ymchwil. Nodwyd eisoes bwysigrwydd darparu oriau cyswllt digonol i ddysgwyr unrhyw iaith yn 1.5. Rhoddir cefndir llawn ynghyd ag ystyriaethau gwaelodol yng nghyd-destun rhoi sylw priodol o gyfleoedd yn y drafodaeth fwy manwl a geir yn Atodiad 7.5. Nodwyd gan Newcombe (2007: 84) fod angen amser a chyswllt cyson ar ddysgwyr a bod dysgwyr yn cael eu camarwain ynglŷn â rhwyddineb honedig dysgu'r iaith (2007: 40).

Yn sgil y cyfyngiadau hyn, mae'r angen am lunio strategaethau ar gyfer cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol. Mae natur ieithyddol y rhan fwyaf o gymunedau lle y mae dysgwyr yn mynychu gwersi, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru, yn golygu na all dysgwyr obeithio defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymuned. Byddai cryfhau rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg yn fodd i'r dysgwyr gynyddu eu horiau cyswllt â'r iaith ac ar yr un pryd, eu cyflwyno i'r byd Cymraeg.

Nod y rhan hon o'r ymchwil yw ceisio mesur llwyddiant gwahanol ardaloedd i roi cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg newydd i ddysgwyr ac ar yr un pryd, fesur y dylanwad a gafodd Canolfan Gymraeg (os yw'n berthnasol) wrth ddarparu pwynt cyswllt i ddysgwyr â'r iaith.

- **Amllder defnyddio'r Gymraeg:** Mae chwarter o'r dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd a hanner arall yn defnyddio'r Gymraeg 'sawl gwaith' yr wythnos.
- **Mynychu Canolfan Gymraeg:** Un anhawster wrth ddehongli hyn yw canfyddiad dysgwyr o'r hyn yw 'Canolfan Gymraeg'. Mae'r diffiniad yn cynnwys rhychwant eang o ddiffiniadau gwahanol o Ganolfannau Cymraeg Abertawe a Merthyr Tudful i ganolfannau 'iaith' / dysgu fel Tŷ Pendre a Chanolfan Iaith Dinbych. Mae 32% o'r dysgwyr yn mynd i un o'r rhain o leiaf unwaith neu'n fwy yr wythnos. Y dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau mewn 'canolfannau Cymraeg' yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fynd iddynt yn fwy aml (27%). Nid yw'n syndod nad yw 36% ohonynt byth yn mynd i unrhyw 'ganolfan Gymraeg' gan nad oes 'Canolfan Gymraeg' o fewn cyrraedd hwylus i nifer ohonynt.
- **Amllder mynychu Canolfan Gymraeg yn ôl ardaloedd:** O blith y rhai a ddywedodd eu bod yn mynd i 'ganolfan Gymraeg', mae 43% yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yno a 35% yn ei defnyddio weithiau.
- **Cyfle i siarad Cymraeg yn y cartref:** Cafwyd cadarnhad yma o'r hyn a welwyd yn 3.1, sef bod gan y mwyafrif rywun yn y teulu y gallent siarad Cymraeg â nhw ond nad oedd y canrannau o ran defnyddio'r Gymraeg yn gyson gartref yn uchel (23%). Lle roedd gallu aelodau'r teulu'n dda neu'n

eithaf da, roedd bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau.

- **Cyfle i siarad Cymraeg yn yr ardal:** Mae gan 56% o'r dysgwyr gyfle i siarad Cymraeg i ryw raddau yn eu hardal. Ar y llaw arall, 9% yn unig a nododd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gydag 21% byth yn ei defnyddio. Dyma'r her i gynllunwyr yn y maes: sut mae modd cynnig i ddysgwyr gyfleoedd digon aml yn eu hardal er mwyn iddynt fedru defnyddio'r Gymraeg yn gyson? O ystyried anhawster darparu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg neu beuoedd Cymraeg mewn ardaloedd Seisnigedig ac amhosiblirwydd Cymreigio ardaloedd heb fod niferoedd llawer uwch yn mynychu ysgolion Cymraeg ac yn dysgu Cymraeg yn oedolion, mae'n briodol ystyried modelau gwahanol o ganolfannau dysgu a chanolfannau cymdeithasu a allai gynyddu cyswllt dysgwyr â'r iaith yn eu hardal.
- **Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:** Canran fach oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y dafarn, yn y capel ac yn y gwaith a hefyd yn mynd yn gyson i ddigwyddiadau a gweithgareddau. Er bod gweithgareddau a digwyddiadau'n digwydd yn gymharol gyson yn y rhan fwyaf o fannau, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n manteisio ar y rhain. Cyngherddau sydd fwyaf poblogaidd gyda thraean yn eu mynychu.
- **Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg – sesiynau siarad:** Roedd y rhain yn denu dwbl unrhyw weithgaredd arall gydag un o bob wyth yn eu mynychu'n wythnosol.
- **Niferoedd mynychu cyfleoedd anffurfiol:** Mae canran uchel o ddysgwyr yn peidio â defnyddio cyfleoedd sydd ar gael iddynt y tu allan i'r dosbarth. O ran sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth, roedd traean yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol yn y teulu a chwarter yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol mewn 'Canolfannau Cymraeg'.

### 3.4 Cyfryngau

Er nad yw'r rhain yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn uniongyrchol â siaradwyr eraill yn eu cymunedau ar y cyfan, maent yn beuoedd pwysig o ran oriau cyswllt y dysgwyr â'r iaith y tu allan i sefyllfa'r dosbarth ac yn cynnig dull (goddefol yn bennaf) ychwanegol pwysig i ddysgwyr ddod i gysylltiad â'r Gymraeg a'r sawl sy'n ei defnyddio.

- **Deunydd ysgrifenedig:** 'Lingo' a phapurau bro oedd yr unig gylchgronau a ddarllenid gan nifer mesuradwy ond roedd un o bob tri'n prynu llyfrau Cymraeg o leiaf yn weddol aml.
- **Mannau prynu deunyddiau Cymraeg:** Siopau llyfrau Cymraeg oedd y man mwyaf poblogaidd i brynu deunyddiau Cymraeg. Gan fod y siop lyfrau Cymraeg yn lle mor amlwg i ddysgwyr gyrchu nwyddau o bob math yn y Gymraeg, mae angen datblygu ac ymestyn y cyfleoedd a all gael eu cynnig yno.
- **Radio a theledu:** Roedd rhwng chwarter a thraean yn gwrandao ar Radio Cymru ac yn gwyllo S4C yn aml. Rhaglenni newyddion oedd y mwyaf poblogaidd, yna chwaraeon a rhaglenni diddordeb arbennig. Rhaid cydnabod Radio Cymru a S4C fel peuoedd pwysig i nifer sylweddol o ddysgwyr. Fel canlyniad, maent yn cynnig cyswllt unigryw a dylanwadol â'r Gymraeg a



gallent gael eu datblygu i annog mwy o ddysgwyr i fynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn eu hardaloedd.

- **Y 'dechnoleg newydd'**: Ni chafwyd ymateb gan un o bob pump ond mae'r ffigurau'n dangos o hyd fod nifer helaeth ohonynt yn ymwneud ag o leiaf un agwedd ar y dechnoleg newydd drwy gyfrwng y Saesneg. Defnyddir eboost yn Gymraeg gyda ffrindiau gan 38%, gyda 13% yn tecstio ond 40% yn ffonio ffrindiau yn Gymraeg. Fel cam tuag at ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol 'go iawn' mewn cymunedau, dylid nodi bod y rhyngwyd a'r dechnoleg newydd yn cynnig ffyrdd i ddysgwyr ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol 'rithiol' a all arwain maes o law at rai 'go iawn'.

### 3.5 Newid arferion

- **Cyffredinol**: Dywedodd 215 (71%) eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn awr na phum mlynedd yn ôl a 51 (17%) yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg.
- **Cymharu'r sefyllfaoedd**: Holwyd am y teulu / gweithgareddau a digwyddiadau / Canolfan Gymraeg / ardal / gwaith / y dafarn / capel. Er bod 71% o'r dysgwyr yn honni eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn gyffredinol, roedd tair sefyllfa'n gymharol fwy effeithiol na'r gweddill o ran cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, sef y teulu, gweithgareddau a digwyddiadau a'r ganolfan Gymraeg.
- **Gyda'r teulu**: O'r rhai sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, roedd 21% yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg gyda nhw erbyn hyn a 21% yn defnyddio 'tipyn mwy' o'r iaith.
- **Mynychu gweithgareddau a digwyddiadau**: Er bod nifer wedi nodi cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg, yr oeddynt yn mynychu gweithgareddau a digwyddiadau'n anaml (h.y. llai nag unwaith y mis). Yn wahanol i'r 'teulu' a'r 'ganolfan Gymraeg', mae gweithgareddau a digwyddiadau ar gael ym mhob ardal. Eto i gyd nifer cymharol fach o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn.
- **'Canolfan Gymraeg'**: Roedd mynychwyr y 'ganolfan Gymraeg' yn fwy selog eu presenoldeb. O blith y rhai oedd yn defnyddio 'llawer mwy' o Gymraeg yn y 'ganolfan Gymraeg', roedd 62% yn mynychu o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn awgrymu bod 'Canolfan Gymraeg', i'r dysgwyr sy'n byw o fewn cyrraedd canolfan o'r fath ac yn dewis mynd iddi, yn cael cyswllt amlach o lawer â'r iaith.
- **Ffrindiau newydd**: Roedd dros 70% o'r dysgwyr wedi cael llawer neu dipyn o ffrindiau newydd wrth ddysgu'r Gymraeg. Roedd y canlyniadau mwyaf cadarnhaol ymysg rhai oedd yn mynychu 'Canolfan Gymraeg' bob wythnos.
- **Cyfyngau**: Roedd mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yng nghyd-destun y cyfyngau. Wrth gwrs, ymwneud goddefol yw hyn yn bennaf. Mae'r cynnydd hwn i'w gysylltu â'r duedd a welwyd ymysg nifer i beidio â mynd allan i ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae dysgwyr ar y cyfan yn manteisio ar adloniant Cymraeg sydd ar gael yn y cartref, ar ffurf llyfrau a chylchgronau, y radio a'r teledu.

Roedd yn glir mai'r prif gyfle i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i wneud defnydd helaethach o'r iaith oedd yn y cartref, a byddai llawer yn manteisio ar hyn. Hyd yn oed mewn dosbarthiadau lefel 3, nodir anawsterau amlwg o ran geirfa ddigonol a deall tafodieithoedd gan ddysgwyr profiadol ac mae yma neges i ddarparwyr diwylliant yn y cartref i ystyried anghenion dysgwyr yn eu darpariaeth ac i hwyluso cyflwyno dysgwyr i ddiwylliant Cymraeg yn gyffredinol.

## 4 GRWPIAU FFOCWS

Mae'r adran hon yn crynhoi prif ganfyddiadau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd. Ceir dadansoddiad llawn ohonynt yn Atodiad 7.6. Rhoddir sylw i'r agweddau canlynol yn benodol oherwydd eu pwysigrwydd a'u perthnasedd o ran yr ymchwil hon:

- 4.1 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- 4.2 Hyder / Agwedd siaradwyr Cymraeg
- 4.3 Cymhelliant
- 4.4 Rhwystrau rhag cymdeithasu

Holwyd 70 o ddysgwyr mewn 11 lleoliad:

Yr Wyddgrug	15	Pen-y-Bont	8
Abertawe:		Bryncoch	6
- Y Crwys	8	Merthyr Tudful	8
- Tŷ Tawe	13	Casnewydd	7
- Coleg Abertawe	5		

### 4.1 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Meddai Newcombe (2007: 37) mai'r her i ddysgwyr sy'n manteisio ar y gwersi Cymraeg ffurfiol yw rhoi eu gwybodaeth newydd ar waith. Yn ogystal â hyn, mae dysgwyr yn wynebu cyd-destunau cymdeithasol newydd, ac mae cael ymateb cadarnhaol yn y manau hyn, a rhwyddineb wrth sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol newydd yn yr iaith darged, yn ffactorau o bwys.

Mae natur y cyfleoedd a gynigir, ac ymddygiad siaradwyr Cymraeg hefyd yn cynnig her. Gellir nodi yma fod tuedd siaradwyr Cymraeg i droi at y Saesneg wedi'i nodi'n fynych gan y dysgwyr, a hefyd yr anhawster a gafwyd ar brydiau wrth i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio tafodiaith a siarad yn gyflym. Roedd un dysgwr yn awgrymu bod angen cyrsiau ar siaradwyr Cymraeg ar sut i siarad â dysgwyr. Canlyniad yr anawsterau hyn yn gyffredinol oedd bod llawer o'r dysgwyr ar eu hapusaf wrth siarad â dysgwyr eraill yng nghyd-destun anfygythiol y dosbarth neu sesiwn siarad.

Roedd amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol (trefnedig) ac anffurfiol (y teulu, cyfeillion a'r gymuned) yn rhoi gwahanol batrymau o gyfleoedd siarad i ddysgwyr. Roedd ymdrechion ffurfiol Canolfannau Cymraeg i Oedolion i roi cyfleoedd i ddysgwyr yn amrywio'n fawr o ardal i ardal. Roedd asiantaethau eraill yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i roi cyfleoedd. Roedd Mentrau Iaith yn trefnu digwyddiadau, a chymdeithasau eraill, e.e. CYD, Clybiau Cinio a Merched y Wawr yn cynnig cyfleoedd cyson.

#### Profiadau dysgwyr yr Wyddgrug:

- Roedd rhai'n manteisio ar dafarn a oedd yn darparu gweithgareddau a chwmni Cymraeg.
- Roedd nifer yn manteisio ar raglen gyfoethog darpariaeth C3.
- Roedd llawer yn byw mewn manau nad oeddynt yn cynnig cyfleoedd naturiol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Roedd gan rai a oedd yn byw tu hwnt i'r ffin broblemau penodol.
- Roedd gallu mynd i ardaloedd Cymraeg y gogledd yn help i rai.
- Roedd rhai'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.
- Roedd S4C yn rhoi cyfle i nifer glywed y Gymraeg yn eu cartref.

### **Profiadau dysgwyr y de-orllewin:**

Er bod gwahaniaethau amlwg unwaith eto rhwng amgylchiadau dysgwyr unigol, a'u rheswm dros ddysgu'r iaith a'r cyfle a gânt i ddefnyddio'r Gymraeg yn amrywiol iawn, roedd presenoldeb Canolfan Gymraeg – Tŷ Tawe – yn yr ardal hon yn allweddol i nifer arwyddocaol o'r dysgwyr, a hynny mewn modd arwyddocaol hefyd.

Mae'r arwyddocâd y Ganolfan ym mhrofiad y rhain yn ymwneud â sawl ffactor. Gellir crynhoi'r rhain fel hyn:

- i. Mae'r Ganolfan, gan gynnwys y siop, ar gael trwy'r dydd am chwe diwrnod yr wythnos;
- ii. Mae'r Ganolfan yn cynnig mwy nag un sesiwn gymdeithasol wythnosol, ac mae digwyddiadau achlysurol yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, gan roi modd i ddysgwyr ddefnyddio'r Ganolfan sawl gwaith bob wythnos;
- iii. Mae'r Ganolfan yn rhoi cyfle hwylus i bobl ddod i adnabod dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn dda;
- iv. Mae siaradwyr Cymraeg yno sy'n ymwybodol o anghenion dysgwyr yn falch o siarad â dysgwyr;
- v. Mae dosbarthiadau dysgu Cymraeg yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, a'r rhain yn cynnig dilyniant rhwydd i amgylchiadau cymdeithasol.
- vi. Mae'r Ganolfan yn cynnig lle hwylus o ddod o hyd i wybodaeth am bethau Cymraeg.

### **Profiadau dysgwyr Coleg Abertawe:**

- Dim ond yn Nhŷ Tawe roedd nifer yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Roedd Tŷ Tawe'n cynnig amgylchiadau croesawgar i nifer a chyfle i gwrdd â siaradwyr Cymraeg mewn amgylchiadau anfygythiol.
- Roedd rhai'n mynychu mwy nag un digwyddiad wythnosol yn Nhŷ Tawe a digwyddiadau eraill yno.
- Roedd dysgwyr yn gwybod y byddai rhywun yn Nhŷ Tawe i siarad Cymraeg â nhw.
- Roedd y siop Gymraeg yn rhoi cyfle i rai i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Profiadau dysgwyr y Crwys:**

- Roedd gallu ieithyddol rhai'n rhy brin i gymdeithasu'n effeithiol.
- Roedd amrywiaeth o ran cymhelliant dysgu iaith.
- Roedd rhai'n mynd i Dŷ Tawe'n gyson ac yn cael gwybodaeth gan Dŷ Tawe am ddigwyddiadau Cymraeg.
- Roedd rhai'n dueddol o beidio â mynd allan yn y nos.

### **Profiadau dysgwyr Bryncoch:**

- Roedd eu cysylltiad â'r iaith yn gymdeithasol yn denau ar y cyfan.
- Roedd y dosbarth yn cynnig cyfle diogel a dymunol i ddefnyddio'r iaith ond gallai hyn fod yn rhy amddiffynnol.
- Roedd yr ardal a gweithgareddau fel côr yn rhoi cyfle i rai ddefnyddio'r iaith.
- Roedd mwy nag un yn sylweddoli y gallen nhw wneud mwy o ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Profiadau dysgwyr dosbarth Tŷ Tawe:**

- Mae nifer yn mynychu Tŷ Tawe dair gwaith yr wythnos.
- Mae nifer yn credu bod y cyfle a gânt i siarad Cymraeg yn Nhŷ Tawe'n allweddol.
- Mae Siop Tŷ Tawe wedi cynorthwyo dysgwyr i fagu hyder wrth siarad Cymraeg.

- Tŷ Tawe sy'n cynnig yr unig gyfle i nifer ddefnyddio'r Gymraeg.

#### **Profiadau dysgwyr sesiwn siarad Tŷ Tawe:**

- Mae Tŷ Tawe'n cynnig yr unig gyfle i siarad Cymraeg i rai a chyfle pwysig iawn i eraill.
- Dim ond yn Nhŷ Tawe y caiff un gyfle i gwrdd â ffrindiau newydd.

#### **Casgliadau am brofiadau dysgwyr Tŷ Tawe:**

- Yn gyffredinol gellir dweud bod Tŷ Tawe yn allweddol yn achos y mwyafrif o ran defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Yn achos un, llwyddodd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ei waith yn sgil y sylfaen a gafodd yn Nhŷ Tawe.
- Roedd yn glir bod Canolfan Gymraeg yn rhoi cyfleoedd hwylus i'r mynychwyr hyn. Gallai'r cyfleoedd hyn fod ar gael, pe baent yn cael eu trefnu gan fudiad neu wirfoddolwyr, heb ganolfan, ond roedd yn ymddangos bod cael Canolfan yn hwyluso trefniadau'r digwyddiadau.
- Yn y sesiwn yr ymwelwyd â hi, sef Siop Siarad fore Sadwrn<sup>7</sup>, roedd cyfleusterau cegin ar gael, a gwirfoddolwyr, a oedd yn cynnwys dau diwtor Cymraeg, yn darparu coffi a theisennau.
- Roedd yr awyrgylch yn un anffurfiol, a'r mynychwyr yn rhannu sgwrs yn rhwydd â'i gilydd. Roedd y sesiwn yn para dwy awr, ond byddai rhai'n mynychu am ran o'r cyfnod hwn. Daeth tiwtor Cymraeg i siarad â'r dysgwyr.
- Nid oedd ymyrraeth ieithyddol allanol. Roedd rhai o'r mynychwyr wedi dod i'r sesiwn trwy siop y Ganolfan, ac wedi prynu papur neu gylchgrawn Cymraeg.
- Roedd trawstoriad eang ymysg y mynychwyr, ond yn gyffredinol nid oedd ganddynt gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, ac nid oedd cyfleoedd gan y mwyafrif i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol y tu allan i Dŷ Tawe. Yn achos rhai sydd wedi llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith neu gyda chylch newydd o ffrindiau, pwysleiswyd rôl allweddol Tŷ Tawe wrth roi sail i'w hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Roedd nifer o'r mynychwyr yn gwneud defnydd helaeth o'r ganolfan, ac yn manteisio ar gyfleoedd mynych i gymdeithasu trwy'r Gymraeg yn y ganolfan. Roedd y cyfleoedd hyn ar y cyfan yn dibynnu ar fod sesiynau penodol, neu ddigwyddiadau penodol, yn cael eu trefnu.
- Roedd pob un o'r mynychwyr wedi canfod cylch cyfeillgarwch newydd trwy'r ganolfan Gymraeg, a'r cylch hwn oedd prif gylch cymdeithasu Cymraeg y rhan fwyaf.
- Roedd pob un o'r mynychwyr o'r farn bod cael Canolfan Gymraeg yn allweddol i'w hymdrechion i gymdeithasu yn y Gymraeg. Yn Nhŷ Tawe y gwelwyd yn fwyaf amlwg duedd i greu cymuned Gymraeg ystyrion i ddysgwyr.

---

<sup>7</sup> Sadwrn, 9 Ionawr, 2010, yn Nhŷ Tawe.

### **Profiadau dysgwyr Morgannwg Ganol:**

Nodir mewn man arall sut mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg wedi mynd ati i drefnu rhaglen helaeth o weithgareddau a digwyddiadau i ddysgwyr yn yr ardal. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y modd y mae dysgwyr a holwyd yn gwneud defnydd o'r cyfleoedd hyn. Ategir y gweithgareddau hyn gan y ganolfan Gymraeg ym Merthyr, lle mae siop a man i gynnal gweithgareddau.

### **Profiadau dysgwyr Merthyr:**

- Roedd rhai'n manteisio ar ystod o brofiadau a drefnid gan CiO Morgannwg.
- Roedd y ganolfan Gymraeg ym Merthyr yn cynnig cefnogaeth i rai.
- Roedd tafarn yn cynnig help i rai.
- Bydd cwblhau'r ganolfan Gymraeg ym Merthyr yn debygol o gryfhau'r ddarpariaeth i ddysgwyr.

### **Profiadau dysgwyr Pen-y-bont:**

- Roedd cylch cyfeillion a sefydlwyd gan rai aelodau'n rhoi cyfle da iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.
- Roedd rhai wedi llwyddo i roi'r iaith i'w plant trwy'r ysgolion Cymraeg ac yn awr roeddynt yn siarad Cymraeg â'u plant a'u hwyrion.
- Roedd gweithgareddau Cymraeg a drefnid yn yr ardal yn help i rai.
- Roedd cau Clwb Brynmenyn yn ergyd i rai o'r dysgwyr.

### **Profiadau dysgwyr Casnewydd:**

- Roedd y dysgwyr yn llwyddo i fanteisio ar nifer o gyfleoedd i ddysgwyr sy'n cael eu darparu yng Ngwent.
- Nid oedd siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, felly byddai unrhyw raglen gymathu'n amherthnasol.
- Nid oedd diffyg hyder yn broblem yn sgil diffyg siaradwyr Cymraeg.
- Roedd y radio a'r teledu'n cynnig cyswllt dyddiol i'r dysgwyr.
- Roedd *Golwg*, *Golwg360* a llyfrau hwylus yn gymorth i nifer.
- Roedd nifer yn dweud bod angen Canolfan Gymraeg gymunedol.

## **4.2 Hyder / Agwedd siaradwyr Cymraeg**

*"If learners do not receive a positive response when they first use the language, they may lose confidence and withdraw, believing their Welsh to be inadequate. Learners are not usually prepared for the gulf between learning in class and using/practising Welsh in the community."* (Newcombe, 2007: 55)

Noda Newcombe (2007: 66) nad oedd ffactorau megis agwedd, cymhelliant a phryder yn derbyn llawer o sylw yng nghyd-destun dysgwyr ieithoedd hyd at yn gymharol ddiweddar. Mae 4.2 yn edrych yn benodol ar 'bryder' neu ddiffyg hyder ymhlith dysgwyr ac yn benodol ar sut y mae / y gall hyn effeithio ar eu hymdrechion a'u hawydd i adael y dosbarth a defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Gwelwyd bod diffyg hyder ymhlith y dysgwyr yn ffactor sy'n codi yn gyson.

- Mae diffyg hyder yn rhwystr sylweddol rhag defnyddio'r Gymraeg gyda siaradwyr Cymraeg eraill yn y gymuned leol;
- Gall y diffyg hyder godi oherwydd diffyg adnoddau ieithyddol;
- Gall y diffyg hyder godi gan nad oes digon o siaradwyr Cymraeg i gyfathrebu â nhw yn y gymuned leol;

- Gall peidio â bod yn gyfarwydd â thafodieithoedd lleol beri i siaradwyr Cymraeg newid i'r Saesneg a thanseilio hyder y dysgwyr;
- Mae angen ystyried strategaethau priodol i fagu hyder ymysg dysgwyr gan ystyried o bosibl pendantsrwydd ieithyddol;
- Mae angen ystyried strategaethau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o anghenion penodol cyfathrebu â dysgwyr a phwysigrwydd dal i gyfathrebu yn Gymraeg. Mae hyn yn groes i bwrpas sylfaenol cyfathrebu, sef cyfleu neges i siaradwr arall ond mae angen sylweddoli bod y cyfathrebu yn digwydd hefyd fel ymdrech i greu siaradwr newydd, hyderus.

### 4.3 Cymhelliant

Yn gyffredinol, fe welir bod yr hyn a nodwyd yn y grwpiau ffocws yn ategu'r hyn a gafwyd yn yr holiaduron sef mai'r cymhelliant integreiddiol sydd amlycaf ymhlith y dysgwyr i gyd. Nodwyd gan Morris (2005: 157) fod (i) dysgwyr â chymhellion integreiddiol yn defnyddio mwy o Gymraeg (neu'n ymdrechu i ddefnyddio mwy o Gymraeg) na dysgwyr â chymhellion offerynnol a (ii) bod y rhai sy'n fwy cadarnhaol o ran defnyddio'r Gymraeg yn gwneud mwy byth o gynnydd. Gan fod y cysylltiad rhwng cymhelliant a defnydd yn ystyrlon, penderfynwyd rhoi mwy o sylw i'r elfen hon gan y grwpiau ffocws.

- Mae cymhelliant [ynghyd â thueddfryd] yn un o'r ffactorau mwyaf dylanwadol o ran llwyddiant dysgwyr. Cymhellion integreiddiol sydd gan y dysgwyr ar y lefel hon yn bennaf ac mae angen edrych i weld sut mae cyplysu'r cymhellion hyn ag ymdrechion i sicrhau bod y dysgwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg yn eu cymunedau. Mae paradocs yma rhwng yr awydd o ran cymhelliant i integreiddio a'r realiti o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- Mewn ardaloedd Seisnigedig, mae angen rhoi sylw i sut y gellir ail-greu cymunedau Cymraeg. Mae Canolfan Gymraeg yn ddull o ddarparu amodau ar gyfer hyn.
- Pan nodir cymhellion offerynnol, mae rhai integreiddiol yn amlwg hefyd ac er bod rhai yn nodi'r gweithle fel rheswm dros ddysgu'r Gymraeg, mae nifer yn gweld y gweithle fel cyfle arall i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae angen edrych yn fwy manwl ar sut y mae modd hybu hyn yng nghyd-destun yr angen gan nifer o weithleoedd i gynnig gwasanaeth mwy dwyieithog.
- Unwaith eto, gwelir bod canran o'r dysgwyr wedi dewis dysgu Cymraeg er mwyn ei defnyddio gyda'u plant. O ystyried pwysigrwydd cydnabyddedig trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall, dylid gwneud pob ymdrech i fodloni'r cymhelliant hwn a sicrhau bod y dysgwyr hyn yn llwyddo ac yn cael cyfarwyddyd pendant ynglŷn â'r ffyrdd gorau o drosglwyddo'r Gymraeg o'r dosbarth i'r aelwyd a thrwy'r aelwyd, i'r gymuned ehangach. Dylid ystyried hyn yn flaenoriaeth i'r maes ac un o'r blaenoriaethau o ran adfer y Gymraeg yn iaith gymunedol yn yr ardaloedd di-Gymraeg.

#### 4.4 Rhwystrau rhag cymdeithasu

Un nodwedd amlwg yn y gwaith hwn oedd y nifer cymharol fach o'r dysgwyr a holwyd oedd yn mynychu gweithgareddau Cymraeg. Holwyd i ba weithgareddau a digwyddiadau y bu'r ymatebwyr yn ystod y ddau fis blaenorol. O gymharu'r canlyniadau a gafwyd, roedd modd cymharu nifer mynychwyr gweithgareddau â nifer mynychwyr digwyddiadau i geisio barnu sawl dysgwr oedd yn llwyddo i sicrhau nifer arwyddocaol o oriau cyswllt trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Nifer gweithgareddau a fynychir >	1	2	3
yn mynychu 1 digwyddiad	42 (14%)	15 (5%)	5 (2%)
yn mynychu 2 ddigwyddiad	23 (8%)	11(4%)	7 (2%)
yn mynychu 3 digwyddiad	12 (4%)	7 (2%)	2 (1%)
yn mynychu 4 digwyddiad	0	2 (1%)	2 (1%)

Tabl 7: Nifer yn mynychu gweithgareddau a digwyddiadau (niferoedd a chanrannau) yn y ddau fis diwethaf

Wrth wneud y gymhariaeth hon, ceir bod 84 (28%) o ddysgwyr wedi mynychu 3 neu ragor o ddigwyddiadau neu o weithgareddau. Nid oedd 126 (40%) wedi mynychu gweithgaredd na digwyddiad.

Ni welwyd gwahaniaethau mawr yn ymddygiad yr ymatebwyr yn ôl oed, i raddau am fod y niferoedd yn y grŵp oed o dan 30 yn fach ( $n = 9$ ), ac o dan 40 yn gymharol fach ( $n = 29$ ), ac yn annhebygol o roi cymhariaeth ddibynadwy. Roedd 5 (17%) o'r rhai 31-40 wedi mynychu 2 weithgaredd, 4 (8%) o'r rhai 41-50 oed, 10 (17%) o'r rhai 51-60 oed a 21 (14%) o'r rhai 61+ oed.

Yn achos digwyddiadau, roedd 4 (14%) o'r rhai 31-40 oed wedi mynychu 2 ddigwyddiad, 12 (24%) o'r rhai 41-50 oed, 9 (16%) o'r rhai 51-60 oed a 32 (21%) o'r rhai 61+ oed. Y prif rwystr rhag mynychu digwyddiadau cerddorol byw yn amlach oedd diffyg amser rhydd (31%) a chost mynediad (24%). Yr un oedd y patrwm gyda pherfformiadau theatrig, gyda 37% yn nodi diffyg amser rhydd ac 17% yn nodi pris mynediad.

Roedd modd priodoli methiant dysgwyr o ran mynychu gweithgareddau a digwyddiadau i sawl ffactor:

- **diffyg ymdrech bersonol**
- **diffyg amser**
- **diffyg digon o ddigwyddiadau neu weithgareddau priodol neu atyniadol**
- **ddim yn gyfleus / ddim yn atyniadol**
- **lleoliad anghyfleus**
- **y nos yn anodd**
- **angen cwmni**
- **anawsterau personol**
- **diffyg gwybodaeth**
- **gwrthdaro**

O gofio oed yr ymatebwyr ar gyfartaledd, mae'n bosibl deall rhesymau fel 'y nos yn anodd' uchod, ond gallai'r rhan fwyaf o'r rhesymau uchod fod yn ddilys i rai o bob oed.



## 5 Modelau darpariaeth anffurfiol

### 5.1 Cyffredinol

Mae'r gwahanol Ganolfannau Cymraeg i Oedolion wedi mabwysiadu gwahanol agweddau at ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr. Mae'r darlun, fodd bynnag, yn gymysglyd am fod gwahanol bwyslais yn cael ei roi gan y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ar ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr.

Mae'r Canolfannau'n derbyn symiau gwahanol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol. Yn 2010 – 11 dyrannwyd y grantiau canlynol:

CiO Caerdydd a Bro Morgannwg	£13,185
CiO De-orllewin Cymru	£16,000
CiO Gwent	£10,000
CiO Canolbarth Cymru	£15,000
CiO Gogledd Cymru	£15,500
CiO Morgannwg	£20,340

Mae rhai'n ategu hyn gan eu harian grant o AdAS eu hunain.

Mae natur cydweithrediad y Canolfannau hyn â phartneriaid lleol, e.e. Mentrau Iaith, yn amrywio. Un anhawster yn y bartneriaeth yw bod y Mentrau Iaith o dan gyfarwyddyd Bwrdd yr Iaith i beidio â blaenoriaethu dysgwyr, mae'n debyg am fod yr arian i gefnogi hyn bellach yn cael ei roi i'r Canolfannau. Mae'r Mentrau, sydd i roi Cymraeg i'r teulu ac i bobl ifanc yn flaenoriaeth, yn llwyddo, fodd bynnag, i drefnu gweithgareddau i ddysgwyr trwy gyllid arall neu trwy wneud y gweithgareddau hyn yn rhai hunangynhaliol.

Nodwyd gan un Fenter Iaith bod y drefn bresennol yn gallu bod yn anfodddhaol am nad yw'r gweithgareddau o dan drefn y Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi'u gwreiddio yn y gymuned; yn hytrach mae perygl eu bod yn cael eu gosod ar y gymuned 'oddi uchod'. Byddai gweld cyfuniad o drefn ddysgu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn cael ei hatgyfnerthu gan weithgaredd cymunedol yn gam tuag at roi i ddysgwyr y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt a'r amser cyswllt angenrheidiol.

### 5.2 Y Gogledd

Yn 2009-2010 cytundebodd CCIo Gogledd Cymru gyda 11 darparwr Cymraeg i Oedolion<sup>8</sup>. Yn y cytundeb, ychwanegwyd cymal oedd yn nodi bod angen iddynt neilltuo isafswm o 2% o ddyraniad ariannol Coleg ar weithgareddau dysgu anffurfiol gan gyflwyno cynllun cryno i ddynodi sut bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio. Rhwng yr 11 darparwr, roedd hyn yn gyfanswm o £52,000. Yn ogystal ag arian AdAS, derbynnir cyllid gan Fwrdd yr iaith Gymraeg.

Sicrhaodd hyn fod dysgu anffurfiol yn dod yn rhan allweddol o'r pecyn o ddysgu Cymraeg, a bod darparwyr yn gweld y pwysigrwydd o gynnig gweithgareddau a chynnal digwyddiadau y tu allan i waliau'r dosbarth. Hefyd, bu i rai o'r darparwyr dalu tiwtoriaid Cymraeg yn ychwanegol i drefnu a mynychu gweithgareddau.

Yn bennaf, defnyddir y grant gan Fwrdd yr iaith tuag at swydd y Swyddog Cyfathrebu (sydd yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth anffurfiol ar draws y Gogledd). Mae'r prif gyfrifoldebau hynny yn cynnwys:

---

<sup>8</sup> Cafwyd yr wybodaeth gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, 24 Awst, 2010.

- Cyngori darparwyr ar arfer da o ran dysgu anffurfiol.
- Cydlynu rhaglen o weithgareddau anffurfiol ar gyfer dysgwyr pob darparwr yn ogystal â hwyluso rhaglen o weithgareddau gan y darparwyr eu hunain.
- Hyrwyddo adnoddau ar-lein i gefnogi dysgwyr y tu allan i'r dosbarth ledled y rhanbarth, ac i greu a chydlynu adnodd chwilio am weithgareddau anffurfiol ar wefan [www.learn-cymraeg.org](http://www.learn-cymraeg.org).
- Annog dysgwyr y Gogledd i gofrestru eu manylion i sicrhau eu bod nhw'n derbyn gwybodaeth gyson (trwy ebost neu'r post) am weithgareddau i ymarfer eu Cymraeg yn eu hardal nhw.
- Datblygu rhaglen o weithgareddau ar gyfer teuluoedd ar y cyd gyda TWF, MyM a darparwyr sy'n cynnig cyrsiau i rieni/teuluoedd.
- Cydweithio gyda grwpiau cymunedol sy'n awyddus i groesawu dysgwyr i'r gweithgareddau a sicrhau bod y rheiny'n cael eu hyrwyddo trwy'r ffynonellau cywir.
- Trefnu un digwyddiad mawr blynyddol ymhob un o'r 6 Sir.
- Datblygu cronfa o adnoddau ar gyfer partneriaid.
- Cydweithio'n agos â Swyddogion Datblygu'r Ganolfan a Chydlynedd Cymraeg i Oedolion pob darparwr.

Mae nifer fawr o ddigwyddiadau yn digwydd yn fisol ar draws y Gogledd. Amcangyfrifir 50 digwyddiad y mis (sydd yn rhai rheolaidd, e.e. paned/peint a sgwrs, clwb dysgwyr neu yn weithgareddau wedi eu trefnu). Eleni am y tro cyntaf, cynhaliwyd dwy Eisteddfod i ddysgwyr yn y gogledd (un yn y gogledd-ddwyrain a'r llall yn y gogledd-orllewin) dan ofal Canolfan Cymraeg i Oedolion.

Cymerwyd y penderfyniad hefyd i gynnal Eisteddfod y dysgwyr gyntaf un yn y gogledd orllewin ym mis Mai 2010. Bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol o hyn allan. Cydweithir hefyd gyda Chymdeithas Eisteddfodau Bach i sicrhau fod cystadlaethau i ddysgwyr yn cael eu cynnal mewn eisteddfodau mwy lleol.

Mae'r Swyddog Cyfathrebu yn cynnal Paneli Dysgu Anffurfiol. Mae 2 banel dysgu Anffurfiol yn bodoli - un yn y gogledd-ddwyrain (Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych) a'r llall yn y gogledd Orllewin (Sir Conwy, Gwynedd a Môn). Cynhelir y paneli 2 waith y flwyddyn a gwahoddir swyddogion o Ferched Y Wawr, Mentrau Iaith Lleol, Twf, Mudiad Ysgolion Meithrin a'r tiwtoriaid sydd yn dysgu Cymraeg. Mae'r paneli yn wahanol i'r fforymau sirol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg oherwydd bod ffocws penodol ar ddysgwyr, a gweithgareddau dysgu anffurfiol. Mae'n rhoi pwyslais pellach ar rannu adnoddau, arferion da, ac yn caniatáu mwy o gydweithio rhwng partneriaid amlwg. Bydd y Swyddog Cyfathrebu yn casglu'r holl wybodaeth ac yn mewnbynnu'r wybodaeth i'r wefan, ac yn danfon y wybodaeth at ddysgwyr sydd wedi cofrestru.

### 5.2.1 Yr Wyddgrug

Yn yr Wyddgrug, sefydlwyd clwb o'r enw 'Clwb Cwib yr Wyddgrug', gyda'r tiwtor-drefnydd lleol yn brif drefnydd, o dan nawdd Canolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd, Bangor.<sup>9</sup> Sefydlwyd y clwb hwn i roi cyfleoedd siarad Cymraeg yn yr ardal. Mae tua 20% o drigolion yr Wyddgrug yn siarad yr iaith, a chychwynnwyd y gymdeithas ar gyfer y rhain, dysgwyr a rhai a fu'n dysgu. Y nod yw darparu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ac o weithgareddau cymdeithasol.

Roedd y Ganolfan yn ymwybodol o anawsterau cymdeithasu i ddysgwyr, lle mae'r gymdeithas Gymraeg yn ymddangos yn gaeedig. Caiff y gweithgareddau eu

<sup>9</sup> Cafwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n dilyn gan diwtor-drefnydd Sir y Fflint mewn cyfweiliad, 7 Mehefin, 2010.

hysbysebu'n eang trwy aelodaeth y dysgwyr, ebost, sylw yn y papur bro, ac ar wefan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

Cafwyd cynllun peilot o Hydref 2006 - Awst 2007, gyda grant a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd ar y pryd) yn gysylltiedig â'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn yr Wyddgrug, Awst 2007. Dros y tair blynedd ers hynny, llwyddwyd yn gyson i gael mwy na 100 o aelodau.

Mae rhan o'r gwaith wedi ymwneud â chael cymdeithasau Cymraeg lleol i wahodd dysgwyr, a golygodd hyn roi cyngor i siaradwyr Cymraeg ar sut i siarad â dysgwyr. Barn y dysgwyr yw eu bod yn siarad mwy o Gymraeg gyda mwy o bobl na chynt, a hynny mewn sefyllfaoedd 'real'.

Ar hyn o bryd ni dderbynnir cyllid ar gyfer y gwaith, ond mae amser ac adnoddau swyddfa'r tiwtor-drefnydd yn cael eu defnyddio. Mae llawer o diwtoriaid ac unigolion yn rhoi eu hamser yn wirfoddol. O bryd i'w gilydd ceir nawdd 50% gan yr Academi Gymreig am ddigwyddiadau o natur lenyddol.

Mae oed y mynychwyr yn amrywio o'r 20iau i oed ymddeol, gyda 35-45 yn oed cyfartalog.

Yn ystod 2009/2010 roedd 125 o aelodau. Yn 2010 enillodd y fenter hon wobwr Cilt ar lefel Prydain. Mae'r Clwb ar ei bedwaredd flwyddyn yn awr (2010).

Caiff rhaglen o ddigwyddiadau ei threfnu.

Trefnir rhyw 2 neu 3 digwyddiad bob mis. Mae'r rhain yn cynnwys gigiau, cyngherddau, noson gwneud anrheg Nadolig, cinio Nadolig, gwibdaith siopa, noson Blygain, noson bwyd Tsieni, twmpath, gwyllo gêm rygbi, noson gyda Merched y Wawr, noson cawl a chân, noson therapi amgen, taith gerdded, gweithdy Kung Fu, tripliau theatr a digwyddiadau i hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol.

### **5.2.2 Canolfan Gymraeg i'r Wyddgrug**

Bu ymgais yn yr Wyddgrug ers peth amser i sefydlu Canolfan Gymraeg a fyddai'n gallu cynnig lle i ddosbarthiadau yn ogystal â lle ar gyfer cyfleoedd cymdeithasu.

Yn 2010 pan wnaed yr ymchwil, roedd canolfan ddysgu yn yr Wyddgrug, sef Canolfan Pendre - canolfan dysgu Cymraeg i Oedolion. Cafodd yr adeilad ei rentu gan Ganolfan CiO Bangor. Roedd yma ryw 5 o ystafelloedd dysgu, a chynhaliwyd yma ddosbarthiadau o bob safon, gan gynnwys sesiynau stori a sgwrs. Yma roedd swyddfa'r trefnydd, cegin fach i gael coffi, ond dim lle i gymdeithasu. Mae'n gyfleus, gyda lle parcio, ac yn weddol agos i ganol yr Wyddgrug.

Yn 2007<sup>10</sup> lluniwyd strategaeth ar gyfer yr iaith yn yr ardal, a rhan o hon oedd mesur y galw tebygol am ganolfan Gymraeg. Cafwyd grant gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd.

Lluniwyd prosiect iaith a Threftadaeth, gyda dau nod, sef:

- i. Codi ymwybyddiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gweithdai celf a cherdd. Cafwyd nawdd o £30,000 i gyflogi swyddog.

---

<sup>10</sup> Cafwyd y manylion hyn mewn cyfweiliad â Phrif Swyddog Menter Iaith Fflint, 7 Mehefin 2010.

- ii. Cynnal astudiaeth dichonolrwydd am y galw am ganolfan iaith, o dan yr enw 'Tecniwm Iaith'. Byddai hon yn ganolfan i'r gymuned, i'r Gymraeg a'r di-Gymraeg (dysgwyr) a byddai'n ganolfan i gynyddu sgiliau iaith.

Gyda'r ail wedd cyflogwyd is-gwmni Menter a Busnes i wneud yr ymchwil ac i roi sylw i:

- Y galw yn lleol
- Dysgwyr
- Rhieni ifanc a gofal plant
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Pobl ifanc

Byddai'r ganolfan yn un integredig, ac yn rhoi sylw i iaith a threftadaeth.

Roedd angen arian cyfalaf. Gwnaed cynlluniau pensaernïol a chael prisiad gan syrfëwr . Byddai'r gost yn £1.8 miliwn. Ni lwyddwyd gyda Rhaglen Datblygu Gwledig 2011, a gwneir ymdrech i sicrhau arian loteri.

Daethpwyd o hyd i safle ynghanol yr Wyddgrug, neuadd Toc H ar hyn o bryd (Tŷ Catrina), ond caiff hon ei dymchwel. Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys ystafelloedd dysgu, swyddfeydd, lolfa, neuadd, ardal arddangos a meithrinfa.

Ymysg y partneriaid mae'r Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin, Canolfan CiO Bangor, Menter Iaith, Popeth Cymraeg, Coleg Harlech, Coleg Glannau Dyfrdwy.

### 5.3 Y Canolbarth

Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion y Canolbarth wedi bod yn cydlynu'r maes o ran creu cynllun cenedlaethol dysgu anffurfiol. Mae amcanion y cynllun yn targedu'r canlynol.<sup>11</sup>

- Cynlluniau pontio, lle y bydd siaradwyr rhugl yn dod i mewn i ddosbarthiadau;
- Cynlluniau mentora, yn enwedig yn y gweithle;
- Cymryd rhan mewn prosiectau neu weithgareddau parhaus megis corau, paratoi at gystadlu mewn Eisteddfod, clybiau darllen neu glybiau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Gweithgareddau neu brosiectau i ddeall ac adnabod Cymru a'i diwylliant, megis ymweliadau â'r Eisteddfod neu amgueddfeydd;
- Gweithgareddau anffurfiol ar gyfer y teulu;
- Penwythnosau ar themâu arbennig;
- Gweithgareddau blasu anffurfiol fel arf i farchnata cyrsiau i ddysgwyr newydd.

Mae Canolfan CiO y Canolbarth yn derbyn £15,000 gan Fwrdd yr Iaith tuag at gyllido Swyddog Datblygu/ Dysgu Anffurfiol a chydag arian ychwanegol prosiect y Ganolfan cyflogir 60% o'r Swydd Ddatblygu a 50% o'r Swydd Dysgu Anffurfiol.

---

<sup>11</sup> Daw'r wybodaeth o ddau adroddiad a dderbyniwyd gan Gyfarwyddwr Canolfan CiO Canolbarth Cymru, 11 Hydref, 2010: J. Taylor, *Templad Adrodd ar Gynnydd, Gorffennaf 2010*, a drafft terfynol, 26 Awst 2009, *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Dysgu Anffurfiol, 2009-2012*.

Mae tiwtor-drefnyddion hefyd wedi bod yn marchnata rhaglen o weithgareddau dysgu anffurfiol mewn cydweithrediad â mudiadau eraill a chydweithwyr. Mae rhai tiwtoriaid yn gweithio'n wirfoddol yn y maes hwn ac eraill yn cael eu talu i gydlynu cynlluniau pontio. Cymryd rhan yn y cynlluniau pontio oedd prif gymorth gwirfoddolwyr.

Yn ystod y flwyddyn Awst 2009 - Gorffennaf 2010, trefnwyd 17 o gynlluniau pontio cysylltiedig â dosbarthiadau yn Aberteifi (8), Aberystwyth (6), Cyngor Sir Ceredigion (2), y Bala (1) a Machynlleth (1). Trefnwyd 357 o sesiynau, a fynychwyd ar gyfartaledd gan 8 o ddysgwyr, gydag o gwmpas 150 o ddysgwyr. Roedd nifer o'r cynlluniau hyn yn rhai a gychwynwyd trwy ymdrechion CYD cyn i'r mudiad ddod i ben yn genedlaethol.

Yn y sesiynau hyn mae siaradwyr Cymraeg yn mynychu'r dosbarth am beth amser er mwyn rhoi cyd-destun ieithyddol newydd i'r dysgwyr, gan feithrin adnabyddiaeth o siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Nodir gan y Ganolfan fod dysgwyr sy'n manteisio ar y Cynllun Pontio'n cael 'llawer mwy' o oriau cyswllt â'r iaith na rhai sy'n mynychu gweithgareddau cymdeithasol cymunedol yn unig.

Mae rhagoriaethau'r Cynllun Pontio, yn ôl ymateb dysgwyr, yn cynnwys magu hyder i siarad ag eraill a chyfle i siarad â phobl wahanol a chael grŵp newydd o ffrindiau.

Trefnwyd hefyd benwythnos i deuluoedd yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn, a chyfres o weithdai drama a chreffft a gwasanaethau crefyddol. Trefnwyd hefyd ddwy gyfres o deithiau cerdded yn ne a gogledd Ceredigion.

Mae cynlluniau mentora ieithyddol yn y gweithle ar waith hefyd mewn sawl sefydliad yn Aberystwyth.

Sefydlwyd côr CYD Aberystwyth gyda'r nod o ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd.

#### **5.4 Y De-orllewin**

Derbyniodd Canolfan y De-Orllewin grant o £10,000 gan Fwrdd yr Iaith yn 2009-10.<sup>12</sup> Defnyddiwyd y grant hwn tuag at gostau cynnal swydd Tiwtor/Drefnydd sydd â chyfrifoldeb arweiniol fel Swyddog Dysgu Anffurfiol ar ran y Ganolfan. Penderfynwyd y byddai'r adnoddau'n cael eu defnyddio'n bennaf i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr gymathu â chymunedau a rhwydweithiau Cymraeg ac nid i gefnogi digwyddiadau neu weithgareddau.

Mewn blwyddyn a hanner, cynhaliwyd 5 digwyddiad rhwydweithio ar ffurf 'Ffair Gymdeithasau', h.y. cynrychiolwyr o wahanol gymdeithasau yn cynnal stondinau, yn Abertawe, Efail-wen, Caerfyrddin, Llangennech a Chastell-nedd. Yn y rhain daeth 35 o gymdeithasau/mudiadau lleol ac fe'u mynychwyd gan gyfanswm o 125 o ddysgwyr a 76 o siaradwyr rhugl.

Mae'r Swyddog Dysgu Anffurfiol wedi cynnal trafodaethau gyda chymdeithas mudiadau gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) a phrosiect Estyn Llaw gyda golwg ar drefnu cyfleoedd i ddysgwyr wirfoddoli gyda chymdeithasau sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg.

---

<sup>12</sup> Derbyniodd yr wybodaeth yn yr adran hon gan Gyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion y De-orllewin, 5 Hydref, 2010.

Mae'r gwaith prosiect dysgu anffurfiol a drefnir dan arweiniad y Ganolfan yn cael ei lywio gan bwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolaeth o chwe Menter Iaith y De-Orllewin yn ogystal â swyddogion o'r Ganolfan.

Mae Mentrau Iaith, gwirfoddolwyr a thiworiaid yr ardal yn cynnal gweithgareddau sy'n cynnwys:

- Siop Siarad – bore coffi wythnosol a gynhelir gan rwydwaith o wirfoddolwyr gyda chefnogaeth Menter Iaith Abertawe yn Nhŷ Tawe.
- Sesiynau Clonc Sir Benfro – rhwydwaith o gyfarfodydd anffurfiol rheolaidd a drefnir gyda chefnogaeth Menter Iaith Sir Benfro yn arbennig, tra bo eraill yn cael eu cynnal yn gwbl wirfoddol.
- Paned a phapur – sesiynau a drefnir gan Fenter Gorllewin Sir Gâr.
- Mae nifer o'r Mentrau Iaith lleol yn trefnu nosweithiau o adloniant a chymdeithasu wedi'u hanelu at ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg e.e. cwisiau, canu/dawnsio gwerin.

Mae'r Ganolfan am gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar wefan y Ganolfan.

Mae'r Ganolfan wedi mynd ati i brif-ffrydio elfennau o ddysgu anffurfiol yn rhan o raglen gyrsiau'r Ganolfan mewn dwy ffordd:

- a. Mae elfennau dysgu anffurfiol yng ngwerslyfrau newydd y cyrsiau *Mynediad Dwys a Sylfaen Dwys*, e.e. cael dysgwyr i holi cwestiynau i siaradwyr rhugl, neu ganfod gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg lleol.
- b. Mae gweithgareddau dysgu anffurfiol yn rhan o'r cyrsiau *Siawns am Sgwrs*. Y nod yw galluogi'r dysgwyr i ennill hyder a meithrin cysylltiadau fel y byddant yn fwy parod i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

#### **5.4.1 Menter Iaith Abertawe a Thŷ Tawe**

Mae Menter Iaith Abertawe yn rhoi blaenoriaeth i greu cyfleoedd i ddysgwyr allu defnyddio eu Cymraeg yn un o'i phum prif amcan, sef "Sicrhau bod cyfle gan oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn Abertawe i ddatblygu a defnyddio eu Cymraeg."<sup>13</sup>

Ni cheir arian at hyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae Menter Iaith Abertawe yn aelod o bwyllgor dysgu anffurfiol y Ganolfan, sy'n trefnu ymweliadau penodol â dosbarthiadau i ddysgwyr a chynnal Siop Siarad sy'n pontio'r siaradwyr Cymraeg a'r dysgwyr.

Mae gwaith y Fenter gyda dysgwyr yn deillio o'r gweithgor dysgwyr, sy'n cwrdd yn dymhorol i drafod datblygiadau a syniadau newydd. Mae'r gweithgor yn cynnwys tiwtoriaid, dysgwyr a staff o'r Fenter a'r nod yw pontio dysgwyr gyda siaradwyr Cymraeg, a galluogi dysgwyr i gymryd rhan flaenllaw yng nghymunedau Cymraeg Abertawe.

Ymysg y prosiectau a gefnogir mae Siop Siarad, lle mae gwirfoddolwyr o bwyllgorau'r Fenter, Tŷ Tawe a'r gweithgor dysgwyr yn rhedeg y sesiynau anffurfiol hyn i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar fore Sadwrn. Cafodd y Siop Siarad ei henwebu ar gyfer Gwobrau'r Arglwydd Faer 2009.

---

<sup>13</sup> Cafwyd yr wybodaeth yn yr adran hon gan Bennaeth Menter Iaith Abertawe, trwy ebost, 17 Medi, 2010.

Mae'r mwyafrif o weithgareddau Menter Iaith Abertawe ar gyfer dysgwyr yn hunangynhaliol yn sgil y defnydd o Dŷ Tawe. Mae'r Siop Siarad, e.e., yn codi am goffi, cacen a the a'r arian yn cael ei ail-fuddsoddi o wythnos i wythnos.

Mae'r Fenter yn gwneud ceisiadau am grant Noson Allan er mwyn cynnal cyngherddau yn Nhŷ Tawe. Mae'r arian yn talu am arbenigedd cerddorol a bandiau.

Mae Pwyllgor Tyrfe Tawe yn cael nawdd o hyd at £4,000 gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe i drefnu adloniant Gŵyl Ddewi cyfrwng Cymraeg o amgylch Abertawe. Y nod yw sicrhau bod yr iaith yn glywadwy yn y gymuned. Mae wythnos o adloniant hefyd yn cael ei drefnu yn Nhŷ Tawe.

Trefnir digwyddiadau penodol i ddysgwyr ymarfer a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn awyrgylch hwyliog ac anffurfiol, fel nosweithiau canu, cwis neu gemau. Mae 20 ar gyfartaledd yn dod yn gyson i'r digwyddiadau. Mae'n gyfle penodol i ddysgwyr o bob gallu i ymarfer eu Cymraeg. Cynhelir hefyd foreau coffi gydag adloniant i ddathlu'r Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi.

Ategir hyn gan sesiynau rheolaidd yn Llyfrgell Ganolog Abertawe ac Amgueddfa'r Glannau ar y cyd a TWF, sef Canu gyda Babi. Mae Swyddogion y Fenter yn manteisio ar y cyfle i hyrwyddo a chefnogi eu cynlluniau a gweithgareddau yn y sesiynau misol yma. Mae rhwng 10-15 yn mynychu.

Mae grŵp trafod a CYD yn cwrdd yn wythnosol yn Nhŷ Tawe bob bore lau er mwyn cymdeithasu a chodi hyder yn yr iaith. Trwy gronfa Cymunedau'n Gyntaf, mae'r Fenter hefyd yn trefnu bore coffi wythnosol yng nghanolfan gymunedol Penlan.

Fel arall, trefnir rhaglen o ddigwyddiadau yn Nhŷ Tawe, gan gynnwys gigiau, nosweithiau gwerin misol, nosweithiau barddoniaeth, gemau rygbi a ffilmiau. Rhoddir gwybodaeth i fwy nag 800 o bobl yn Abertawe trwy system ebost.

Yn unol â Chytundeb Lefel gwasanaeth Cyngor Dinas a Sir Abertawe, mae Menter Iaith Abertawe yn cefnogi sesiynau Cymraeg yng nghanolfan Gogledd Penlan. Mae aelod o'r Fenter yn darparu sesiynau wythnosol i'r grŵp o ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg.

## **5.5 Morgannwg**

Yr unig arian a glustnodwyd yn benodol ar gyfer Dysgu Anffurfiol<sup>14</sup> yw grant Bwrdd yr Iaith, sef £20,340 - £3,000 ar gyfer cynnal gweithgareddau a'r gweddill yn mynd tuag at gyflog y Swyddog Dysgu Llawn Amser.

Mae'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cyfrannu gweddill y cyflog allan o grant AdAS ar gyfer Datblygu'r Ganolfan. Cyflogir Swyddog Dysgu Anffurfiol llawn amser a cheir £3,000 wrth gefn er mwyn galluogi'r Ganolfan i fentro wrth drefnu digwyddiadau megis Boreau Cymraeg i'r Teulu.

Yn ystod y flwyddyn 2009-2010 trefnwyd y digwyddiadau rheolaidd cyson (wythnosol, pythefnosol neu fisol): 7 clwb darllen, 4 clwb cinio, Paned a Chlonc, Clwb Cerdded. Trefnwyd hefyd swper gyda siaradwyr gwadd adeg Nadolig a diwedd blwyddyn mewn 4 ardal wahanol; cafwyd Cinio Dydd Gŵyl Dewi; Eisteddfod; Gwasanaeth carolau; Cymanfa ganu; penwythnos yn Nant Gwrtheyrn; teithiau i leoedd o

---

<sup>14</sup> Cafwyd yr wybodaeth am ardal Morgannwg gan Gyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg, mewn ebost, 18 Awst 2010.

ddiddordeb; ymweliadau â'r theatr, Bore Cymraeg i'r Teulu ym Merthyr ac ym Mhen-y-bont; sesiynau ymarferol cyfrwng Cymraeg o fewn Sadyrnau Siarad.

Mae Swyddog Dysgu Anffurfiol yr ardal yn cydlynu cyfarfod gyda'r tair Menter Iaith o fewn yr ardal. Ym Mhen-y-bont mae cydweithio agos i drefnu Bore Cymraeg i'r Teulu – gan gynnwys TWF a'r Mudiad Meithrin hefyd. Ym Merthyr Tudful mae cydweithio agos eto i drefnu Bore Cymraeg i'r Teulu.

Anfonir erthyglau misol at y papurau bro a chyhoeddir taflen dymhorol yn rhestru'r cyfleoedd anffurfiol. Rhoddir cryn bwyslais ar gyfweild ag unigolion er mwyn ceisio eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau. Mae'n anodd iawn i diwtor neilltuo amser digonol i roi sylw i anghenion pob unigolyn. Ceir enghreifftiau isod o ffrwyth cyfweiliadau:

- i. Dysgwraig ar Gwrs Uwch yn derbyn swydd gyflogedig gydag Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
- ii. Nifer o ddysgwyr yn ymuno â Chôr Godre'r Garth a chorau lleol eraill, gan sicrhau cyfleoedd cymdeithasol niferus ar gyfer defnydd iaith.
- iii. Nifer o ddysgwyr yn cynorthwyo mewn ysgolion Cymraeg, e.e. dysgwyr ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn creu cysylltiad arbennig gydag Ysgol (newydd) Llangynwyd er mwyn rhoi cyfleoedd ymarfer darllen i'r disgyblion o fewn y sector uwchradd.
- iv. Dysgwr sydd yn ddyfarnwr rygbi profiadol, bellach yn gyfrifol am wiriadau CRB CRICC (Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd). Gweithredir Cynllun Pontio mewn nifer o ddsbarthiadau.

### **5.5.1 Canolfan Gymraeg a Menter Iaith Merthyr Tudful**

Mae Canolfan Gymraeg Merthyr Tudful a Menter Iaith Merthyr bellach yn un corff. Cychwynnodd yr ymdrechion i sefydlu Canolfan Gymraeg ym Merthyr Tudful ac i gael darpariaeth i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr yn 1987, yn dilyn cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr.<sup>15</sup> Penderfynodd Pwyllgor Gwaith barhau i drefnu digwyddiadau rheolaidd. Roedd rhai'n mynychu capel Soar ynghanol y dref, a sefydlwyd Canolfan yn y festri, ar ôl edrych ar sawl adeilad gyda'r nod o gael grant i brynu adeilad.

Cafwyd peth arian gan y Swyddfa Gymreig ac agorwyd y ganolfan ym 1992, a siop y ganolfan wedi agor yr un pryd. Er mwyn codi arian, câi elw'r siop, a gâi ei rhedeg gan wirfoddolwyr, ei gynilo i brynu'r adeiladau i gyd yn ddiweddar, ar gost o £90,000. Am y 10 mlynedd cyntaf cafodd y ganolfan ei rhedeg gan wirfoddolwyr, ond gan dalu gweithiwr y siop. Bellach mae'r siop yn fusnes annibynnol, ond gyda gwirfoddolwyr yn dal i helpu ar brydiau.

Roedd Lis McLean (Swyddog Datblygu'r Ganolfan erbyn hyn) yn allweddol, gyda'r pwyllgor, yn y datblygiadau diweddar. Rhoddodd y gorau i'w gwaith, a gweithio i'r ganolfan, a llwyddo i gychwyn y Fenter Iaith erbyn 2004. Roedd swyddog maes yn ymddiddori yn y celfyddydau'n fawr a llwyfannwyd opera roc, a chynnal grwpiau drama plant ac oedolion.

I sicrhau lle perfformio aethpwyd ati i brynu capel Soar a gwneud ceisiadau i'r Loteri am yr adeilad, gan gysylltu hyn â'r angen am fan perfformio i blant ac oedolion. Treuliwyd chwe blynedd yn datblygu'r ceisiadau a chodi dros £1.4 miliwn.

---

<sup>15</sup> Cafwyd yr wybodaeth yn yr adran hon gan Swyddog Datblygu'r Ganolfan, mewn cyfweiliad, 17 Medi, 2010.



Ar y cychwyn cynhelid dosbarthiadau Cymraeg i oedolion yn y ganolfan a chynnal un digwyddiad y mis, ar gyfer plant bach, pobl ifanc neu oedolion. Doedd dim llawer o ddysgwyr yn dod yno ar y pryd, ond yn mynd i ddigwyddiadau mewn tafarnau. Ar ôl i'r Fenter laith ddechrau, trefnwyd 100 digwyddiad y flwyddyn ers 3 blynedd.

Bydd yr ystafelloedd newydd yn rhoi lle i bedair ystafell ddysgu, neuadd weithgareddau, ystafell i gylch chwarae, coffe, siop Gymraeg a thair swyddfa, i'r Fenter, y Ganolfan Cymraeg i Oedolion a'r Urdd. Nid oes alcohol ar werth er bod modd cael alcohol ar gyfer gweithgareddau penodol. Nod cael coffe yw y gall siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg ddod i'r ganolfan unrhyw adeg o'r dydd i siarad Cymraeg.

Meddai'r Swyddog Datblygu nad oedd y Fenter yn gallu gosod darparu ar gyfer dysgwyr yn flaenoriaeth swyddogol, am nad yw hyn yn un o flaenoriaethau Bwrdd yr Iaith, ac nid yw'r Fenter felly'n gallu gwario arian y Bwrdd ar weithgareddau i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid Bwrdd yr Iaith yw prif gyllidwr y Fenter erbyn hyn.

Barn y Swyddog Datblygu oedd bod angen gweithgareddau a drefnir i ddysgwyr godi o'r gymuned yn hytrach na chael eu harwain gan y Canolfannau Cymraeg i Oedolion, ac er bod yr arian y byddai CYD yn ei gael yn cael ei roi bellach i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, mae hyn yn glwm wrth y ddarpariaeth ddysgu yn hytrach nag wrth y gymuned. Mae'r Fenter yn cael arian o ffynonellau eraill fel Gweithredu Cymunedol Merthyr Tudful i gynnal gweithgareddau. .

Bydd y cysylltiad rhwng y Ganolfan Gymraeg a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cryfhau wedi gorffen y datblygiadau adeiladu, ond bu'r cyswllt bob tro'n agos gydag un o ddarlithwyr Prifysgol Morgannwg yn aelod brwd o bwylgor y Fenter.

Mae'r Fenter yn cyhoeddi llyfryn gweithgareddau bob tri mis, gyda llawer o weithgareddau'n cael eu cynnal mewn tafarn gyfagos. Mae'r Fenter hefyd wedi bod yn flaengar wrth gyflwyno'r Gymraeg i fentrau cymunedol, fel gŵyl amlddiwylliannol y Pentref Byd-eang a'r Afon Oleuni adeg y Nadolig. Bydd y ganolfan berfformio yn Soar yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau Cymraeg a Saesneg, gyda 30% yn Gymraeg. Bydd yr adnodd yn un dwyieithog, a chaiff y Gymraeg fod yn rhan annatod o weithgareddau cymunedol y dref. Mae hyn yn cynnwys cynllun gan Goleg Merthyr i gychwyn gradd sylfaen yn y Gymraeg.

## **5.6 Caerdydd a Bro Morgannwg**

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn darparu grant gwerth £13k.<sup>16</sup> Mae'r Ganolfan hefyd yn ariannu llawer iawn mwy - felly hyd at £30k. Mae gan y Ganolfan Swyddog Dysgu Anffurfiol. Roedd gweithgareddau tri mis yn cynnwys y canlynol:

- Paru dysgwyr gyda siaradwyr Cymraeg, a chynhaliwyd peilot llwyddiannus a oedd yn cynnwys 25 o bobl.
- Trefnu gweithgaredd gyda Gareth Kiff a oedd yn rhan o'r rhaglen 'The Big Welsh Challenge', a hefyd Karl Davies a oedd yn fentor yn y peilot gyda'r BBC.
- Cynnal dwy raglen fentora yn y gweithle i baru siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Mae'r naill mewn Llys Ynadon, sy'n rhedeg ers mis Medi 2009, ac mae 5 pâr ar waith yno. Roedd yr ail yng Nghanolfan y Mileniwm ond daeth i ben pan

---

<sup>16</sup> Cafwyd yr wybodaeth gan Gyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion, Caerdydd a'r Fro, Prifysgol Caerdydd, 31 Awst 2010.

ddaeth cytundeb y Swyddog Iaith i ben, a threfnwyd y rhaglen wedi hyn ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafwyd 12 enw hyd yn hyn.

- Prosiect Cymdeithasau Cymraeg, gan ymweld â chymdeithasau Cymraeg i godi diddordeb mewn gwneud prosiectau ar y cyd gyda dysgwyr. Y nod yw rhoi modd i bontio dysgwyr i'r cymdeithasau Cymraeg. Ymwelwyd â rhyw 8 o gymdeithasau, gan gynnwys corau, a threfnwyd 8 gweithgaredd yn 2009-10, gan gynnwys taith gerdded, grŵp canu dysgwyr, cwis, ac ymweliadau â dramâu. Trefnwyd hefyd noson ar ddydd Gŵyl Ddewi gyda mudiadau eraill a daeth 260 i'r noson. Manteisiodd 8 ar y daith gerdded, a 6 ar ymweliad theatr. Daeth o leiaf 10 o ddysgwyr i bedair noson gwis.
- Trefnu bod siaradwyr Cymraeg yn dod i siarad â dysgwyr mewn dosbarthiadau. Mae 37 wedi bodloni.
- Lansio rhaglen y dysgwyr gyda manylion cyfleoedd.
- Sefydlu clybiau darllen ar gyfer gwahanol lefelau: mynediad (5 aelod) sylfaen (12), meithrin (3), canolradd (9) a hyfedredd/ uwch (5). Gweithiwyd mewn partneriaeth â Llyfrgell y Barri a Caerdydd.

Fel arall, mae'r Ganolfan yn hysbysebu digwyddiadau Cymraeg yn gyffredinol.

### 5.7 Gwent

Mae Gwent yn derbyn £10,000 yn 2010 - 11 trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg.<sup>17</sup> Caiff yr arian a dderbynnir ei ddefnyddio yn ôl targedau a bennir rhwng y Ganolfan a'r Bwrdd:

- Trefnu un digwyddiad cymdeithasol penodol bob tymor fesul sir, gan gynnwys ymweliadau â'r theatr neu leoliadau tebyg, er mwyn denu dysgwyr i'r byd Cymraeg
- Trefnu digwyddiad penodol i'r teulu mewn cydweithrediad â'r ddwy Fenter Iaith leol.
- Trefnu rhwydwaith o gyfarfodydd ôl-ddosbarth i ddysgwyr o bob safon, gan gynnwys rhieni, a defnyddio lleoliadau lleol, fel tafarnau, bwytai lleol a neuaddau cymunedol. Caiff 8 cyfarfod eu cynnal y tymor, fesul sir, sef cyfanswm o 120 o gyfarfodydd.

Fel rhan o'r rhaglen hon trefnwyd ymweliadau â stiwdios Pobol y Cwm; Sain Ffagan; theatrau; yr Eisteddfod Genedlaethol, a'r Senedd yng Nghaerdydd.

Trefnwyd siaradwyr gwadd gan gynnwys Garry Owen, Iolo Williams a thaith gerdded, Gillian Elisa Thomas, diwrnod barddoniaeth yng nghwmni Cyril Jones; diwrnod crefftau trwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnwyd diwrnod i'r teulu yng Nghanolfan Hamdden Pont-y-pŵl ar y cyd â Menter BGTM. Trefnwyd sesiynau salsa a thwmpathau dawn

Mae'r Ganolfan yn cydweithio'n agos â Mentrau Iaith Caerffili a BGTM ar gyfer hyrwyddo gweithgareddau amrywiol.

---

<sup>17</sup> Derbyniwyd yr wybodaeth yma gan Gyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion, Gwent.

## 5.8 Arweiniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Mae'r Bwrdd o'r farn bod cynnig cyfleoedd 'anffurfiol' i ddysgwyr yn rhan annatod o'r broses o fagu hyder a meithrin 'dysgwyr' yn siaradwyr rhugl ac yn ddefnyddwyr.<sup>18</sup> Mae'n bwysig yn ôl y Bwrdd fod y cyfleoedd hyn yn naturiol, ac yn addas ar gyfer anghenion ieithyddol y dysgwyr ar wahanol lefelau. Y mae'n addas weithiau felly i drefnu gweithgareddau newydd sy'n benodol i ddysgwyr ar lefelau is, ond wrth iddynt wella eu sgiliau dylid eu hannog i fynyachu gweithgareddau a drefnir eisoes ac a fynychir gan siaradwyr Cymraeg. Mae'r mathau yma o weithgareddau, yn ôl y Bwrdd, eisoes yn cael eu trefnu gan bartneriaid cymunedol megis y Mentrau/Merched y Wawr ac ati. Yn hytrach na threfnu gweithgareddau ar gyfer dysgwyr yn unig felly fe anogir y canolfannau Cymraeg i Oedolion i 'gydlynu'r' ddarpariaeth anffurfiol yn lleol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Bwrdd wedi cynnig cyfanswm o £268,550 i'r canolfannau Cymraeg i Oedolion trwy'r prif gynllun grantiau.

2008-09 - £88,500

2009-10 - £90,025

2010-11 - £90,025

Nid oes unrhyw gyllid wedi ei glustnodi'n benodol i bartneriaid eraill weithio gyda dysgwyr, ond fe'u hanogir i ymateb yn gadarnhaol i anghenion dysgwyr ac i'w croesawu i weithgareddau a drefnir ganddynt.

Wrth i'r canolfannau Cymraeg i Oedolion ymateb yn uniongyrchol i anghenion dysgwyr o fewn eu rhanbarthau, maent wedi arbrofi gyda syniadau a gweithgareddau newydd. Anogir y canolfannau drwy brosesau dyrannu grantiau'r Bwrdd i ystyried effaith y profiadau a gynigir ar ddefnydd iaith a hyder y dysgwyr, ac yn dilyn hyn mae'r ddarpariaeth wedi esblygu dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n angenrheidiol i'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd fod yn berthnasol ac yn addas i'r dysgwyr ac felly mae'r anghenion yn amrywiol. Nid yw'n briodol i'r Bwrdd adnabod enghreifftiau penodol o weithredu effeithiol ac aneffeithiol felly.

Teimla'r Bwrdd fod y Strategaeth Dysgu Anffurfiol a luniwyd gan weithgor dysgu anffurfiol y canolfannau (sy'n cynnwys cynrychiolydd o'r Bwrdd ac AdAS) yn cynnig fframwaith priodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth at y dyfodol a sicrhau bod mwy a mwy o ddysgwyr yn magu'r hyder angenrheidiol i droi'n siaradwyr rhugl, hyderus ac yn ddefnyddwyr cyson o'r iaith.

Teimla'r Bwrdd fod angen cyfleu pwysigrwydd y cyfleoedd 'anffurfiol' hyn i'r broses ddysgu i'r dysgwyr yn ogystal ac mai'r canolfannau CiO, trwy'r tiwtoriaid, a'r swyddogion dysgu anffurfiol ydy'r bobl fwyaf priodol i gyfleu ac atgyfnerthu'r neges hon. Fel y nodwyd eisoes, rôl gydlynol sydd gan y canolfannau o safbwynt darparu cyfleoedd a theimla'r Bwrdd fod dyletswydd ar bartneriaid cymunedol hefyd i groesawu dysgwyr i'w mudiadau/gweithgareddau. Yn hyn o beth mae rhai canolfannau a mudiadau Cymraeg wedi cael budd mawr o sesiynau penodol er mwyn cynorthwyo Cymry Cymraeg i sgwrsio'n hyderus gyda dysgwyr heb droi'r sgwrs i'r Saesneg. Teimla'r Bwrdd felly mai'r canolfannau CiO ddylai arwain o safbwynt 'cydlynu' gweithgareddau a chyfleoedd a sicrhau'r gefnogaeth a'r anogaeth i ddysgwyr fynyachu'r gweithgareddau hynny.

---

<sup>18</sup> Derbyniwyd yr wybodaeth gan Uned Pobl Ifanc a Sgiliau, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 7 Hydref, 2010.

## 5.9 Ystyried y modelau darpariaeth anffurfiol

- Mae rhai canolfannau Cymraeg i Oedolion yn gwneud ymdrech fawr iawn i ddarparu cyfleoedd cymdeithasu i ddysgwyr.
- Weithiau mae'r gweithgarwch hwn yn gysylltiedig â phenodi swyddog ar gyfer datblygu'r maes. Bryd arall mae'n dibynnu ar frwdfrydedd trefnwyr Cymraeg i Oedolion.
- Mae cynllun pontio, a etifeddwyd gan un Ganolfan Gymraeg i Oedolion o weithgaredd blaenorol CYD, yn cynnig cyswllt â siaradwyr Cymraeg.
- Mae cynllun mentora un-ac-un yn cynnig cyswllt agos â siaradwyr Cymraeg.
- Nid yw pob Canolfan Cymraeg i Oedolion yn cynnig yr un lefel o weithgareddau.
- Ymddengys bod y gweithgarwch gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion yn dibynnu ar sut mae'r rhain yn canfod eu rôl.
- Mae teimlad bod angen i ddigwyddiadau a gweithgareddau a drefnir dyfu o'r gymuned, gyda chyfrifoldeb lleol.
- Mae diffyg cyllid i Fentrau Iaith ddatblygu'r maes hwn yn peri amwysedd yn eu canfyddiad o'u rôl ac anhawster yn eu gallu i weithredu.
- Trwy roi cyllid i ganolfannau Cymraeg i Oedolion, a heb gyllid cyfatebol i sefydliadau sy'n denu gwirfoddolwyr, ni roddir hwb i waith cymunedol.
- Mewn llawer o ardaloedd Seisnigedig nid oes fframweithiau digonol o gymdeithasau Cymraeg ar gael a fydd yn ddigonol i gymathu dysgwyr.
- Mae presenoldeb Canolfan Gymraeg gymunedol, fel Tŷ Tawe neu Ganolfan Merthyr, yn cynnig cyfleoedd cyson a pharhaus a systematig i ddysgwyr, yn fodd o ddenu nifer sylweddol o wirfoddolwyr ac yn sicrhau elfen helaeth o gymathu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

## 6 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

*“Am ein bod ni wedi dehongli nod ein Canolfan yn y modd ehangaf posib nid oes diwedd i botensial y lle. Bydd y gwasanaeth a geir ynddi yn dibynnu ar yr hyn y mae'r bobl leol yn ei ddymuno. Gall fod yn llawer mwy na chanolfan hamdden arferol. Gall gynnig gwybodaeth, hyfforddiant, adloniant a fforwm i'r gymuned Gymraeg ei hiaith drafod ei hanghenion a'i dyletswyddau. Y mae'r cyfan yn nwylo'r defnyddwyr eu hunain.”* (England, 1992: 51)

Daw'r dyfyniad uchod o bapur a gyflwynwyd ar 'Canolfannau Cymraeg' gan Anne England, un o sylfaenwyr Canolfan Gymraeg Merthyr Tudful. Roedd hi'n rhannu ei phrofiad fel cadeirydd pwyllgor gwaith y ganolfan ac yn nodi, 'Yn yr ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn uniaith Saesneg y mae diffyg llefydd lle y gellir taro mewn iddynt, fwy neu lai, unrhyw adeg o'r dydd neu gyda'r hwyr, a chael sgwrs yn Gymraeg' (England, 1992: 47). Nodwyd yn 1.1 fod y syniad o 'Ganolfan Gymraeg' yn un sydd wedi bod yn gyfredol mewn print ers dros fwy nag ugain mlynedd, gyda'r syniad ei hun yn mynd yn ôl yn bellach o lawer na hynny.

Rhan o gylch gorchwyl creiddiol y gwaith ymchwil hwn yw edrych ar gyfraniad – a chyfraniad potensial – Canolfannau Cymraeg mewn ardaloedd gweddol ddi-Gymraeg o ran hwyluso ymdrechion i wrthdroi'r shifft ieithyddol diwrthdro tuag at y Saesneg ynddynt. Gwnaethpwyd hynny trwy edrych ar nifer o ystyriaethau perthnasol ac arwyddocaol o ran defnydd y dysgwyr o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd a pheuoedd gwahanol gan gymharu hyn o safbwynt y rhai sy'n dysgu mewn Canolfan Gymraeg a'r rhai nad ydynt yn dysgu mewn Canolfan Gymraeg<sup>19</sup>.

### 6.1 Canfod y cyfleoedd sydd ar gael i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg

Trafodwyd proffil y dysgwyr yn helaeth yn Adran 2 yr adroddiad hwn a gwelwyd bod yna heriau yn benodol o ran sicrhau proffil oedran iau, digon o oriau cyswllt ystyrion, arfogi'r dysgwyr â'r adnoddau ieithyddol angenrheidiol i allu cyfranogi ym mywyd Cymraeg eu cymunedau ac annog y dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ag aelodau eraill o'r teulu pan fyddant yn medru'r iaith.

Y mater mwyaf sylfaenol, sy'n rhwystro dysgwyr rhag dod yn rhugl, ac sydd hefyd yn eu rhwystro rhag gallu cymdeithasu'n rhwydd a rhag cael eu cymathu i gylchoedd Cymraeg, yw'r prinder dybryd o oriau cyswllt yn y cyrsiau. Lle y mae 1,500 o oriau cyswllt yn nod arferol gydag ieithoedd eraill, y mae'r 300 - 400 o oriau a gynigir i ddysgwyr Cymraeg erbyn iddynt gyrraedd y lefel hon yn ddifrifol o brin. Mae angen i'r gyfundrefn Cymraeg i Oedolion wynebu'r her hon a chanfod atebion o ran cyllido oriau cyswllt digonol cyn y gellir gobeithio gweld llwyddiant ieithyddol yn darged cyraeddadwy i'r rhan fwyaf o ddysgwyr.

Dylid cofio bod sampl y prosiect ymchwil hwn yn cynnwys tua thraean o holl ddysgwyr cyrsiau uwch Cymru yn ystod y flwyddyn academiaidd 2009 – 2010 a gwelwyd bod eu proffil oedran a'u proffil rhyw yn adlewyrchu'r hyn a geir yn genedlaethol. Mae'r proffil oedran (ychydig dros hanner y sampl dros 61 oed) yn destun pryder yng nghyd-destun potensial Cymraeg i Oedolion i gyfrannu at greu cymunedau Cymraeg hyfyw newydd mewn ardaloedd gweddol ddi-Gymraeg.

<sup>19</sup> Er mwyn osgoi cymysgu terminoleg/dryswch posibl, cyfeirir at y cysyniad o 'ganolfan iaith' a argymhellir yn yr adran hon ar sail yr ymchwil fel 'Canolfan Gymraeg' o hyn ymlaen. Yn ôl arfer y Basgiaid, argymhellir yn gryf ddefnyddio'r un term yn y Saesneg wrth gyfeirio at ganolfannau o'r fath a pheidio â chyfeirio atynt fel 'Welsh Language Centres'.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn nheuluoedd y dysgwyr yn uwch na'u defnydd o'r iaith, felly mae yma bosibiliadau a photensial mawr o ran annog aelodau o deuluoedd y dysgwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda nhw. Mae'r adnodd ieithyddol hwylus hwn yn hynod bwysig ac mae angen edrych ar lunio strategaethau o fewn y gyfundrefn dysgu Cymraeg i Oedolion i gyflawni hynny. Dylid cynnwys yr elfen hon fel rhan o'r strategaethau 'Cymraeg i'r Teulu' cenedlaethol ac ymestyn diffiniad 'Cymraeg i'r Teulu' i gynnwys annog dysgwyr hyn i ddefnyddio'r Gymraeg ag aelodau eraill o'r teulu estynedig yn ogystal â'r pwyslais (hollol briodol) ar rieni ifanc. Gan fod nifer o'r dysgwyr hyn yn rhieni cu erbyn hyn, maent yn cynnig cyfleoedd newydd i blant eu plant nhw ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun rhyng-genhedlaeth ehangach.

Un broblem ar gyfer trefnu gweithgareddau a/neu ddigwyddiadau ar y lefel hon yw'r amrywiaeth eang o ran cymwysterau a sgiliau yn y Gymraeg sydd gan y dysgwyr. Ar lefelau Mynediad/Sylfaen gellir bod yn weddol sicr fod y mwyafrif helaeth o'r dysgwyr fwy neu lai ar yr un lefel ond erbyn y dosbarthiadau uwch, maent wedi cyrraedd yno o bob math o lefelau gwahanol. Golyga hyn yn ddigon naturiol fod rhychwant gallu a hyfedredd y dysgwyr yn ddigon eang ac amrywiol. Mae'n fater sy'n haeddu ystyriaeth o fewn y gyfundrefn genedlaethol. Byddai cynghori dysgwyr yn briodol a mynnu cymhwyster lleiaf er mwyn mynychu dosbarth uwch yn golygu colli rhai dysgwyr neu'n golygu eu bod yn astudio lefel is unwaith eto ond byddai'n sicrhau bod mwy yn y dosbarthiadau hynny sy'n debygol o lwyddo a dod yn siaradwyr rhugl sy'n chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau Cymraeg eu cymunedau. A ddylai dysgwyr sydd prin yn gallu cynnal sgwrs effeithiol yn Gymraeg fod yn mynychu dosbarthiadau lefel uwch?

Mae tueddiad dysgwyr i fynd i weithgareddau fel pe bai'n gryfach na'r tueddiad cyffredinol ymysg rhai o'u hoed. Nid oes disgwyl, felly, y byddant yn debygol o fynychu gweithgareddau neu ddigwyddiadau ar lefel wahanol iawn i'w cyfoedion. Ond erys yr her o ddarparu iddynt gyfleoedd cymdeithasu yn y Gymraeg a fydd yn rhoi pau gymdeithasol ystyrlon yn ieithyddol.

Gwelwyd uchod y potensial i'r teulu a'r cartref gynnig cyfleoedd i nifer o'r dysgwyr (roedd traean yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol yn y teulu) ac mae angen ystyried sut y gellir datblygu ac ehangu'r cyfleoedd hyn gan y cyfryngau, cwmnïau sy'n darparu diwylliant yn y cartref a darparwyr cyrsiau. Dylai hyn gynnwys ffurfio rhwydweithiau wedi'u gwreiddio yn y gymuned yn hytrach na darpariaeth oddi fry, fel petai, gan bobl gyflogedig y Canolfannau CiO. Gall fod angen cyllido gweithgareddau cymunedol o'r fath er mwyn hyrwyddo cymryd rhan a gwaith gwirfoddol. Yn gyffredinol, canran gymharol fach o'r ymatebwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac y mae hyn yr un mor wir am y gwahanol beuoedd yr edrychwyd arnynt e.e. y dafarn, y capel, y gweithle yn ogystal â mynychu digwyddiadau a gweithgareddau. Unwaith eto, y gweithgareddau mwyaf 'diogel' yn ieithyddol oedd yn denu'r nifer fwyaf e.e. sesiynau siarad. Un o bob deg oedd yn mynd yn gyson i gymdeithasau fel Merched y Wawr a Chlybiau Cinio. Ar y llaw arall, dylid ystyried hynny yng nghyd-destun y tebygolrwydd y byddai natur y cymdeithasau hyn yn apelio at nifer o'r dysgwyr beth bynnag, boed hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

### 6.1.1 Argymhellion:

- 1 Derbyn bod cyrsiau dysgu oddeutu 1,500 o oriau'n hanfodol i greu siaradwyr rhugl yn y Gymraeg<sup>20</sup>.
- 2 Sicrhau proffil oedran iau ar y cyrsiau lefel 3 a 4 (Uwch a Hyfedredd) yn gyffredinol. Ategir yma ymdrechion y maes i weld mwy o ddysgwyr yn parhau i'r lefelau uwch.
- 3 Ystyried y proffil oedran presennol a'r potensial i ddefnyddio'r Gymraeg yn y teulu, cynllunio o fewn y strategaeth 'Cymraeg i'r Teulu' i wneud yn siŵr fod y potensial yn cael ei wireddu'n llawn.
- 4 Sicrhau bod cyrhaeddiad cyffredinol y dysgwyr ar y cyrsiau lefel uwch yn fwy hafal er mwyn darparu gweithgareddau a digwyddiadau ar eu cyfer yn fwy effeithiol. Dylid canolbwyntio ar sicrhau bod gan y dysgwyr ar y lefelau uwch yr adnoddau ieithyddol angenrheidiol i allu ymdopi'n effeithiol â'r sialens o ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i ddiogelwch yr ystafell ddosbarth neu gymdeithasau / gweithgareddau / digwyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â dysgwyr. Ni roddwyd digon o sylw i sut i godi hyder dysgwyr a lleihau eu 'pryderon' wrth ymwneud â'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, felly mae angen edrych ar y posibilrwydd o gynnwys elfen o gyfer hyder / lleihau pryder yn y ddarpariaeth lefel uwch. Yn yr un ffordd, mae angen sicrhau bod dysgu anffurfiol yn cael ei brif ffrydio i'r cwricwlwm ar y lefelau uwch, o bosib trwy fwy o 'ddysgu ar sail tasg'.
- 5 Annog ymchwilwyr i edrych yn fwy manwl ar dueddiadau cyfoes i dderbyn mwy o adloniant a gwybodaeth yn y cartref a goblygiadau hynny ar gyfer y Gymraeg ac yn benodol, dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae angen llunio strategaethau i fynd i'r afael â'r ffenomen gyfoes hon fel mater o frys.
- 6 Yn y cyfamser, dylid sefydlu cynllun tebyg i '*Voluntaris per a la llengua*' Catalunyda neu gynllun '*Mêts Iaith*' Cyngor Cymuned y Felinheli gyda'r nod penodol o sicrhau cyswllt gweddol gyson rhwng pob dysgwr ar lefel uwch y ddarpariaeth â siaradwr Cymraeg sydd yn rhan o rwydweithiau Cymraeg y gymuned leol. Ni ddylid disgwyl i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion redeg cynllun o'r fath ar eu pennau eu hunain. Mae angen gweld y gwaith hwn yn gyfrifoldeb ac yn flaenoriaeth i asiantaethau eraill fel Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth a'r Mentrau Iaith ac mae angen cyllido pob partner yn ddigonol.
- 7 Mae peuoedd 'traddodiadol' y Gymraeg yn denu nifer cyfyngedig o ymatebwyr. Er mwyn denu dysgwyr o sefyllfaoedd 'diogel' (hynny yw, rhai a ddarperir yn unswydd ar gyfer dysgwyr) i rai newydd, bydd angen cydweithio a hynny'n cynnwys yr asiantaethau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg (e.e. y Mentrau Iaith) yn ogystal â'r gyfundrefn Cymraeg i Oedolion. Dylai annog gwaith gwirfoddol gan y dysgwyr eu hunain fod yn flaenoriaeth. Ni ellir gorbwysleisio ddigon fod y cydweithio yma'n hanfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn newid o fod yn 'ddysgwyr y Gymraeg' i fod yn 'siaradwyr y Gymraeg' yn eu cymunedau.

---

<sup>20</sup> Seilir y ffigur ar yr hyn a welwyd yng Ngwlad y Basgiaid ac a drafodwyd yn 1.5 a'r ffigur a nodir gan Brifysgol Caergrawnt ar gyfer ESOL (Saesneg). Gw. <http://www.cambridgeesol.org/exams/exams-info/cefr.html> am fwy o wybodaeth.

## 6.2 Canfod a yw'r cyfleoedd yn fwy neu'n gyfartal os bydd dysgwyr yn astudio mewn Canolfan Gymraeg

Nodwyd bod canfyddiad cyffredinol dysgwyr o'u defnydd o'r Gymraeg ar y cyfan yn fwy cadarnhaol na'r defnydd gwirioneddol a wnaent o'r iaith. Gwelwyd bod yr ymatebwyr o'r farn eu bod yn defnyddio llawer mwy neu dipyn mwy o Gymraeg pan na fyddent mewn gwirionedd yn mynychu neu'n defnyddio sefyllfaoedd / cyfleoedd posibl yn amlach nag unwaith y mis. Ymysg y tri chyfle mwyaf cynhyrchiol i ddefnyddio'r Gymraeg roedd y teulu, gweithgareddau a'r Ganolfan Gymraeg. O'r ddau olaf, y Ganolfan Gymraeg oedd yn rhoi'r cyfle mwyaf mynych, a'r cyfle gorau i ddysgwyr ddod i gyswllt â siaradwyr yr iaith. Nododd tua chwarter yr ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol mewn Canolfannau Cymraeg sydd yn golygu bod y Canolfannau Cymraeg yn denu dysgwyr o ddosbarthiadau yn yr ardaloedd cyfagos yn ogystal â'r rhai sy'n mynychu dosbarthiadau ynddyn nhw.

Gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg yn awr na 5 mlynedd yn ôl a hynny ym mhob sefyllfa ac ym mhob un o'r ardaloedd dan sylw yn yr ymchwil hon. Hynodwyd y Canolfan Gymraeg oedd nifer y dysgwyr oedd yn defnyddio 'llawer mwy' o Gymraeg yno. Yn y gwaith hwn, felly, gwelir mai'r teulu, gweithgareddau / digwyddiadau a'r Ganolfan Gymraeg sy'n rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr ddefnyddio llawer mwy o'r iaith. Nodwyd bod cylchoedd cymdeithasol y dysgwyr wedi ehangu wrth ddysgu'r iaith gyda bron tri chwarter ohonynt yn dweud eu bod wedi cael llawer neu dipyn o ffrindiau newydd o ganlyniad i ddysgu'r Gymraeg, gyda'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol i'w canfod ymysg y rhai oedd yn mynychu Canolfan Gymraeg bob wythnos.

Pan edrychwyd ar Ganolfan Gymraeg Tŷ Tawe, Abertawe, yn benodol, yr oedd yn ffactor allweddol i'r mwyafrif o ddysgwyr yn yr ardal o ran defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Yn achos un, llwyddodd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ei waith yn sgil y sylfaen a gafodd yn Nhŷ Tawe. Er bod modd dadlau y gellid trefnu'r un gweithgareddau a digwyddiadau â'r hyn a geir mewn Canolfan Gymraeg fel Tŷ Tawe y tu allan i fframwaith Canolfan Gymraeg, ni ellir gwadu bod y model hwnnw'n cynnig cyfle i hwyluso'r trefniadau a'u canoli mewn un lleoliad cydnabyddedig, adnabyddus a gysylltir gan bawb ag awyrgylch diogel (yn ieithyddol), Cymraeg. Yn ogystal â hynny, mae model y Ganolfan Gymraeg yn cynnig cyfleusterau fel cegin, neuadd, bar neu gaffe achlysurol nad oes rhaid eu rhannu â chymdeithasau neu weithgareddau eraill sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn i gyd yn fodd o sicrhau a chadw natur ac awyrgylch Cymraeg i bawb sy'n defnyddio'r ganolfan.

Ystyriwyd 'hyder' a 'phryderon' dysgwyr yn adran 5. Nodwyd gan yr ymatebwyr fod Canolfan Gymraeg fel Tŷ Tawe yn chwarae rhan bwysig iawn wrth roi sail i'w hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a nifer ohonynt wedi adeiladu ar y sail honno i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg i beuoedd newydd e.e. eu gweithle neu gylch newydd o ffrindiau. Mae modd codi hyder o fewn cyd-destun Canolfan Gymraeg nad oes modd ei wneud yr un mor effeithiol mewn dosbarth iaith mewn canolfan gymunedol Saesneg ei chyfrwng.

Y sesiynau mwyaf poblogaidd ac effeithiol yn ôl yr ymatebwyr fyddai sesiynau neu ddigwyddiadau a drefnwyd yn benodol o fewn y Ganolfan Gymraeg gan awgrymu eto bod y Ganolfan Gymraeg yn cynnig lleoliad 'diogel' ychwanegol i fagu hyder ynddo cyn mentro i beuoedd newydd y tu allan i'r Ganolfan Gymraeg. Roedd pawb oedd yn mynychu sesiynau (e.e. Siop Siarad) penodol wedi canfod cylch cyfeillgarwch newydd trwy'r Ganolfan Gymraeg, a'r cylch hwn oedd prif gylch cymdeithasu Cymraeg y rhan fwyaf. Ym marn y mynychwyr hyn, yr oedd cael Canolfan Gymraeg yn allweddol i'w hymdrechion i gymdeithasu yn y Gymraeg.



Gwelwyd hefyd fod Canolfan Gymraeg yn:

- hwyluso cyswllt dysgwyr â siaradwyr Cymraeg eraill ac yn darparu lleoliad pwrpasol ar gyfer y rhyngweithio yma;
- darparu canolbwynt naturiol a gweladwy ar gyfer gweithgaredd Cymraeg mewn cymunedau gweddol ddi-Gymraeg nad oes ganddynt ganolbwynt clir arall y gall ei siaradwyr Cymraeg fynd ato;
- golygu bod y dysgwyr sy'n mynd yno yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg;
- ehangu cylchoedd cymdeithasol a ffrindiau dysgwyr sy'n mynd yno;
- modd o godi hyder dysgwyr.

O'r tair elfen sy'n rhoi cyfleoedd wythnosol ystyrion, sef y teulu, yr ardal a Chanolfan Gymraeg, yr unig un y mae modd ei newid neu ei chreu yw Canolfan Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod angen rhoi sylw brys i ffyrdd o ddarparu Canolfannau Cymraeg ledled ardaloedd Seisnigedig Cymru.

### 6.2.1 Argymhellion

- 1 Mae angen datblygu model y Ganolfan Gymraeg fel model llwyddiannus o safbwynt creu cyswllt rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, codi eu hyder a darparu awyrgylch ieithyddol ddiogel ar eu cyfer.
- 2 Mae angen efelychu'r model hwn mewn ardaloedd eraill i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn cael yr un cyfleoedd a'r un potensial o ran ymestyn eu rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg.
- 3 Dylid mynd ati i lunio rhaglen o ehangu Canolfannau Cymraeg ar draws ardaloedd mwy di-Gymraeg y wlad.

### 6.3 Canfod ac argymhell strategaethau y gellid eu rhoi ar waith er mwyn ymestyn ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg y siaradwyr Cymraeg newydd hyn

Soniwyd eisoes am ddiffyg hyder fel rhwystr rhag defnyddio'r Gymraeg gyda siaradwyr Cymraeg eraill yn y gymuned leol. Un rheswm posibl sy'n cyfrannu at y diffyg hyder hwn yw diffyg adnoddau ieithyddol. Cafwyd digon o dystiolaeth yn y grwpiau ffocws yn benodol fod peidio â bod yn gyfarwydd â thafodieithoedd (ar ran y dysgwyr) yn gallu achosi i rai siaradwyr Cymraeg newid i'r Saesneg gan danseilio hyder y dysgwyr ymhellach. Yn sicr, mae angen ystyried sut y gellir 'addysgu' siaradwyr Cymraeg ynglŷn â sut i gyfathrebu'n effeithiol â dysgwyr a rôl hyn oll o ran sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg trwy greu siaradwyr hyderus newydd.

Gwelwyd bod cymhellion y dysgwyr, yn ôl y disgwyl, yn amrywiol ac yn amryfal. Maent yn newid ac yn datblygu wrth i'r dysgwyr brofi llwyddiant a gwneud cynnydd. Mae'r awydd i siarad Cymraeg â'r plant yn gymhelliant a nodir yn gyson gan rai dysgwyr ac oherwydd pwysigrwydd hynny i ymdrechion i newid iaith y teulu a throsglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau, mae angen sicrhau bod y cymhelliant hwn yn cael ei feithrin a'i annog a'i fodloni. Cymhellion integreiddiol sydd gan y mwyafrif helaeth o'r dysgwyr (weithiau yn gymysg â rhai offerynnol). Mae integreiddio'n gwbl greiddiol i'r ymchwil hon ynghyd â sut i wireddu'r dyhead o du'r dysgwyr i integreiddio â'r gymuned Gymraeg leol. Ar y llaw arall, gall hyn esgor ar ganfyddiad afrealistig o faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yng nghymunedau'r dysgwyr gan arwain at ddadrithiad ymysg rhai. Byddai cynnwys elfen o ddysgu am y Gymraeg yng nghydestun y gymuned leol yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn fodd i gyflwyno sefyllfa go iawn y Gymraeg yn y gymuned i'r dysgwyr a'u gwneud yn ymwybodol o realiti ieithyddol yr ardaloedd maent yn byw ynddynt.

Nodwyd y duedd i fwynhau adloniant yn y cartref yn hytrach na dulliau mwy 'traddodiadol', sy'n gallu cyfyngu ar y cyfleoedd sydd gan yr ymatebwyr i ddefnyddio'r

Gymraeg yn gyffredinol. Un bau a all gynnig cymorth (goddefol o leiaf) yw'r cyfryngau Cymraeg. Y papur bro yw'r cylchgrawn Cymraeg mwyaf poblogaidd ymysg yr ymatebwyr ond mae modd gwella'r cyfraddau darllen a phrynu'n sylweddol. Byddai gwneud hynny'n fodd o gynnwys dysgwyr yn y broses o greu ac ysgrifennu'r papur bro, sicrhau bod y deunydd yn adlewyrchu diddordebau mwy eang a sicrhau gwell gwerthiant i'r papur bro. Yn gyffredinol, mae angen annog dysgwyr i ddarllen mwy yn Gymraeg. Gweithred ddigon goddefol yw hon ac un a all godi eu hyder yn gyffredinol. Mae yma botensial o ran cydweithio â'r gwasanaeth llyfrgell lleol i gynnig deunyddiau ac o bosibl gylchoedd darllen.

Mae'r siop lyfrau Cymraeg yn gyrchfan eithaf poblogaidd. Dylid annog mwy o ddysgwyr i fanteisio arni. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio eu Cymraeg yn y sefyllfa hon. Gall yr elfen o ddarllen gynnwys cylchgronau, llyfrau neu, wrth gwrs, wefannau. Mae un o bob tri'n prynu llyfrau Cymraeg o leiaf yn weddol aml.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol mewn cymunedau gweddol ddi-Gymraeg, dylid ystyried y rhyngwyd a'r dechnoleg newydd fel dulliau amgen i ddysgwyr ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol 'rhithiol' a all arwain maes o law at rai 'go iawn'.

Rhaid cydnabod gwerth Radio Cymru a S4C fel peuoedd pwysig i nifer sylweddol o ddysgwyr. Mae rhwng chwarter a thraean o'r ymatebwyr yn gwrando ar Radio Cymru ac S4C yn aml. Fel canlyniad, mae'r ddau wasanaeth yn cynnig cyswllt unigryw a dylanwadol â'r Gymraeg a gallent gael eu datblygu i annog mwy o ddysgwyr i fynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn eu hardaloedd. Y rhaglenni mwyaf poblogaidd oedd y newyddion.

### **6.3.1 Argymhellion**

- 1 Sicrhau bod y ddarpariaeth lefel uwch yn rhoi adnoddau ieithyddol digonol i ddysgwyr fedru cyfathrebu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg.
- 2 Ymchwilio i'r posibilrwydd o lunio sesiynau pendantrwydd ieithyddol i ddysgwyr er mwyn codi eu hyder wrth ymwneud â siaradwyr Cymraeg.
- 3 Llunio strategaethau priodol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o anghenion penodol cyfathrebu â dysgwyr ac yn enwedig, bwysigrwydd dal ati i gyfathrebu yn Gymraeg.
- 4 Llunio strategaethau priodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr â'r cymhelliant i siarad Cymraeg â'r plant yn llwyddo i wneud hynny a nodi hyn fel blaenoriaeth.
- 5 Cynnwys elfen yn y ddarpariaeth uwch fydd yn canolbwyntio ar sefyllfa sosio-ieithyddol y Gymraeg yng nghymunedau lleol y dysgwyr. Dylent fod yn ymwybodol o realiti sefyllfa'r Gymraeg yn eu hardaloedd unigol.
- 6 Dylid ystyried sut y gellir sicrhau mwy o oriau cyswllt i ddysgwyr dros gyfnod llai o amser er mwyn i fwy ohonynt fagu'r hyder angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.
- 7 Gan fod y papur bro'n fwy poblogaidd na chylchgronau Cymraeg eraill ymysg yr ymatebwyr, mae angen sicrhau (i) deunydd perthnasol a diddorol i siaradwyr Cymraeg newydd (ii) ymwneud y siaradwyr hyn â byrddau

golygyddol y papurau bro perthnasol er mwyn iddynt gael mwy o 'berchnogaeth' a (iii) gwerthiant effeithiol o'r papur bro mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.

- 8 Dylid ystyried cydweithio rhwng y canolfannau Cymraeg i Oedolion a gwasanaethau llyfrgell lleol i annog darllen trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ardal bwrdeistref sirol Pen-y-bont mae hyn yn digwydd yn llwyddiannus a chynigir grwpiau darllen sy'n denu dysgwyr a siaradwyr mamiaith fel ei gilydd. Cynigir hyn gan y gwasanaeth llyfrgell ac mae yma fodel y gellir ei ddilyn a'i efelychu mewn ardaloedd eraill.
- 9 Byddai cynllun darllen penodol o fewn y dosbarth yn fodd o sicrhau bod y dysgwyr yn darllen mwy yn Gymraeg. Nid oes angen cynllun caeth ac fe all gynnwys pob math o ddarllen – gan gynnwys gwefannau. Mantais cynllun o'r fath fyddai (i) esgor ar fwy o ddarllen a (ii) sicrhau bod y darllen yn digwydd o fewn fframwaith penodol ac (o bosibl) strwythuredig.
- 10 Gall y rhyngwyd a'r dechnoleg 'newydd' gynnig cyfleoedd amgen i ddysgwyr greu cymunedau rhithiol newydd. Mae angen edrych ar hyn a'i ddatblygu fel rhan o gyfundrefn genedlaethol Cymraeg i Oedolion.

#### **6.4 Canfod a oes patrymau neu strategaethau mewn cymunedau ieithyddol eraill y byddai modd eu haddasu at yr ymdrechion i integreiddio oedolion sydd wedi dysgu Cymraeg**

Y patrwm mwyaf amlwg yw'r hyn a geir yng Ngwlad y Basgiaid. Yno, mae tua 180 o ganolfannau dysgu iaith ac er bod y model a gynigir gennym ychydig yn wahanol gan mai Canolfannau Cymraeg a argymhellir yn hytrach na chanolfannau dysgu iaith, mae'r tebygrwydd o ran sicrhau lleoliadau cyfleus yn amlwg. Wrth reswm, nid oes modd sicrhau bod Canolfan Gymraeg (fel model Tŷ Tawe neu Ganolfan Merthyr) yn cael ei sefydlu ym mhob ardal a gellid dadlau fel cam tuag at y broses o sicrhau mwy o Ganolfannau Cymraeg ar draws Cymru, y byddai'n fuddiol i efelychu'r *Euskaltegiak* trwy leoli mwy a mwy o'n dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion mewn canolfannau penodol (e.e. fel Tŷ Pendre yn yr Wyddgrug neu Popeth Cymraeg yn Ninbych neu ganolfan Garth Olwg). Fel hynny, byddai dysgwyr ardal arbennig yn gwybod bod y dosbarthiadau Cymraeg i gyd yn cael eu cynnal mewn un brif ganolfan a'r ganolfan honno'n gweithredu'n bennaf yn Gymraeg. Nid peth hawdd fyddai sicrhau hynny chwaith ond fel cam cynnal i'r broses o greu mwy o Ganolfannau Cymraeg llawn, gallai fod yn ddewis rhesymol (yn economaidd) a hwylus.

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yng Ngwlad y Basgiaid yn dysgu am fwy na 10 awr yr wythnos a chynigir rhwng 1,500 a 1,800 o oriau i ddysgwyr ddod yn rhugl. Yng Nghymru, er mai'r ddarpariaeth ddwys sy'n cael ei chydabod fel y ffordd orau a mwyaf effeithiol o ddod yn rhugl, mae tueddiad cynyddol i symud i ffordd o oriau cyswllt dwys (cyrсияu tair neu ddwy waith yr wythnos) tuag at gyrsiau unwaith yr wythnos. Golyga hyn yn annatod fod angen i'r dysgwyr fod wrthi am fwy o amser, mwy o flynyddoedd er mwyn bod ag unrhyw obaith o gyrraedd rhuglder. I gyrraedd 1500 – 1800 o oriau, byddai angen i ddysgwr yng Nghymru fod yn dysgu am rhwng 20 a 30 o flynyddoedd. Yn ei dro, mae hyn yn llesteirio eu hymdrechion – a'u dymuniad – i integreiddio i'r gymuned Gymraeg ehangach yn fuan. Yn y bôn, mae hyn i gyd yn milwrio yn erbyn creu siaradwyr Cymraeg newydd, holl *raison d'être* maes Cymraeg i Oedolion. Felly, mae angen edrych o'r newydd ar sut y gellir denu mwy o ddysgwyr i fynychu cyrsiau sydd yn gyrsiau dwys yn ystyr rhai Gwlad y Basg. Unwaith eto, bydd canoli'r ddarpariaeth i nifer o ganolfannau penodol yn hwyluso marchnata cyrsiau dwys iawn gan fod y 'gystadleuaeth' (er bod y ddarpariaeth i gyd

yn rhan o'r un ganolfan Cymraeg i Oedolion) yn debygol o fod yn llai a dysgwyr eraill yn yr un adeilad yn gallu gweld llwyddiant eu cyd-ddysgwyr 'dwys' drostynt eu hunain.

Ni cheisir dweud yma fod model Gwlad y Basg yn un perffaith y dylid ei ddilyn yn slafaid. Cynnig ateb Cymreig i sefyllfa Gymreig yw nod yr ymchwil hon. Eto i gyd, mae sefyllfaoedd Cymru'n ddigon tebyg ac nid oes modd anwybyddu'r ffaith y gallai addasu'r model Basgaidd at ddibenion y sefyllfa yng Nghymru fod yn fanteisiol. Yr hyn sy'n glir yw annigonolrwydd y ddarpariaeth yng Nghymru. Mae'r annigonolrwydd hwn yn un sydd wedi'i blannu'n rhan o'r system ddysgu, ac yn sicrhau nad yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yr iaith yn llwyddo i ddod yn rhugl. Un gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy wlad yw'r adnoddau ariannol a roddir i'r maes gyda Llywodraeth Gwlad y Basg yn buddsoddi tua 45 miliwn Ewro y flwyddyn at waith dysgu'r Fasgeg i oedolion.

#### **6.4.1 Argymhellion**

- 1 Dylai'r Canolfannau CiO ystyried sefydlu canolfannau dysgu penodol mewn lleoliadau amlwg yn eu cymunedau i fod yn fan cychwyn ar gyfer datblygu Canolfannau Cymraeg cymunedol.
- 2 Dylai Adran dros Addysg a Sgiliau / Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth lunio rhaglen genedlaethol i dargedu manau priodol i ddatblygu Canolfannau Cymraeg cymunedol.
- 3 Dylai'r Canolfannau CiO, Mentrau Iaith a mudiadau lleol eraill gydlyn i sefydlu pwyllgorau lleol sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i lywio'r gwaith o sefydlu Canolfannau Cymraeg cymunedol yn lleol.
- 4 Byddai cael gwahanol sefydliadau, e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith, Canolfannau Cymraeg i Oedolion, Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth, Mudiad Ysgolion Meithrin, i rannu adeilad yn ffordd o gychwyn ganolfan Gymraeg gymunedol mewn ardal.
- 5 Mae angen ystyried ffynonellau ariannol cymunedol posibl, yn lleol ac yn genedlaethol i hybu'r gwaith.
- 6 Dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i ryddhau adeiladau priodol ar gyfer sefydlu Canolfannau Cymraeg cymunedol.

#### **6.5 Ystyried y modelau darpariaeth anffurfiol**

Daeth yn glir bod Canolfannau CiO yn gyfrifol am batrymau amrywiol iawn o ddarpariaeth anffurfiol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r patrymau cryfaf yn adlewyrchu brwdfrydedd a dychymyg. Cafodd hyn ei gydnabod ar lefel Brydeinig fel enghraifft o weithredu da ymysg oedolion sy'n dysgu.

Tra oedd y Canolfannau CiO yn dilyn arweiniad Bwrdd yr Iaith, a'r pwyslais ar fanteisio ar gyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg ac i gyflwyno dysgwyr i'r rhain, trwy gyfrannu arian ychwanegol, yr oedd rhai Canolfannau CiO yn cyflogi swyddogion yn benodol ar gyfer datblygu rhaglen gyflawn o weithgareddau a digwyddiadau amrywiol i ddysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn mynd sawl cam ymhellach na'r hyn a argymhellir gan Fwrdd yr Iaith, sef cyflwyno cyfleoedd cymathu, ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson y tu allan i'r dosbarth.

Mae rhai Canolfannau CiO yn dueddol o bwysu ar batrymau gweithgareddau sydd ar waith yn lleol trwy gyfraniad mudiadau, a gall hyn fod yn gynhyrchiol. Mae manteisio ar gynllun Pontio a oedd yn gryfder gweithgareddau CYD yng Ngheredigion yn cynnig cyfle cymathu yno, tra bo presenoldeb Canolfannau Cymraeg cymunedol yn Abertawe a Merthyr yn cynnig man naturiol i gymathu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn y manau hynny.

Mae rhai Canolfannau CiO yn manteisio'n llawn ar bosibiliadau cydweithio â'r Fenter Iaith leol, a mudiadau eraill, ac mae hyn yn codi gobaith yn ei dro am sefydlu Canolfan Gymraeg gymunedol yn y dyfodol.

Mewn un ardal mae rhaglen paru dysgwyr â siaradwyr Cymraeg yn dechrau dwyn ffrwyth.

Mae rhai Mentrau Iaith yn cyfrannu'n helaeth at y ddarpariaeth leol i ddysgwyr, ac yn llwyddo i drefnu gweithgareddau cyson ac i ddenu nifer helaeth o wirfoddolwyr, yn ddysgwyr ac yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae diffyg cyllid i Fentrau Iaith ddatblygu'r maes hwn yn peri amwysedd yn eu canfyddiad o'u rôl ac anhawster yn eu gallu i weithredu. Trwy roi cyllid i ganolfannau Cymraeg i Oedolion, a heb gyllid cyfatebol i sefydliadau sy'n denu gwirfoddolwyr, ni roddir hwb i waith cymunedol. Gall hyn arwain at deimlad bod angen i ddigwyddiadau a gweithgareddau a drefnir dyfu o'r gymuned, gyda chyfrifoldeb lleol, yn hytrach na chael eu trefnu'n ganolog yn unig.

Mewn llawer o ardaloedd Seisnigedig nid oes fframweithiau digonol o gymdeithasau Cymraeg ar gael a fydd yn ddigonol i gymathu dysgwyr. Mewn manau fel y rhain, byddai sefydlu Canolfan Gymraeg gymunedol yn gyfraniad cadarnhaol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd mae dysgwyr yn manteisio'n llawr ar gyfleoedd a drefnir gan y darparwyr.

Mae presenoldeb Canolfan Gymraeg gymunedol, fel Tŷ Tawe neu Ganolfan Merthyr, yn cynnig cyfleoedd cyson a pharhaus a systematig i ddysgwyr, yn fodd o ddenu nifer sylweddol o wirfoddolwyr ac yn sicrhau elfen helaeth o gymathu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Nid ymddengys fod y cyllid canolog a ddosberthir i ganolfannau Cymraeg i Oedolion yn debygol o gryfhau'r cyfleoedd cymdeithasu ledled y wlad.

### **6.5.1 Argymhellion**

1. Dylai pob Canolfan CiO benodi swyddog amser llawn i ddatblygu cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn eu hardal.
2. Dylai'r Mentrau Iaith sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu gweithgareddau a digwyddiadau a drefnir ganddynt a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny. Dylid darparu gweithgareddau a digwyddiadau penodol â'r nod o hwyluso integreiddio dysgwyr i brif ffrwd gwaith y Mentrau Iaith a chlustnodi cyllid penodol ar gyfer y gwaith hwn.
3. Mae angen hwyluso cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn wirfoddolwyr ac yn drefnyddion gweithgareddau a digwyddiadau ar lefel leol.

## 7 ATODIADAU:

### 7.1 YR HOLIADUR<sup>21</sup>

Pwrpas yr holiadur hwn yw gwybod ble mae pobl sy'n dysgu Cymraeg yn gallu defnyddio'r iaith.

A wnewch chi ateb y cwestiynau hyn, gan dicio'r blychau.  
Gyda rhai cwestiynau eich barn chi sy'n bwysig – mae pob ateb yn 'iawn'.

Diolch ichi am gydweithredu.  
Rydyn ni'n gobeithio y bydd canlyniadau'r holiadur yn help i gynllunio gweithgareddau Cymraeg yn eich ardal chi.  
Mae pob ateb yn gwbl gyfrinachol.

#### AMDANOCH CHI

Ni chaiff eich enw ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd yn yr ymchwil. Ond byddai cael eich enw'n help i ni os byddwn ni am gysylltu â chi eto i gael eich barn.

Enw:

\_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_ Rhif ffôn: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

1

Gwrywaidd	Benywaidd

2

oed 21-30	31-40	41-50	51-60	61-70+

3

Ble cawsoch chi eich magu?

Ardal neu dref

4

Ble rydych chi'n byw?

Ardal neu dref

<sup>21</sup> Trwy'r holiadur, defnyddir y term 'canolfan iaith' i gyfeirio at syniad cyffredinol Canolfan Gymraeg gan i ni deimlo y byddai'r dysgwyr yn fwy cyfarwydd â'r categorïddio hwnnw.

## 2. EICH CEFNDIR

5

Oedd y canlynol yn <b>gallu siarad</b> Cymraeg? (Eich barn chi am hyn sy'n bwysig)				
	yn dda	eitha da	ychydig	dim
mam				
tad				
mam eich mam				
tad eich mam				
mam eich tad				
tad eich tad				

6

Faint o Gymraeg oeddech chi'n ei <b>chlywed</b> yn eich <b>teulu</b> pan oeddech chi'n fach?				
y brif iaith	eitha tipyn bob dydd	ychydig bob dydd	dim ond weithiau	dim

7

Faint o Gymraeg oeddech chi'n ei <b>chlywed</b> pan oeddech chi yn yr <b>ysgol</b> ?				
y brif iaith	eitha tipyn bob dydd	ychydig bob dydd	dim ond weithiau	byth

8

Faint o Gymraeg sydd yn eich <b>teulu</b> nawr? Ydy'r rhain yn <b>gallu siarad</b> Cymraeg? Rhowch DB os yw eitem Ddim yn Berthnasol (e.e. dim partner)				
	yn dda	eitha da	ychydig	dim
Partner				
plentyn 1				
plentyn 2				
plentyn 3				
arall				

9

Ydy'r rhain yn <b>siarad Cymraeg</b> gyda chi? Rhowch <b>DB</b> os yw eitem <b>Ddim yn Berthnasol</b> (e.e. dim partner)				
	llawer iawn	eitha tipyn	ychydig	dim
Partner				
plentyn 1				
plentyn 2				
plentyn 3				
arall				

10

Beth yw eich <b>swydd</b> , neu beth oedd eich swydd ddiwethaf?

11

Beth yw lefel uchaf yr <b>addysg</b> gawsoch chi?				
gradd neu uwch	safon A /HND	lefel O / TGAU	cyrsiau yn y gwaith	dim cymwysterau

12

Beth yw'r cymwysterau uchaf sydd gennych yn y <b>Gymraeg</b> ?

### 3. EICH DIDDORDEB YN Y GYMRAEG

13

Pam dechreuoch chi ddysgu/y addeddori yn y Gymraeg? <b>Ticiwch unrhyw nifer</b>				
Plant	Siarad â phobl yn eich ardal	Aelodau eraill o'r teulu	Deall y radio/teledu	Darllen llyfrau/papurau
Byw yng Nghymru	Helpu gyda gwaith	Trafod gyda chwsmeriaid	Arall (nodwch)	

14

Beth oedd eich <b>prif reswm</b> dros ddysgu'r Gymraeg? <b>Ticiwch UN yn unig.</b>				
Plant	Siarad â phobl yn eich ardal	Aelodau eraill o'r teulu	Deall y radio/teledu ; darllen llyfrau/papurau	
Byw yng Nghymru	Byw yn yr ardal	Helpu gyda gwaith	Trafod gyda chwsmeriaid	Arall (nodwch)



15

<b>Ble</b> dysgoch chi Gymraeg fel <b>oedolyn</b> gyntaf?			
dosbarth unwaith yr wythnos	dosbarth yn y gwaith	Cwrs Wlpan / Mynediad Dwys	Arall

16

Ers sawl <b>blwyddyn</b> ydych chi'n dysgu Cymraeg fel oedolyn?				
1	2	3	4	5 / 5+

17

Ar ba gwrs / dosbarth ydych chi'n awr?

18

<b>Ble</b> mae eich dosbarth Cymraeg yn cael ei gynnal? (e.e. <b>enw</b> 'r ysgol, coleg, neu enw'r Ganolfan Iaith e.e. Tŷ Tawe, Canolfan Merthyr, Popeth Cymraeg Dinbych)

19

Ydych chi'n mynd i Ganolfan Iaith, e.e. Tŷ Tawe, Canolfan Merthyr neu Bopeth Cymraeg Dinbych (am unrhyw reswm)?:						
tua 3 gwaith yr wythnos	tua 2 waith yr wythnos	tua unwaith yr wythnos	tua un waith bob pythefnos	tua unwaith y mis	anaml	byth

#### 4. BLE YDYCH CHI'N SIARAD CYMRAEG

20

<b>Pa mor aml</b> ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg heddiw fel arfer?				
bob dydd	sawl gwaith yr wythnos	unwaith yr wythnos	llai aml	byth

21

Oes pobl yn y manau hyn yn <b>gallu siarad</b> Cymraeg? (nodwch <b>DB</b> os yw'r manau <b>Ddim yn Berthnasol</b> i chi)					
gartref	eich ardal	tafarn	capel	drama, cyngerdd etc.	canolfan iaith
yn y gwaith	yn y dosbarth	cwis, siop siarad etc.	ysgol eich plant	cymdeithas, e.e. côr, cylch cinio, Merched y Wawr	CYD

22

Pa mor aml ydych chi'n <b>defnyddio'r Gymraeg</b> heddiw <b>yn y manau hyn?</b> (ticiwch) (nodwch <b>DB</b> os nad yw'r manau hyn <b>Ddim yn Berthnasol</b> i chi)						
	gartref	eich ardal	tafarn	capel	drama, cyngerdd etc	canolfan iaith
yn gyson						
weithiau						
byth						
	yn y gwaith	yn y dosbarth	cwis, siop siarad etc.	ysgol eich plant	cymdeithas, e.e. côr, cylch cinio, Merched y Wawr	CYD
yn gyson						
weithiau						
byth						

23

Ydych chi'n mynd i <b>sesiynau siarad</b> sy'n cael eu trefnu ar gyfer dysgwyr/siaradwyr Cymraeg? (e.e. CYD, siop siarad, cylch trafod, Sadwrn Siarad, sesiynau'r Fenter Iaith)				
bob wythnos	bob pythefnos	unwaith y mis	yn anaml	byth

24

Ble mae'r sesiynau hyn yn digwydd? (ticiwch unrhyw nifer)				
mewn tafarn	mewn canolfan iaith e.e. Tŷ Tawe	mewn ysgol neu goleg neu ganolfan ddysgu	mewn cymdeithas neu gapel	mewn lle arall: nodwch ble

## 5. POBL SY’N SIARAD CYMRAEG GYDA CHI

25

Meddyliwch am y **tri (3)** pherson rydych chi’n siarad Cymraeg fwyaf aml gyda nhw ('dysgwyr' neu siaradwyr Cymraeg) ar wahân i'r teulu.

**Ble cwrddoch chi** â'r bobl hyn am y tro cyntaf? Byddwch mor fanwl ag sy'n bosibl (e.e. Enwi canolfan, enwi dosbarth, enwi digwyddiad)

Person 1	
Person 2	
Person 3	

26

Meddyliwch am yr un tri (3) pherson rydych chi’n siarad Cymraeg fwyaf aml gyda nhw ('dysgwyr' neu siaradwyr Cymraeg) ar wahân i'r teulu.

**Ble rydych chi’n siarad Cymraeg** gyda nhw y tu allan i'r dosbarth fwyaf aml? Byddwch mor fanwl ag sy'n bosibl (e.e. Enwi canolfan, enwi dosbarth, enwi digwyddiad). Croeso ichi enwi dau neu dri lle.

Person 1	
Person 2	
Person 3	

## 6. DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU

Yn yr adran hon: DIGWYDDIADAU yw pethau sy'n cael eu trefnu, lle rydych chi'n gwranddo neu'n gwyllo'n bennaf (e.e. drama, cyngerdd, darlith).

GWEITHGAREDDAU yw pethau sy'n cael eu trefnu lle rydych chi'n cymryd rhan, trwy sgwrsio neu ganu, e.e. côr, cwis, taith gerdded

27

Ydych chi'n mynd i **ddigwyddiadau** Cymraeg, e.e. cyngerdd, drama, darlith? Meddyliwch am y ddau fis diwethaf yn fras. A fuoch chi mewn digwyddiad Cymraeg? Ticiwch unrhyw nifer

drama	cyngerdd	darlith	arall (enwch)

28

Meddylwch am y **digwyddiadau** hyn. **Ble** cawson nhw eu cynnal? Ticiwch unrhyw rai sy'n berthnasol i chi

	theatr	ysgol / coleg	tafarn / man arall	canolfan iaith (e.e. Tŷ Tawe)	arall (nodwch)
drama					
cyngerdd					
darlith					
arall (enwch)					

29

Ydych chi'n mynd i **weithgareddau** lle rydych chi'n gallu siarad Cymraeg, e.e. côr, Sadwrn siarad, clwb cerdded? Meddylwch am y ddau fis diwethaf yn fras. A fuoch chi mewn gweithgaredd Cymraeg? Ticiwch unrhyw nifer.

CYD / sesiwn siarad	clwb cerdded	clwb llyfrau	cwis	côr	arall (enwch)

30

Meddylwch am y **gweithgareddau** hyn. **Ble** cawson nhw eu cynnal? Ticiwch unrhyw rai sy'n berthnasol i chi

	theatr	ysgol / coleg	tafarn / man arall	canolfan iaith (e.e. Tŷ Tawe)	arall (nodwch)
cwis					
clwb llyfrau					
CYD / sesiwn siarad					
taith gerdded					
arall (enwch)					

31

**Pa mor aml** ydych chi'n mynd i **ddigwyddiadau** Cymraeg?

bob wythnos	bob pythefnos	bob mis	anaml	byth

32

**Pa mor aml** ydych chi'n mynd i **weithgareddau** Cymraeg ?

bob wythnos	bob pythefnos	bob mis	anaml	byth

## 7. DEFNYDDIO'R GYMRAEG I GYMDEITHASU

33

Pa mor aml rydych chi'n defnyddio'r Gymraeg i gymdeithasu yn y mannau hyn?				
	bob wythnos	bob pythefnos	bob mis	anaml
yn eich ardal, siopa				
y dafarn				
capel				
canolfan iaith e.e. Tŷ Tawe				
yn y gwaith				
gyda'r teulu				
rhywbeth wedi'i drefnu				
gweithgaredd, e.e. côr				
arall (enwch)				

34

Beth/pwy fu o gymorth i chi i'ch cael i siarad wrth gymdeithasu?				
	help mawr	tipyn o help	dim llawer o help	dim ar gael
athro'r dosbarth				
CYD / sesiynau siarad				
sesiynau yn y ganolfan iaith (e.e. Tŷ Tawe)				
mynd i dafarn				
mynd i'r capel				
mynd i weithgaredd (e.e. côr)				
arall (nodwch)				

## 8. CYLCHGRONAU, LLYFRAU AC ATI

35

Ydych chi'n prynu a/neu yn darllen y rhain?					
	bob wythnos	bob mis	weithiau	anaml	byth
Lingo					
Y Cymro					
Barn					
Golwg					
cylchgrawn arall (enwch)					
Papur bro, e.e. Wilia					

36

Ydych chi'n prynu a/neu yn defnyddio'r rhain?					
	yn aml	yn weddol aml	weithiau	anaml	byth
CDs/DVDs Cymraeg					
cardiau Cymraeg					
llyfrau Cymraeg					
anrhegion Cymraeg i blant					

37

Ble rydych chi fel arfer yn prynu'r rhain? (ticiwch un)					
	siop 'Saesneg' leol	siop lyfrau Cymraeg	siop yn y dre / canolfan siopa	ar y we	gyda'r post
cylchgronau Cymraeg					
papur bro					
llyfrau Cymraeg					
CDs etc Cymraeg					
cardiau etc Cymraeg					

## 9. RADIO A THELEDU

38

Ydych chi'n gwranddo ar Radio Cymru? (ticiwch un)			
yn aml	weithiau	anaml	byth

39

Pryd gwrandawoch chi ar Radio Cymru wythnos diwetha? (ticiwch unrhyw nifer)					
o gwmpas amser brecwast	yn y bore	o gwmpas amser cinio	yn y prynhawn	o gwmpas 5 o'r gloch	fin nos

40

Ydych chi'n gwyllo S4C? (ticiwch un)			
yn aml	weithiau	anaml	byth

41

Pa raglenni S4C welsoch chi yr wythnos diwetha?							
Newyddion	Pobol y Cwm	Chwaraeon (e.e. rygbi)	Drama (e.e. Caerdydd, Con Passionate)	Diddordeb (e.e. Yn y Wlad, Byw yn yr Ardd)	Nodwedd (e.e. Y Tŷ Cymreig)	Adloniant (e.e. noson lawen, cyngerdd, canu pop)	Arall (nodwch)

**10. Y CYFRIFIADUR A'R WE**

42

Ydych chi weithiau'n defnyddio'r rhain mewn <b>unrhyw iaith</b> ? Ticiwch unrhyw nifer.				
ebost	Facebook neu raglen gymdeithasol arall	Gwefan newyddion	Gwefannau eraill	Ysgrifennu eich hun yn Word neu raglen debyg

43

Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg weithiau wrth ddefnyddio'r rhain? Ticiwch unrhyw nifer.				
ebost	Facebook neu raglen gymdeithasol arall	Gwefan newyddion	Gwefannau eraill	Ysgrifennu eich hun yn Word neu raglen debyg

44

<b>Pa mor aml</b> ydych chi'n defnyddio'r rhain yn Gymraeg?					
	ebost	Facebook neu raglen gymdeithasol arall	Gwefan Gymraeg BBC	Golwg360	Gwefannau eraill, e.e. Acen, LearnWelsh
yn aml					
weithiau					
anaml					
byth					

45

<b>Gyda phwy</b> ydych chi'n defnyddio'r rhain yn Gymraeg?							
	eich teulu	ffrindiau	aelodau eich dosbarth	siaradwyr Cymraeg eraill	tiwtoriaid, neu bobl sy'n trefnu gweithgareddau	pobl yn y ganolfan iaith	pobl mewn sefydliadau, e.e. Menter Iaith
ebost							
Facebook etc.							
negeseuon testun							
ffonio							



## 11. NEWID ARFERION

46

Yn gyffredinol, ydych chi'n awr yn <b>defnyddio mwy o'r Gymraeg</b> na phum mlynedd yn ôl?				
llawer mwy	tipyn mwy	ychydig mwy	dim mwy	llai

47

Meddyliwch am rai rhannau o'ch bywyd. Ydych chi'n awr yn defnyddio mwy o Gymraeg <b>yn y manau hyn</b> na 5 mlynedd yn ôl? (Nodwch <b>DB</b> os yw'r eitem <b>Ddim yn Berthnasol</b> i chi.)							
	y teulu	y gwaith	yn yr ardal, siop	capel	tafarn	gweithgareddau / digwyddiadau	yn y ganolfan iaith
ddim yn berthnasol							
llawer mwy							
tipyn mwy							
ychydig mwy							
dim mwy							

48

Ydych chi wedi cael ffrindiau/cysylltiadau newydd <b>Cymraeg</b> yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?			
llawer o rai newydd	tipyn o rai newydd	dau neu dri newydd	dim un newydd

49

Meddyliwch am y 5 o bobl agosaf atoch yn eich teulu. Ydych chi'n defnyddio mwy o Gymraeg gyda nhw nawr na 5 mlynedd yn ôl? Ysgrifennwch <b>DB</b> os yw un o'r eitemau <b>Ddim yn Berthnasol</b> .					
	Ddim yn berthnasol	Llawer mwy	Tipyn mwy	Ychydig mwy	Dim mwy
partner					
plentyn 1					
plentyn 2					
plentyn 3					
arall (enwch)					
arall (enwch)					

50

Meddylwch am y 3 o bobl agosaf atoch chi ( <b>ar wahân i'r teulu</b> ). Ydyn nhw'n <b>gallu siarad</b> Cymraeg?			
	person 1	person 2	person 3
yn dda			
eitha tipyn			
tipyn			
ychydig			
dim			

51

Meddylwch am y 3 o bobl agosaf atoch chi ( <b>ar wahân i'r teulu</b> ). Ydych chi'n <b>defnyddio mwy o Gymraeg</b> gyda nhw nawr na 5 mlynedd yn ôl?				
	llawer mwy	tipyn mwy	ychydig mwy	dim mwy
person 1				
person 2				
person 3				

52

Meddylwch am eich arferion darllen, gwranddo, gwyllo a'r we. Ydych chi'n awr yn defnyddio <b>mwy o Gymraeg</b> na phum mlynedd yn ôl?					
	papurau a chylchgronau	llyfrau	radio	teledu	y we
llawer mwy					
eitha tipyn mwy					
ychydig mwy					
dim mwy					
llai					

53

Sut hoffech chi weld pethau'n cael eu trefnu er mwyn rhoi mwy o gyfle i chi ddefnyddio'r Gymraeg?

Croeso i bob syniad, e.e. sesiynau mewn tafarn, sefydlu canolfan iaith, mwy o sesiynau siarad, cyswllt â siaradwyr Cymraeg, digwyddiadau fel cyngherddau, gweithgareddau fel cwisiau, chwaraeon, teithiau cerdded.

**DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM EICH CYMORTH**

Dychwelwch i'ch tiwtor. Diolch.

## 7.2 CYFARWYDDIADAU I'R TIWTORIAID YNGLŶN Â SUT I LENWI'R HOLIADUR GYDA'R DOSBARTH

### HOLIADUR: DYSGWYR YN DEFNYDDIO'R GYMRAEG

*Annwyl Diwtor,*

*Diolch i chi am gytuno i weithredu'r holiadur yma yn eich dosbarth/iadau. Nod yr holiadur yw casglu gwybodaeth am y dysgwyr a sut/ble maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Rydym wedi llunio'r holiadur fel bod modd i chi fynd trwy'r adrannau a'u defnyddio fel ysgogiad ar gyfer trafodaeth bellach yn y dosbarth, felly gallech feddwl amdano fel 'deunydd/gweithgaredd dosbarth ychwanegol'.*

*Er i ni nodi na chaiff enwau'r dysgwyr eu datgelu mewn unrhyw ffordd ac mae'r ymchwil yn cydymffurfio'n llawn â gofynion diogelu data, efallai byddech cystal ag atgoffa'r dysgwyr o hynny cyn dechrau llenwi'r holiadur. Ar ôl i'r dysgwyr gwblhau llenwi'r holiadur, a fyddech carediced â'u casglu a'u dychwelyd i'ch Canolfan CiO leol **erbyn 11 Rhagfyr 2009**.*

*Bwriedir cynnal cyfweiliadau byr â sampl o'r dysgwyr o'r gwahanol ddosbarthiadau rhwng Ionawr a Mawrth 2010 ond anfonir gwybodaeth am hynny ar wahân.*

*Dyma ambell nodyn ychwanegol ar adrannau'r holiadur:*

#### **2 Eich Cefndir**

Mae'n bwysig fod y dysgwyr yn nodi realiti'r sefyllfa yma ac nad ydynt yn cofnodi atebion maen nhw'n credu ein bod ni'n disgwyl eu cael. Mae hyn yn wir am yr holiadur yn gyffredinol, wrth gwrs, felly awgrymir i chi ofyn iddynt gwblhau'r adran yma cyn mynd ati i drafod eu cefndir ieithyddol yn gyffredinol (os dymunwch wneud hynny).

#### **3 Eich Diddordeb yn y Gymraeg**

Eto, mae'n bwysig eu bod nhw'n onest yma ac yn ticio cymaint o flychau ag sy'n berthnasol ond, ar y llaw arall, nad ydynt yn ticio blychau achos eu bod yn credu y dylent fod yn eu ticio. Pan nodir '*Ticiwch UN yn unig*', oes modd i chi eu hatgoffa nhw o hynny? Bwriedir cwestiwn 19 ar gyfer dysgwyr yn yr ardaloedd hynny yn unig felly os ydych chi'n dysgu mewn ardal wahanol, gadewch y grid yn wag os gwelwch yn dda.

#### **4 Ble ydych chi'n siarad Cymraeg?**

Fel adran 3 uchod. Mae'n gyfle da (ar ôl iddyn ei chwblhau) i chi ddefnyddio'r adran hon i gynnal trafodaeth fwy eang ar y potensial/posibiliadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn eich ardal – ond mae'n bwysig peidio â gwneud hynny nes eu bod nhw wedi gorffen ei llenwi.

#### **5 Pobl sy'n siarad Cymraeg gyda chi**

Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi annog y dysgwyr i fod mor fanwl â phosibl yma. Os oes angen iddynt barhau i dudalen ar wahân, croeso iddynt wneud ond bod rhywbeth yn cysylltu'r dudalen ychwanegol â'r holiadur gwreiddiol.

#### **6 Digwyddiadau a gweithgareddau**

Mae dechrau'r adran yn egluro'r gwahaniaeth rhwng '*digwyddiadau*' a '*gweithgareddau*' i'r dysgwyr ond byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi fynd dros

hynny eto cyn iddynt ddechrau cwblhau'r adran hon. Unwaith eto, mae digon o ddeunydd i ysgogi trafodaeth ar lefel dosbarth ar ôl iddynt orffen cwblhau'r adran gyfan.

### **7 Defnyddio'r Gymraeg i gymdeithasu**

Mae'n bwysig eu bod yn dewis yr ateb sydd fwyaf agos at yr hyn sy'n wir amdany'n nhw'n bersonol.

### **8 Cylchgronau, llyfrau ac ati**

#### **9 Radio a Theledu**

#### **10 Y Cyfrifiadur a'r We**

Fel yn Adran 7. Ar ôl cwblhau'r adrannau hyn, mae digon o ddeunydd unwaith eto i ysgogi trafodaeth ar lefel dosbarth (neu grwpiau llai) i gymharu faint o ddefnydd a wneir o'r categorïau hyn ac a allent wneud mwy o ddefnydd ohonynt.

### **11 Newid Arferion**

Ar ddiwedd yr adran, mae cyfle i'r dysgwyr eu hunain nodi eu dymuniadau/dyheadau eu hunain o ran rhoi mwy o gyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Dylid eu hannog i nodi cymaint ag sy'n bosibl yma – ac unwaith eto, gall hyn fod yn sail i drafodaeth ehangach yn y dosbarth.

.....  
*Diolch eto i chi am gyfrannu at yr ymchwil yma trwy weithredu'r holiadur gyda'ch dosbarth. Gwneir yr ymchwil gan Steve Morris a Heini Gruffudd o Ganolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru ym Mhrifysgol Abertawe. Croeso i chi gysylltu â ni os ydych chi am roi unrhyw adborth / cynnig sylwadau, trwy ebostio:*

[s.morris@abertawe.ac.uk](mailto:s.morris@abertawe.ac.uk)

*Dosberthir canlyniadau'r ymchwil maes o law trwy'r 6 Chanolfan iaith yn genedlaethol ac ar wefan Canolfan y De-orllewin.*

*Steve Morris a Heini Gruffudd*

*Abertawe – Hydref 2009*

### 7.3 CANLLAWIAU'R GRWPIAU FFOCWS

**Prosiect Ymchwil**

**Prifysgol Abertawe**

**Dylanwad Canolfannau Cymraeg ar arferion ieithyddol rhai sydd wedi dysgu Cymraeg**

Nod y prosiect yw ceisio deall sut mae Canolfannau Cymraeg, fel Ty Tawe, yn rhoi cyfle siarad a chylch cyfeillgarwch i rai sydd wedi dysgu Cymraeg.

Diolch ichi am dreulio pum munud yn ateb y cwestiynau hyn. Mae croeso ichi ddefnyddio cefn y dudalen hefyd.

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn/ebost (os ydych yn fodlon eu rhoi: fyddwn ni ddim yn cyfeirio atoch chi'n bersonol mewn unrhyw adroddiad).

Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi eto? \_\_\_\_\_

1. Pryd dechreuoch chi ddysgu Cymraeg? Beth oedd eich rhesymau dros fynd ati i siarad Cymraeg?
  2. Faint o gyfle ydych chi'n ei gael i gymdeithasu yn Gymraeg yn gyffredinol? (e.e. yn y teulu, yn y gwaith, yn y dafarn / capel: rhowch fanylion)
  3. Beth yw'r prif anawsterau i chi o ran cael cyfle i siarad Cymraeg?
  4. Pa mor aml ydych chi'n mynd i sesiynau/ dosbarthiadau/ digwyddiadau Cymraeg?  
[4. Pa mor aml ydych chi'n mynd i Dy Tawe/Ganolfan Merthyr, i ba sesiynau/dosbarthiadau/digwyddiadau? >>> gyda'r grwpiau mewn Canolfannau Cymraeg]
  5. Faint o help yw'r sesiynau / digwyddiadau Cymraeg? Beth fyddai'n eich helpu chi i siarad mwy o Gymraeg?
- [5. Ydy Ty Tawe yn bwysig i chi? Pa mor werthfawr yw Ty Tawe wrth roi cyfle i chi gymdeithasu yn Gymraeg? (e.e. cwrdd â rhai eraill sy wedi dysgu, cwrdd â siaradwyr Cymraeg, cael cylch ffrindiau newydd, cymryd rhan mewn digwyddiadau, ac ati). >>> gyda'r grwpiau mewn Canolfannau Cymraeg]

Croeso i chi barhau i gefn y dudalen. Diolch i chi am ateb.

## 7.4 HANES Y CANOLFANNAU IAITH / CANOLFANNAU CYMRAEG

### 7.4.1 Nant Gwrtheyrn

Agorwyd Nant Gwrtheyrn yn ganolfan ddysgu yn 1978. Roedd yn weledigaeth i Dr Carl Clowes ac eraill, a chychwynnodd yn wirfoddol, gan ddenu cefnogaeth gan unigolion a sefydliadau. Yn ei dyddiau cynnar cafodd y ganolfan nawdd gan Fwrdd yr Iaith i ddatblygu'r isadeiledd. Honnir [Y *Tiwtor*, 2009] mai hon yw'r unig ganolfan breswyl sy'n darparu cyrsiau trwy gydol y flwyddyn. Mae'n ategu gwaith y Canolfannau Cymraeg i Oedolion Rhanbarthol. Yn ddiweddar denodd £5.6m gan yr Undeb Ewropeaidd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â rhoddion preifat, i ddatblygu'r ganolfan, gyda'r nod o gyflogi 32 o staff, ac o ddatblygu'r cyfleusterau.

Nid yw Nant Gwrtheyrn yn rhan o gymuned drefol – y mae'n bentref ynysig – ond defnyddir y ganolfan gan nifer helaeth o sefydliadau o bob rhan o'r wlad.

Mae'r Nant yn gallu darparu ar gyfer digwyddiadau fel cyngherddau neu gigiau gyda hyd at 200 o fynychwyr. Bydd gan y ganolfan le i letya 75 o bobl. Gobeithir cynyddu niferoedd ar gyrsiau wythnosol y Nant o 300 i 600 y flwyddyn, a gobeithir denu grwpiau ar gyfer gweithgareddau, gan gynnwys cynadleddau, teithiau cerdded, a grwpiau gwyliau, er na fydd y mynychwyr o reidrwydd yn ddysgwyr y Gymraeg, nac o Gymru.

Mae modd ystyried y Nant yn ganolfan sy'n gallu darparu cyswllt anffurfiol â'r iaith i ddysgwyr o wahanol rannau o Gymru yn hytrach nag i ddysgwyr yn ei chymuned ei hun.

### 7.4.2 Clwb y Bont, Pontypridd

Sefydlwyd cymdeithas Clwb y Bont ddiwedd yr 1960au gan rai a oedd am hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Aethpwyd ati i godi arian a chwilio am adeilad. Ym mis Medi 1983 agorwyd Clwb y Bont ym Mhontypridd mewn hen warws ar lan afon Taf<sup>22</sup>.

Cafwyd cefnogaeth bragdai lleol i brynu'r adeilad, a bu gwirfoddolwyr wrthi'n gwneud llawer o'r gwaith ar adnewyddu'r adeilad.

Ar y cychwyn cynhaliwyd gwersi Cymraeg bob noson o'r wythnos, ond rhoddwyd y gorau i hyn oherwydd newid mewn trefniadau cyllido. Medd gwefan y Clwb ei fod "yn dal i gynnig cyfle gwych i siaradwyr Cymraeg ar bob lefel i ddod ac ymarfer eu Cymraeg" ond nid oes rhaid i fynychwyr allu siarad yr iaith. Meddir, "Os ydych yn dysgu neu yn rhugl rydych yn debygol o ddod o hyd i rywun y gallwch sgwrsio gyda [sic]. Mae nifer o'r aelodau yn fodlon iawn i helpu dysgwyr i ymarfer."

Caiff ystod eang o ddigwyddiadau diwylliannol Cymraeg eu cynnal yn y Clwb, gan gynnwys rap a barddoni Cymraeg a bandiau roc, ac agorir y drysau hefyd i nosweithiau dawns y dwyrain canol, a chlybiau lleol, gan gynnwys clwb jazz a gwyddbwyll.

Er nad oes cyswllt ffurfiol rhwng Clwb y Bont a darpariaeth y Canolfannau Cymraeg i Oedolion, mae'r clwb yn cynnig cyfleoedd cymdeithasu a dysgu anffurfiol na fyddent ar gael yn lleol oni bai am ymdrechion a gweledigaeth y gwirfoddolwyr.

---

<sup>22</sup> Cafwyd o wefan Clwb y Bont: <http://clwbybont.net/page2.htm>, cyrchwyd 6 Medi 2010.

### 7.4.3 Clwb Ifor Bach

Agorwyd Clwb Ifor Bach yng nghanol Caerdydd, yn Stryd Womanby, Caerdydd, yn 1983. Nod y clwb yn wreiddiol oedd hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddinas, a siaradwyr Cymraeg a dysgwyr oedd yn cael bod yn aelodau.<sup>23</sup>

Ddiwedd yr 1990au llaciwyd rheol Gymraeg y clwb, sef bod aelodaeth yn ddibynnol ar allu siarad Cymraeg neu ymroddiad i ddysgu'r iaith. Erbyn hyn mae'r staff ar y cyfan yn siaradwyr Cymraeg, ac mae'r clwb yn bennaf yn ganolfan gerddoriaeth, gyda bandiau Cymraeg yn cael amlygrwydd, ond gyda bandiau Saesneg yn perfformio'n aml yn y prif ofod perfformio.

Mae Clwb Ifor Bach yn cynnig cyfleoedd cymdeithasu i bobl ifanc yn bennaf. Yn y cyfamser, mae canolfannau cymdeithasu Cymraeg eraill wedi codi yng Nghaerdydd, gan gynnwys tafarn y Mochyn Du, sydd bellach â chôr pensïynwyr yn canu yn ei henw. Mae'r dafarn hon, a rhai eraill, yn cynnig cyfleoedd cyson i ddysgwyr ddod i gyswllt â'r iaith ac i gymdeithasu â siaradwyr Cymraeg. Mentrau preifat yw'r rhain sydd yn llwyddo yn sgil cynnydd niferoedd siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. Gyda'i nifer uchel o sefydliadau cenedlaethol sydd wedi denu siaradwyr Cymraeg o bob rhan o Gymru, ac yn enwedig o ardaloedd cymharol Gymraeg Cymru, mae Caerdydd yn cynnig maes astudio gwahanol i ardaloedd Seisnigedig eraill yng Nghymru.

### 7.4.4 Clwb Brynmenyn

Agorwyd Clwb Brynmenyn ym mhentref Brynmenyn, yn 1987, gan Dr Gwynfor Evans, wedi i nifer o selogion lleol weld cyfle i gael canolfan i "hybu diwylliant Cymru, y Gymraeg a Chymreictod."<sup>24</sup> Ffurfiwyd pwyllgor o 17. Cafwyd adeilad gan fragdy, a thalu'n ôl fesul mis, yn bennaf o werthiannau'r bar.

Roedd yn yr adeilad ddwy ystafell ar gyfer dosbarthiadau i ddysgwyr, neuadd weithgareddau a bar. Cynhaliwyd nifer helaeth o nosweithiau adloniant ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys perfformiadau gan brif gantorion Cymru. Roedd y ganolfan hefyd yn cael ei defnyddio gan nifer o gymdeithasau Cymraeg yr ardal, gan gynnwys y papur bro, yr Urdd, a chôr.

Penodwyd stiward amser llawn. Barn Dafydd Ieuan Jones yw bod y ganolfan yn cael ei defnyddio gan yr un nifer o ddysgwr a siaradwyr Cymru, gan roi troedle i'r Gymraeg yn yr ardal.

Nid oedd y lleoliad yn ganolog i drwch poblogaeth ardal Pen-y-bont ar Ogwr, ond parhaodd am 15 mlynedd, a dod i ben yn 2003.

Roedd yn ymdrech lew i sefydlu canolfan gymdeithasol Cymraeg mewn ardal lle roedd nifer helaeth o ddysgwyr.

### 7.4.5 Canolfan Merthyr

Yn dilyn Eisteddfod yr Urdd, 1987, bu grŵp o selogion lleol wrthi'n ceisio sefydlu Canolfan Gymraeg ym Merthyr Tudful. Sefydlwyd Siop Y Ganolfan ym 1992 mewn ystafell fach yn hen neuadd Capel Soar.<sup>25</sup> Roedd yr elw yn cael ei ddefnyddio i gynnal gweithgareddau, digwyddiadau a nosweithiau cymdeithasol i siaradwyr a

<sup>23</sup> Codwyd o wefan Clwb Ifor Bach, <http://www.clwbiforbach.co.uk/cym/history/>, cyrchwyd 6 Medi 2010.

<sup>24</sup> Cafwyd yr wybodaeth mewn sgwrs â chadeirydd cyntaf Clwb Brynmenyn ar 27 Medi 2010.

<sup>25</sup> Cafwyd yr wybodaeth o wefan Menter Iaith Merthyr Tudful, <http://www.merthyrtudful.com/cymraeg/siopyganolfan.php>, cyrchwyd 9 Medi, 2010.

dysgwyr Cymraeg yn y Ganolfan Gymraeg newydd yn y dre. Mae'r siop bellach yn fenter annibynnol.

Cychwynnodd y Ganolfan felly nifer o flynyddoedd cyn sefydlu Menter Iaith Merthyr, ond bellach mae'r ddwy wedi uno.

Mae Canolfan Merthyr wedi bod yn ganolfan i Fenter Iaith Merthyr ers i honno gael ei sefydlu yn 2004. Yn ddiweddar cafodd y Fenter £1,381,378 i newid adeilad y Ganolfan a thrawsnewid Capel Soar i fod yn Ganolfan Dreftadaeth a theatr gymunedol. Cafwyd yr arian gan Gronfa Loteri Treftadaeth, Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, y Low Carbon Buildings Trust a Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol. Gobeithir cael grantiau pellach tuag at ddodrefnu a chyflogi swyddog.

Pan orffennir y Ganolfan ddiwedd 2010 bydd yno neuadd y gellir ei throï'r ddwy ystafell ddysgu, dwy ystafell ddysgu ychwanegol, ystafell ar gyfer meithrinfa, tair swyddfa i'r Fenter, yr Urdd a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg, siop Gymraeg a chaffe.

Mae nifer o fudiadau'n defnyddio'r Ganolfan gan gynnwys Merched y Wawr, a Chymdeithas Gymraeg Soar, sy'n trefnu, ymysg pethau eraill, nosweithiau o sgysiau, a Chôr y Ganolfan. Cynhelir yno hefyd nosweithiau i bobl ifanc gan gynnwys gwersi drymio. Trefnir nosweithiau lle mae alcohol ar gael mewn tafarnau lleol.

Caiff boreau coffi wythnosol eu trefnu sy'n rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddod at ei gilydd.

Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg yn trefnu dosbarthiadau ar sawl lefel yn y Ganolfan, ac yno hefyd mae canolfan Prosiect Gwaith Ieuencid, gyda'r Urdd, y Fenter a'r Cyngor Sir yn bartneriaid.

#### **7.4.6 Tŷ Pendre, yr Wyddgrug**

Mae gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru adeilad pwrpasol yn yr Wyddgrug ar gyfer dosbarthiadau. Mae gan Dŷ Pendre swyddfa ar gyfer y Swyddog Cymraeg i Oedolion a rhyw bump ystafell ddysgu.

Mae modd cynnal dosbarthiadau neu sesiynau cymharol anffurfiol yma, ond nid oes yma gyfleusterau ar gyfer digwyddiadau anffurfiol. Mae cegin fach yn rhoi cyfle i beth cymdeithasu anffurfiol, ond mae'r pwyslais ar y cyfan yn yr adeilad ar gynnal dosbarthiadau ffurfiol.

Mae presenoldeb yr adeilad fel canolfan ddysgu'n ei gwneud yn hwylus i ddysgwyr newydd wybod ble i fynd ar gyfer dosbarthiadau.

Mae ymdrechion ar y gweill yn yr Wyddgrug ar hyn o bryd (gweler adran 5) i sefydlu Canolfan Gymraeg amlbwrpas yn yr Wyddgrug. Bydd angen sicrhau swm sylweddol o gronfeydd cyhoeddus i sefydlu hwn.

#### **7.4.7 Popeth Cymraeg, Dinbych**

Lansiwyd y syniad o sefydlu Canolfan Iaith Clwyd yn gyhoeddus yn 1988 gan David Jones, Maer Dinbych, un o brif sylfaenwyr y ganolfan, a fu farw'n ddiweddar. Ffurfiwyd ymddiriedolaeth i berswadio Cyngor Sir Clwyd i drosi adeilad yng nghanol



tref Dinbych yn gartref i'r ganolfan iaith.<sup>26</sup> Erbyn 1990 codwyd £105,000 i adnewyddu'r adeilad, a chafwyd grant yn 1991 gan y Swyddfa Gymreig i gyflogi 1.5 person ac agorwyd y Ganolfan fel man cynnal cyrsiau.

O dan arweiniad Ioan Talfryn datblygwyd gwasanaeth dysgu blaengar, a enillodd wobwr Addysg Oedolion (NICE, 1994), a gwobr busnes Prydeinig (Journal Publishing Group 1998). Yn 1997 cafwyd grant o £187,000 gan y Loteri Genedlaethol i adeiladu estyniad i'r ganolfan ac i gyflogi mwy o staff. Yn 1999 newidiwyd enw'r ganolfan i 'Popeth Cymraeg'.

Canolfan ddysgu yw hon, a gyllidir trwy golegau'r ardal. Pan sefydlwyd Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn 2007, cyllidwyd Popeth Cymraeg yn uniongyrchol.

Yn 2009 sefydlwyd ail ganolfan i Popeth Cymraeg yn y Tanerdy, Llanrwst, ac erbyn hyn caiff dosbarthiadau eu cynnal yno. Y gobaith yno oedd bod caffe'n cael ei sefydlu yn rhan o'r adeilad gan fenter breifat.

#### **7.4.8 Tŷ Tawe, Abertawe**

Sefydlwyd Tŷ Tawe yn 1987, pum mlynedd ar ôl i wirfoddolwyr godi arian i brynu adeilad.<sup>27</sup> Lansiwyd Cymdeithas Tŷ Tawe yn gyhoeddus mewn cyfarfod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1982, ar ôl i selogion lleol benderfynu bod angen cael canolfan gymdeithasu a dysgu yng nghanol y dref. Ar y pryd roedd dysgwyr yn mynychu gwahanol dafarnau yn Abertawe i gynnal nosweithiau cymdeithasu wythnosol.

Sefydlwyd Cymdeithas Tŷ Tawe yn elusen gofrestrdedig, gyda'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Prynwyd adeilad yng nghanol Abertawe, ac ynddo le i gynnal dosbarthiadau Cymraeg, siop lyfrau Cymraeg, neuadd digwyddiadau a bar/caffe. Cafwyd grantiau o sawl cyfeiriad, yn bennaf o gyfeiriad cronfeydd Ewropeaidd, ond hefyd gan y Loteri, TAC, a benthyciadau di-log gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, i wneud gwaith adnewyddu, addasu, ac ehangu sylweddol ar hyd y blynyddoedd.

Bellach mae yn yr adeilad siop Gymraeg a chaffe, bar a neuadd berfformio, swyddfeydd Menter Iaith Abertawe, swyddfa swyddog Cymraeg i Oedolion ac ystafelloedd dysgu. Gall 4 neu 5 dosbarth neu ddigwyddiad gael eu cynnal yr un pryd.

Mae nifer o sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg y dre'n defnyddio'r adeilad, gan gynnwys Côr Tŷ Tawe, sy'n cynnwys canran sylweddol o ddysgwyr, Merched y Wawr, CYD a Rhag, a chaiff achlysuron a digwyddiadau cyson eu trefnu yno i ddysgwyr, gan gynnwys bore coffi bob bore lau (CYD) a Sadwrn (Y Fenter Iaith). Caiff digwyddiadau eraill addas i ddysgwyr eu trefnu yno, gan gynnwys cwisiau, nosweithiau ffilm, a gemau rygbi ar y teledu.

---

<sup>26</sup> Codwyd yr wybodaeth o wefan Popeth Cymraeg, [http://www.popethcymraeg.com/index.php?option=com\\_content%vi...](http://www.popethcymraeg.com/index.php?option=com_content%vi...), cyrchwyd 6 Medi 2010.

<sup>27</sup> Codwyd yr wybodaeth o gofnodion cyfarfodydd Tŷ Tawe, casgliad ym meddiant Heini Gruffudd.


## 7.5 CANFYDDIADAU'R HOLIADUR

### 7.5.1 Cefndir personol

Edrychir yma ar gefndir cyffredinol y dysgwyr gan gynnwys ystyriaethau megis rhyw, oedran, ardal magwraeth a phrif breswylfa ar hyn o bryd. Eir yn fanylach wedyn gan edrych ar gefndir ieithyddol teuluoedd y dysgwyr, eu canfyddiad o faint o Gymraeg yr oeddynt yn ei chlywed yn y teulu a'r ysgol a chymharu'r rhain â gallu aelodau'r teulu i siarad Cymraeg erbyn hyn a'r defnydd o'r Gymraeg gan aelodau'r teulu gyda'r dysgwyr ar hyn o bryd. Yn olaf, ystyrir gwaith y dysgwyr (neu eu swydd ddiwethaf cyn ymddeol), lefel eu haddysg a'u cymwysterau yn y Gymraeg. Rhydd y rhain i gyd ddarlun o gyfansoddiad a chefnidir cyffredinol dysgwyr y sampl ynghyd â'u cyswllt (uniongyrchol ac anuniongyrchol) â'r Gymraeg fel plentyn ac ar hyn o bryd a hynny yng nghyd-destun eu teuluoedd.

#### 7.5.1.2 Rhyw

Gwelwyd yn 1.3.2 yn genedlaethol fod 64% o ddysgwyr ar gyrsiau lefel NVQ 3 a 4 yn fenywod a 36% ohonynt yn ddynion. Mae'r ffigurau yn y sampl yn hynod o debyg i'r rhai cenedlaethol gyda 61% yn fenywod a 39% yn ddynion.




Graff 2: Rhyw ymatebwyr yr holiadur (canrannau)

Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau'r hyn a welwyd yn gyffredinol ym maes dysgu Cymraeg i Oedolion (Morris, 2005: 25 a Reynolds, 2004: 35) a maes dysgu ieithoedd sef tueddiad parhaus i fwy o fenywod nag o ddynion fynychu cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar bob lefel. Ar lefel Mynediad dadleua Morris (2005: 25) fod cynnal cyrsiau yn agos i grwpiau meithrin a chylchoedd chwarae yn rhannol gyfrifol am hyn a gellid gweld hyn yn dueddiad a all argoeli'n dda o ran sicrhau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau. Eto i gyd, mae angen ystyried y ffigurau hyn yng nghyd-destun y grŵp nesaf sy'n edrych ar oedran y sampl.

#### 7.5.1.3 Oedran

Ceir cadarnhad yma o'r duedd genedlaethol a welwyd yn 1.5.3 i aelodau'r dosbarthiadau lefel NVQ 3 a 4 fod yn weddol oedranus ar y cyfan gydag ychydig dros hanner y sampl yn 61 oed neu'n fwy.



Graff 3: Oedran ymatebwyr yr holiadur (canrannau)

Mae goblygiadau'r proffil oedran yma yn y cyrsiau Uwch yn bwysig ac yn arwyddocaol iawn yng nghyd-destun y prosiect ymchwil hwn. 13% yn unig o'r sampl sydd o dan 40 oed, sef y grŵp oedran mwyaf arwyddocaol o ran sicrhau trosglwyddo'r Gymraeg i'r plant.


Mewn astudiaeth o ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg, dywed Gruffudd (1995: 171) "Ymddengys bod defnyddio'r iaith ac agweddau tuag ati'n tarddu o'r cartref yn anad unman arall. Gwelwyd bod iaith rhieni â'u plant yn un o'r ffactorau pwysicaf wrth fesur hyder pobl ifanc wrth drafod gwahanol destunau." Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n mynd ymlaen i lefelau uchaf dysgu'r Gymraeg yn ifanc, ac nid ydynt felly'n debygol o allu newid iaith y cartref a chyfrannu at y cam cwbl allweddol o adfer iaith, sef trosglwyddo mamiaith rhwng cenedlaethau. Medd Fishman (1991: 113), "Without intergenerational mother tongue transmission... no language maintenance is possible."

Hynny yw, sonnir yma am y grŵp o ddysgwyr mwyaf rhugl sydd hefyd â'r proffil oedran uchaf hefyd. Awgryma hyn sawl her bosibl o ran cynllunio ym maes Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol:

- Sut i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn y grwpiau oedran iau yn llwyddo i gyrraedd y lefel uchaf o ruglder yn y Gymraeg;
- O gofio'r proffil oedran a nodir yma, sut mae hynny'n effeithio ar ymdrechion i ehangu rhwydweithiau cymdeithasol a darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr cymharol rugl gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sut gellir sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cyfrannu orau i'w cymunedau (os dymunant wneud, wrth gwrs) o ran gwrthdroi'r shifft ieithyddol oddi wrth y Gymraeg a bod yn rym i ymdrechion i adfer y Gymraeg yn iaith gymunedol mewn ardaloedd cymharol ddi-Gymraeg.

Mae proffil oedran y dysgwyr ar y lefelau uchaf yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â phroffil oedran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg ar lefelau Mynediad ac NVQ 1 lle mae tua 40% ohonynt o dan 40 oed – gw. 1.3.3 eto. Ar lefel Mynediad yn 2008 – 09, y grŵp oedran mwyaf yw 30 – 39 oed. Nodwyd canrannau tebyg ymhlith dysgwyr cyrsiau Wlpan yn y nawdegau gan Morris (2005: 26).

### 7.5.1.4 Ardal magwraeth



Graff 4: Ardal Magwraeth yr ymatebwyr (canrannau)

Diffinnir yr ardaloedd fel hyn:

**Abertawe:** O fewn ffiniau dinas a sir Abertawe fel y mae heddiw. Cynhwysir, felly, drefi fel Pontarddulais neu Gorseinon o dan y diffiniad hwn.

**Merthyr Tudful:** Dim ond y dysgwyr hynny a fagwyd o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

**Morgannwg Ganol:** Pawb a fagwyd yn yr hen sir honno (ar wahân i ardal Merthyr Tudful).

**Gwent:** Cynhwysir yma holl gymunedau'r hen sir Gwent (gan gynnwys yr hyn a elwir heddiw yn Sir Fynwy).

**Castell-nedd / Port Talbot:** Holl diriogaeth y sir ar ei ffurf gyfoes.


**Dinbych/y Fflint:** Mae'r rhain yn cyfateb i'r siroedd cyfoes. Cynhwyswyd Sir Ddinbych gan fod yr holiaduron wedi mynd i ddsbarthiadau yn y Rhyl, Prestatyn a Chanolfan 'Popeth Cymraeg'.

**Gweddill Cymru:** Dyma'r grŵp sy'n cynnwys pawb a fagwyd yng Nghymru ond nad ydynt yn gallu cael eu cynnwys yn un o'r ardaloedd uchod. Dyma'r hyn a nodwyd, er enghraifft, ar gyfer dysgwyr a fagwyd yn ardaloedd Wrecsam neu Gaerdydd.

**Lloegr +:** Yn y bôn, unrhyw ardal magwraeth y tu allan i ffiniau Cymru. Lloegr a nodwyd gan fwyafrif helaeth y dysgwyr a gynhwysir yn y grŵp hwn er ei fod hefyd yn cynnwys y rhai a fagwyd yng ngweddill gwledydd Prydain a thramor.

O holl ddysgwyr y sampl, magwyd dros draean ohonynt yn Lloegr (neu y tu allan i Gymru). Yr oedd dros 60% o'r dysgwyr hyn (61 allan o gyfanswm o 98) yn byw yn siroedd Dinbych a'r Fflint. Gellir gweld hyn fel tystiolaeth fod y rhai sy'n symud i mewn i'r ardaloedd hyn yn awyddus i gymathu a 'pherthyn' i'w cymunedau newydd. Ar y llaw arall, yn enwedig yn Sir y Fflint, mae nifer isel y siaradwyr Cymraeg yno (gw. 2.2 – 14.4% yn ôl Cyfrifiad 2001) yn awgrymu bod mwy o ddysgwyr y cyrsiau Uwch wedi'u magu yn Lloegr nag yn y sir ei hun sydd yn cynnig heriau unigryw i gynllunwyr iaith yno o ran cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg.

### 7.5.1.5 Ardal byw



Graff 5: Ardal byw yr ymatebwyr (canrannau)

Nid oes dim annisgwyl yn y graff uchod ond dylid nodi mai 6 yn unig o'r ymatebwyr sydd yn byw yn ardal bwrdeistref Merthyr Tudful gyda'r lleill sy'n mynychu'r dosbarthiadau yn y dref yn byw y tu allan iddi. Soniwyd eisoes am y ganran uchel o ddysgwyr a fagwyd yn Lloegr sydd yn byw yn ardaloedd Sir Ddinbych a Sir y Fflint. O ran yr ardaloedd eraill, gwelir bod canrannau uchel o'r dysgwyr yn dal i fyw yn yr ardaloedd lle cawsant eu magu:

Abertawe	-	90%
Merthyr Tudful	-	83%
Morgannwg Ganol	-	62%
Gwent	-	71%
Castell-nedd/Port Talbot	-	58%

### 7.5.1.6 Gallu'r teulu i siarad Cymraeg a chlywed Cymraeg yn y teulu/yn yr ysgol pan oedd y dysgwyr yn blant

Holwyd yn fanwl am rieni a rhieni-cu'r dysgwyr a gofyn iddynt farnu eu gallu o ran siarad Cymraeg pan oeddynt yn blant. Nododd 28% ohonynt fod eu teulu'n gallu siarad Cymraeg yn dda neu'n eithaf da gyda 19% ag ychydig o Gymraeg yn unig. Nid oedd 53% yn medru gair o Gymraeg o gwbl.


Dilynwyd y cwestiwn ynglŷn â gallu'r teulu i siarad Cymraeg gan gwestiwn oedd yn holi am faint o Gymraeg yr oedd y dysgwyr yn ei chlywed yn y teulu pan oeddynt yn blant. 2% yn unig a nododd mai'r Gymraeg oedd y brif iaith a glywyd gan y teulu yn ystod eu plentyndod. Ym marn 12% ohonynt, byddent yn clywed tipyn neu ychydig o Gymraeg bob dydd. Cododd hyn i 29% a nodai eu bod weithiau'n clywed y Gymraeg gyda 57% yn dweud nad oeddynt byth yn clywed Cymraeg yn y teulu. Y darlun a geir o ran eu teuluoedd felly yw bod y gallu i siarad, ym marn y dysgwyr, yn uwch na'r hyn yr oeddynt yn ei glywed mewn gwirionedd. Awgryma hyn gefndir goddefol gan chwarter y teuluoedd ond hanner hynny (14%) o ran clywed y Gymraeg yn gyson neu rywfaint yn ddyddiol.

O'i chymharu â'r teulu, mae'r ysgol yn ymddangos yn fwy cynhyrchiol o ran creu cyfleoedd i glywed y Gymraeg ym mhentyndod y dysgwyr. Wrth gwrs, nid oes modd barnu yma a oedd y Gymraeg a glywid yn Gymraeg ar yr iard, yn gyfrwng dysgu, yn gyfrwng gwasanaeth yn unig neu'n ddefnydd 'anffurfiol' gan ambell athro. Eto i gyd, mae'n glir fod y Gymraeg i'w chlywed yn weddol aml yn nyddiau ysgol canran fach o'r dysgwyr gyda 4% yn nodi mai'r Gymraeg oedd prif iaith eu hysgol a 19% yn dweud eu bod yn clywed y Gymraeg yno tipyn neu ychydig bob dydd. Mae canran


uwch yn dweud eu bod wedi arfer clywed y Gymraeg yn yr ysgol weithiau gyda 43% heb glywed dim Cymraeg o gwbl.

### 7.5.1.7 Gallu'r teulu i siarad Cymraeg nawr / defnydd o'r Gymraeg gyda'r teulu nawr

Ymwna'r ddwy adran nesaf â gallu aelodau teuluoedd y dysgwyr o ran y Gymraeg a'u defnydd ohoni gyda'r dysgwyr. Cyfyngwyd 'teulu' yma i bartner, plant ac 'arall' a'r hyn a geir yn y ddau graff isod yw sgôr sy'n gyfanswm o'r hyn a nodwyd ar gyfer pob aelod o'r teulu. Unwaith eto, gofynnwyd i'r dysgwyr eu hunain farnu ynglŷn â gallu aelodau'r teulu yn y Gymraeg a'u defnydd ohoni.



Graff 6: Gallu teuluoedd yr ymatebwyr i siarad Cymraeg (canrannau)



Graff 7: Defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd yn awr (canrannau)

Mae gwahaniaeth rhwng gallu'r teulu i siarad a'u defnydd o'r Gymraeg gyda'r dysgwyr gyda 54% â gallu da neu eitha da neu ychydig o allu yn y Gymraeg. Mae ffigurau defnyddio'r Gymraeg yn disgyn rywfaint i 45% yn siarad llawer iawn, eitha tipyn neu ychydig o Gymraeg. Awgrymir yma fod 16% o deuluoedd y dysgwyr sy'n medru ychydig o Gymraeg yn dewis peidio â'i siarad gyda nhw ond bod 45% yn defnyddio lefelau amrywiol o Gymraeg gyda nhw. Mae hyn yn amlygu ffynhonnell ddefnyddiol iawn o ran sicrhau o leiaf un cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg yn ddyddiol mewn pau bwysig. Yn sicr, mae angen edrych yn fwy manwl ar y posibiladau o ddatblygu strategaethau ieithyddol i (i) gynyddu'r cyswllt â'r Gymraeg oddi mewn i'r teulu a (ii) datblygu'r cyswllt hwnnw fel bod modd i aelodau eraill o'r teulu fod yn gymorth o ran datblygu rhwydweithiau cymdeithasol newydd, y tu allan i'r cartref, trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn fod yn gyfraniad pwysig i

helpu dysgwyr fagu hyder wrth 'groesi'r bont' a chymryd y cam i ymuno â gweithgaredd neu ddigwyddiad yn y Gymraeg maes o law.


### 7.5.1.8 Gwaith

Gofynnwyd i'r dysgwyr nodi eu swydd neu yn achos y rhai oedd wedi ymddeol, eu swydd ddiwethaf. Cynhwyswyd y cwestiwn er mwyn cael bras amcan o ddsbarth cymdeithasol y sampl (yn ôl diffiniad eu swyddi). Perthyn 45% i grwpiau A a B gyda 36% yn aelodau o grwpiau C1 a C2. Dosbarthwyd atebion y dysgwyr fel a ganlyn:

<b>A/B</b>	
Byd addysg	23%
Proffesiynol / rheoli	22%
<b>C1 / C2</b>	
Coler gwyn	26%
Gweithwyr sgîl	10%
<b>D</b>	
Gweithwyr di-sgîl	8%
<b>Gwraig tŷ</b>	1%
<b>Di-waith</b>	1%
<b>Heb ateb</b>	9%


### 7.5.1.9 Addysg a cymwysterau yn y Gymraeg

Ymddengys fod lefel addysg gyffredinol y dysgwyr yn uchel iawn ar y cyfan gyda 58% yn nodi 'gradd neu uwch' fel lefel uchaf yr addysg a gawsant. 4% yn unig a nododd nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau o gwbl:



Graff 8: Lefel uchaf yr addysg a gafodd ymatebwyr (canrannau)

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn nesaf am y cymhwyster uchaf oedd ganddynt yn y Gymraeg, y grŵp mwyaf oedd y 31% sydd wedi llwyddo yn arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd:




Graff 9: Cymhwyster uchaf yr ymatebwyr yn y Gymraeg (canrannau)

Wrth reswm, nid yw hyn yn peri syndod mawr gan fod mwyafrif helaeth y dysgwyr a gwblhaodd yr holiaduron yn astudio mewn dosbarth sydd yn gweithio tuag at lefel DG: Uwch (gw. 2.3.3). Mae 16.5% ohonynt eisoes wedi cyrraedd y lefel honno neu'n uwch ac mae'r darlun a geir yma o sgiliau iaith y dysgwyr yn y sampl yn bwysig o ran ystyried yr adnoddau ieithyddol sydd ganddynt wrth iddynt geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg a mynychu digwyddiadau trwy gyfrwng yr iaith. Yr un mor arwyddocaol o'r safbwynt hwnnw yw'r ffaith nad oes gan 17% ohonynt unrhyw gymwysterau yn y Gymraeg o gwbl (er gwaethaf holl bwyslais y system gyllido ar ennill credydau a chymwysterau) ac 16% heb ennill cymhwyster uwch na lefel Mynediad neu Sylfaen. Awgrymir yma fod rhychwant eithaf eang o gymwysterau yn y Gymraeg gan ddysgwyr y dosbarthiadau dan sylw a allai ynddo ei hun gynnig her ar adegau i diwtoriaid o ran sicrhau bod disgwyladau a gallu eu dysgwyr yn cydweddu bob amser â'r hyn a nodir ar gyfer lefel briodol y dosbarthiadau hynny.

## 7.5.2 Cyrsiau a fynyichir

### 7.5.2.1 Dosbarth Cymraeg cyntaf fel oedolyn / Cyfnod dysgu

Cafwyd gwybodaeth ddiddorol a dadlennol yma, sef fod 62% o'r dysgwyr wedi dechrau dysgu mewn dosbarth unwaith yr wythnos, fel rhan o'r ddarpariaeth ddarnynnol. Ychydig dros chwarter y dysgwyr a ddechreuodd mewn dosbarth Wlpan neu Fynediad Dwys a'r 11% sy'n weddill naill ai wedi dechrau yn y gweithle neu mewn dosbarth arall (e.e. dros y we, cwrs gohebol ac ati).



Graff 10: Dosbarth Cymraeg cyntaf yr ymatebwyr (canrannau)



Wrth reswm, mae'n ddigon posibl fod rhai wedi dechrau ar gwrs unwaith yr wythnos ac yna newid i gwrs mwy dwys maes o law er nad yw'r cwestiwn nesaf, sy'n holi ynghylch sawl blwyddyn y maent yn dysgu Cymraeg fel oedolyn gyda 73% yn nodi pum mlynedd neu fwy, yn awgrymu hynny. Y mae goblygiadau o ran oriau cyswllt yma, hynny yw faint o oriau cyswllt mae'r dysgwyr wedi eu derbyn cyn cyrraedd un o'r cyrsiau uwch. Gwelwyd eisoes fod y cymwysterau uchaf sydd gan y dysgwyr yn y Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ac awgrymir hefyd y gall fod gwahaniaeth nid ansylweddol rhwng yr oriau cyswllt – a chyfnod yr oriau cyswllt (hynny yw, a lwyddwyd i gyflawni'r oriau cyswllt mewn cyfnod o flwyddyn neu dair blynedd?). O dan Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop, disgwylid y byddai dysgwyr sy'n dilyn y llwybr dwys wedi cwblhau 360 awr (gydag oriau ychwanegol mewn Sadyrnau Siarad, cyrsiau penwythnos ac ati) o fewn tair blynedd. Gyda dysgwyr sy'n dilyn y llwybr darnynnol, disgwylid iddynt gwblhau'r 360 awr o fewn chwe blynedd cyn symud ymlaen i gwrs uwch. Felly, mae'r ffigurau o ran cyfnod dysgu yn awgrymu bod y ganran dosbarth wythnosol wedi para ac nad yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi mynychu cyrsiau dwys. Cyfanswm o 15% ohonynt oedd wedi bod yn dysgu am hyd at dair blynedd, gyda 12% ar ben hynny yn nodi 4 blynedd.

#### 7.5.2.2 Cwrs a ddilynir ar hyn o bryd

Nodir yn 2.3.5 y dosbarthiadau a dderbyniodd ac a gwblhaodd yr holiadur felly nid yw'n syndod fod 96% o'r dysgwyr wedi nodi eu bod yn dilyn cwrs hyfedredd (6%), cwrs uwch (66%) neu gwrs Siawns am Sgwrs / Magu Hyder / Trafod Uwch (24%). Canolradd neu "arall" oedd cyrsiau'r 4% sy'n weddill.

#### 7.5.2.3 Man cynnal y dosbarth

Geiriwyd y cwestiwn fel y byddai'r dysgwyr yn rhoi **enw**'r ysgol, coleg neu'r Ganolfan Gymraeg lle mae eu dosbarth Cymraeg yn cael ei gynnal. Ar sail yr atebion hynny, dosbarthwyd pob un i'r categorïau canlynol:

<b>Canolfan Gymraeg / Iaith</b> (e.e. Tŷ Tawe, Canolfan Merthyr, Popeth Cymraeg)	<b>22%</b>
<b>Coleg / Ysgol</b> (e.e. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Coleg Merthyr)	<b>8%</b>
<b>Cymunedol</b> (e.e. neuaddau cymunedol, Tŷ Pendre)	<b>66%</b>
<b>Arall</b> (e.e. llyfrgell)	<b>4%</b>

At ddiben y cwestiwn hwn ystyr Canolfan Iaith yw canolfan lle mae'r dysgwyr yn derbyn dosbarthiadau ac yn gallu disgwyl yn rhesymol i bawb sydd yn ymwneud â'r lle allu siarad Cymraeg (ac yn ei defnyddio). O dderbyn cefndir ieithyddol yr ardaloedd dan sylw yn yr ymchwil hon, ni ellid disgwyl y bydd pawb yn y manau cynnal eraill yn medru'r Gymraeg (er y gall hynny fod yn wir i raddau mewn rhai ohonynt). Mae 78% o'r dysgwyr yn derbyn eu dosbarthiadau mewn llefydd felly ac fel canlyniad, ar wahân i awyrgylch y dosbarth ei hun lle byddai'r tiwtor yn ei gynnal yn y Gymraeg, y tebyg yw y byddai angen troi i'r Saesneg. Nid yw'r dysgwyr ar y cyfan yn debygol o dreulio llawer o'u hamser yn ymwneud â gweithgareddau eraill yn y lleoliadau hyn o angenrheidrwydd ond gall y dysgwyr sydd yn mynychu dosbarthiadau mewn Canolfan Gymraeg neu ganolfan iaith fod yn hyderus y bydd unrhyw un arall yn y llefydd hynny yn gallu siarad Cymraeg. Mae hon yn ystyriaeth bwysig o ran creu awyrgylch/ethos Cymraeg a rhoi hyder i'r dysgwyr y bydd pobl eraill yn eu deall pan fyddant yn defnyddio'r Gymraeg â nhw.

### 7.5.3 Cymhelliant

Mae Morris (2005), Reynolds (2004) ac eraill wedi edrych ar gymhellion oedolion sy'n dysgu Cymraeg a nodi casgliad tebyg, sef bod '*...cysylltiad gweddol amlwg rhwng cymhelliant a llwyddo*' (Morris, 2005: 162). Canfu Morris fod dysgwyr â chymhellion integreiddiol yn tueddu i ddefnyddio mwy o Gymraeg na dysgwyr â chymhellion offerynnol (2005: 162). Felly, gan fod y gyd-ddibyniaeth dybiedig rhwng cymhelliant a defnyddio'r Gymraeg yn bwysig, cynhwyswyd adran benodol yn yr holiadur yn holi am resymau'r dysgwyr dros ddysgu neu ymddiddori yn y Gymraeg ynghyd â lleoliad y dosbarth, y math o gwrs a ddilynir, y cyfnod astudio blaenorol ac amllder mynychu Canolfan Gymraeg. [Trafodwyd cymhelliant yn adran 4.3 pan edrychir arno o safbwynt yr wybodaeth a gafwyd yn y grwpiau ffocws].

**7.5.3.1** Fel arfer, nid un cymhelliant yn unig sy'n gyrru dysgwyr ymlaen wrth iddynt symud o gwrs i gwrs ac mae profi llwyddiant yn gallu golygu bod cymhellion dysgwyr yn newid neu'n cael eu haddasu ar hyd y daith. Noda Evas (1999: 292) nad yw'n beth anghyffredin i ddysgwyr ddatgan bod ganddynt fwy nag un (neu fwy) o gymhellion wrth ddysgu'r Gymraeg. Ategir hyn gan Newcombe (2007: 107). Ar sail y dystiolaeth hon, gofynnwyd i'r dysgwyr ddewis o blith wyth cymhelliant cyffredin gan roi rhwydd hynnt iddynt nodi unrhyw nifer ohonynt.

#### 7.5.3.1.1 Plant

Mae Fishman (1991) a Gruffudd (1995) wedi dangos pa mor bwysig yw trosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau i barhad unrhyw iaith lai ei defnydd fel y Gymraeg. O ystyried proffil oedran dysgwyr y sampl (gw. 7.5.1.3), ni ragwelid y byddai plant yn gymhelliant cynhyrchiol iawn ond nododd tua chwarter ohonynt (24%) fod y cymhelliant hwn yn berthnasol iddynt. I'r teuluoedd hynny lle mae'r plant yn ddigon ifanc, mae'n hanfodol gwneud pob ymdrech posibl i annog y dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'u plant. Hyd yn oed pan fydd plant y dysgwyr wedi troi'n oedolion, mae potensial cyfraniad y dysgwyr hyn fel rhieni cu wrth arddel y Gymraeg â'u hwyrion yn sylweddol. Dylai unrhyw strategaeth sy'n edrych ar sut i greu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg roi sylw penodol i'r posibiladau o ran newid iaith cyfathrebu rhieni / rhieni cu â'r plant / wyron.

#### 7.5.3.1.2 Siarad â phobl yn eich ardal

Roedd y cymhelliant integreiddiol hwn yn boblogaidd iawn gydag ychydig o dan hanner y dysgwyr (48%) yn ei nodi. O ystyried nifer y siaradwyr posibl ym mhob un o'r ardaloedd dan sylw, gall y cymhelliant hwn beri rhywfaint o syndod. Gall awgrymu bod y dysgwyr wedi goramcangyfrif faint o siaradwyr Cymraeg a geir mewn gwirionedd yn yr ardaloedd lle maent yn byw. Yn sicr, mae'n arwydd bendant o ewyllys y dysgwyr i fod yn rhan o'r 'gymuned Gymraeg' (beth bynnag eu diffiniad o'r 'gymuned Gymraeg' yn eu hardaloedd nhw) sydd o'u cwmpas. Dyma, o bosibl, her fawr yr ymchwil hon, sef sut y mae modd asio'r awydd yma i integreiddio'n ieithyddol â 'phobl eu hardal' â realiti sefyllfa ieithyddol yr ardaloedd dan sylw. Gellid dadlau nad yw canfyddiad y dysgwyr o'r Gymraeg a ddefnyddir o'u cwmpas yn cyd-fynd â'r hyn a geir mewn gwirionedd.

#### 7.5.3.1.3 Aelodau eraill o'r teulu

Ceir yma ganran sydd ychydig yn uwch na 7.5.3.1.1 (Plant), sef 27%. Gwelwyd bod gan 54% o deuluoedd y dysgwyr rywfaint o allu i siarad Cymraeg a 45% ohonynt yn siarad llawer iawn, eitha tipyn neu ychydig o Gymraeg. Mae yma dystiolaeth bellach i ategu'r angen am strategaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg oddi mewn i deuluoedd. Bydd angen i unrhyw strategaeth edrych ar sut i gynorthwyo'r dysgwyr i droi'r cymhelliant hwn yn realiti a'u helpu nhw (a siaradwyr Cymraeg eraill yn y teulu) i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd yn gyson.

#### **7.5.3.1.4 Deall y radio / y teledu**

Dyma'r cymhelliant cyntaf a nodwyd gan dros hanner y dysgwyr (56% ohonynt). Trafodir y cyfryngau'n gyffredinol yn 3.4. Yr hyn sy'n amlwg yma yw bod y radio a'r teledu yn gymhelliant arwyddocaol i nifer sylweddol o ddysgwyr, nodweddd sydd wedi datblygu wrth i S4C a Radio Cymru'n benodol ddod yn fwy amlwg fel peuoedd creiddiol i'r Gymraeg (nodir hyn gan Newcombe, 2007, 92).

#### **7.5.3.1.5 Darllen llyfrau / papurau**

Nid oedd hwn mor boblogaidd â 7.5.3.1.4 er bod 43% wedi ei nodi. Eto, edrychir yn fwy manwl ar hyn yn 3.4. Mae 7.5.3.1.4 a 7.5.3.1.5 yn gymhellion sydd yn eu hanfod yn fwy 'goddefol', hynny yw nid oes angen defnyddio'r iaith wyneb yn wyneb â siaradwyr eraill. Mae'r radio a'r teledu yn fwy 'hygyrch' a'r dysgwyr yn fwy ymwybodol ohonynt o bosib na llyfrau a phapurau Cymraeg. Disgwylid y byddai'r cymhelliant i ddarllen llyfrau a phapurau yn cynyddu wrth i'r dysgwyr wneud cynnydd ar y cyrsiau i'r lefelau uchaf lle mae mwy o bwyslais ar ddarllen y fath ddeunyddiau.

#### **7.5.3.1.6 Byw yng Nghymru**

Nododd 72% o'r dysgwyr y cymhelliant hwn ac mae hyn yn gyson ag astudiaethau eraill ar gymhelliant yn y Gymraeg (Morris, 2005; Reynolds, 2004). Mae'r cymhelliant hwn yn cynnwys y cysniad cyffredinol o fyw yng Nghymru a theimlo, felly, y dylent siarad Cymraeg. Gellid dadlau ei fod yn ymwneud i ryw raddau ag identiti a syniad nifer o'r dysgwyr o'r hyn a olyga bod yn ddinesydd Cymreig yn yr unfed ganrif ar hugain. Eto i gyd, o'i gymharu â chymhellion eraill, dyma'r un mwyaf heriol o ran dyfeisio strategaethau i'w drosglwyddo yn ddefnydd o'r iaith yn y gymuned. Mae modd bodloni'r ymdeimlad o ddyletswydd i siarad Cymraeg achos 'ein bod yn byw yng Nghymru' trwy feithrin y gallu yn yr iaith heb feithrin yr arfer o'i defnyddio o angenrheidrwydd.

#### **7.5.3.1.7 Helpu gyda gwaith**


Gwelwyd eisoes fod proffil oedran y dysgwyr yn awgrymu bod llawer ohonynt wedi ymddeol a gellid rhagdybio felly na fyddai'r cymhelliant offerynnol hwn yn denu fawr o ymateb. Eto i gyd, fe'i dewiswyd gan 27% o'r sampl sydd yn awgrymu naill ai fod rhai wedi mynd ati i ddysgu'r Gymraeg yn wreiddiol er mwyn eu helpu yn y gwaith neu fod rhai wrthi'n dysgu nawr am resymau sydd yn ymwneud â'u galwedigaeth. Gwelwyd enghreifftiau o hynny yn ystod y grwpiau ffocws. Nid yw mynnu bod gweithwyr yn dysgu'r Gymraeg yn y gweithle o angenrheidrwydd yn eu troi'n siaradwyr Cymraeg gweithredol yn y cymunedau lle maent yn byw, wrth gwrs, a nodwyd mewn astudiaethau eraill (e.e. Newcombe, 2007: 102 - 106) fod y cymhelliant offerynnol heb fawr o gymhelliant integreiddiol yn gallu golygu diffyg defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r gweithle. Hyd yn oed yn y gweithle, gwelir bod dysgwyr yn petruso wrth ddefnyddio eu Cymraeg rhag ofn iddynt wneud camgymeriad a all ddylanwadu ar eu heffeithiolrwydd a'u gallu i gyfathrebu'n glir yno.

#### **7.5.3.1.8 Trafod gyda chwsmeriaid**

Wrth gwrs, dyma un o nodau amlwg Cymraeg yn y gweithle ac mae'n gymhelliant offerynnol arall. Dim ond 12% o'r sampl a nododd y cymhelliant hwn, tua hanner y rhai a nododd 7.5.3.1.7 uchod. Mae'n bosibl fod hwn yn golygu bod angen edrych ar 7.5.3.1.7 ychydig yn wahanol gan fod y cymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg yn y rhyngwyneb rhwng cwsmer a gweithiwr mor isel. Gall awgrymu bod rhai o leiaf yn gweld bod dysgu Cymraeg yn helpu yn y gwaith gan ei fod yn cael ei ystyried yn sgil ychwanegol (nad oes o angenrheidrwydd disgwyl iddynt ei ddefnyddio).

### 7.5.3.1.9 Y prif reswm dros ddysgu'r Gymraeg

Yma, gofynnwyd i'r dysgwyr ddewis un o'r cymhellion yn unig a'i nodi fel eu prif gymhelliant. Ni chafwyd ateb gan 26 (8%) o'r dysgwyr felly mae'r graff isod yn nodi canrannau'r 92% a ymatebodd:



Graff 11: Prif reswm ymatebwyr dros ddysgu'r Gymraeg (canrannau)

Ar y cyfan, mae'r cymhellion yma'n adlewyrchu'r hyn a gafwyd yn 7.5.3.1.1 – 8. Penderfynwyd cynnwys elfen ychwanegol, sef 'byw yn yr ardal' a chyfuno radio/teledu a llyfrau/papurau yn ogystal â nodi 'helpu gyda'r gwaith' a 'thrafod gyda chwsmeriaid' gyda'i gilydd. Dengys y graff nad oedd y dewis ychwanegol hwn yn rhy gynhyrchiol. Pan nodwyd 'arall', gofynnwyd i'r dysgwyr ymhelaethu a dyma'r atebion a gafwyd:

*Deall hanes y teulu  
Mae amser 'da fi nawr  
Diddordeb  
Sialens  
Diwylliant Cymraeg  
Capel Cymraeg  
Deall Cymraeg*

Unwaith eto, dangosir yn glir yn y graff mai 'Byw yng Nghymru' yw'r cymhelliant mwyaf a nodir gan 37%. Yr ail gymhelliant mwyaf gyda 17% oedd 'Siarad â phobl yr ardal' a ddilynwyd gan yr 11% a nododd 'Arall'. Yn agos iawn wedyn, 'Plant' a nodwyd gan ychydig mwy na 10%. Nodwyd eisoes fod hyn yn arwyddocaol iawn o ran trosglwyddo iaith o fewn y teulu ac awgrymir yma fod y cymhelliant hwn yn gryfach na'r cymhelliant i siarad Cymraeg ag aelodau eraill o'r teulu (7%), er bod y ganran yn 7.3.1.3 ychydig yn uwch na chanran 7.3.1.1. Yn sicr, mae angen rhoi ystyriaeth ddigonol i gymhellion dysgwyr wrth lunio strategaethau i gynyddu eu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn cymunedau lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith gymunedol er mwyn bod yn siŵr fod y strategaethau hynny'n cynnig canlyniad fydd yn bodloni'r cymhellion hynny.

## 7.5.4 Cyfleoedd

### 7.5.4.1 Cefndir

Mae'n gydnabyddedig ei bod hi'n anodd i oedolion sy'n dysgu iaith ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i allu ei defnyddio'n hyderus ym mhob sefyllfa.

Un anghenraid yw rhoi i ddysgwyr oriau cyswllt digonol â'r iaith. Gwnaed hyn yng Ngwlad y Basgiaid trwy gynnig cyrsiau dwys 1,500 o oriau i athrawon; yng Nghymru mae cyrsiau Wlpan/Mynediad Dwys yn cynnig o gwmpas 120 o oriau a chysiau pellach yn gallu cynnig rhwng 20 a 50 o oriau'r flwyddyn.

Nid yw oriau cyswllt dosbarthiadau Cymraeg yn debygol o fod yn ddigonol i roi sgiliau ieithyddol digonol i ddysgwyr i allu defnyddio'r iaith yn rhwydd. Gellir gwneud iawn am hyn i raddau trwy sicrhau bod dysgwyr yn datblygu cyswllt digonol â'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Mae dysgwyr Cymraeg yn wynebu problemau sylfaenol, felly. Nodwyd hyn gan Lynda Pritchard Newcombe sy'n ymdrin â'r angen am amser a chyswllt cyson (Newcombe, 2007: 84) a hefyd â diffyg hyder dysgwyr, a methiant siaradwyr Cymraeg yn aml i ymwneud â dysgwyr yn y Gymraeg. (2007: 40)

Mae Newcombe yn nodi bod dysgwyr yng Nghymru'n cael eu camarwain ynglŷn â rhwyddineb honedig dysgu'r iaith. Dywed, "Extravagant claims by publishers and titles... mean that learners become daunted early in the language learning process when experience does not correspond to expectations." (2007: 40)

Gellir ehangu'r honiad hwn at gyrsiau i oedolion, nad ydynt, hyd yn oed ar ôl tair neu bedair blynedd o ddysgu, yn dod yn agos at yr oriau cyswllt angenrheidiol i ddatblygu sgiliau llawn.

Medd Newcombe, "The realisation of the time and hard work required to make progress may well play a critical role in decisions to drop out from classes." (2007: 84)

Yn sgil y cyfyngiadau hyn, mae'r angen am lunio strategaethau ar gyfer cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol. Mae natur ieithyddol y rhan fwyaf o gymunedau lle y mae dysgwyr yn mynychu gwersi, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru, yn golygu na all y dysgwyr obeithio defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn ei gymuned.

Mae datblygu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg yn rhan o strategaeth a argymhellir gan Newcombe: "Learners need to ... find ... a person or an interest such as a choir, a sports club, a church, or a public house where Welsh can be practised." (2007: 86)

Byddai cryfhau rhwydweithiau o'r fath yn rhoi i ddysgwyr yr oriau cyswllt angenrheidiol, a hefyd yn fodd o'u cyflwyno i'r byd Cymraeg.

Sylweddolwyd pwysigrwydd hyn ers meitin yng Ngwlad y Basgiaid. Yn y pedair talaith sydd yn rhan o wladwriaeth Sbaen, ceir 214 o ganolfannau dysgu Basgeg, ac yn 2007-8, roedd ganddynt 73,599 o fyfyrwyr.<sup>28</sup>

Mae'r canolfannau hyn yn amrywiol eu lleoliad a'u trefniadaeth. Maent yn cynnwys rhai a drefnir yn gyhoeddus ac eraill yn rhai preifat a ddefnyddir gan wahanol sefydliadau. Mae rhai mewn mannau poblog, ac yn cynnig cyfleusterau cymdeithasol yn ogystal â chyfleusterau dysgu.

---

<sup>28</sup> Manylion gan Eustat. <http://www.eustat.es/elementos/ele0000400/...> Cyrchwyd 20 Hydref 2009.

Nid yw Cymru eto wedi datblygu rhwydwaith o ganolfannau o'r fath. Nid yw un awdurdod lleol wedi mynd ati i sefydlu canolfan benodol i'r Gymraeg, er bod Dinbych wedi darparu adeilad ar gyfer Popeth Cymraeg, Dinbych.

Yn Abertawe, sefydlwyd cymdeithas o unigolion cyn sefydlu Canolfan Gymraeg, a oedd â'r nod o fod yn gyrchfan i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg, gan ddarparu cyfleusterau dysgu, adloniant a siop Gymraeg.

Ym Merthyr aed ati i sefydlu Canolfan yng nghanol y dref a fyddai'n darparu cyfleusterau dysgu ac adloniant Cymraeg.

Ar wahân i'r ymdrechion hyn, cafwyd mentrau eraill mewn gwahanol drefi yn ystod y chwarter canrif diwethaf (gweler 2.5 ac Atodiad 7.4). Sefydlwyd clwb Cymraeg yng Nghaerdydd, Pontypridd a Brynmenyn, lle bu'r pwyslais ar adloniant yn hytrach na dysgu Cymraeg.

Bydd y rhan hon o'r ymchwil yn ceisio mesur llwyddiant gwahanol ardaloedd i roi cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg newydd i ddysgwyr, ac yn mesur yr un pryd y dylanwad a gafodd y Canolfannau Cymraeg wrth ddarparu pwynt cyswllt i ddysgwyr â'r iaith.

#### **7.5.4.2 Ystyriaethau**

Mae sawl ystyriaeth waelodol wrth ystyried cyfleoedd sydd gan ddysgwyr i siarad yr iaith. Mae'r rhain yn ymwneud â'u cefndir teuluol, iaith eu hardal, eu swydd, eu hoed, eu natur hwy eu hunain (e.e. allblyg / mewnblyg), y modd yr ânt ati i ddal ar gyfleoedd, a chyfleoedd sydd ar gael iddynt yn hwylus.


Holwyd dysgwyr yn benodol am eu defnydd o'r Gymraeg gartref, yn eu hardaloedd, mewn mannau cymdeithasu, gan gynnwys y dafarn a'r capel, mewn digwyddiadau, Canolfannau Cymraeg, dosbarthiadau, ac mewn gweithgareddau a drefnir i ddysgwyr fel cyfarfodydd CYD a sesiynau siarad.

#### **7.5.5 Amllder defnyddio'r Gymraeg**

Yn ôl ymateb y dysgwyr, roedd chwarter ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, a hanner arall yn defnyddio'r Gymraeg 'sawl gwaith' yr wythnos. Nid oedd chwarter y dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Wrth ofyn i ddysgwyr pa mor aml roeddent yn defnyddio'r iaith, roedd disgwyl iddynt gynnwys mynychu dosbarthiadau wythnosol yn eu hateb. Pe byddai'r ateb yn nodi mai unwaith yr wythnos y byddent yn defnyddio'r iaith, byddai modd dweud nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.


## Amllder defnyddio'r Gymraeg ymysg ymatebwyr (niferoedd)



Graff 12: Amllder Defnyddio'r Gymraeg ymysg ymatebwyr (niferoedd)

Ni welwyd yn arwynebol yn y rhan hon o'r gwaith fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amllder defnyddio'r Gymraeg ac amllder mynychu Canolfan Gymraeg. Roedd 35% yn mynychu Canolfan Gymraeg o leiaf un waith yr wythnos, ond roedd y duedd i siarad Cymraeg yn ddyddiol, neu i beidio â'i siarad yn ddyddiol, yn amlwg yn dibynnu ar ffactorau eraill. Wrth holi'n fwy manwl yn nes ymlaen, fel y gwelir isod, cafwyd bod y rhai a oedd yn mynychu Canolfan Gymraeg yn gwneud hynny ddwy waith yn fwy aml na rhai a fyddai'n defnyddio'r Gymraeg mewn mannau eraill, ar wahân i rai a oedd â siaradwyr Cymraeg yn y teulu. Rheswm bodolaeth Canolfan Gymraeg yw rhoi cyfle i rai mewn ardaloedd Seisnigedig i ddefnyddio'r Gymraeg, felly ni fyddai disgwyl bod dysgwyr sy'n byw mewn sefyllfa o'r fath yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

## Amllder defnyddio'r Gymraeg yn ôl amllder mynychu Canolfan Gymraeg (niferoedd)




Graff 13: Amllder defnyddio'r Gymraeg ymysg ymatebwyr yn ôl amllder mynychu Canolfan Gymraeg (niferoedd)

### 7.5.5.1 Mynychu Canolfan Gymraeg

Wrth gyflwyno'r cwestiwn hwn yn yr holiadur, diffiniwyd yr hyn a olygwyd wrth 'Ganolfan Gymraeg / canolfan iaith' yn ddigon clir trwy roi enghreifftiau ohonynt:

*Ydych chi'n mynd i Ganolfan Iaith, e.e. Tŷ Tawe, Canolfan Merthyr neu Bopeth Cymraeg Dinbych (am unrhyw reswm)?*

Serch hynny, un anhawster wrth ddehongli hyn yw canfyddiad y dysgwyr o'r hyn yw Canolfan Gymraeg / Canolfan Iaith. Gall olygu, iddyn nhw, ganolfan dysgu Cymraeg, fel yr Wyddgrug, lle mae Pendre yn gwasanaethu'n ganolfan hynod effeithiol i gynnal dosbarthiadau Cymraeg, ond lle nad oes modd cynnal gweithgareddau Cymraeg ynddo. Mae hyn yn wir hefyd am Ddinbych. Ym Merthyr mae Canolfan Gymraeg wedi datblygu sy'n cynnig siop Gymraeg a man cynnal gweithgareddau, ac yn Abertawe mae'r Ganolfan Gymraeg yn cynnig lle i ddosbarthiadau, siop Gymraeg, caffe a neuadd ddigwyddiadau. Mae'n rhaid ystyried pob un o'r modelau hyn wrth geisio dehongli'r canlyniadau isod.



Graff 14: Amllder mynychu Canolfan Gymraeg (canrannau)


O ran y defnydd o Canolfannau Cymraeg / canolfannau iaith, mae'n galonogol fod 32% o'r dysgwyr yn mynd i un o'r rhain o leiaf unwaith neu'n fwy yr wythnos. Dylid cofio bod hyn yn cynnwys y dysgwyr hynny sy'n mynychu dosbarthiadau mewn Canolfan Gymraeg. Ar y llaw arall, y dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau mewn Canolfannau Cymraeg yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fynd iddynt yn fwy aml (27% ohonynt). Nid yw 36% o'r dysgwyr byth yn mynd i unrhyw ganolfan o'r fath, ac anaml y mae 25% arall yn mynd i un. Nid yw hynny'n ormod o syndod o ystyried nad oes Canolfan Gymraeg o fewn cyrraedd hwylus i nifer ohonynt.

Gan fod y mwyafrif o'r dysgwyr yn byw y tu allan i ardal Canolfan Gymraeg, roedd disgwyl mai lleiafrif fyddai'n mynychu canolfan o'r fath.

Roedd 10% yn mynychu o leiaf ddwy waith yr wythnos, a 25% arall yn mynychu unwaith yr wythnos.



## Amllder mynychu Canolfan Gymraeg yn ôl ardal (niferoedd)



Graff 15: Amllder mynychu Canolfan Gymraeg yn ôl ardaloedd (niferoedd)

O blith dysgwyr Abertawe, roedd 18% (14) yn mynychu Canolfan Gymraeg o leiaf ddwy waith yr wythnos, ac 18% arall (14) yn mynychu unwaith yr wythnos. Doedd 15% (12) byth yn mynychu Canolfan Gymraeg.

Roedd ardaloedd eraill yn amrywio, gyda 15% (8) o ddysgwyr Dinbych yn dweud eu bod yn mynychu Canolfan Gymraeg o leiaf ddwy waith yr wythnos a 36% (19) arall yn dweud eu bod yn mynychu unwaith yr wythnos. Yma doedd 36% (19) byth yn mynychu. O blith dysgwyr yr hen sir y Fflint roedd 27% (16) yn mynychu Canolfan Gymraeg o leiaf unwaith yr wythnos. Doedd 57% (34) byth yn mynychu.

Yn achos Dinbych a Fflint mae angen bod yn wiliadwrus gyda'r niferoedd. Gan nad oes yn y manau hyn Ganolfan Gymraeg sy'n cynnig cyfleusterau cymdeithasu, mae'n amlwg bod yr ymatebwyr cadarnhaol yn ystyried bod eu canolfan ddysgu'n Ganolfan Iaith. Roedd yn y Fflint ymwybyddiaeth bod angen Canolfan Gymraeg yn cynnig cyfleusterau cymdeithasu, ac mae hyn yn egluro pam roedd canran sylweddol ohonynt yn ystyried nad oeddynt yn mynychu Canolfan Gymraeg.

Gellir dehongli ymatebion cadarnhaol mewn manau heb Ganolfannau Cymraeg fel dyhead gan ddysgwyr i berthyn i ganolfan benodol, o ba fath bynnag, oedd yn rhoi cartref Cymraeg iddynt.

Ar y llaw arall, mae'n ymddangos, fel y gwelwn yn nes ymlaen, nad yw dysgwyr ar y cyfan yn debygol o deithio ymhell i fynychu na chanolfan na digwyddiad.

O blith y rhai a ddywedodd eu bod yn mynd i Ganolfan Gymraeg, dywedodd 59 (43%) eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yno, ac roedd 48 (35%) arall yn ei defnyddio yno 'weithiau'. Ni fyddai 29 (9%) yn defnyddio Cymraeg yno.

Mewn mesur arall o amllder mynychu Canolfan Gymraeg, dywedodd 78 (26%) eu bod yn mynychu'n wythnosol, 3 (1%) eu bod yn mynychu bob pythefnos, a 5 (2%) eu bod yn mynychu'n fisol. Roedd y ganran a oedd yn mynychu'n wythnosol yn

sylweddol uwch na nifer oedd yn mynychu digwyddiadau eraill yn wythnosol, neu'n defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal yn wythnosol.

Maes o law, fe ystyrir yn benodol brofiadau rhai yn Abertawe, yn ddysgwyr oedd yn mynychu'r Ganolfan Gymraeg a rhai nad oedd yn gwneud hynny.

#### **7.5.5.2 Cyfle i siarad Cymraeg yn y cartref**

Holwyd y dysgwyr a oedd ganddyn nhw gyfle i siarad Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Un nod yr holi oedd cael darlun yn y lle cyntaf o amgylchedd ieithyddol y dysgwyr yn y gwahanol ardaloedd, a'r ail nod oedd cymharu hyn wedyn â'r iaith y byddai'r dysgwyr yn ei defnyddio yn y sefyllfaoedd hyn.

Roedd 112 (37%) yn dweud bod partner yn eu cartref yn siarad Cymraeg. Roedd gan 65 (23%) bartner a oedd yn siarad Cymraeg o leiaf yn 'eitha da'. Roedd gan 58 (22%) blentyn a oedd yn siarad Cymraeg yn 'eitha da'. Yn y ganran o 37% gellir disgwyl bod gwahanol lefelau o siarad Cymraeg. Yn gyffredinol roedd gan 28% deuluoedd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 'eitha da'.

Meddai 51 (23%) eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson, ac roedd 107 (48%) yn siarad Cymraeg 'weithiau'. Doedd 63 (28%) byth yn siarad Cymraeg gartref.


Mae'r patrwm hwn yn cyfateb i ryw raddau i ganlyniadau a gafwyd yn arolwg Bwrdd yr Iaith Gymraeg o arferion ieithyddol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2008: 20). Yno gwelwyd bod 50% o siaradwyr Cymraeg yn siarad y Saesneg bron bob amser neu bob amser gartref os mai rhai'n unig oedd yn siarad Cymraeg yno.

Wrth gymharu'r defnydd o'r Gymraeg gartref â gallu aelodau'r teulu i siarad yr iaith, gwelwyd bod cysylltiad clir rhwng gallu ac arfer, er bod rhai'n honni eu bod yn siarad Cymraeg yn gyson er nad oedd neb yn y teulu'n siarad Cymraeg. Mae'n rhaid priodoli hyn i fethiant i adlewyrchu eu hymddygiad ieithyddol gwirioneddol, ac i ddehongliad y dysgwyr o 'weithiau' a 'chyson'.

Lle roedd gallu aelodau'r teulu'n dda neu'n eitha da, roedd bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau.

Mae'n glir bod cael aelodau teulu sy'n siarad Cymraeg yn rhoi cyfleoedd cadarnhaol a chyson i ddysgwyr siarad yr iaith. O gysylltu hyn ag awydd cyfran helaeth o'r dysgwyr i ddysgu'r Gymraeg am resymau hunaniaeth a diwylliannol neu integreiddiol, mae angen rhoi sylw penodol i rôl y teulu ym maes dysgu Cymraeg i Oedolion, gan fod y teulu'n gallu rhoi cyswllt ieithyddol yn gyson ac yn gymharol ddiffwdan i ddysgwyr. Byddai cynnig cyrsiau byr i bartneriaid Cymraeg ar y ffordd orau o fynd ati i newid iaith y cartref yn werthfawr.

## Niferoedd yn defnyddio'r Gymraeg gartref, yn ôl gallu'r teulu i siarad Cymraeg



Graff 16: Amllder defnyddio'r Gymraeg gartref yn ôl gallu'r teulu i siarad Cymraeg (niferoedd)

### 7.5.5.3 Cyfle i siarad Cymraeg yn yr ardal


Roedd gan 171 (62%) o'r dysgwyr gyfle i siarad Cymraeg i ryw raddau yn eu hardal. Roedd hyn yn amrywio i ryw raddau yn ôl ardal, ond gan fod ardaloedd yr astudiaeth yn rhai Seisnigedig ar y cyfan, mae'n bosibl bod yr amrywiad yn yr arferion a welwyd yn dibynnu ar fod dysgwyr yn byw mewn pocedi mwy Cymraeg na'i gilydd yn eu cymdogaeth.

Ardal	Canran
Gweddill Cymru	75%
Dinbych	74%
Castell-nedd	73%
Merthyr	67%
Fflint	58%
Abertawe	57%
Gwent	54%
Morgannwg Ganol	53%

Tabl 8: Cyfle i siarad Cymraeg yn ôl ardal (canrannau)

Yn gyffredinol, roedd gan y mwyafrif o ddysgwyr ym mhob ardal gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd.

### Cyfle i siarad Cymraeg yn yr ardal (niferoedd)



Graff 17: Cyfle i siarad Cymraeg yn yr ardal, yn ôl ardal (niferoedd)

Mae'n ganfyddiad gweddol gadarnhaol bod gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfle i siarad Cymraeg y tu allan i'w teulu a'r tu allan i'w dosbarthiadau.

Wedi dweud hynny, nifer fach iawn oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn eu hardal. Roedd 20 (9%) yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson. Roedd 160 (70%) yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg weithiau, a 47 (21%) yn dweud na fydden nhw byth yn defnyddio'r iaith.

Mae her wirioneddol yn y ffigurau hyn, sef sut mae modd cynnig i ddysgwyr gyfleoedd digon aml yn eu hardal er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r iaith 'yn gyson'.

Yn y cyswllt hwn dylid nodi bod yr holiadur yn fwriadol wedi gadael i'r dysgwr benderfynu beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'yn gyson' ac 'weithiau'. Barnwyd mai'r hyn oedd yn werth ei gofnodi oedd canfyddiad y dysgwr ei hun o ddefnydd o'r iaith, a gallai hyn amrywio o'r naill i'r llall.

Am fod y canrannau o ddefnyddwyr 'cyson' o'r Gymraeg yn fach, nid oedd arwyddocâd i ganrannau wrth ddadansoddi hyn fesul ardal.

Roedd patrwm y defnyddwyr ysbeidiol yn weddol debyg, gyda 42 (68%) yn Abertawe'n defnyddio'r Gymraeg weithiau, 16 (64%) ym Morgannwg Ganol, 35 (73%) yn Fflint, 17 (77%) yng Nghastell-nedd, a 36 (77%) yn Ninbych.

Roedd 50 (16%) yn defnyddio'r Gymraeg yn eu hardal bob wythnos, 21 (7%) ac 17 (6%) yn ei defnyddio bob mis. Roedd 118 arall (39%) yn defnyddio'r Gymraeg yn eu hardal, ond yn llai aml.

Mae dwysedd defnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd yn gymharol wan, ac felly rhaid derbyn nad yw'r ardal yn cynnig oriau cyswllt niferus i'r rhan fwyaf o ddysgwyr â'r iaith. O ystyried anhawster darparu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg neu beuoedd Cymraeg mewn ardaloedd Seisnigedig, ac amhosibilrwydd Cymreigio ardaloedd heb fod niferoedd llawer uwch yn mynychu ysgolion Cymraeg ac yn dysgu Cymraeg yn oedolion, mae'n briodol ystyried modelau gwahanol o ganolfannau dysgu a chanolfannau cymdeithasu a allai gynyddu cyswllt dysgwyr â'r iaith yn eu hardal.

#### **7.5.5.4 Cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dafarn**

Y capel a'r dafarn fyddai canolfannau cymdeithasu am gyfnodau hir o'r ugeinfed ganrif. Holwyd am ddefnydd dysgwyr o'r manau hyn ac am yr iaith a ddefnyddid ynddynt.

79 (26%) ddywedodd fod rhai o fynychwyr eu tafarn leol yn defnyddio'r Gymraeg. Roedd 10 (3%) o'r dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yno, a 77 (25%) yn ei defnyddio weithiau.

Mae gweithgareddau i ddysgwyr mewn sawl ardal, e.e. Fflint, yn cael eu trefnu mewn tafarnau, a gall fod y defnydd o'r Gymraeg mewn tafarnau'n adlewyrchu hyn.

Roedd 31 (10%) o'r dysgwyr yn mynychu'r dafarn bob wythnos, 11 (4%) bob pythefnos, ac 17 (6%) bob mis. Roedd 91 arall (30%) yn mynychu'n llai aml. Nid yw'r dafarn ar hyn o bryd yn denu niferoedd mawr o ddysgwyr i estyn eu horiau cyswllt â'r iaith yn helaeth.

Mae angen ystyried sut y gellir gwneud defnydd o dafarnau (yn ogystal â lleoliadau eraill megis neuaddau cymuned, ysgolion, llyfrgelloedd ac ati), sydd ar gael ym mhob tref a phentref, ar gyfer gweithgareddau Cymraeg.

#### **7.5.5.5 Cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y capel**

Roedd nifer tebyg iawn o ddysgwyr yn mynd i gapel neu eglwys lle roedd rhai'n siarad Cymraeg. Roedd 73 (24%) yn gwneud hyn.

Dywedodd 20 (6.6%) eu bod yn gyson yn defnyddio'r Gymraeg yn y capel neu eglwys, ac roedd 50 (16%) arall yn defnyddio'r iaith weithiau.

Mae'r capel a'r eglwys felly'n dal i roi pau Gymraeg i rai dysgwyr. Roedd 29 (9%) o'r dysgwyr yn mynychu'r capel bob wythnos, 4 (1%) bob pythefnos, 19 (6%) bob mis a 63 (21%) yn llai aml.

Fel gyda'r dafarn, tua 10% o'r dysgwyr oedd yn manteisio ar y cyfle wythnosol hwn i ddefnyddio'r Gymraeg.

Gall y profiad ieithyddol yn y capel a'r eglwys fod yn un goddefol. Byddai'n dda i'r sefydliadau hyn ystyried sut mae modd cynyddu profiadau ieithyddol dysgwyr yn eu cynulleidfa.

#### **7.5.5.6 Cyfle i ddefnyddio Cymraeg mewn digwyddiadau a gweithgareddau**

Ceisiwyd gwahaniaethu rhwng digwyddiadau a gweithgareddau. Yn y naill y nod oedd cynnwys cyngherddau, darlithoedd neu ddigwyddiadau eraill lle byddai'r profiad ieithyddol yn un goddefol yn bennaf, a defnydd o'r iaith yn gymdeithasol yn digwydd yn sgil hynny. Gyda gweithgareddau y nod oedd holi am bethau a oedd yn cael eu trefnu i ddysgwyr, lle byddai disgwyl i'r dysgwyr eu hunain gymryd rhan yn weithredol mewn rhyw fodd neu'i gilydd, e.e. cwis neu sesiwn siarad.

Roedd 9 (3%) yn mynd yn gyson i ddigwyddiadau Cymraeg, a 70 (23%) yn mynd weithiau. Roedd 25 (8%) yn mynd i weithgareddau'n gyson ac 88 (29%) yn mynd weithiau. Er bod gweithgareddau a digwyddiadau'n digwydd yn gymharol gyson yn y rhan fwyaf o fannau, nifer cymharol fach o ddysgwyr sy'n manteisio ar y rhain. Gall hyn fod oherwydd oed y dysgwyr o dan sylw. Fel y sonnir mewn man arall, roedd canran uchel o'r dysgwyr dros 60 oed. Gall hyn fod hefyd oherwydd tuedd pobl i beidio mynd i ddigwyddiadau neu weithgareddau.

Mae'n glir bod lle i ddatblygu'r wedd hon ar y ddarpariaeth i ddysgwyr, gan mai rhyw draean yn unig sydd fel pe baen nhw'n manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Holwyd yn benodol am y math o ddigwyddiadau a gweithgareddau yr oedd dysgwyr yn eu mynychu.


Holwyd a oedd y dysgwyr yn mynychu dramâu, cyngherddau, darlithiau neu ddigwyddiadau eraill. Cyngherddau oedd fwyaf poblogaidd, ond traean fyddai'n eu mynychu. Byddai chwarter yn mynd i ddramâu.

Digwyddiad	Nifer yn mynychu	Canran
Cyngerdd	111	36.5%
Drama	78	26%
Darlith	42	14%
Arall	87	29%

Tabl 9: Niferoedd yn mynychu digwyddiadau (niferoedd a chanrannau)

Meddai 92 (30%) iddynt fynychu 1 digwyddiad yn y ddau fis cyn eu holi. Dywedodd 57 (19%) eu bod wedi mynychu 2 ddigwyddiad, a 34 (11%) eu bod wedi nodi 3 neu ragor o ddigwyddiadau. Roedd 13% yn mynd i ddigwyddiadau'n wythnosol, 3% arall yn mynd bob pythefnos, a 15% yn mynd bob mis. Roedd 31% o'r dysgwyr felly'n mynd i ddigwyddiadau o leiaf unwaith y mis. Ond roedd 189 (68%) yn mynd yn anaml neu byth yn mynd.

### Amllder mynychu digwyddiadau (niferoedd)



Graff 18: Amllder mynychu digwyddiadau (niferoedd)

Holwyd a oedd dysgwyr yn mynychu gwahanol fathau o weithgareddau, gan gynnwys sesiwn siarad, taith gerdded, clwb llyfrau, cwis a chôr.

Gweithgaredd	Nifer	Canran
Sesiwn siarad	69	23%
Côr	38	12%
Taith gerdded	34	11%
Cwis	27	9%
Clwb llyfrau	12	4%
Arall	75	25%

Tabl 10: Niferoedd yn mynychu gweithgareddau (niferoedd a chanrannau)

Sesiwn siarad oedd yn denu'r nifer uchaf, ond nid oedd tri chwarter y dysgwyr wedi dweud eu bod yn mynd i sesiynau siarad.

Roedd 105 (34%) wedi mynychu un gweithgaredd yn ystod y ddau fis cyn eu holi. Roedd 40 (13%) wedi mynychu dau weithgaredd, a 20 (7%) wedi mynychu tri neu ragor o weithgareddau.

Roedd 17% o'r dysgwyr wedi mynd i weithgaredd bob wythnos, 4% bob pythefnos, ac 11% bob mis. Roedd 68% yn mynd i weithgareddau'n anaml neu byth yn mynd.

#### **7.5.5.7 Defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth**

Ar hyn o bryd, y dosbarth oedd yn cynnig y cyfle gorau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ddefnyddio'r iaith. Er bod 13 (5%) wedi dweud na fydden nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, a 33 (12%) arall yn dweud mai weithiau y bydden nhw'n defnyddio'r Gymraeg yno, roedd 220 (72%) yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y dosbarth.

Fel y gwelir mewn man arall, roedd y dosbarth i lawer o'r dysgwyr a holwyd yn cynnig man diogel iddyn nhw ddefnyddio'r iaith. Roedd hyn yn werthfawr wrth i ddysgwyr fagu hyder i siarad, heb orfod ofni ymateb eraill. Ar y llaw arall roedd hyn yn dueddol o olygu bod y diogelwch hwn yn mynd yn gysur, a bod modd i ddysgwyr fethu â mentro defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd mwy agored.

#### **7.5.5.8 Defnyddio'r Gymraeg mewn cymdeithasau a CYD**

Meddai 107 (35%) bod rhai'n siarad Cymraeg mewn cymdeithasau yr oeddynt yn eu mynychu.

Roedd nifer o'r dysgwyr yn manteisio ar gymdeithasau lleol a oedd yn cynnig cyfleoedd i siarad Cymraeg, e.e. Merched y Wawr, Clybiau Cinio. Roedd 34 (11%) yn mynd yn gyson i'r rhain a 62 (20%) arall yn mynd weithiau.

Roedd llai yn mynychu cyfarfodydd CYD, a sefydlwyd yn 1984 i ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd. Roedd 13 (4%) yn mynychu cyfarfodydd CYD yn gyson, ac 17 (6%) yn mynychu weithiau.

Mae rôl gan gymdeithasau Cymraeg i dderbyn dysgwyr i'w mysg, a byddai'n dda gweld sylw'n cael ei roi i hyrwyddo hyn.

#### **7.5.5.9 Sesiynau siarad**

Mae sesiynau siarad penodol yn cael eu trefnu i ddysgwyr, weithiau yn rhan o ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a bryd arall yn llai ffurfiol. Roedd 43 (14%) o'r dysgwyr yn mynychu'r rhain yn wythnosol, 10 (3%) bob pythefnos a 26 (9%) unwaith y mis.

Byddai'n dda gweld sesiynau siarad anffurfiol neu ffurfiol yn cael eu datblygu fel modd o estyn oriau cyswllt rhai sy'n mynychu dosbarthiadau.

#### **7.5.5.10 Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith**

Roedd 86 (28%) yn dweud bod eraill yn y gwaith yn gallu siarad Cymraeg. Roedd nifer y rhai a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn cyfateb yn fras i hyn.

9 (3%) o'r dysgwyr oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y gwaith. Roedd 86 (28%) yn defnyddio'r Gymraeg weithiau yn y gwaith. Nid oedd llawer o'r dysgwyr yn gweithio, gan eu bod wedi ymddeol. Byddai canran y rhai a oedd yn gweithio'n uwch


na'r uchod, felly. Mae'n anodd barnu a yw 'weithiau' yn estyn llawer ar oriau cyswllt dysgwyr â'r iaith. Bach oedd y nifer o ddefnyddwyr 'cyson'.

Dywedodd 50 (16%) eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol yn y gwaith. Roedd 7 (2%) yn ei defnyddio'n wythnosol a 7 (2%) arall yn ei defnyddio'n fisol.

#### 7.5.5.11 Niferoedd mynychu cyfleoedd anffurfiol

Wrth gasglu at ei gilydd y sesiynau, y digwyddiadau, y gweithgareddau a'r cymdeithasau, a'r gwahanol gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, roedd modd llunio patrwm amlder mynychu anffurfiol dysgwyr.

#### Cyfle i siarad Cymraeg (canrannau)



Graff 19: Cyfle i siarad Cymraeg (canrannau)

9 (3%) oedd yn cael llawer o gyfle trwy fynychu llawer o ddigwyddiadau a sesiynau. Roedd 44 (14%) yn mynychu 'eitha tipyn' o'r rhain, ac 114 pellach (37%) yn mynychu 'tipyn'. Roedd 122 (40%) heb fynychu llawer neu heb fynychu o gwbl

Mae canran uchel o ddysgwyr yn peidio â defnyddio cyfleoedd sydd ar gael iddynt y tu allan i'r dosbarth. Gall fod angen holi a yw'r gweithgareddau hyn wrth fodd y dysgwyr, a pha ymdrech a wneir i holi'r dysgwyr pa weithgareddau y byddent fwyaf tebygol o eisiau eu mynychu.

Serch hynny, mae'n bosibl bod y nifer bychan sy'n mynychu gweithgareddau'n aml yn adlewyrchiad o duedd gymdeithasol.

Ceisio patrymau cyson o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol oedd diben llawer o'r holi hwn, er mwyn canfod pa sefyllfa oedd yn cynnig oriau cyswllt ychwanegol i ddysgwyr.



Sefyllfa	Nifer yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol	Canran yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol
Y teulu	98	32%
Canolfan Gymraeg	78	26%
Gweithgareddau	53	17%
Yr ardal	50	16%
Gwaith	50	16%
Digwyddiadau	36	12%
Tafarn	31	10%
Capel	29	9%

Tabl 11: Defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol yn ôl sefyllfaedd (niferoedd a chanrannau)

Y teulu yw'r sefyllfa fwyaf effeithiol i gynnig cyswllt ychwanegol â'r iaith, ond nid yw hyn yn ddewis i ddysgwyr lle nad oes aelodau Cymraeg.

Mae gweithgareddau a digwyddiadau'n cynnig oriau cyswllt ystyrllon i ryw 16% o'r dysgwyr, fel y gwna gwaith.

Yr hyn sy'n annisgwyl yn y canfyddiadau hyn yw bod Canolfannau Cymraeg yn cynnig oriau cyswllt ystyrllon i chwarter y dysgwyr, er nad oes Canolfan Gymraeg ar hyn o bryd o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o ddysgwyr.

### 7.5.6 Cyfryngau

Yng nghyd-destun yr ymchwil hon, cynhwysir o dan y teitl 'cyfryngau' ymwneud y dysgwyr â:

- deunyddiau ysgrifenedig e.e. cylchgronau, llyfrau ac ati;
- radio a theledu;
- y dechnoleg newydd e.e. cyfrifiaduron, y we ac ati.

Er nad yw'r rhain yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn uniongyrchol â siaradwyr eraill yn eu cymunedau ar y cyfan, maent yn beuoedd pwysig o ran oriau cyswllt y dysgwyr â'r iaith y tu allan i sefyllfa'r dosbarth ac yn cynnig dull (goddefol yn bennaf) ychwanegol pwysig i ddysgwyr ddod i gysylltiad â'r Gymraeg a'r sawl sy'n ei defnyddio.

#### 7.5.6.1 Deunydd ysgrifenedig


Gofynnwyd i'r dysgwyr sôn yma am eu defnydd o bapurau neu gylchgronau Cymraeg a gwneud hynny trwy nodi a ydynt yn eu prynu a/neu eu darllen yn gyson, weithiau, yn anaml neu byth. Isod, rhoddir crynodeb o bob un:

- Lingo: Roedd 23% o'r sampl yn darllen Lingo bob mis, tua chwarter o'r holl ymatebwyr. Ar ben hynny, nododd 16% eu bod yn darllen Lingo weithiau. Mae'r ffigurau hyn yn galonogol iawn i gylchgrawn sydd wedi ei gynhyrchu'n unswydd ar gyfer dysgwyr. Ar y llaw arall, gellid gweld hyn fel tystiolaeth bellach o amharodrwydd rhai dysgwyr i symud oddi wrth 'fyd dysgwyr a'r dosbarth' i'r byd Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.
- Y Cymro: Nododd 3% eu bod yn darllen y papur yn wythnosol gydag 1% ychwanegol yn honni eu bod yn ei ddarllen bob mis. Mae'n amlwg nad yw'r papur wythnosol yn ffactor dylanwadol yn arferion darllen Cymraeg y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr.

- Barn: Ni ddisgwyliid cynulleidfa fawr iawn i'r cylchgrawn misol hwn ymhlith y dysgwyr ac 1% yn unig oedd yn darllen neu'n prynu Barn bob mis.
- Golwg: Mae'r wybodaeth am y cylchgrawn Golwg ychydig yn well gyda 5% yn ei ddarllen yn wythnosol a 4% yn dweud eu bod yn ei ddarllen o leiaf unwaith y mis. Unwaith eto, nid oedd dros hanner y dysgwyr yn ei ddarllen o gwbl.
- Cylchgrawn arall: Dyma gyfle i'r dysgwyr nodi unrhyw gylchgrawn arall a all fod o ddiddordeb iddynt. Roedd 2% yn darllen neu'n prynu cylchgrawn arall yn rheolaidd gyda 6% yn gwneud bob mis.
- Papur Bro: Roedd y papur bro lleol wedi cael mwy o ymateb gyda 13% yn eu darllen neu'n ei brynu bob mis. Byddai 15% yn darllen y papur bro yn achlysurol ond nid oedd dros hanner y dysgwyr yn ei ddarllen o gwbl.

O blith y cylchgronau, dim ond gan Lingo a'r papurau bro roedd nifer ystadegol fesuradwy o ddarllenwyr.

Cyfunwyd yr holl ymatebion uchod i ffurfio sgôr amllder darllen ar gyfer y dysgwyr. Gwnaed hynny trwy wneud cyfanswm o bob tic 'darllen bob wythnos/mis' felly mae sgôr '5 i 6' yn golygu bod y dysgwyr hynny'n ddarllenwyr brwd iawn. Mae'n galonogol fod 36% o'r dysgwyr yn darllen o leiaf un cylchgrawn neu bapur yn rheolaidd a 4% yn unig oedd heb ymateb o ddim un o'r chwech dewis uchod. Eto i gyd, mae 55% yn nodi nad ydynt yn darllen dim yn Gymraeg yn rheolaidd ac mae potensial mawr i gyhoeddwyd cylchgronau / papurau sicrhau cynulleidfa fwy yma ac i'r dysgwyr gynyddu eu horiau cyswllt â'r Gymraeg trwy ddarllen mwy.



Graff 20: Sgôr amllder darllen (canrannau)

### 7.5.6.2 Cyfryngau digidol / cardiau / llyfrau / anrhegion Cymraeg

Nod y cwestiwn hwn yw canfod a yw'r dysgwyr yn prynu a/neu'n defnyddio'r rhain.

- CDs / DVDs Cymraeg: Nodwyd 'aml' gan 8% a chyfanswm 'aml / gweddol aml' oedd 16% gyda 30% yn dweud 'weithiau'.
- Cardiau Cymraeg: Mae 17% o'r dysgwyr yn prynu'r rhain yn aml a chyfanswm o 30% yn aml neu'n weddol aml. 33% a ddywedodd eu bod yn eu prynu weithiau.
- Llyfrau Cymraeg: Yr oedd yr ymateb yma'n fwy calonogol byth gyda 20% yn nodi'n aml a 35% yn aml neu'n weddol aml. Ar ben hynny, roedd 30% ychwanegol yn prynu llyfrau Cymraeg weithiau.
- Anrhegion Cymraeg i blant: Nododd 9% eu bod yn eu prynu'n aml a chyfanswm o 14% yn gwneud yn aml neu'n weddol aml. Byddai 16% yn eu prynu o bryd i'w gilydd.

Unwaith eto, rhoddwyd sgôr am gyfanswm yr eitemau uchod sydd yn adlewyrchu amllder eu prynu neu eu defnyddio – cyfanswm y ticiau ‘aml’ neu ‘weddol aml’. Er bod dim ymateb i unrhyw un gan 4% a 42% heb gyrraedd yr amllder uchod mewn unrhyw un o'r eitemau, golyga hyn fod amllder o 1 – 4 gan 54% o'r dysgwyr (gyda 5% yn prynu yn y pedwar categori).

### **7.5.6.3 Man prynu cylchgronau, papur bro, llyfrau, CDs a chardiau Cymraeg**

Gofynnwyd i'r dysgwyr nodi ble roeddent fel arfer yn prynu'r rhain gan gynnig dewis rhwng (i) siop 'Saesneg' (h.y. cyfrwng Saesneg) leol (ii) siop lyfrau Cymraeg (iii) siop yn y dre neu mewn canolfan siopa (iv) ar y we neu (v) gyda'r post. Roedd hyn yn berthnasol o ran yr ymchwil gan fod ymweliad â (ii) yn golygu defnyddio a siarad Cymraeg, gall (iv) gynnig rhyngwyneb Cymraeg ond mae (i) a (iii) yn debygol o ddigwydd trwy gyfrwng y Saesneg a (v) yn golygu nad oes angen cyfathrebu o gwbl.

- Cylchgronau: Trwy'r post i 20% a'r ail ddewis mwyaf oedd y siop lyfrau Cymraeg gyda 15%. Yna nodwyd canolfan siopa gan 5%, siop Saesneg gan 4% a'r we gan 1.5%.
- Papur Bro: Er bod yr ymateb yn 7.5.6.1 yn galonogol, dewisodd 70% o'r dysgwyr beidio â nodi ble maent yn prynu eu copïau. Yr ymateb mwyaf poblogaidd (11%) oedd y siop lyfrau Cymraeg ac yna'r ganolfan siopa (9%) a'r post (6%).
- Llyfrau: Cafwyd llawer mwy o ymateb i'r eitem fel y disgwyliid o'r hyn a welwyd yn 7.5.6.2. Nododd 48% eu bod yn prynu eu llyfrau yn y siop lyfrau Cymraeg leol. Eto, mae hyn yn galonogol iawn nid yn unig o ran nifer y darllenwyr yn y sampl ond hefyd bod y dysgwyr yn mentro i siopau llyfrau Cymraeg lleol lle byddant yn defnyddio'r iaith. Yr ail fan a nodwyd oedd canolfan siopa gan 10% a'r we gan 7%.
- CDs a DVDs Cymraeg: Adlewyrcha'r ymateb yr hyn a welwyd gyda Llyfrau a 30% yn gweld y siop lyfrau Cymraeg fel y lle amlwg i brynu'r nwyddau hyn. Nodwyd canolfan siopa gan 9% a'r we gan 7%
- Cardiau Cymraeg: Unwaith eto, y siop lyfrau Cymraeg yw'r lle mwyaf poblogaidd gyda 35% yn ei nodi. Diddorol nodi bod 23% yn eu prynu yn y ganolfan siopa sy'n dystiolaeth o bosibl fod y siopau mawr yn dechrau ymateb i'r galw am gardiau Cymraeg o blith eu cwsmeriaid.


Mae canfyddiadau'r adran hon yn arwyddocaol gan ddangos yn glir bwysigrwydd y siop lyfrau Cymraeg i'r dysgwyr nid yn unig o safbwynt bod yn lle amlwg i brynu nwyddau Cymraeg ond hefyd o safbwynt cynnig cyfle ychwanegol i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

### **7.5.6.4 Radio a Theledu**

Yn yr adran hon edrychir yn benodol ar batrymau gwranddo a gwylio'r dysgwyr o ran Radio Cymru a S4C.

#### **7.5.6.4.1 Radio Cymru**

Ymddengys fod gwasanaeth Radio Cymru'n ddigon poblogaidd ymhlith y dysgwyr gydag 28% yn dweud eu bod yn gwranddo arno'n aml. 13% yn unig a ddywedodd nad ydynt byth yn gwranddo arno gyda 38% yn nodi eu bod weithiau yn gwranddo ac 21% yn gwneud yn anaml.




Graff 21: Amllder gwrando ar Radio Cymru (canrannau)

Gofynnwyd wedyn iddynt nodi pryd gwrandawon nhw ar Radio Cymru yn ystod yr wythnos diwethaf gan gynnig dewis o amserau gwahanol yn ystod y dydd o'r bore tan fin nos. Cafwyd bod 41% wedi gwrandao ar y gwasanaeth ddwywaith neu'n fwy yn ystod yr wythnos flaenorol a'r cyfnod mwyaf poblogaidd oedd cyfnod y bore (33%). Rhaid cydnabod felly fod Radio Cymru yn adnodd gwerthfawr o ran ychwanegu at gyswllt y dysgwyr â'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

#### 7.5.6.4.2 S4C

Mae'r ffigurau ar gyfer S4C yn uwch na Radio Cymru gyda 34% yn dweud eu bod yn ei gwyllo'n aml a 47% yn ei gwyllo weithiau. 3% yn unig a nododd na fyddant byth yn ei gwyllo.



Graff 22: Amllder gwyllo S4C (canrannau)

Yng nghyswllt nifer sylweddol o ddysgwyr yn yr ymchwil hon â'r Gymraeg, holwyd ymhellach ynglŷn â'r math o raglenni a gâi eu gwyllo ganddynt. Rhaglenni newyddion oedd y rhai mwyaf poblogaidd gyda 62% yn nodi eu bod wedi eu gwyllo yn ystod yr wythnos diwethaf. Gwyliwyd rhaglenni chwaraeon gan 52% o'r dysgwyr yn ystod yr wythnos diwethaf a'r grŵp mwyaf poblogaidd nesaf oedd rhaglenni 'diddordeb' (e.e. *Yn y Wlad*, *Byw yn yr Ardd* a.a.) gyda 47%. Y rhaglenni lleiaf poblogaidd oedd rhaglenni nodwedd a chyfresi drama.

Mae'n amlwg fod y teledu a'r radio yn bwysig o ran cynnig cyfleoedd anffurfiol ychwanegol i ddysgwyr ddod i gysylltiad â'r Gymraeg er bod y rhain wrth eu natur yn rhai goddefol lle nad oes angen iddynt ddefnyddio'r iaith mewn ffordd wreiddiol.

### 7.5.6.5 Y Cyfrifiadur a'r We

Mae'r 'dechnoleg newydd' yn chwarae rhan gynyddol bwysig ym mywydau pawb yn yr oes sydd ohoni felly cynhwyswyd adran i edrych yn benodol ar ddefnydd y dysgwyr ohoni – yn y ddwy iaith.

#### 7.5.6.5.1 Defnydd o'r 'dechnoleg newydd'

Gofynnwyd yn gyntaf am y defnydd a wna'r dysgwyr o wahanol agweddau ar y 'dechnoleg newydd' mewn unrhyw iaith. Cynigiwyd pum dewis a'u hannog i roi tic wrth unrhyw rai oedd yn berthnasol iddynt:

Ebost	<b>69%</b>
Ysgrifennu yn Word neu raglen debyg	<b>54%</b>
Gwefannau eraill	<b>49%</b>
Gwefannau newyddion	<b>43%</b>
Facebook / rhaglenni cymdeithasol	<b>18%</b>

Roedd 27% o'r dysgwyr yn defnyddio pedwar o'r uchod ac 8% yn unig yn dweud na fyddent yn defnyddio'r un ohonynt. Ni chafwyd ymateb gan un o bob pump ond mae'r ffigurau'n dangos o hyd fod nifer helaeth ohonynt yn ymwneud ag o leiaf un agwedd ar y dechnoleg newydd drwy gyfrwng y Saesneg.

Holwyd wedyn am yr un pum categori i weld a oeddynt yn defnyddio'r Gymraeg weithiau ynddynt. O holl gyfanswm y dysgwyr, nid oedd 27% yn ymateb o gwbl i'r adran hon. O'r gweddill, dyma'r canrannau a nododd eu bod yn eu defnyddio yn Gymraeg weithiau:

Ebost	<b>52%</b>
Ysgrifennu yn Word neu raglen debyg	<b>33%</b>
Gwefannau eraill	<b>27%</b>
Gwefannau newyddion	<b>21%</b>
Facebook / rhaglenni cymdeithasol	<b>7%</b>

O ran 'poblogrwydd', mae'r defnydd yn Gymraeg yn adlewyrchu'r defnydd yn Saesneg ac mae'n galonogol gweld bod nifer sylweddol yn cydnabod defnyddioldeb a naturioldeb defnyddio'r Gymraeg yn y peuoedd cymharol newydd hyn. Mae defnyddio ebost ac ysgrifennu yn 'Word' yn weithrediadau llai 'goddefol' na darllen gwefannau a'r iaith a ddefnyddir ynddynt ar y cyfan yn ddigon anffurfiol. Ceir digon o dystiolaeth o ddysgwyr yn defnyddio'r we er mwyn creu cysylltiadau a 'chymunedau' newydd drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. <http://drosyrhaf.blogspot.com/>) ond yn sicr, oherwydd potensial y peuoedd newydd hyn i uno defnyddwyr ynysig, pellennig yn rhith gymunedau Cymraeg, mae'n hanfodol eu hystyried wrth lunio strategaethau ar gyfer datblygu rhwydweithiau cymdeithasol ystyrllon a gwerthfawr.

Yn yr adran olaf, holwyd ynglŷn â phwy y defnyddid (i) ebost (ii) Facebook (iii) negeseuon testun a (iv) y ffôn gyda nhw yn Gymraeg.

(i) Ebost: Yr ateb mwyaf cynhyrchiol oedd 'gyda thiworiaid neu bobl sy'n trefnu gweithgareddau' sydd yn dystiolaeth o ymdrechion nifer o diwtoriaid i sicrhau bod eu dysgwyr yn medru ymwneud â'r dechnoleg newydd yn y Gymraeg (yn ogystal â sicrhau defnydd i'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth). Braff gweld bod y defnydd o ebost yn y Gymraeg bron yr un mor uchel (tua 38%) gyda ffrindiau hefyd sydd yn awgrymu bod nifer sylweddol o ddysgwyr yn gwneud trefniadau gyda'u ffrindiau Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith honno.

(ii) Facebook: Nodwyd eisoes fod y niferoedd sy'n defnyddio Facebook drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg yn isel iawn. Adlewyrchir hynny yn yr adran hon hefyd gyda'r ganran uchaf (8%) yn nodi eu bod yn defnyddio Facebook gyda ffrindiau.

(iii) Negeseuon testun: Y ganran uchaf yma (25%) oedd anfon negeseuon testun ar y ffôn at ffrindiau. Byddai 13% yn tecstio aelodau eraill o'r dosbarth a 14% yn tecstio aelodau o'r teulu.

(iv) Ffôn: Er mai dyma'r unig ddull cyfathrebu yma sy'n golygu bod angen defnyddio sgiliau llafar, dyma'r dull mwyaf poblogaidd gyda 40% yn dweud eu bod yn ffonio ffrindiau yn Gymraeg. Byddai 34% yn ffonio eu tiwtoriaid ond 16% yn unig sy'n ddigon hyderus i ffonio pobl mewn sefydliadau e.e. Menter Iaith yn Gymraeg. Gan fod y dull hwn yn fwy poblogaidd na'r holl ddulliau eraill, mae'n bosibl fod angen cynnwys elfennau yn y dosbarth i annog ac arfogi dysgwyr i fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg ar y ffôn gyda chymaint o siaradwyr (gan gynnwys busnesau neu sefydliadau cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg) ag sy'n bosibl.

### 7.5.7 Canfyddiadau am newid arferion iaith


Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi bod yn dysgu am 5 mlynedd neu ragor. Roedd 221 (74%) ohonyn nhw wedi bod wrthi am 5 mlynedd neu ragor, 35 (12%) am 4 blynedd a 24 (8%) am ddwy flynedd.

Yn ystod y cyfnod hwn byddai'n rhesymol disgwyl eu bod wedi llwyddo i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, mewn gwahanol fannau neu weithgareddau.

Gan mai cymharu â phum mlynedd yn ôl a wneir, y dybiaeth gyffredinol yw nad oedd y dysgwyr yn defnyddio fawr o Gymraeg y pryd hwnnw, a bod unrhyw gynnydd o ran defnydd o'r Gymraeg yn cael ei adlewyrchu. Ni fyddem felly'n disgwyl bod llinell sail wahanol gan y dysgwyr wrth ymateb i adran hon yr holiadur.

#### 7.5.7.1 Cyffredinol


Yn gyffredinol, dywedodd 215 (71%) eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn awr na phum mlynedd yn ôl, a 51 (17%) yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg. Dim ond 9 (3%) ddywedodd nad oedden nhw'n defnyddio mwy o Gymraeg.



Graff 23: Defnyddio mwy o Gymraeg na 5 mlynedd yn ôl (niferoedd)

Roedd tebygrwydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws mannau byw presennol yr ymatebwyr. Roedd 62 (77%) o ymatebwyr Abertawe'n defnyddio llawer mwy o Gymraeg, 21 (84%) o rai Castell-nedd, 39 (78%) o rai Dinbych, 44 (72%) o rai Fflint, a 25 (76%) o rai Morgannwg Ganol. Dim ond 5 (33%) o ymatebwyr Gwent ddywedodd hyn, a 2 (40%) o rai Merthyr, ond mae'r niferoedd hyn yn rhy fach i fod ag arwyddocâd. Yng Ngwent dywedodd 9 (60%) eu bod yn defnyddio 'tipyn mwy' o Gymraeg, ac efallai bod peth arwyddocâd o ran y cyfle llai i siarad Cymraeg sydd yn y parthau hynny.


### Defnyddio mwy o Gymraeg yn ôl man byw (niferoedd)



Graff 24: Defnyddio mwy o Gymraeg yn ôl man byw (niferoedd)

### 7.5.7.2 Gyda'r teulu

Dywedodd 93 (31%) o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg gyda'u teulu, a 46 (15%) arall yn nodi eu bod yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg. Roedd hyn yn gyfyngedig wrth reswm i rai a oedd â pherthnasau Cymraeg, ond mae'n amlwg bod newid iaith y teulu'n ffordd o gynnig cyswllt aml â'r iaith.




Graff 25: Defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r teulu (niferoedd)

Roedd 53 (18%) yn siarad llawer mwy o Gymraeg gyda'u partner, a 30 (10%) yn siarad tipyn mwy. Roedd 30 (10%) yn siarad llawer mwy o Gymraeg gyda'u plentyn a 33 (11%) yn siarad tipyn mwy.

Wrth gyfrifo'r niferoedd oedd yn defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r teulu'n gyffredinol, ar sail eu hymateb i'r defnydd o'r iaith gydag aelodau unigol, ceir canlyniadau ychydig yn wahanol i'r hyn a gafwyd yn eu hymatebion i'r cwestiwn cyffredinol am eu defnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Y tro hwn mae'r niferoedd a'r canrannau ychydig yn is.


Roedd 64 (21%) yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg gyda'r teulu yn awr, a 65 arall (21%) yn defnyddio 'tipyn mwy' o'r iaith



Graff 26: Defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r teulu'n gyffredinol (niferoedd)

### 7.5.7.3 Yn y gwaith

O ran defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith dywedodd 47 (16%) eu bod yn defnyddio llawer mwy a 27 arall (9%) yn dweud eu bod yn defnyddio 'tipyn mwy' o Gymraeg. Roedd hyn yn rhwym o fod yn gyfyngedig i rai a oedd â chwsmeriaid Cymraeg, neu â chydweithwyr Cymraeg.




Graff 27: Defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith (niferoedd)

O blith y rhai na ddywedasant fod gwaith yn amherthnasol, dywedodd 46% eu bod yn defnyddio 'llawer mwy' a 27% arall yn dweud eu bod yn defnyddio 'tipyn mwy' o Gymraeg yn y gwaith.



#### 7.5.7.4 Yn yr ardal



Graff 28: Defnyddio mwy o Gymraeg yn yr ardal (niferoedd)


Dywedodd 58 (19%) eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn eu hardal, a 71 (23%) arall yn dweud eu bod yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg na phum mlynedd yn ôl.

Roedd canran y rhai a oedd yn siarad mwy o Gymraeg yn dibynnu i gryn raddau ar natur ieithyddol eu cymunedau, ond roedd yn glir hefyd bod canran cymharol sylweddol ym mhob ardal yn dod o hyd i gyfleoedd i siarad yr iaith.

Roedd 78% o ymatebwyr Dinbych yn defnyddio 'llawer mwy' neu 'dipyn mwy' o Gymraeg, 71% o rai Fflint, 65% o rai Morgannwg Ganol, 59% o rai Castell-nedd, a 43% o rai Abertawe.

#### 7.5.7.5 Yn y capel

Gwelwyd eisoes mai lleiafrif oedd yn mynychu'r capel a lleiafrif felly oedd ar gael i ddweud eu bod yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y cyswllt hwn. Meddai 31 (10%) eu bod yn defnyddio 'llawer mwy' ac meddai 21 (7%) eu bod yn defnyddio 'tipyn mwy'.




Graff 29: Defnyddio mwy o Gymraeg yn y capel (niferoedd)

O blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, ac y cymerir eu bod yn mynychu'r capel, meddai 38% eu bod yn defnyddio 'llawer mwy' o Gymraeg yn y capel, a 26% arall yn dweud eu bod yn defnyddio 'tipyn mwy' o Gymraeg.

### 7.5.7.6 Yn y dafarn

Roedd ychydig mwy yn mynychu'r dafarn na'r capel, ond lleiafrif oedd y rhain hefyd. Dywedodd 39 (13%) eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn y dafarn, a 31 (10%) arall yn dweud eu bod yn defnyddio 'tipyn mwy' o Gymraeg.


Mae tystiolaeth a nodir mewn man arall yn dangos bod rhai ardaloedd yn gwneud ymdrech i drefnu digwyddiadau mewn tafarnau, a bod y rhain yn ddigon llwyddiannus. Mae'n debygol bod gweithgareddau o'r fath yn rhoi cyswllt gweithredol i'r dysgwyr gyda'r iaith.



Graff 30: Defnyddio mwy o Gymraeg yn y dafarn (niferoedd)

### 7.5.7.7 Mynychu gweithgareddau a digwyddiadau


Roedd gweithgareddau'n cynnig un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i ddysgwyr gael cyswllt â'r iaith beth bynnag oedd natur ieithyddol yr ardal. Roedd 91 (30%) o'r dysgwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg erbyn hyn mewn gweithgareddau a 46 (15%) yn defnyddio tipyn mwy. Roedd hyn yn dal i adael 55% nad oedd yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg neu nad oedd yn mynychu gweithgareddau.



Graff 31: Defnyddio mwy o Gymraeg mewn gweithgareddau a digwyddiadau (niferoedd)

### 7.5.7.8 Yn y Ganolfan Gymraeg

Sefyllfa arall oedd yn denu nifer arwyddocaol o ddysgwyr i ddefnyddio'r iaith lawer mwy oedd y Ganolfan Gymraeg. Gall dehongliad dysgwyr o'r hyn ydyw Canolfan Gymraeg (neu ganolfan iaith) amrywio, fel y soniwyd eisoes. Nododd 89 (29%) eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg mewn Canolfan Gymraeg a dywedodd 24 arall (8%) eu bod yn defnyddio tipyn mwy o'r iaith.



Graff 32: Defnyddio mwy o Gymraeg yn y Ganolfan Gymraeg (niferoedd)

### 7.5.7.9 Cymharu'r sefyllfaoedd

Roedd modd barnu'n fras o'r cwestiynau hyn pa sefyllfaoedd oedd fwyaf cynhyrchiol wrth gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Er bod 71% o'r dysgwyr yn honni eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn gyffredinol, roedd tair sefyllfa'n gymharol fwy effeithiol na'r gweddill o ran cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, sef y teulu, gweithgareddau / digwyddiadau, a Chanolfannau Cymraeg.

Lleoliad	Canran yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg	Canran yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg
Cyffredinol	71%	17%
Teulu	31% (neu 21%)	15% (neu 21%)
Gweithgareddau / digwyddiadau	30%	15%
Canolfan Gymraeg	30%	8%
Ardal	19%	23%
Gwaith	16%	9%
Y dafarn	13%	10%
Capel	10%	7%

Tabl 12: Defnyddio mwy o Gymraeg mewn gwahanol leoliadau (canrannau)

Y tair sefyllfa oedd y teulu, gweithgareddau / digwyddiadau a Chanolfan Gymraeg. Gyda'r teulu, dim ond dysgwyr a oedd â pherthnasau Cymraeg oedd yn gallu manteisio ar hyn. Yn achos gweithgareddau a digwyddiadau, byddai'r rhain ar gael i bob dysgwr, roedd 45% yn dweud eu bod yn defnyddio o leiaf 'tipyn mwy' o Gymraeg, ond rhaid cofio mai 8% oedd yn mynd yn gyson i weithgareddau, a 29% yn mynychu weithiau.


O blith y rhai a ddywedodd eu bod yn defnyddio 'llawer mwy' o Gymraeg mewn gweithgareddau a digwyddiadau, roedd 26 (48%) yn mynychu gweithgareddau a digwyddiadau'n 'anaml', h.y. lai nag unwaith y mis. O blith y rhai oedd yn defnyddio 'tipyn mwy' o Gymraeg, roedd 20 (77%) yn mynychu'r rhain yn anaml. 14 (26%) o'r rhai oedd yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg oedd yn mynd i weithgareddau neu ddigwyddiadau bob wythnos

Er bod gweithgareddau Gymraeg ar gael ym mhob ardal, nifer cymharol fach o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn, ac ar hyn o bryd mae'n deg honni nad yw gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg yn llwyddo i estyn y cyfle sydd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr i ddefnyddio'r iaith.

Roedd mynychwyr Canolfan Gymraeg yn fwy selog eu presenoldeb. O blith y rhai oedd yn defnyddio 'llawer mwy' o Gymraeg mewn Canolfan Gymraeg, roedd 26 (62%) yn mynychu o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn awgrymu bod Canolfan Gymraeg, i'r dysgwyr sy'n byw o fewn cyrraedd iddi ac sy'n dewis mynd yno, yn cael cyswllt amlach o lawer â'r iaith.

#### 7.5.7.10 Ffrindiau newydd

Holwyd dysgwyr a oeddynt wedi cael ffrindiau neu gysylltiadau Cymraeg newydd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, gan roi dewis: 'llawer' 'tipyn', 'dau neu dri' a 'dim un'. Roedd y canlyniadau'n obeithiol o ran creu rhwydwaith cysylltiadau Cymraeg newydd a allai gyfrannu at oriau cyswllt â'r iaith.




Graff 33: Nifer ffrindiau newydd (niferoedd)

Meddai 106 (38%) eu bod wedi cael llawer o ffrindiau newydd a 99 (33%) yn dweud eu bod wedi cael 'tipyn' o ffrindiau Cymraeg newydd. Roedd 54 (19%) wedi cael dau neu dri ac 19 (7%) wedi cael dim.

O blith y rhai oedd yn mynychu Canolfan Gymraeg bob wythnos, roedd 25 (34%) wedi cael llawer o ffrindiau newydd a 28 (38%) wedi cael tipyn o rai newydd, ac 18 (25%) wedi cael dau neu dri.


### Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu mewn Canolfan Gymraeg (niferoedd)



Graff 34: Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu mewn Canolfan Gymraeg (niferoedd)

O blith y rhai oedd yn mynd i weithgareddau bob wythnos, roedd 15 (53%) wedi cael llawer o ffrindiau newydd a 10 (36%) wedi cael tipyn o rai newydd, a 2 (7%) wedi cael dau neu dri.


### Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu mewn gweithgareddau (niferoedd)



Graff 35: Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu mewn gweithgareddau (niferoedd)

O blith y rhai oedd yn cymdeithasu yn yr ardal bob wythnos, roedd 17 (35%) wedi cael llawer o ffrindiau newydd a 22 (45%) wedi cael tipyn o rai newydd, a 9 (18%) wedi cael dau neu dri.

## Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu yn yr ardal (niferoedd)



Graff 36: Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu yn yr ardal (niferoedd)

Mae'n glir bod natur 'ffrind' neu 'gyswllt' yn gallu cael ei dehongli'n eang, ac yn achos y tair sefyllfa uchod - canolfan Gymraeg, gweithgareddau ac ardal - mae canran helaeth o'r defnyddwyr neu'r mynychwyr 'anaml' (h.y. llai nag unwaith y mis) yn arddel nifer helaeth o ffrindiau newydd. Nid oes modd barnu union natur y cyswllt oriau â'r ffrindiau hyn, ond mae'n debygol o fod yn fychan.

Yn achos y mynychwyr neu'r defnyddwyr wythnosol y mae nifer y ffrindiau ar ei fwyaf arwyddocaol, ac yn y cyd-destun hwn mae'r Ganolfan Gymraeg fel pe bai'n cynnig cyswllt mwy â'r iaith yng nghyd-destun ffrindiau na'r sefyllfaoedd eraill.

### 7.5.7.11 Defnyddio mwy o Gymraeg gyda phobl agosaf

Holwyd yr ymatebwyr am yr iaith y byddent yn ei defnyddio gyda'r bobl agosaf atyn nhw ar wahân i'r teulu. Dywedodd 73 (24%) eu bod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg, a 62 (20%) arall yn dweud eu bod yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg.

O wybod y duedd i rai sy'n mynychu Canolfannau Cymraeg i fod â'r cyfle gorau i lunio perthynas ystyrlon â siaradwyr Cymraeg eraill, mae'n werth nodi'r patrwm ymysg rhai sy'n mynychu Canolfan Gymraeg yn wythnosol. O blith y rhain, mae 23 (38%) yn siarad llawer mwy o Gymraeg a 22 (37%) yn siarad tipyn mwy o Gymraeg.

### 7.5.7.12 Y cyfryngau

Roedd mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yng nghyd-destun y cyfryngau. Mae'r cynnydd hwn i'w gysylltu â'r duedd a welwyd ymysg nifer i beidio â mynd allan i ddiwyddiadau a gweithgareddau. Mae dysgwyr ar y cyfan yn manteisio ar adloniant Cymraeg sydd ar gael yn y cartref, ar ffurf llyfrau a chylchgronau, y radio a'r teledu.

Roedd 105 (35%) yn darllen llawer mwy o gylchgronau Cymraeg a 41 (14%) yn darllen tipyn mwy arnyn nhw.


Roedd 121 (40%) yn darllen llawer mwy o lyfrau Cymraeg, a 59 (19%) yn darllen tipyn mwy arnyn nhw.

Roedd 105 (35%) yn gwrandio llawer mwy ar radio Cymraeg a 63 (21%) yn gwrandio tipyn mwy.

Roedd 127 (42%) yn gwylio llawer mwy o deledu Cymraeg a 74 (24%) yn gwylio tipyn mwy.

Roedd mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar y we hefyd. Roedd 75 (25%) yn defnyddio llawer mwy, a 35 (12%) yn defnyddio tipyn mwy.

Wrth fwrw golwg ar ddefnydd yr ymatebwyr o'r holl gyfryngau hyn, cafwyd bod 73 (24%) yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o gyfryngau Cymraeg yn gyffredinol, a 113 (37%) yn gwneud tipyn mwy o ddefnydd ohonynt.



Graff 37: Sgôr mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfryngau (niferoedd)

#### 7.5.7.13 Sylwadau casgliadol

Roedd canfyddiad cyffredinol dysgwyr o'u defnydd o'r Gymraeg ar y cyfan yn fwy cadarnhaol na'r defnydd gwirioneddol a wnaent o'r iaith. Mewn achosion lle na fyddai'r ymatebwyr yn mynychu neu'n defnyddio sefyllfaoedd yn amlach nag unwaith y mis, byddent ar y cyfan yn dal i honni eu bod yn defnyddio llawer mwy neu dipyn mwy o'r Gymraeg.

Mae hyn yn fesuriad goddrychol a chymharol, ond wrth geisio mesur a yw'r canfyddiad hwn yn un arwyddocaol, mae angen cymharu hyn â'u mynychder defnydd o'r Gymraeg.

Canfuwyd yn fras mai tua thraean o'r dysgwyr oedd yn gwneud defnydd wythnosol o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd cymunedol. Ymysg y tri chyfle mwyaf cynhyrchiol i ddefnyddio'r Gymraeg roedd y teulu, gweithgareddau a'r Ganolfan Gymraeg. O'r ddau olaf, y Ganolfan Gymraeg oedd yn rhoi'r cyfle mwyaf mynych, a'r cyfle gorau i ddysgwyr ddod i gyswllt â siaradwyr yr iaith.

Wedi dweud hyn, mae'n glir bod tuedd gyffredinol i'r ymatebwyr beidio â mynd allan i weithgareddau. Gall hyn fod oherwydd eu hoed, neu oherwydd diddordebau gwahanol, neu duedd yr oes i fwynhau adloniant yn y cartref.

Roedd yn glir mai'r prif gyfle i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i wneud defnydd helaethach o'r iaith oedd yn y cartref, a byddai llawer yn manteisio ar hyn. Mae yma neges i ddarparwyr adloniant yn y cartref i ddarparu'n benodol ar gyfer dysgwyr ac i hwyluso cyflwyno dysgwyr i ddiwylliant Cymraeg yn gyffredinol.

## 7.6 GRWPIAU FFOCWS

### 7.6.1 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

#### 7.6.1.1 Y rhai a holwyd

Holwyd 70 o bobl mewn 11 o ganolfannau, gan gynnwys 15 yn yr Wyddgrug, 26 yn Abertawe (8 yn y Crwys, 13 yn Nhŷ Tawe, 5 yng Ngholeg Abertawe) 8 ym Mhen-y-bont, 6 ym Mryncoch, 8 ym Merthyr a 7 yng Nghasnewydd. Roedd y rhain i gyd yn mynychu dosbarthiadau ar lefelau 3 blynedd neu ragor o ddysgu. Roedd yr angen am gael mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn thema gyffredin ym mhob ardal.

Byddai'r ymdrech a wnâi dysgwyr unigol yn amrywio'n fawr, gyda rhai'n nodi mai prin y bydden nhw'n mynd allan o'r tŷ fin nos, a phrin yn cael cyfle felly i ymarfer y Gymraeg. Roedd rhai'n fodlon ar hyn am fod ganddyn nhw ddyheadau ieithyddol gwahanol i'r rhai a oedd yn awchu am ragor o gyfleoedd. Byddai eraill yn gwneud pob ymdrech i fanteisio ar y cyfleoedd a oedd ar gael a nifer er hyn yn teimlo bod angen mwy o gyfleoedd.

#### 7.6.1.2 Yr her

Meddai Newcombe (2007: 37) mai'r her i ddysgwyr sy'n manteisio ar y gwersi Cymraeg ffurfiol yw'r rhoi eu gwybodaeth newydd ar waith. Ar wahân i ddarpariaeth cyfleoedd, mae ffactorau eraill yn ymwneud â gallu manteisio arnyn nhw, gan gynnwys datblygiad sgiliau, hyder, hunanddibyniaeth a theimlad o integreiddio (Newcombe 2007: 38). Yn ogystal â hyn, mae dysgwyr yn wynebu cyd-destunau cymdeithasol newydd, ac mae cael ymateb cadarnhaol yn y manau hyn, a rhwyddineb wrth sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol newydd yn yr iaith darged, yn ffactorau o bwys.

Mae natur y cyfleoedd a gynigir, ac ymddygiad siaradwyr Cymraeg hefyd yn cynnig her. Trafodir y pwynt olaf hwn mewn man arall, ond gellir yma nodi bod tuedd siaradwyr Cymraeg i droi at y Saesneg wedi'i nodi'n fynych gan y dysgwyr, a hefyd yr anhawster a gafwyd ar brydiau wrth i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio tafodiaith a siarad yn gyflym. Roedd un dysgwr yn awgrymu bod angen cyrsiau ar siaradwyr Cymraeg ar sut i siarad â dysgwyr. Canlyniad yr anawsterau hyn yn gyffredinol oedd bod llawer o'r dysgwyr ar eu hapusaf wrth siarad â dysgwyr eraill yng nghyd-destun anfygythiol y dosbarth neu sesiwn siarad.

#### 7.6.1.3 Ymdrechion anffurfiol a ffurfiol

Roedd amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol (trefnedig) ac anffurfiol (y teulu, cyfeillion a'r gymuned) yn rhoi gwahanol batrymau o gyfleoedd siarad i ddysgwyr.

Roedd ymdrechion ffurfiol Canolfannau Cymraeg i Oedolion i roi cyfleoedd i ddysgwyr yn amrywio'n fawr o ardal i ardal. Trafodir modelau o'r ymdrechion hyn mewn adran arall (5). Roedd y rhain yn gallu cynnwys ymdrech benodol gan swyddog wedi'i benodi ar gyfer trefnu gweithgareddau anffurfiol, a chydweithio rhwng y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ag asiantaethau eraill yn eu hardal.

Roedd asiantaethau eraill yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i roi cyfleoedd. Roedd Mentrau Iaith yn trefnu digwyddiadau, a chymdeithasau eraill, e.e. CYD, Clybiau Cinio a Merched y Wawr yn cynnig cyfleoedd cyson.

Ym Merthyr roedd Canolfan Gymraeg a oedd yn cynnwys siop a man cynnal digwyddiadau'n cyfrannu at gyfleoedd dysgwyr. Yn Abertawe roedd Tŷ Tawe,



Canolfan Gymraeg y ddinas, yn cynnig siop, a chyfleusterau coffe a neuadd weithgareddau a oedd yn cyfrannu at ddefnydd cyson o'r iaith gan ddysgwyr.

Roedd y digwyddiadau a'r gweithgareddau a drefnwyd yn gallu amrywio'n fawr yn ôl ardal. Nid oedd y gweithgareddau trefnedig yn dibynnu ar natur ieithyddol yr ardal, ond yn hytrach ar yr ymdrechion penodol a wnaed yn yr ardaloedd hynny i ddarparu cyfleoedd. Roedd y cyfleoedd anffurfiol yn dibynnu ar amgylchiadau personol y dysgwyr.

Gwelwyd bod amgylchiadau newidiol yn rhan o brofiad nifer helaeth o ddysgwyr, a bod y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn dibynnu ar hyn. Wrth ystyried profiad ieithyddol y dysgwr unigol, mae angen bod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn: nid yw llwybr o ran dysgu iaith yn un o ddilyniant di-dor.

O ran y teulu roedd y newidiadau'n cynnwys hen aelodau o'r teulu, a'r rheiny'n marw, bod â phartner Cymraeg neu Saesneg, magu plant yn Gymraeg neu'n Saesneg, a bod â phlant eraill yn y teulu.

Roedd amgylchiadau gwaith yn newid, a'r cyfle i siarad felly'n amrywio. Roedd rhai wedi defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, a'r cyfle hwnnw'n diflannu wrth ymddeol. Roedd un yn arbenigo yn ei faes gwaith trwy'r Gymraeg erbyn hyn. Byddai bod mewn gwaith ar y llaw arall yn gallu cyfyngu ar ryddid yr unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill.

Roedd cefndir ardal yn gallu newid, wrth i ddysgwyr symud o'r naill ardal i'r llall.

#### **7.6.1.4 Profiadau dysgwyr yr Wyddgrug**

Roedd prinder siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn amlwg yn rhwystr i ddysgwyr a fyddai'n mynychu dosbarthiadau yn yr Wyddgrug. Roedd rhai'n dod o Loegr, neu o drefi Saesneg ar lan y môr y gogledd, ac mae cael cyfleoedd yn gallu bod yn broblematic. Roedd gan nifer o'r dysgwyr hyn rieni neu rieni-cu a oedd yn siarad Cymraeg, ond nid oedd gan y mwyafrif gysylltiadau teuluol digon agos a digon Cymraeg i wneud defnydd helaeth o'r iaith yn y teulu. Bryd arall roedd rhai'n ei chael yn anodd newid iaith gyda'u perthnasau, ac mewn rhai achosion, nid oedd cymhelliad i wneud hynny. Roedd nifer o'r dysgwyr yn manteisio ar y rhaglen helaeth o ddigwyddiadau Cymraeg a oedd yn cael eu trefnu gan y darparwyr dosbarthiadau. Roedd yn ymddangos bod y ddarpariaeth hon yn allweddol i'r dysgwyr ar y cyfan.

Meddai A fod ei gŵr yn siarad Cymraeg, a bod ei phlant yn mynychu ysgolion Cymraeg ond oherwydd ei diffyg hyder hi, "*weithiau*" byddai'n siarad Cymraeg "*gyda phlant, gyda ffrindiau ac yn yr ysgol gyda fy mhlant*". Roedd hi'n mynd i eisteddfodau gyda'r plant. Ond ni fyddai'n manteisio llawer ar weithgareddau Clwb Ciwb (gweler isod) am ei bod yn ei chael hi'n anodd mynd allan i ddigwyddiadau ar ei phen ei hun.

Roedd B eisieu siarad Cymraeg "*efo mam*" ond doedd "*gen i ddim hyder i siarad Cymraeg*." Ar y llaw arall byddai'n mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn, ac yn mynd weithiau i ddigwyddiadau yn yr Wyddgrug, gan ddweud bod y Clwb Ciwb yn rhoi llawer o gyfle. Byddai'n mynd i ambell dwmpath ac yn helpu yn yr ysgol. Roedd hi'n ymwneud â phlant yn ei gwaith ac yn ceisio siarad y Gymraeg â hwy, ond wrth ymdrechu i siarad gyda staff ysgol ei phlant meddai, "*dwi'n defnyddio Cymraeg, ond wff, I find it very stressful*."

Roedd y ddwy'n gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu, ac yn gwrandao ar y radio weithiau. Yn achos y ddwy hon roedd diffyg hyder yn rhwystr.

Roedd C yn chwarae mewn grŵp cerddorol a oedd yn canu mewn nosweithiau Cymraeg, ac roedd hyn yn rhoi cyfle iddo, "*pwyllogor Cymraeg, dim Saesneg o gwbl, pwysig iawn.*" Roedd yn defnyddio'r Gymraeg "*yn y tafarn hefyd, yn yr Wyddgrug, Castell Rhuthun, llawer o Gymraeg yn yr un tafarn yn yr Wyddgrug.*" Byddai C hefyd yn mynd i weithgareddau eraill, fel tro natur neu gwis. Roedd yn canmol digwyddiadau oedd yn cael eu trefnu gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion, ond yn dweud "*dim digon o bobl yma.*"

Trwy ei waith yn bennaf roedd Ch yn defnyddio'r iaith. Roedd wedi ei ryddhau o'i waith am gyfnod i ddysgu'r Gymraeg. Byddai weithiau'n mynd i sesiwn '*paned a sgwrs*' yn y gwaith, ond doedd pobl ddim yn defnyddio'r Gymraeg gydag e'n gyntaf. Mae ei waith yn mynd ag e i sawl rhan o'r gogledd, ac yn y gogledd-orllewin y caiff ddefnyddio'r Gymraeg yn bennaf. Serch hynny, pan fo angen gweithredu ar frys meddai "*mae dau o ni'n dechrau siarad Saesneg achos mae'n mwy cyflym.*" A'i wraig wedi arfer bod yn rhugl yn y Gymraeg pan oedd yn iau, meddai, "*dw i'n defnyddio dipyn bach adref... a dw i'n defnyddio dipyn pan fy merch o gwmpas ac eisiau siarad gair secret.*" Nid oedd trosglwyddo'r iaith yn y cartref yn gymhelliad i Ch. Ac yntau'n awr yn byw mewn tref lan y môr yng ngogledd Cymru, nid yw'n cael llawer o gyfle i gymdeithasu yn y Gymraeg, ac mae e wedi rhoi'r gorau i wylïo'r cyfryngau Cymraeg.

Meddai D ei fod yn cael cymdeithasu gyda ffrindiau'n anodd oherwydd ei bryderon am ei iaith, "*mae gen i ffrindiau hefyd yn siarad Cymraeg, trio siarad efo nhw, ond mae'n anodd... os dych chi eisiau siarad am rywbeth personol, os ydych chi'n gwneud camgymeriad efo'r iaith, mae'n saffach yn Saesneg*". Nid oes Cymraeg yn ei gapel, ond mae'n mynychu nosweithiau gyda Chlwb Ciwb, e.e. noson win a chaws.

Roedd Dd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ers iddo ddechrau caru â merch Gymraeg. Erbyn hyn mae ganddo "*ddiddordeb mawr mewn hanes yr iaith a diwylliant.*" Mae'n byw mewn tref Saesneg ei hiaith, ond mae'n manteisio ar gyfleoedd teuluol, "*achos fy nghariad, ... mae gen i cyfleoedd i siarad Cymraeg efo hi a'i theulu.. dwi'n hoffi mynd i leoedd fel Bangor, Pwllheli, Porthmadog ac ati, ac os oes pobl ar y stryd yn siarad Cymraeg, dwi'n hyderus i siarad Cymraeg.*" Mae yntau hefyd yn cymryd cyfle i wylïo teledu Cymraeg, ac wedi bod yn defnyddio'r is-deitlau Cymraeg a Saesneg i gynorthwyo.

Heb gysylltiad teuluol o'r fath, nid oes gan E lawer o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, "*fy ffrindiau ddim yn siarad Cymraeg a fy nheulu, dydyn nhw ddim yn isio siarad Cymraeg.*" Mae hi wedi cael agweddau mewn coleg lleol, lle mae hi'n dysgu, yn negyddol tuag at y Gymraeg.

Yr un math o brofiad anodd a gaiff F. Meddai iddi ddysgu Cymraeg yn yr ysgol, "*ond pan dwi'n gadael yr ysgol dwi ddim yn siarad o gwbl, fy nheulu ddim yn siarad Cymraeg, fy ffrindiau ddim yn siarad Cymraeg.*" Bellach mae ei merch yn mynd i ysgol Gymraeg ond "*dydy fy merch ddim eisiau siarad Cymraeg efo fi o gwbl.*" Yn lleol "*mae mwy bobl sy'n siarad Polish, Cymraeg yw'r trydydd iaith.*"

Mae modd deall y berthynas ieithyddol rhyngddi hi a'i merch. Mae'n anodd i rai â pherthynas agos newid iaith eu cyfathrebu, a gall yr ifanc deimlo chwithdod wrth glywed iaith lai na pherffaith eu rhieni.

O Loegr y daw Ff, ond caiff tipyn o gyfle i siarad Cymraeg am iddo brynu bwthyn ym Mhwlheli, "*dan ni'n mynd yno yn aml.*" Mae'n defnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle yno, ac yn gwrandao ar Radio Cymru bob dydd. Mae'n ŵr hyderus, ac ers prynu'r bwthyn gwnaeth bob ymdrech i ddod i gyswllt â siaradwyr Cymraeg, yn gyntaf gyda

chymdeithas Gymraeg mewn tref yn Lloegr, er nad oedd pawb yn siarad Cymraeg yno. Yn awr, yn ei dref ei hun, mae'n mynd yn gyson i archfarchnad lle mae siaradwr Cymraeg yn gweithio ac mae'n "siarad Cymraeg trwy'r amser yng ngogledd Cymru."

Un sy'n dibynnu dipyn ar y teledu i glywed Cymraeg yw G, a ddaeth yn ôl i'r ardal ar ôl i genhedlaeth ei thad-cu golli'r iaith. Gwas fferm oedd ei thad-cu, ond ni throsglwyddwyd yr iaith yn y teulu, ac nid oes plant ganddi. "Dw i'n hoffi wneud fy ngorau i chwilio am gyfle – jyst i ddeud 'bore da', mae'n helpu." Mae hi'n gwyllo S4C bob nos. Mae hi'n byw mewn tref Seisnigedig, ond "mae gynna i ffrindia a dyn ni'n cyfarfod unwaith y mis i siarad a chael paned." Mae F yn wraig hyderus ac annibynnol ei hysbryd. Fe'i perswadiwyd yn yr ysgol i astudio Lladin a Ffrangeg ac Almaeneg yn lle Cymraeg, ond "mi ges i gyfle yn ffodus iawn i ymuno â'r Urdd, gadael y Cymraeg fel pwnc, a dw i wedi cael y cyfle efo ffrindiau i fynd i eisteddfodau'r Urdd, wedi bod i Lan-Ilyn dwywaith y flwyddyn, efo Dafydd Iwan a phobl fel'na, Heulwen Haf a Huw Ceredig, enwau yn enwog rŵan, ond ddim ar y pryd."

Meddai G amdani'i hun, "Mae na lot o gyfleoedd dw i ddim yn cymeryd a dweud y gwir, does dim car 'da fi, dw i ddim yn cymdeithasu, dw i'n hoff iawn o S4C cyn digidol,.. yn hoff iawn o Wedi 7, mae 'na pethe o'r gogledd, mae 'na rhaglenni fel Pobol y Cwm sy'n hollol wahanol, dw i'n cael hwyl."

Gŵr cymharol annibynnol hefyd yw Ng, sydd tua 65 oed. Roedd yn siarad y Gymraeg pan oedd yn fach, ac mae'n defnyddio'i Gymraeg yn hyderus. Byddai ei fam yn siarad Cymraeg ag e bob dydd tan iddo fod yn 7 oed wrth symud i dref fwy Saesneg. Erbyn hyn mae ei fryd ar siarad y Gymraeg yn hytrach nag ar gywirdeb gramadegol, "os dw i'n gwneud camgymeriad, dim ots.." Yn anffodus erbyn hyn nid yw ei chwaer yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg ag e, ond mae'n mynychu'r Cylch Cinio yn yr Wyddgrug. Mae rhai anawsterau iddo, serch hynny, "maen nhw'n siarad Cymraeg glân iawn iawn a dw i'n cael tipyn o drafferth i wybod beth maen nhw'n siarad. Dw i'n licio mynd.. dw i'n trio cadw fy nghynffon i fynd beth bynnag."

Gwraig tua 60 oed yw H, sydd â "dim ond un ffrind sy'n siarad Cymraeg." Mae hi'n byw mewn ardal Saesneg ei hiaith. Mae hi'n mynychu un neu ddau ddigwyddiad y flwyddyn. Dysgodd y Gymraeg wrth chwilio am waith newydd, gyda'r gobaith o gael gwaith yng Nghymru. A hithau heb deulu Cymraeg, mae hi'n manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg gydag un ffrind, wrth siarad ar y ffôn, "dan ni'n dechrau siarad Cymraeg, wedyn dan ni'n newid i Saesneg, achos mae problem efo geirfa.. ond pan dwi'n ymweld hi yn y tŷ, roedd ei gŵr athro Cymraeg, felly rhaid i fi siarad Cymraeg yn y tŷ, ond tu allan y class does na ddim lot o gyfle." Mae hi'n mynd unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i ddigwyddiadau Cymraeg, ac yn gwyllo rhaglenni ar S4C.

Caiff I gyfle i siarad Cymraeg gyda'i "hwyresau o'r de Cymru ar y ffôn." Ond ei phrif anhawster yw nad oes ganddi gysylltiadau agos sy'n siarad Cymraeg. Mae hi'n mynychu'r eisteddfod pan fydd yn y gogledd, ac yn gwyllo'r teledu. Dechreuodd ddysgu'r iaith tua ugain mlynedd yn ôl achos bod ei mam yn siarad ychydig gyda hi pan oedd yn fach, a hithau'n mynd i gapel Cymraeg. Ond bellach nid yw'n clywed llawer o Gymraeg yn ei hardal, "dw i ddim yn cael llawer o gyfle o gwbl yn y pentref, pawb yn siarad Saesneg, dw i'n mynd i'r eglwys pob dydd Sul, mae un wraig yn siarad Cymraeg." Ond mae hi wrth ei bodd yn siarad Cymraeg gyda'i hwyresau. Yn anffodus nid yw'n teimlo ei bod yn gallu manteisio ar ddigwyddiadau yn y nos, fel yn nhafarn y Pentan, "dw i ddim isio mynd allan yn y nos ben fy hun."

Ymddengys yn gyffredinol bod y rhai yn yr ardal hon sy'n dysgu am resymau integreiddiol yn hytrach nag offerynnol yn cael mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg,

yn rhannol oherwydd dylanwad teuluol, ond hefyd am eu bod am fod yn rhan o ddiwylliant Cymru.

Wedi dweud hynny, mae'n amlwg bod y cyfryngau Cymraeg yn rhoi'r cyfle gorau i rai ddod i gyswllt â'r iaith.

### 7.6.1.5 Profiadau dysgwyr y de-orllewin

Holwyd dysgwyr pedwar dosbarth yn ardal Abertawe, un yn y Crwys, ar bentrhyn Gŵyr, un yng Ngholeg Abertawe, Tŷ Coch, yng ngorllewin Abertawe, a dau ddosbarth yn Nhŷ Tawe, y Ganolfan Gymraeg yn Abertawe. Yn ychwanegol at y rhain holwyd un dosbarth ym Mrynoch, ger Castell-nedd. Roedd y dosbarthiadau hyn i gyd yn ardal Canolfan Gymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru.

Adeg yr ymchwil, nid oedd y Ganolfan Gymraeg i Oedolion yn trefnu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddysgwyr, ond byddai gweithgareddau'n cael eu trefnu gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot a Menter Iaith Abertawe.

Er bod gwahaniaethau amlwg unwaith eto rhwng amgylchiadau dysgwyr unigol, a'u rhesymau dros ddysgu'r iaith a'r cyfle a gânt i ddefnyddio'r Gymraeg yn amrywiol iawn, roedd presenoldeb Canolfan Gymraeg – Tŷ Tawe – yn yr ardal hon yn allweddol i nifer arwyddocaol o'r dysgwyr, a hynny mewn modd arwyddocaol hefyd.

#### 7.6.1.5.1 Profiadau dysgwyr Coleg Abertawe

Dim ond yn Nhŷ Tawe roedd A yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Yno caiff gyfle i siarad Gymraeg “*gyda phobl eraill a chwrdd â ffrindiau.*” Meddai ei bod yn “*mynd i Cyd dydd lau a bore coffi dydd Sadwrn*” a'i bod hefyd wedi bod yn mynychu dosbarthiadau ‘Siawns am Sgwrs’ ond yn cael y rhain ychydig yn anodd. Dywedodd ei bod yn “*nabod pobl yn Tŷ Tawe, pan o'n i yn y dosbarth nos, dau ffrind da 'da fi, ymweld â nhw yn y tŷ, ond siarad gyda nhw nawr yn Saesneg achos dw i ddim yn rhugl.*”

Roedd B yn cael “*llawer o gyfle*” i siarad Gymraeg, “*mae fy chwaer a thad yn siarad Gymraeg ond dw i'n siarad Saesneg fel arfer.. hefyd mae ychydig o staff yn y gwaith sy'n siarad Gymraeg.*” I ddefnyddio'r siop yr â'n bennaf i Dŷ Tawe. Mae ganddo deulu ifanc, a “*does dim digon o amser gyda'r gwaith a theulu ifanc.*” Yn y gwaith meddai ei fod yn gallu siarad Gymraeg gyda'r hen gleifion.

Nid yw C yn byw yn Abertawe, ond mae'n defnyddio'r siop yno ac yn mynd ddwywaith y flwyddyn i Sadyrnau siarad. Roedd hi'n arfer mynd i Dŷ Tawe'n amlach “*pan o'n i'n byw yn Abertawe.*” Meddai bod “*pawb yn gyfeillgar iawn yn Tŷ Tawe*” a bod “*pobl sy'n deall dw i'n dysgwyr, dw i'n dysgu Gymraeg.*”

Roedd Ch yn mynd i Dŷ Tawe “*bob dydd Sadwrn fel arfer, i weld y rygbi, sesiwn werin, cwis a gweithgareddau eraill nawr ac yn y man.*” Ar hyn o bryd mae hi hefyd yn helpu Menter Iaith gyfagos ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yno. Mae'n gwneud hyn am nad oes “*neb yn y teulu yn siarad yn Gymraeg nawr.*” Weithiau mae hi'n mynd i ddigwyddiadau gyda ffrindiau, e.e. i dafarn, i gyngerdd, drama ac ati. Dywedodd fod Tŷ Tawe'n bwysig iddi “*achos mae'n un lle ble dych chi'n newydd troi lan yn siarad i bobl eraill yn y Gymraeg. Hefyd mae pawb yn siarad yn Gymraeg. Sa i'n clywed gormod o Saesneg yna.*” Meddai ei bod hi'n cael “*paned o goffi bore Sadwrn*” yn Nhŷ Tawe, “*a mynd i sesiwn werin nawr ac yn y man, dibynnu beth sy'n digwydd ar y pryd.*” Roedd Ch yn credu bod angen hysbysebu mwy ar ddigwyddiadau a chael gwell trefn, “*dydd Sadwrn diwethaf roedd pedwar digwyddiadau yr un diwrnod – gwrthdaro – bydd yn well os digwyddiadau coordinated mwy.*”

Roedd Ch wedi dod i nabod “*llawer*” o bobl newydd trwy fynd i nifer helaeth o ddigwyddiadau a gwirfoddoli gyda Menter Iaith. Aeth ar gwrs i Aberystwyth, “*cwrddes i â llawer o bobl dros y dosbarthiadau i gyd... mae mwy yn mynd mlaen yn Tŷ Tawe na Aberystwyth, argraff iawn pethau yn Tŷ Tawe... dwi'n meddwl bod y cwrsiau yn Tŷ Tawe yn well na'r cyrsiau yn Aberystwyth.*”

Mae D yn mynd i Dŷ Tawe unwaith y mis “*i brynu anrhegion a cherdyn, weithiau i glywed cerddoriaeth.*” Meddai ei bod yn siarad “*tipyn bach gyda’r teulu a’r ffrindiau, dwi’n nabod llawer o bobl sy’n dysgu, ac yn y gwaith. Weithiau maen nhw yn y swyddfa, dy’n ni’n cael sgwrs bach.*” Mae ganddi ffrindiau yn y Bala, ac maen nhw’n mynnu ei bod yn siarad Cymraeg â nhw, pan â hi yno, dair gwaith y flwyddyn. Fel arall mae hi’n gwrando ar y radio yn y car ac yn “*stryglo gyda S4C*”.

Mae gan Dd blant bach ac mae’n cael cyfle i siarad gyda’r plant a’i gŵr, sy’n siarad Cymraeg, ond maen nhw’n dueddol o siarad Saesneg gyda hi. Mae hyder yn broblem i Dd, meddai “*mae’n well i fi i siarad gyda pobl sy wedi dysgu Cymraeg, sai’n siŵr pam.*”

#### **7.6.1.5.2 Profiadau dysgwyr y Crwys**

Mae’r Crwys yn bentref tua 7 milltir o ganol Abertawe. Mae rhai o ddysgwyr y dosbarth yn teithio cryn bellter i fynd yno, ac nid ydynt felly o reidrwydd yn adlewyrchu ymddygiad dysgwyr y pentref. Wrth holi’r dysgwyr hyn gwelwyd amrywiaeth mawr o ran cymhelliad, oed a gallu. Roedd yn amlwg yn achos rhai y bydden nhw, yn sgil eu gallu ieithyddol a’u tueddiadau cymdeithasol, yn cael cymdeithasu yn y Gymraeg yn gymharol rwydd. Roedd yn anodd dychmygu eraill yn cael yr un llwyddiant. Roedd yn glir nad oedd tair neu bedair blynedd o ddysgu – o gwmpas 200 o oriau – yn arwain at allu ieithyddol addas ar gyfer cymdeithasu.

Mae A yn cael peth cyfle i siarad Cymraeg yn ei gaffi a hefyd gyda’i wyrion.

Mae B yn cael cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg gyda’i ferch yng nghyfraith “*a lawer o ffrindiau*” a hefyd yn Nhŷ Tawe “*yn gyson*” ac yng nghyfarfodydd Cyd a’r Clwb Cinio Cymraeg.

Dim ond gyda ffrindiau y mae C yn siarad Cymraeg am fod aelodau Cymraeg ei theulu bellach wedi marw. Nid yw’n mynd i Dŷ Tawe yn aml, efallai oherwydd ei diffyg hyder ieithyddol, ond dywedodd “*mae rhaid i fi fynd i Tŷ Tawe mor aml. Dwi’n parcio fy nhar yn yr maes parcio wrth ochr y Tŷ Tawe.*”

Mae Ch, sy wedi ymddeol, yn mynd “*weithiau yn Nhŷ Tawe bore lau neu dydd Sadwrn.*” Mae e hefyd yn mynd i gapel Cymraeg ac i’r clwb cinio yn Abertawe.

Serch hynny meddai “*does dim lot o ddiddordeb ‘da fi mewn siarad Cymraeg. Gallu darllen Cymraeg oedd fy mhrif ddiddordeb.*” Byddai’n mynd yn aml i Dŷ Tawe ond nid yw’n mynd “*mor aml y dyddiau ‘ma. Efallai dwywaith y mis.*” Fodd bynnag, mae Tŷ Tawe’n bwysig iddo, “*un tro oedd e’n ddefnyddiol iawn. ... Efallai dw i wedi llwyddo yn fy nod. Ar wahân diffyg geirfa, dw i’n gyffyrddus darllen Cymraeg.*”

Roedd gan Ch, fodd bynnag, ddiddordeb mewn gwrando ar y Gymraeg yn y capel, a llai o ddiddordeb yn yr ochr gymdeithasol, “*dwi’n cropian i mewn, ac yn heglu allan, sai’n hoffi oedi o gwmpas y lle, bydd pobl yn siarad â fi, ond dwi’n dwlu mynd i’r eglwys, oherwydd yr iaith, gwrando ar y Gymraeg, ond nawr oherwydd y gwasanaeth.*”

Dyweddodd D “*dwi ddim yn hoffi mynd mas ar fy hun yn y nos.*” Collodd ei gŵr bum mlynedd yn ôl ac mae hi’n dal ryw gymaint yn ddihyder. Oherwydd hyn “*dwi ddim yn mynd i’r Tŷ Tawe*” ond byddai’n mynd “*if I had someone to go with in the evening. .. At the moment I am really lacking confidence to talk to strangers in Welsh.*” Mae’n cydnabod bod Tŷ Tawe’n bwysig i ddysgwyr. Mae hi’n cael cyfle i siarad Cymraeg pan â i Rydaman, ond ychydig o gyfle fel arall.

Bu Dd i Dŷ Tawe i un digwyddiad a thair gwaith i’r siop. Meddai am y Ganolfan, “*Mae pawb gwybod mae Tŷ Tawe yn y lle i ateb cwestiwn am y pethau Cymraeg. A hefyd mae Tŷ Tawe trefnu llawer o cyfle i ymarfer Cymraeg. Mae Tŷ Tawe yn arbennig bwysig yn Abertawe achos dydy e ddim digon o ‘evidence’ o Cymraeg yn Abertawe.*” Mae hi’n siarad Cymraeg weithiau gyda phobl yn y gwaith, “*ond pan dy’n ni’n siarad am bethe pwysig, Saesneg.*” Ond mae’n siarad tipyn o Gymraeg gyda ffrind yn y gwaith a hefyd gyda’i rhieni. Meddai os oes “*cwestiwn gyda fi am rywbeth am Gymraeg, y lle cyntaf dwi’n mynd yw Tŷ Tawe neu ffonio Tŷ Tawe i ofyn y cwestiwn. Dwi wedi chwilio dosbarth Cymraeg, ac wedi gofyn Tŷ Tawe, a nawr dwi’n yma.*”

Nid yw E yn mynd i Dŷ Tawe’n aml, er iddi fod yno ar gyfer dosbarthiadau haf. Nid yw’n cael llawer o gyfle i siarad Cymraeg, ond mae’n mynd i wasanaeth Cymraeg unwaith y mis yn yr eglwys. Nid yw ei gŵr yn siarad Cymraeg, ac nid yw’n mynd i Dŷ Tawe’n aml am ei bod yn byw yn bell, a “*fy ngŵr ddim yn hoffi fi i wneud popeth yn Gymraeg without him. I can’t go to all these things and leave him in the house.*”

### 7.6.1.5.3 Profiadau dysgwyr Bryncoch

Mae profiadau'r dysgwyr yn y dosbarth hwn yn adlewyrchu ardal lle nad oes gweithgareddau cyson yn cael eu trefnu i ddysgwyr gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion. Mae'r dysgwyr hefyd yn gymharol bell o Ganolfan Gymraeg. Mae rhai'n manteisio ar gyfleoedd anffurfiol, ond ar y cyfan, mae cysylltiad y rhain â'r iaith yn gymharol denau. Cafwyd eu bod wrth eu bodd yn y dosbarth, ond efallai yn sgil y diffyg cyswllt y tu allan i'r dosbarth, roeddynt wedi mynd i deimlo mai yn y dosbarth yr oeddynt ar eu mwyaf cartrefol wrth siarad Cymraeg.

Dim ond un waith yn unig y bu A i ddigwyddiad Cymraeg, ond caiff gyfle i siarad gyda'i ffrindiau, mewn clwb merlota. Mae'n well ganddi siarad Cymraeg yn y dosbarth oherwydd "*dim hyder 'da fi.*"

Mae B yn cael cyfle i siarad mewn côr a bob bore Llun mewn bore coffi sy'n cael ei drefnu mewn atyniad i dwristiaid. Mae'r Fenter iaith yn trefnu bod coffi yno ac weithiau mae tiwtor yno. Mae'n siarad hefyd gydag athrawes am awr unwaith yr wythnos, mewn canolfan ddysgu. Nid yw ei gŵr "*yn siarad Cymraeg yn dda*" ond dywed "*dylwn i siarad â'r gŵr yn fwy aml.*" Mae hi'n mynychu dosbarthiadau ddwywaith yr wythnos. Meddai iddi fynd "*i ffilm yn Nhŷ Tawe unwaith, gyda fy ngŵr a mwynheuais i'n fawr, ond mae'n anodd achos dyw'r gŵr ddim yn siarad Cymraeg.*"

Mae C yn siarad gyda'i chymdogion mewn tref yng nghwm Tawe, ond ni ddaeth i'r ardal ond un flwyddyn yn ôl a heb gael cyfle eto "*i wneud llawer o ffrindiau sy'n gallu siarad Cymraeg.*" Mae'r ddau ddosbarth a fynycha yn "*ddefnyddiol iawn i fi*". Er nad yw'n byw yn agos i Dŷ Tawe, dweud bod "*rhaid imi fynd i Dŷ Tawe bob Sadwrn.. i gynyddu'r defnydd.*" Mae "*llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn yr ardal,*" meddai, a gall siarad Cymraeg yn y siopau, swyddfa'r post a'r llyfrgell. Mae hi hefyd yn "*siarad Cymraeg gyda fy mab*" ond mae ei gŵr yn ddi-Gymraeg. "*Weithiau pan mae fy ngŵr yna, dwi'n dweud yr un peth yn Saesneg a Chymraeg.. Mae e'n dysgu rhai o bethau. Mae e'n deall mwy na mae e'n sylweddoli.*" Mae hi hefyd yn cael cyfle i siarad â rhieni eraill y tu allan i'r ysgol ac mewn partion plant.

Byddai Ch yn hoffi gweld "*mwy digwyddiadau Cymraeg yn yr ardal 'ma*" ac yn teimlo "*dylwn i darllen mwy llyfrau Cymraeg.*" Ond caiff gyfle i siarad "*weithiau yn y tŷ*" gan fod ei gŵr yn siarad Cymraeg. Mae hi'n mynd bob bore Llun i fore coffi'r atyniad i dwristiaid. Mae hi'n mynd hefyd i ginio a drefnir gan y Fenter iaith.

Mae D yn brysur iawn gyda diddordebau eraill, ac yn beio hyn am ei diffyg cyswllt â'r iaith. Dim ond "*yn y dosbarth ac yn Sadyrnau siarad*" mae hi'n defnyddio'r iaith. Mae'n gwylio rygbi Cymraeg ar y teledu ac meddai, "*dwi'n deall hanner.*"

Mae Dd yn cael cyfle i siarad ag eraill yn y côr meibion, ond fel arall dim ond dod i'r dosbarth a wna.



#### 7.6.1.5.4 Profiadau dysgwyr dosbarth Tŷ Tawe

Mae A wedi ailddechrau dysgu'r iaith. Nid oes llawer o amser ganddo i fynychu sesiynau Cymraeg fin nos. Mae rhai pobl yn ei waith yn siarad gallu Cymraeg, ond dydyn nhw ddim fel arfer yn gwneud hyn oni bai eu bod eu bod yn dod i wybod pwy arall sy'n gallu.

Mae B yn dysgu er mwyn ei helpu yn ei gwaith, ond bellach mae hi wedi ymddeol ac ni chaiff yr un cyfleoedd i siarad ag yn y gwaith. Does dim llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn ei hardal, un o faestrefi gorllewin Abertawe, ond mae hi'n "siarad â fy ffrindiau". Mwynhaodd mewn bore coffi Nadolig yn Nhŷ Tawe ond "sai'n posib i fynd siop siarad achos wi'n gwneud popeth eraill." Dywedodd serch hynny, "Dylwn i fynd i siop siarad a cerdded, mynd am dro gyda Menter Iaith unwaith y mish." Roedd hi'n gobeithio bod yn stiward yn Eisteddfod Blaenau Gwent. Gwelodd opera yn y Grand yn Abertawe a dilyn yr uwchdeitlau Cymraeg.

Mae C yn mynd i Dŷ Tawe ddwy neu dair gwaith yr wythnos er mwyn cymdeithasu. Dywed bod Tŷ Tawe'n "bwysig iawn, iawn. Mae'n cyfle i ddechrau siarad, er enghraifft yn y siop, a chael dosbarthiadau a chael sgwrs, yn y sesiwn siop siarad." Dywed, "Ar wahân i Tŷ Tawe sai'n nabod unrhyw le arall yn y dre i siarad Cymraeg â phobl. Mae Tŷ Tawe'n bwysig iawn, pan des i mewn i'r siop am y tro cyntaf, ro'n i'n nervous iawn, mae'n dwp mewn ffordd, roedd rhyw fath o ymdrech jyst i mynd i mewn i'r siop.. roedd y ferch tu ôl i'r cownter yn gyfeillgar iawn... yn ailadrodd yr un frawddeg yn Gymraeg... ro'n i'n gallu egluro'r sefyllfa iddi, bob tro rwy'n mynd i'r siop rwy'n cael tipyn bach o sgwrs... heb y siop, heb Tŷ Tawe, does dim ffordd yn y byd i fynd mlaen gyda Cymraeg." Roedd e'n credu y byddai'n dda cael coffe Cymraeg amser cinio yn Nhŷ Tawe, a byddai'n dod unwaith neu ddwywaith yr wythnos i rywbeth felly.

Mae Ch am siarad Cymraeg gyda'i phlant bach, ond does neb arall yn siarad Cymraeg yn ei theulu. A hithau i ffwrdd o'r gwaith mae hi'n awr yn cael cyfle i fynd i "siawns am sgwrs a bore coffi, yn ogystal â'r dosbarthiadau canolradd ac uwch, ond pan dw i'n mynd yn ôl i'r gwaith bydd anodd i fi mynd ymarfer rhywle i ymarfer siarad, achos fydd ddim llawer o amser sbâr." Mae'n mynychu bore coffi wythnosol yn Nhŷ Tawe, a dywedodd fod Tŷ Tawe "yn bendant" yn bwysig, "Mae'n wych i fynd 'na i siarad. Mae bore coffi yn wych. Cyfle i siarad i pobl rhugl a phobl sy wedi dysgu. Gwerthfawr i cael siawns i ymarfer, dyna beth sy'n bwysig iawn pan dysgu Cymraeg." Er ei bod yn hanu o Abertawe, mae'n byw mewn pentre mewn cwm cyfagos. Bu ar gwrs wythnos yn Llanbed a chael hynny'n brofiad gwych, trwy allu "ymlacio yn y dafarn, ond siarad Cymraeg" ymysg pethau eraill.

Ailddechreuodd D ddysgu'r iaith er mwyn ei defnyddio yn y gwaith. Caiff gyfle i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith, gyda ffrindiau ac yn y dafarn, ond caiff hi'n anodd gwybod pwy sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n byw mewn tref fach tua phymtheg milltir i ffwrdd, ac felly nid yw'n dod i Abertawe dros y penwythnos. Meddai fod Tŷ Tawe'n bwysig iddo, "dw i'n gwerthfawrogi cael lle cyfleus am y dosbarthiadau. Dw i'n credu fod e'n bwysig i helpu pobl cymdeithasu yn y Gymraeg, Sadwrn siarad ac ati." Roedd rhuglder D yn arbennig, yn rhannol yn sgil defnyddio'r Gymraeg gyda'i fyfyrwyr a bellach mae'n cydweithio ag arbenigwyr yn ei faes i greu termau Cymraeg newydd. Roedd D hefyd yn mynd i dafarn yn Abertawe i siarad Cymraeg yn anffurfiol unwaith y mis, ac roedd yn teimlo'i bod yn haws iddo siarad Cymraeg yn y gwaith a gyda phobl newydd iddo.

Nid oes cyfle gan Dd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oes ganddo amser i fynd i ddigwyddiadau penodol, ond â unwaith yr wythnos i'w ddosbarth yn Nhŷ Tawe, sy'n bwysig "achos does dim cyfle i siarad Cymraeg gydag oedolion eraill gyda fi rhywle

*arall.*” Mae e serch hynny’n gallu defnyddio’i allu yn y Gymraeg i helpu plant yn y teulu, sy’n dysgu’r Gymraeg yn ail iaith mewn ysgolion.

#### 7.6.1.5.5 Profiadau mynychwyr Sesiwn Siarad Tŷ Tawe

Nid yw A yn cael llawer o gyfle i siarad Cymraeg. Gwna hynny mewn dosbarth ar lenyddiaeth Cymru yn ogystal ag yn y dosbarth yn Nhŷ Tawe. Nid oes ganddo deulu Cymraeg a “*dim ond yn Tŷ Tawe*” y mae’n defnyddio’r iaith. “*Aros yn y tŷ*” a wna fel arall. O ran cwrdd â chysylltiadau Cymraeg newydd “*dim ond trwy Tŷ Tawe*” mae hyn yn digwydd.

Mae B yn mynychu’r dosbarth yn Nhŷ Tawe a’r siop gan ddweud bod Tŷ Tawe’n “*bwysig iawn*” iddo, ond na all fynychu yn y nos oherwydd afiechyd. “*Bydden i’n mynd i pethe yn y nos, sen fy iechyd yn well, yn anffodus, felly dwi ddim yn mynd i lawer o pethe ar y pryd.*” Dim ond yn y sesiwn Siawns am Sgwrs y caiff gyfle i ddefnyddio’r Gymraeg. Mae e hefyd yn “*darllen un stori y newyddion yn Cymraeg bob dydd.*”

Mae C yn byw mewn tref tua 15 milltir i ffwrdd. Mae ganddo gymdogion Cymraeg ond “*y peth pwysig i fi yw y dosbarth yma, dwi’n hoff iawn o dod yma, ac yn mwynhau lot, ac ar ôl y dosbarth dwi’n mynd mas ac yn meddwl yn Gymraeg mwy na unrhyw beth arall.*” Mae dod i ddinas unwaith yr wythnos yn apelio iddo. Dywedodd, “*fel dwi wedi dweud, mae’n bwysig bod canolfan Gymraeg yng nghanol Abertawe, gwybod bod pethau’n mynd mlaen, dosbarthiade, siop siarad.*”

Mae Ch, sy’n siarad Cymraeg gyda’i merch a phobl yn yr eglwys a ffrindiau, yn cael bod dod i Dŷ Tawe yn “*codi hyder.*” Cafodd ei magu yn y Saesneg, ond aeth ei merch i ysgol Gymraeg ond ei mab i ysgol Saesneg, felly doedd dim cyfle i siarad Cymraeg gartref. Mae hi’n “*edrych ymlaen o un wythnos, dwi’n mynd i’r siop,*” ond “*ddim yn hoffi mynd mas yn y nos.*”

Mae D yn gallu siarad Cymraeg gyda’i deulu. O ran gweithgareddau eraill Tŷ Tawe, meddai, “*des i i’r parti Nadolig, roedd gwych*” ond cafodd anhawster mewn cwis, “*roedd y cwis yn rhy anodd, cwestiynau dros ben llestri, ond Tŷ Tawe yn pwysig i fi, pwysig iawn i llawer o bobl.. y prif lle i bobl i cwrdd i siarad Cymraeg, cwrdd pobl arall, dim ond siarad.*”

Mae Dd yn defnyddio’r Gymraeg gyda phobl yn y capel, Merched y Wawr a Chymdeithas Gymraeg mewn tref tua 4 milltir o ganol Abertawe. Meddai “*Mae Tŷ Tawe’n bwysig iawn i hybu’r iaith Gymraeg yn Abertawe ac rwy’n ddiolchgar am bob cyfle dwy wedi cael i godi hyder ynof fi.*” Mae hi’n dod ddwywaith yr wythnos i Dŷ Tawe ac ambell noson, mae’n ddefnyddiol “*i gymdeithasu gyda pobl a ehangu’r iaith.*”

Mae E yn byw mewn maestref yng ngorllewin Abertawe, ac ni chaiff llawer o gyfle i siarad yr iaith yno, ond daw i’r cwrs a chaiff bod hyn yn “*bwysig*” iddo.

#### 7.6.1.5.6 Profiadau mynychwyr sesiwn anffurfiol yn Nhŷ Tawe

Holwyd 9 o fynychwyr digwyddiad yn Nhŷ Tawe am eu barn hwy am y Ganolfan Gymraeg wrth iddyn nhw fynd ati i geisio siarad Cymraeg a datblygu cylch cymdeithasu. Roedd ganddynt wahanol resymau dros ddysgu'r Gymraeg ac roeddynt wedi bod yn ei dysgu ers gwahanol gyfnodau.

Roedd y naw yn unfryd fod Tŷ Tawe wedi bod yn allweddol i'w hymdrechion. Meddai A, "*Mae [Tŷ Tawe] yn bwysig iawn – wrth i fi ddechrau dysgu, roedd e'n lle diogel i ymarfer. Wedyn daeth e'n lle i gwrdd â ffrindiau newydd. Ond nawr, rwy'n fwy hyderus ac rwy'n fwy hapus i siarad Cymraeg unrhyw le.*"

Meddai B fod "*Tŷ Tawe yn bwysig i fi*" a nododd hyn oherwydd y cyfle i feithrin ffrindiau, ei fod yn "*lle pwysig i ymarfer*", a bod y "*siop yn bwysig*" i gael cardiau a llyfrau.

Yr un oedd barn C sy'n dysgu am ei bod "*yn byw yn Abertawe a dw eisiau deall Cymraeg*"). Meddai, "*Mae'n bwysig achos dw i'n gallu siarad Cymraeg yn Cyd a Siop Siarad ac achlysuron arbennig fel y Nadolig.*"

Meddai Ch fod "*Tŷ Tawe yn bwysig... achos bod siawns 'da fi i gwrdd â hen ffrindiau ac ymarfer yr iaith.*" Roedd digwyddiadau a drefnir o Dŷ Tawe hefyd yn bwysig iddo, fel teithiau cerdded.

Dysgodd D am ei fod yn "*teimlo cywilydd*" am "*ro'n i'n methu â siarad fy iaith fy hunan*" pan oedd yn crwydro'r byd. Nid yw bellach yn byw yn Abertawe. Dywed bod Tŷ Tawe "*wedi bod ac yn dal yn bwysig i fi. Does dim ffordd y gallwn i fod wedi dysgu Cymraeg mor gyflym â fy mod i wedi'i wneud heb Dŷ Tawe.*" Pwysleisiodd hefyd y modd y datblygodd gylch o ffrindiau newydd, "*mae 'na gylch o ffrindiau newydd gyda fi, sy'n siarad Cymraeg, ac rwy wedi llwyddo i gael swydd ym maes Cymraeg.*"

Mae Dd yn dysgu'r Gymraeg ers deng mlynedd am mai "*Cymro ydw i*". Iddo fe, Tŷ Tawe'n unig sy'n cynnig cyfle iddo siarad yr iaith, "*Mae Tŷ Tawe yn holl bwysig i mi am fod yr unig lle yn Abertawe lle ydw i'n gallu siarad Cymraeg yn gyson. Bob tro yr wyf yn mynd yno, bydd pobl gyfeillgar tu ôl i'r cownter [y siop] ac o'i flaen.*"

Mae E yn dysgu'r Gymraeg ers deng mlynedd am ei bod yn "*hoff o ieithoedd*" ac am fod ei "*gŵr yn moyn dysgu hefyd*". Meddai, "*Mae Tŷ Tawe yn werthfawr iawn i fi gymdeithasu yn Gymraeg – i gael cylch ffrindiau newydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau ac i gwrdd â siaradwyr Cymraeg. Mae'r ganolfan yn hanfodol i fi am y rhesymau hyn.*"

Dyn a oedd yn siarad Cymraeg pan oedd yn blentyn yn un o gymoedd y de yw F ac meddai am Dŷ Tawe, "*Mae hi yr unig le wi'n mynd i gymdeithasu, ar wahân i'r capel.*"

#### **7.6.1.5.6.1 Mynychder defnydd o'r Ganolfan**

Roedd Tŷ Tawe'n amrywio o ran mynychder defnydd ymysg y naw. Byddai A yn mynd i yn wythnosol i'r Siop Siarad yno ar foreau Sadwrn, i rai sesiynau CYD ar foreau lau, ac hefyd yn mynychu gigiau misol a sesiynau canu gwerin misol, yn ogystal â chyfarfodydd a gweld gemau rygbi. Gallai hyn olygu bod A yn mynychu Tŷ Tawe tua dwsin o weithiau y mis.

Tua dwywaith y mis byddai B yn mynychu Tŷ Tawe, i Siop Siarad, a hefyd i ddigwyddiadau penodol, fel nosweithiau cerddoriaeth ac i weld gemau rygbi. Er nad oedd yn mynychu'n amlach, roedd hi'n ystyried bod y Ganolfan yn bwysig iddi.

Byddai C yn mynychu Tŷ Tawe tua 8 gwaith y mis, ac yn mynd yn gyson i sesiynau CYD ar foreau lau ac i'r Siop Siarad ar foreau Sadwrn.

Tua dwywaith y mis y byddai Ch yn mynychu Tŷ Tawe, a D yn mynychu Tŷ Tawe rhwng 4 a 6 gwaith y mis, yn bennaf i'r sesiynau Sadwrn Siarad, i nosweithiau gwerin, ac i ddigwyddiadau fel cwisiau.

Roedd Dd yn mynychu Tŷ Tawe bob wythnos, yn bennaf i'r Siop Siarad. Ni fyddai'n mynychu dosbarth penodol, ond byddai hefyd yn mwynhau gweld gemau rhyngwladol yn Nhŷ Tawe.

Byddai E yn mynychu Tŷ Tawe unwaith yr wythnos, a hefyd yn mynychu dosbarth Uwch unwaith yr wythnos, cyfanswm felly o 8 gwaith y mis.

Byddai F yn mynychu Tŷ Tawe wyth gwaith y mis, sef i'r sesiynau CYD ac i sesiynau Siop Siarad ar foreau Sadwrn.

Yr awgrym a geir gan y naw, yn gyffredinol, yw eu bod yn gwerthfawrogi sesiynau penodol a chyson sy'n cael eu trefnu yn y Ganolfan. Er bod rhai'n manteisio ar bob cyfle, ac yn croesawu digwyddiadau achlysurol, fel gwyllo gemau rhyngwladol, a defnydd anffurfiol o'r siop, y sesiynau sy'n cael eu trefnu sy'n eu denu fwyaf.

#### 7.6.1.5.6.2 Defnydd o'r Gymraeg mewn mannau eraill

Ychydig o gyfle y byddai 6 o'r 9 yn ei gael i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r Ganolfan Gymraeg.

Roedd gan B rai ffrindiau sy'n siarad Cymraeg, a'r rhain wedi dod yn ffrindiau "*trwy Tŷ Tawe*", ond "*rydyn ni'n cwrdd yn y mwyaf yn digwyddiadau yn Nhŷ Tawe*" meddai. Ar wahân i hyn roedd ganddo rai ffrindiau yng nghanolbarth Cymru.

"*Dim ond ambell waith gyda ffrind*" y byddai C yn siarad Cymraeg ar wahân i Dŷ Tawe. Gyda dau berson yn unig y bydd Ch yn siarad Cymraeg, y naill yn siopwr a'r llall mewn clwb lleol. Meddai Dd nad oedd yn "*cymdeithasu o gwbl ac eithrio mynd i Dŷ Tawe*".

Ni fyddai E yn cael "*bron dim cyfle*" i siarad Cymraeg. Nid oedd dim Cymraeg gan ei theulu, ond byddai'n cael peth cyfle "*dros dro*" wrth wirfoddoli mewn meithrinfa ddwyieithog.

Roedd F yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth yrru bws mewn ardal draddodiadol Gymraeg, a byddai "*bron pob un yn gallu siarad Cymraeg*".

"*Mynychu digwyddiadau yn Nhŷ Tawe*" oedd unig gyfle D i ddefnyddio'r Gymraeg pan oedd yn dysgu, ond erbyn hyn mae'n "*siarad Cymraeg yn y gwaith ond yn dal i fynychu digwyddiadau yn Nhŷ Tawe*".

Roedd A bellach yn dilyn cwrs Cymraeg yn y brifysgol ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr adran yno, a hefyd yn y dafarn, "*eitha lot o ffrindiau Cymraeg*". Roedd ganddi hefyd "*ffrindiau sy ddim yn byw yn Abertawe*" a byddai'n defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn, y we ac yn ymweld. Meddai hefyd fod "*lot o siarad ar ôl y cyfarfodydd*" gyda'r Crynwyr, er bod y "*cyfarfodydd yn dawel*".

### **7.6.1.6 Profiad dysgwyr Morgannwg Ganol**

Nodir mewn man arall sut mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg wedi mynd ati i drefnu rhaglen helaeth o weithgareddau a digwyddiadau i ddysgwyr yn yr ardal. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y modd y mae dysgwyr a holwyd yn gwneud defnydd o'r cyfleoedd hyn. Ategir y gweithgareddau hyn gan y Ganolfan Gymraeg ym Merthyr, lle mae siop a man i gynnal gweithgareddau.

Unwaith eto, mae profiadau unigol y dysgwyr yn cyfrannu'n helaeth at y modd y maen nhw'n manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir. Gwelir, serch hynny, bod y gweithgareddau hyn yn cynnig cyd-destun cynhyrchiol i'r rhai sy'n manteisio arny'n nhw.

#### **7.6.1.6.1 Profiadau dysgwyr Merthyr**

Meddai A o ardal Merthyr nad oedd yn cael llawer o gyfle i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Roedd gŵr arall hefyd am gael rhagor o gyfleoedd, er ei fod yn canu gyda'r côr yn y Ganolfan ym Merthyr. Byddai'n mynd ar deithiau cerdded gyda Morgannwg ac yn mynd i Glwb Darllen Morgannwg, a hefyd i Glwb Siarad Gartholwg, a dosbarthiadau a darlithiau yn y Ganolfan ym Merthyr. Byddai hefyd yn mynychu'r siop Gymraeg yn y Ganolfan ac yn siarad â rhai yno.

Roedd dysgwr arall wedi sefydlu cymdeithas siarad o'r enw 'Cymdeithas Soar', a byddai siaradwyr yn dod i roi sgwrs. Byddai 30 yn dod i gychwyn, ond tua 20 erbyn hyn. Roedd siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn mynychu.

Roedd gweithgareddau eraill fel teithiau siopa i Abertawe, taith i Sain Ffagan ac i Landeilo wedi denu un dysgwr.

Roedd y Ganolfan ym Merthyr wedi rhoi cefnogaeth i'r Gymdeithas trwy roi lle i gyfarfod, a barn un o'r dysgwyr oedd y byddai'n '*anodd iawn heb y Ganolfan*'. Meddai un arall bod y Ganolfan yn helpu trwy wneud posteri a llungopïo. Roedd y Ganolfan hefyd yn cynnig siop lle gallai'r dysgwyr brynu deunyddiau Cymraeg.

Meddai A ei fod yn defnyddio'r Gymraeg yn swyddfa bost Heol Gerrig ac meddai dysgwr arall ei bod yn defnyddio'r swyddfa bost honno'n fwriadol. Meddai hefyd ei bod yn defnyddio ffurflenni Cymraeg i gael treth car.

Roedd un wraig yn mynd i Ferched y Wawr, ond yn ei chael hi'n anodd cael mynychwyr yno i siarad Cymraeg â hi.

Byddai dau yn mynd i dafarn i siarad Cymraeg, a merch a fu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yn gweini yno. Roedd y dafarn hon yn gwneud ymdrech i gael rhywun Cymraeg y tu ôl i'r bar ar nosweithiau Mercher.

Roedd dysgwr arall yn ei chael hi'n anodd siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, i raddau am ei bod '*yn anodd newid yr iaith nawr*'.

Roedd cytundeb cyffredinol y byddai cael siaradwyr i wisgo bathodyn 'Cymraeg' yn gymorth i wybod ble roedd modd siarad Cymraeg.

Roedd yn glir bod llawer o'r grŵp hwn yn manteisio ar weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r Ganolfan Gymraeg ym Merthyr, tra bo presenoldeb tafarn o gymorth i eraill.

#### 7.6.1.6.2 Profiadau dysgwyr Pen-y-bont

Roedd profiadau siarad dysgwyr Pen-y-bont yn amrywio'n fawr yn ôl eu hymdrechion eu hunain. Roedd tair elfen yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddefnydd y Gymraeg ymysg y dysgwyr hyn, sef defnyddio'r Gymraeg yn y teulu, mynychu gweithgareddau Cymraeg, a sefydlu eu grŵp sgwrsio eu hunain. Ar yr ochr negyddol, roedd diflaniad Clwb Cymraeg Brynmenyn wedi eu hamddifadu o gyfle cyson i ddefnyddio'r iaith.

Roedd nifer o'r dysgwyr yn cael cyfle i siarad Cymraeg gyda'u teuluoedd, a hwythau wedi rhoi addysg Gymraeg i'w plant er na chawsant hynny eu hunain. Bellach mae gan rai ohonynt wyrion, a'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae hyn yn arwydd pendant o adnewyddu iaith yn digwydd o fewn y teulu, ac o wrthdroi shifft ieithyddol, a'r newid o Saesneg i Gymraeg fel prif iaith wedi digwydd o fewn dwy genhedlaeth.

Mae cysylltu dysgu iaith â gweithgaredd teuluol yn un o egwyddorion sylfaenol Gwrthdroi Shifft Ieithyddol yn ôl damcaniaeth Joshua Fishman. Ystyrir ganddo ef fod ymdrechion dysgu iaith sydd heb gyswllt â'r clymau hyn yn rhai sy'n 'arnofio'n rhydd' heb arwain at newid ieithyddol parhaol, "Threatened languages cannot afford functionally diffuse or free-floating efforts." (Fishman, 2001: 14)

Dychwelodd A i Gymru i roi addysg Gymraeg i'w blant ac yn awr mae'n siarad "*gyda'r wyrion, sy ddim yn siarad Saesneg*". Meddai ei fod hefyd yn "*siarad â'r plant, plant yn rhugl*" a'i fod hefyd yn cael cyfle i siarad Cymraeg gyda rhyw ddeuddeg o staff yr ysgol.

Roedd B, wedi gwneud ymdrech i ddysgu'r iaith er mwyn rhoi addysg Gymraeg i'w phlant ac i'w helpu gyda'u gwaith ysgol. Mae hithau bellach yn siarad Cymraeg gyda'i phlant. Mae hi'n weithgar yn y maes dofednod ac yn siarad Cymraeg "*gyda phobl yn y clwb dofednod Cymru*" a hefyd yn y Sioe Frenhinol lle mae "*lot o bobl yn siarad Cymraeg*", a hefyd gyda ffrindiau, yn y capel, a chydag athrawon, ac weithiau mewn siopau ac mewn cymdeithasau Cymraeg fel CYD. Ei phrif anhawster yw nad oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn ei hardal.

Meddai hithau ei bod bellach yn defnyddio'r Gymraeg gydag athrawon ysgol y plant, "*felly mae'n wych nawr*." Roedd hi'n gadarn o'r farn bod "*rhaid i bobl wneud cyfleoedd*". Mae hi'n defnyddio'r iaith hefyd yn y capel.

Roedd C wedi bod yn dysgu ers 35 o flynyddoedd, ac yn eitha rhugl. Meddai ef "*achos fy wyrion ddim yn gallu siarad Saesneg, felly mae rhaid i fi siarad yr iaith*." Nid oedd Cymraeg yn ei deulu, ac yntau wedi ei fagu mewn tref yn ne-ddwyrain Cymru. Mae ei ddau fab yn rhugl yn yr iaith, ac un yn byw mewn tref yn y canolbarth. Mae ei feibion yn "*mynnu fi'n siarad Cymraeg – ddim Siarad Saesneg o gwbl, maen nhw'n committed, sefyllodd fy mab dros Plaid Cymru yn P... yn yr etholiad diwethaf*."

Roedd Ch, a ddechreuodd ddysgu ar ôl ymddeol, yn cael cyfle i ymarfer Cymraeg yn y sioe dofednod, fel rhan o'r Sioe Frenhinol, lle mae llawer o'r arddangoswyr yn defnyddio'r Gymraeg. Ond yn ei achos ef "*does neb llawer i siarad â trwy'r wythnos... neb yn y teulu, neb yn y pentref, neb yn y tafarn*". Mae e a thri o'r dosbarth wedi gwneud ymdrech arbennig i sefydlu eu grŵp sgwrsio eu hunain ac maen nhw'n "*cwrdd unwaith yr wythnos yn y tŷ*."

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys darllen erthyglau yn y *Cymro*, a sgwrsio cyffredinol.

D yw aelod arall y grŵp hwn o bedwar. Meddai yntau ei fod yn aelod o gôr, ond ei fod yn ei chael yn "*anodd dyall rhai ohonyn nhw, Llanelli Welsh macaronig*". Ond



roedd ganddo ef ferch yn byw yn y gogledd, ac roedd ei gŵr hithau'n siaradwr Cymraeg, a'r wyrion yn siarad Cymraeg felly "*mae cyfle i siarad â nhw... weithiau.*"

Fel arall roedd y dysgwyr o Ben-y-bont yn mynychu cyngherddau Cymraeg, cymanfaganu ym Mhorthcawl, eisteddfod yng Ngartholwg, a gweithgareddau a defnir gan wahanol fudiadau, fel cwis wedi'i drefnu gan yr *Hogwr*, a pherfformiadau drama, trwy gydweithrediad Menter Bro Ogwr.

Meddai C fod gan nifer ohonynt wragedd a oedd yn siarad Cymraeg, ond nad oeddynt yn fodlon gwneud, "*problem perswadio nhw*", ond meddai, "*os ti'n moyn siarad yn rhugl, yr unig ffordd yw siarad yn y tŷ, bob amser.*"

Bu yn yr ardal Glwb Cymraeg, Brynmenyn. Sefydlwyd hwn mewn adeilad a fu'n dafarn, a chynhaliwyd digwyddiadau Cymraeg yno yn ystod yr 1980au. Roedd nifer o'r dysgwyr yn gresynu bod y clwb hwn wedi cau. Roedd A yn bryderus am hyn. Meddai Dd fod angen "*un lle i gyfarfod fel yr hen Glwb Brynmenyn. Beth drist oedd e pan y clwb wedi cau.*" Roedd hithau bellach yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i bobl i siarad Cymraeg â nhw y tu allan i'r dosbarth. Meddai C bod modd "*gallu dibynnu ar rywun i siarad Cymraeg yn clwb Brynmenyn.*"

### 7.6.1.7 Profiadau dysgwyr Casnewydd

Roedd y dysgwyr a holwyd yn siarad Cymraeg yn dda o'u cymharu â llawer a holwyd. Roedd y rhan fwyaf wedi bod yn dysgu ers deng mlynedd neu ragor, a'r rhan fwyaf yn dysgu am resymau integreiddiol.

Yn wahanol i nifer o'r dysgwyr a holwyd mewn mannau eraill, nid oedd siaradwyr Cymraeg yn eu cymdogaeth, ac roedden nhw felly'n dibynnu ar ddysgwyr eraill i gael cyfle i siarad Cymraeg. Nid oedd cymathu yn rhan o'r agenda. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf yn llwyddo i fynychu gweithgareddau neu ddsbarthiadau o leiaf ddwywaith yr wythnos, ac weithiau hyd at bedair neu bum gwaith. Yn achos un yn unig roedd hyder yn broblem, am ei bod hi'n mynychu capel Cymraeg.

Yr oedd A a B yn siarad Cymraeg weithiau â'i gilydd, ond doedd neb yn eu pentre'n siarad Cymraeg. Roedd C yn athrawes, ac yn dysgu Cymraeg i blant 9 oed, a rhoddai hyn gyfle iddi siarad Cymraeg. Roedd hi hefyd yn mynychu Merched y Wawr unwaith y mis, ac yn mynd i'r Mochyn Du yng Nghaerdydd ar fore Mawrth i sesiynau siarad. (Roedd hi'n byw yng Nghaerdydd.)

Roedd Ch wedi bod yn dysgu ers tua 15 mlynedd ar ôl dychwelyd i Gymru. Roedd ganddo ffrind y byddai'n Cymraeg ag ef.

Roedd gan D ferch a oedd wedi bod i ysgolion Cymraeg a byddai'n cael cyfle'n awr i siarad Cymraeg â hi. Roedd dysgwr arall, Dd, yn manteisio ar bedwar neu bum cyfle wythnosol i siarad Cymraeg trwy fynychu gwahanol ddsbarthiadau a sesiynau yn llyfrgell Casnewydd.

Roedd E yn dweud nad oedd ganddi hyder i siarad Cymraeg a'i bod yn "rhedeg allan o'r capel i osgoi siarad 'da pobl'. Dim ond hi fyddai'n cael cyswllt wythnosol â chylch o siaradwyr Cymraeg, ac mae'n ddiddorol mai hi oedd yr unig un i awgrymu ei bod yn brin o hyder.

Roedd y rhan fwyaf yn gwrando ar Radio Cymru – efallai wrth yrru'r car – neu'n gwyllo S4C er nad oedd A a B yn hoff o wneud hyn. Roedd Ch yn gwrando ar "Post Cyntaf ar y ffordd i gwaith" ond roedd eitemau tafodieithol yn rhwystr iddo, "os mae cyflwyniad 'da rhywun o'r gogledd ar fferm, mae'n anodd." Roedd Ch hefyd yn manteisio ar gyfresi llyfrau bach i siaradwyr Cymraeg. Nid oedd D yn hoffi operâu sebon, ond yn edrych "weithiau" ar Bobl y Cwm. Roedd E yn gwyllo nifer o raglenni, gan gynnwys Pobl y Cwm, Rhaglenni Aled Samuel ac Wedi Tri ac felly'n cael "cyfle bob dydd".

Roedd nifer yn y dosbarth yn darllen *Golwg*, ac yn cael hyn yn haws na llyfrau. Roedd un wedi gwneud *Golwg360* yn wefan ddiodyn ar ei gyfrifiadur.

Ar y cyfan roedd y dysgwyr yn fodlon â'r ddarpariaeth, "yr holl pecyn dwi'n meddwl" meddai Ch. Roedd pob un o'r farn mai'r cymorth mwyaf iddynt oedd y dosbarth Cymraeg wythnosol. Roedd tri ohonynt wedi nod mai'r un peth a fyddai'n gallu eu helpu'n fawr fyddai cael Canolfan Iaith yng Nghasnewydd.

Roedd y tiwtor o'r farn bod y dosbarth yn llwyddo i gael digon o gyfleoedd trwy fanteisio ar wahanol sesiynau a chysiau, a thrwy wneud ymdrech, ond bod bwlch rhwng y dosbarth llwyddiannus hwn a ddsbarthiadau cychwynol dysgwyr, yr oedd nifer sylweddol ohonynt yn methu parhau i'r safon uchaf.

## 7.6.2 Hyder / Agwedd siaradwyr Cymraeg

*"If learners do not receive a positive response when they first use the language, they may lose confidence and withdraw, believing their Welsh to be inadequate. Learners are not usually prepared for the gulf between learning in class and using/practising Welsh in the community."* (Newcombe, 2007: 55)

Noda Newcombe (2007: 66) nad oedd ffactorau megis agwedd, cymhelliant a phryder yn derbyn llawer o sylw yng nghyd-destun dysgwyr ieithoedd hyd at yn gymharol ddiweddar. Mae 7.6.2 yn edrych yn benodol ar 'bryder' neu ddiffyg hyder ymhlith dysgwyr ac yn benodol ar sut y mae / y gall hyn effeithio ar eu hymdrechion a'u hawydd i adael y dosbarth a defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Gwelir wrth fynd trwy sylwadau'r grwpiau ffocws gwahanol fod diffyg hyder ymhlith y dysgwyr yn ffactor sy'n codi yn gyson.

### 7.6.2.1 Y Crwys

Soniodd nifer o aelodau'r grŵp hwn am eu diffyg hyder o ran defnyddio'r Gymraeg gyda siaradwyr y tu allan i'r dosbarth. Yn gysylltiedig â hyn, gellir ychwanegu'r anhawster o newid iaith gyda siaradwyr Cymraeg y mae'r dysgwyr yn gyfarwydd â siarad Saesneg â nhw gydag un yn nodi bod ei chymdogion yn medru'r Gymraeg ond wedi arfer â siarad Saesneg â hi ac felly yn ei chael hi'n anodd newid i'r Gymraeg gyda hi. Meddai aelod arall o'r grŵp fod diffyg hyder difrifol ganddi os oes rhaid iddi siarad â phobl 'ddiarth' yn Gymraeg. Ategwyd hyn gan y grŵp cyfan.

Gall y diffyg hyder hwn ddeillio o deimlo na allant gynhyrchu atebion yn ddigon cyflym fel y dywedodd un dysgwr, "*Nid hyder i siarad. Sai'n meddwl am y geiriau yn dod yn digon gyflym. Wedyn dwi'n cofio popeth!*"

Sonnir yn yr adroddiad hwn am oriau cyswllt ac a oes gan ddysgwyr yr adnoddau ieithyddol priodol er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â defnyddio'r Gymraeg gyda phobl nad ydynt yn eu nabod. Er mai grŵp uwch oedd hwn, daeth yn amlwg wrth siarad â nhw y gallai diffyg gafael gadarn ar nifer o gystrawennau ynghyd â phrinder geirfa fod yn rhwystrau rhag cyfathrebu ar bob lefel yn y Gymraeg ac yn sicr, gallai hyn fod yn un ffactor y tu ôl i'r pryder / diffyg hyder a nodwyd ganddynt. Yn ôl tystiolaeth nifer o aelodau o'r grŵp hwn, mae cyfleoedd i siarad Cymraeg yn dod ond nid oes ganddynt yr hyder i fanteisio ar y cyfleoedd hynny'n aml.

Sylw un o'r dysgwyr a nododd ei bod yn bwysig cael hyder i ddefnyddio'r iaith oedd bod yr hyder yn dod yn haws mewn llefydd lle mae e'n siŵr fod pawb yn mynd i ddefnyddio'r Gymraeg, fel Canolfan Tŷ Tawe.

Ceir yma thema gyffredin i'r rhan fwyaf o'r grwpiau ffocws, sef bod cyflymder siarad nifer o Gymry Cymraeg yn broblem iddynt o ran deall, ynghyd â'r defnydd o eiriau ac ymadroddion tafodieithol. Nodir hefyd y tueddiad gan siaradwyr Cymraeg i ymateb gyda gair neu ddau yn Gymraeg ac yna troi i'r Saesneg. Yng nghyd-destun y gweithle, fel y gwelir mewn grwpiau eraill, newidir i'r Saesneg, "*...pan dy'n ni'n siarad am bethe pwysig.*"

### 7.6.2.2 Coleg Abertawe, Tŷ Coch, Abertawe

Cafwyd sylwadau tebyg i 7.6.2.1 gan y grŵp hwn gydag un yn nodi bod ei diffyg hyder yn rhwystr rhag siarad Cymraeg â'i phlant gan ei bod yn ofni gwneud camgymeriadau a siarad yn wallus ac y bydd y plant yn atgynhyrchu'r un patrymau gwallus. Rhoddwyd diffyg hyder fel rheswm dros beidio â mynychu digwyddiadau yn y Gymraeg gan un arall.

Gwelir yma enghreifftiau o Gymry Cymraeg yn gweld Cymraeg y dysgwyr yn rhy 'gywir', "*Roedd y dyn yn eisiau siarad Cymraeg â fi achos dwi'n dweud dwi'n dysgu ond dwedodd e 'ti'n siarad fel geiriadur'.*" Ar y llaw arall, profiad dysgwr arall oedd bod ei ffrindiau'n mynnu siarad Cymraeg ag ef (er bod y plant yn chwerthin am ei ben am ei fod yn gwneud ambell gamgymeriad).

### 7.6.2.3 Tŷ Tawe (nos)

Mae sylw un aelod o'r grŵp hwn yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng pryder a diffyg hyder. Sonnir yma am fynd i mewn i'r siop lyfrau Cymraeg yn y ganolfan am y tro cyntaf, "*...ro'n i'n nervous iawn, mae'n dwp mewn ffordd, roedd rhyw fath o ymdrech jyst i mynd i mewn i'r siop...*" er bod y person tu ôl i'r cownter yn gyfeillgar iawn. Roedd yr ymateb cadarnhaol a gafodd y dysgwr hwn yn y siop (gan siaradwr Cymraeg oedd yn amlwg yn gyfarwydd â siarad â dysgwyr) wedi bod yn hwb i'w hyder ac erbyn hyn, "*...bob tro rwy'n mynd i'r siop rwy'n cael tipyn bach o sgwrs ... heb y siop, heb Tŷ Tawe, does dim ffordd yn y byd i fynd mlaen gyda Cymraeg.*"

Cofnododd dysgwr arall ei ddiffyg hyder gan awgrymu y byddai staff yn gwisgo bathodyn 'Cymraeg' mewn siopau yn ei helpu i oresgyn y broblem rywfaint.

### 7.6.2.4 Bryncoch

Ar wahân i'r sylwadau cyffredinol am ddiffyg hyder, meddai un o'r grŵp hwn ei bod yn colli hyder pan nad yw'n medru deall yr hyn mae ei chymdogion yn ei ddweud wrthi hi. Nid diffyg adnoddau ieithyddol o ran y dysgwyr yw'r unig ffactor felly ond anawsterau deall siaradwyr eraill, yn yr achos yma oherwydd eu tafodiaith. Mynegwyd teimlad gan un aelod o'r grŵp fod angen mwy o hyder arni, hynny yw ei bod yn chwilio am ffyrdd o fagu mwy o hyder.

Teimlad un o'r dysgwyr oedd nad yw siaradwyr Cymraeg yn hoffi siarad Cymraeg â dysgwyr. Ategwyd hyn i raddau gan un arall oedd yn credu ei bod yn haws siarad Cymraeg â dysgwyr eraill gan eu bod yn "*deall y problemau.*" Codwyd problem siarad yn gyflym eto a'r ffaith fod siaradwyr Cymraeg yn aml yn credu bod safon Gymraeg y dysgwyr yn 'well' na'u Cymraeg nhw. Mae'r agwedd hon yn un y mae'n anodd i'r dysgwyr ei deall yn llawn, "*Maen nhw'n dweud, dw i ddim yn gallu siarad Cymraeg yn dda iawn, yn gywir, ... mae'n dwp.*" Gwelir eto fod tafodiaith leol yn rhwystr rhag deall weithiau ynghyd ag anhawster newid cyfrwng gyda phobl y maent yn gyfarwydd â defnyddio Saesneg gyda nhw.

### 7.6.2.5 Grwpiau'r Wyddgrug

Cafwyd sylw penodol gan un ddysgwraig am sut mae ei diffyg hyder yn ei rhwystr rhag defnyddio'r Gymraeg gyda phobl yn y gwaith. Wrth gwrs, mae goblygiadau gwahanol i ddiffyg hyder yng nghyd-destun y gweithle e.e. cyflogwyr yn talu i weithwyr fynychu cyrsiau i ddysgu'r Gymraeg ond diffyg hyder yn golygu nad yw'r dysgwyr yn fodlon defnyddio'r iaith yn y gweithle; diffyg hyder oherwydd anghydbwysedd o ran lefel y sgiliau yn y ddwy iaith a pheidio â chael eich ystyried yn llai cymwys yn eich gwaith gan eich bod yn defnyddio'r ail iaith.

Dylid nodi bod eithriadau sy'n fodlon datgan eu bod yn hyderus i siarad Cymraeg ac wrth reswm, dyma'r dysgwyr sy'n fwy parod i fentro sgwrs yn y Gymraeg gyda dieithriaid. Yn achos un dysgwr, mae ei bartner yn siarad Cymraeg ac ymddengys fod ei chefnogaeth a'i hanogaeth hi wedi llwyddo i godi ei hyder yntau. Eto i gyd, mae'n ychwanegu bod "*...pobl Cymraeg angen mwy o amynedd i ateb pobl fel fi...*". Mae Newcombe (2009: 70 – 91) yn clustnodi pennod gyfan i drafod hyn a'r rhesymau amrywiol y mae siaradwyr Cymraeg yn troi i'r Saesneg ac yn ymddangos fel pe baent yn colli amynedd wrth siarad â dysgwyr.

Mae sylw dysgwyr arall yn tanlinellu dwy ffaith gyffredin i lawer o'r rhai sydd wedi cyfrannu at yr ymchwil hon mewn ardaloedd gweddol ddi-Gymraeg sef (i) diffyg adnoddau ieithyddol a (ii) prinder siaradwyr Cymraeg amlwg yn y gymuned, "...ond y problem yw dechrau pob sgwrs yn Cymraeg a chael hyder a vocab i cario'r sgwrs ymlaen, dyna problem fi." Prif anhawster aelod arall oedd "...y pobl Cymraeg sy'n troi i Saesneg os cael anhawster efo dysgwyr."

Mae'n ddiddorol nodi profiad ambell un sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ac wedi'u magu â rhywfaint o Gymraeg fel plentyn. Mae mynychu dosbarth uwch a chymysgu gyda 'dysgwyr go iawn' yn eu gwneud yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg er nad ydynt wedi darllen na siarad llawer o Gymraeg ers eu plentyndod.

#### **7.6.2.6 Merthyr Tudful**

Ar y cyfan, ni chodwyd diffyg hyder gan aelodau'r grŵp hwn fel rhwystr rhag defnyddio'r Gymraeg ac yn sicr, roeddynt yn weithgar mewn nifer o weithgareddau a chymdeithasau Cymraeg yn lleol. Noda un ohonynt y profiad o siarad Cymraeg â rhywun lleol a'r person hwnnw bob amser yn ateb yn Saesneg. "*Mae rhai ym Merthyr fel'na. Dwi'n gwrando ar straeon am bobl yn siarad nôl yn syth yn Saesneg.....Pobl iaith gynta.*" Trafodwyd agweddau siaradwyr Cymraeg felly a chytunwyd y byddai dysgwyr yn llawer mwy tebygol o siarad Cymraeg a dal i siarad Cymraeg, "*Dwi ddim yn deall hyn o gwbl... os dwi'n gwybod bod rhywun yn gallu siarad Cymraeg ac maen nhw'n siarad Saesneg dwi'n dweud, beth sy'n bod gyda ti? Dwi siarad Cymraeg.*"

Cafwyd teimladau eithaf cryf am dueddiad rhai Cymry Cymraeg (yn yr achos arbennig yma, aelodau o gymdeithas Merched y Wawr) i droi i'r Saesneg gyda dysgwyr gan un aelod o'r grŵp, "*Dwi wedi treulio lot o amser ac arian yn dysgu Cymraeg ac dwi'n benderfynol o siarad nawr.*" Eto i gyd, mynegodd aelod arall y farn sydd o bosib yn gyffredin i lawer o ddysgwyr eraill gan ddweud nad oedd ganddi ddigon o hyder i fynnu bod pobl yn siarad Cymraeg. Wrth gwrs, mae'r hyder i fynnu bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith gyda chi – rhyw fath o 'bendantwydd ieithyddol' – yn fater gwahanol i ddiffyg hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda siaradwyr eraill.

Mynegwyd y teimlad yn y grŵp hwn fod rhai Cymry Cymraeg yn credu bod geirfa a safon y Gymraeg a siaredir gan ddysgwyr yn 'well' na'u Cymraeg nhw, profiad nid anghyffredin i nifer o ddysgwyr. Gellid disgwyl y byddai canfod y statws cymharol uchel hwn a briodolir i Gymraeg dysgwyr yn rhoi hwb i'w hyder ond mae penderfyniad siaradwyr Cymraeg i droi i'r Saesneg yn sgil hyn yn cael effaith i'r gwrthwyneb ar y cyfan.

Unwaith eto, nodir bod tafodiaith yn gallu bod yn rhwystr rhag cyfathrebu llwyddiannus ar adegau. Diddorol nodi na chysylltir yr un agweddau negyddol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg â'r siaradwyr hynny sydd wedi mynd trwy'r system addysg Gymraeg yn y dref. Ymddengys o brofiadau'r grŵp hwn fod y garfan honno'n fwy parod i siarad Cymraeg â dysgwyr o oedolion ac yn llai tebygol o rannu agweddau nifer o siaradwyr Cymraeg 'traddodiadol' y dref.

#### **7.6.2.7 Pen-y-bont**

Ni chrybwyllwyd diffyg hyder yn benodol gan y grŵp hwn. Ar y cyfan, roedd llawer o gysylltiadau'r dysgwyr â'r Gymraeg yn digwydd oddi mewn i rwydweithiau lle byddai eithaf tipyn o ddysgwyr eraill neu mewn peuoedd fel yr ysgol Gymraeg neu'r capel Cymraeg lle roedd y siaradwyr Cymraeg yn fwy cyfarwydd â siarad â dysgwyr.

#### **7.6.2.8 Siawns am Sgwrs – Tŷ Tawe**

Unwaith eto, sonnir am nerfusrwydd a diffyg hyder ond hefyd bod gallu mynd i Ganolfan Gymraeg fel Tŷ Tawe yn fodd o godi hyder y dysgwyr. Nodir eto fod rhai siaradwyr Cymraeg yn siarad yn rhy gyflym a bod eu Cymraeg yn cynnwys llawer o eiriau tafodieithol ac idiomau anghyfarwydd. Gwelir eto y tueddiad gan siaradwyr Cymraeg i newid i'r Saesneg, “...*fel maen nhw'n gwbod bod dysgwr ydw i, maen nhw'n newid i Saesneg i helpu fi...*”. Yn sicr, mae angen trosglwyddo'r neges yn gryf i siaradwyr Cymraeg mai effaith troi i'r Saesneg yw'r gwrthwyneb i helpu'r dysgwyr.

Diddorol nodi bod presenoldeb rhai siaradwyr Cymraeg, e.e. Nicky Robinson a John Hartson, y bernir eu bod yn defnyddio Cymraeg digon anffurfiol ar y teledu, wedi bod o help o ran codi hyder o leiaf un o'r aelodau yn y grŵp hwn. Ychwanega, “...*mae pethau wedi newid, mae purists ddim yn ruling the roost, mae'n peth da.*”

#### **7.6.2.9 Casnewydd**

Yn achos yr un dysgwr a oedd yn mynychu capel Cymraeg yng Nghaerdydd y cafwyd awgrym o ddiffyg hyder. Nid oedd diffyg hyder yn broblem i'r lleill yn sgil diffyg siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

### 7.6.3 Cymhelliant

Yn gyffredinol, fe welir bod yr hyn a nodwyd yn y grwpiau ffocws yn ategu'r hyn a gafwyd yn yr holiaduron (gweler 2.3) sef mai'r cymhelliant integreiddiol sydd amlycaf ymhlith y dysgwyr i gyd. Nodwyd gan Morris (2005: 157) fod (i) dysgwyr â chymhellion integreiddiol yn defnyddio mwy o Gymraeg (neu'n ymdrechu i ddefnyddio mwy o Gymraeg) na dysgwyr â chymhellion offerynnol a (ii) bod y rhai sy'n fwy cadarnhaol o ran defnyddio'r Gymraeg yn gwneud mwy byth o gynnydd. Gan fod y cysylltiad rhwng cymhelliant a defnydd yn ystyrlon, penderfynwyd rhoi mwy o sylw i'r elfen hon gan y grwpiau ffocws.

#### 7.6.3.1 Y Crwys

Cymhellion integreiddiol yn bennaf oedd gan aelodau'r grŵp hwn gyda rhesymau fel '*...achos mod i'n byw yng Nghymru...*', '*achos dwi'n dod o teulu Cymraeg yn wreiddiol*' a '*ces i feni yn Cymru ac nawr dwi'n byw yn Gymru*' yn bur gyffredin. Nododd un dysgwr ei fod yn teimlo'n euog nad yw'n gallu siarad Cymraeg. Yr oedd yna ymdeimlad cryf ymysg y grŵp eu bod yn dod o Gymru neu'n byw yng Nghymru ac felly roeddent am siarad iaith eu gwlad.

#### 7.6.3.2 Coleg Abertawe, Tŷ Coch, Abertawe

Yr oedd yn amlwg i ddau yn y grŵp hwn fod cymhellion offerynnol yn gymysg â rhai integreiddiol gyda'r gweithle yn ffactor pwysig o ran eu penderfyniad i ddysgu'r Gymraeg. Dylanwad integreiddiol pwysig arall a nodwyd yn y grŵp hwn oedd dysgu Cymraeg i siarad gyda'r plant (a'r partner yn yr achos yma) gyda'r potensial amlwg i newid iaith y teulu (er nodir mai Saesneg mae'r plant yn dueddol o'i siarad). Nodwyd gan aelod arall ei fod yn awyddus i siarad Cymraeg â ffrindiau. Soniwyd yn 7.6.3.1 am ddysgwr oedd yn teimlo'n '*euog*' nad oedd yn siarad Cymraeg a gwelir eto yn y grŵp hwn emosiynau eithaf cryf wrth sôn am golli cyfleoedd yn y gorffennol i ddod yn rhugl yn yr iaith: '*...ces i fy magu yng Nghymru, dwi'n **grac** nes i ddim dysgu pan o'n i'n ifanc achos roedd siawns i fi...*'. Mae'r un person yn nodi ei bod weithiau'n siarad Cymraeg yn y gwaith. Mae perthynas y dysgwyr â'r gweithle yn amrywio o fod yn brif reswm iddynt ddysgu Cymraeg (nifer gymharol fach ohonynt) i eraill sy'n ei weld fel cyfle arall iddynt ddefnyddio eu Cymraeg yn hytrach na rheswm dros ei dysgu, hynny yw, mae'r cyfleoedd sy'n codi yn y gweithle o ran defnyddio'r Gymraeg yn atodol ac nid yn greiddiol i'w hymdrechion i ddysgu'r iaith.

#### 7.6.3.3 Tŷ Tawe (nos)

Gwelir yma hefyd enghreifftiau o iaith emosiynol sy'n ymwneud â chymhellion y dysgwyr gydag un yn sôn am y **cywilydd** a deimlodd pan aeth ar ymweliad â'r gogledd a rhywun yn gofyn iddo pan nad oedd yn medru'r Gymraeg. Dyma a'i ysgogodd yn wreiddiol i ddysgu Cymraeg. Sonia un arall (nad yw'n dod o Gymru'n wreiddiol) ei fod wedi cael ei **swyno** gan yr iaith mewn angladd. Ymddengys fod nifer yn mynegi dymuniad i ddysgu Cymraeg sydd wedi bod ganddynt ers peth amser: '*...dw i wastad [wedi] eisiau siarad Cymraeg...*' fel pe bai'n rhyw fath o uchelgais oes. Fel arall, cafwyd yma lawer mwy o gymhellion integreiddiol cyffredin '*...siarad iaith fy ngwlad ac iaith fy nheulu...*' a dysgu am eu bod yn '*...byw yng Nghymru.*' Nodwyd y dymuniad i siarad Cymraeg â'r plant yn y grŵp hwn eto ac er nad oedd cymhellion offerynnol yn benodol, soniwyd eto fod gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn gymorth.

#### 7.6.3.4 Bryncoch

Nodwyd gyrfa a gwaith gan ddau o'r dysgwyr ond yr oedd y cymhellion hyn yn gymysg â rhai integreiddiol: '*Roeddwn i eisiau siarad iaith fy nhadau a nawr hoffwn i fod yn rhugl er mwyn fy mab, fy ngyrfa, fy ngwreiddiau.*' Gwelwyd y teimlad o adfer rhywbeth a gollwyd o fewn y teulu'n eithaf cryf ymhlith rhai yn y grŵp hwn: '*Dw i'n teimlo'n cryf iawn, mae mab da fi, dwi'n siarad â fe, Cymraeg a Saesneg, roedd fy*

*mam-gu a thad-cu ar y ddau ochr yn gallu siarad yr iaith. Roedd fy nhad yn gallu deall, ond collodd e yr iaith, felly dwi'n retrieving...* a *'dwi'n meddwl dylwn i siarad iaith fy nhadau. Fy mam-gu a tad-cu'n siarad Cymraeg.'* I un aelod o'r grŵp a anwyd yng Nghymru ond a fagwyd y tu allan i'r wlad cyn dychwelyd i fyw yma, yr oedd siarad iaith eu rhieni cu yn bwysig iawn, nid er mwyn teimlo'n rhan o'r cylch teuluol hwnnw eto yn unig, ond hefyd gan fod cerddi a gwaith barddonol a ysgrifennwyd gan un ohonynt yn ei meddiant a hithau'n awyddus iawn i'w darllen a'u deall.

### 7.6.3.5 Grwpiau'r Wyddgrug

Yr oedd canran y rhai a nododd gymhellion offerynnol ychydig yn uwch yn y grwpiau hyn gyda mwy yn nodi eu bod yn dysgu oherwydd y gwaith. Eto i gyd, yn nodweddiadol, yr oedd y cymhellion offerynnol hyn yn gymysg â rhai integreiddiol hefyd. Ni chafwyd un enghraifft o neb â chymhellion offerynnol yn unig – ac mae hynny'n wir am y grwpiau ffocws i gyd. Yma am y tro cyntaf nodwyd yr awydd i ddeall y radio a'r teledu fel un o'r cymhellion. Unwaith eto, gwelwyd iaith emosiynol yn rhan o'r cymhelliant: *'Dwi'n licio'r iaith.'* Yn yr ardal hon, cafwyd yr unig enghraifft o rywun yn dysgu er mwyn defnyddio'r iaith mewn ardal Gymraeg [Penrhyn Llŷn], a hynny'n ystyrlon iddo gan ei fod yn byw yn Lloegr. Yma eto yr oedd ambell enghraifft o ddysgwyr yn cynrychioli'r genhedlaeth 'a gollwyd' rhwng rhieni cu a oedd yn siarad yr iaith ond heb ei chyflwyno i'w plant a phlant/wyrion y dysgwyr yn derbyn addysg Gymraeg: *'Dwi'n dod o'r ardal beth bynnag ond wedi colli'r iaith (cenhedlaeth taid).'* Nododd un iddo ddysgu Cymraeg yn benodol er mwyn ei helpu i ddod o hyd i waith yng Nghymru. Yr oedd mwy nag un enghraifft o 'ddysgwyr' yn y grwpiau hyn oedd mewn gwirionedd â rhyw grap ar y Gymraeg ers eu plentynod a phrofiad o wahanol beuoedd Cymraeg traddodiadol e.e. y capel, yr Urdd, eisteddfodau. Meddai'r dysgwyr hyn eu bod yn dod i ddsbarth er mwyn ailgydio yn y Gymraeg ond nid oes amheuaeth fod y dosbarth hefyd yn cynnig cyfle iddynt gymdeithasu yn y Gymraeg heb deimlo bod unrhyw un yn mynd i 'feirniadu' safon eu hiaith. Bron na ellid eu disgrifio fel siaradwyr Cymraeg dihyder.

### 7.6.3.6 Merthyr Tudful

Yr oedd bron pawb yn y dosbarth hwn wedi cael profiad o ddysgu'r Gymraeg (yn yr ysgol, trwy lyfrau, trwy Catchphrase) yn y gorffennol cyn bwrw ati i'w dysgu o ddifrif mewn dosbarth. Cymhellion integreiddiol oedd ganddynt yn ddieithriad yn amrywio o deimlo'n *'fwy o Gymro'* achos eu bod yn siarad yr iaith i *'merched yn mynd i'r ysgol Gymraeg'*.

### 7.6.3.7 Pen-y-bont

Ar wahân i un aelod o'r grŵp a nododd ei bod yn dysgu Cymraeg er mwyn ei helpu yn y gwaith, cymhellion integreiddiol a gafwyd yma yn bennaf. Unwaith eto, gwelwyd y cymysgedd o gymhellion a nodwyd gan Evas (1999: 292) sy'n nodweddu dysgwyr ar y lefelau uwch. Cafwyd enghreifftiau penodol o ddysgu Cymraeg er mwyn integreiddio ag elfennau o'r gymuned Gymraeg yma yn amrywio o *'...ddeall y geiriau yn yr emynau...yn y capel...'* i *'...llawer o bobl yn y côr roedd yn siarad yr iaith. Hefyd roeddyn ni'n canu llawer o gân yn Gymraeg.'* Nodwyd **dicter** eto gan un dysgwr nad oedd ei deulu Cymraeg wedi siarad yr iaith ag ef: *'...roedd Cymrag yn y teulu fy nhad yn gallu siarad Cymraeg... ddim wedi pasio'r Cymraeg i fi, ro'n i'n **grac** da nhw, felly mae fy mhiant i wedi mynd i ysgol Gymraeg.'*

### 7.6.3.8 Siawns am Sgwrs – Tŷ Tawe

Eto, cafwyd llawer o gymhellion integreiddiol a'r ymdeimlad fod siarad Cymraeg yn rhan annatod o Gymreictod i nifer ohonynt fel y dysgwr hwn a ddechreuodd ar gwrs Wlpan er mwyn: *'Timlo yn Cymro cyflawn, Cymro yn wir.'* Diddorol fod aelod arall o'r dosbarth wedi dechrau dysgu ar ôl symud i Abertawe achos, *'roedd angen i ddeall y*



*cymdeithas leol.*’ Cafwyd rhagor o enghreifftiau o ddysgwyr a fagwyd gyda pheth Cymraeg neu wedi cael eu magu yn mynychu Capel Cymraeg fel plentyn.

#### **7.6.3.9 Casnewydd**

Cymhellion integreiddiol oedd gan y rhan fwyaf, gydag un yn nodi “*achos fy mod i’n byw yng Nghymru*”. Meddai hi hefyd fod agweddau at y Gymraeg yn gwella yn ei hardal, er bod yr ardal yn gwbl ddi-Gymraeg. Meddai un arall iddo ddychwelyd i Gymru “*ar ôl 25 mlynedd. Cymro ydw i ond cwrddais i gwbl o bobl yn y fyddin sy’n siarad yn Gymraeg yn rhugl.*” “*Dw i’n dod o Gymru,*” meddai un arall. Ei chefnidir Cymraeg oedd y sbardun i un arall, “*I was brought up in a Welsh community, attended a Welsh chapel, listened to Welsh, but spoke English.*” Yn achos un roedd cymhelliant gwreiddiol offerynnol. Bu’n gweithio mewn swyddfa yn perthyn i adran o’r llywodraeth ac “*roedd rhaid i rywun yno ddysgu Cymraeg.*”

#### **7.6.4 Rhwystrau rhag cymdeithasu**

*Mae hyn yn ychwanegu at yr wybodaeth a roddir yn 4.4.*

Mae'n anodd barnu sut mae'r patrymau mynychu digwyddiadau a gweithgareddau'n cymharu â phatrymau cyffredinol yn y gymdeithas.

Mewn arolwg gan Gyngor Celfyddydau Cymru (*Arts in Wales Cyfrol 1*, 2010: 23-31), dywedir bod rhai sydd â gallu yn y Gymraeg ychydig yn fwy tueddol o fynychu digwyddiadau'r celfyddydau na rhai heb allu. Roedd 89% wedi mynychu un digwyddiad yn ystod y flwyddyn o'i gymharu ag 85% o rai di-Gymraeg, a 45% wedi cymryd rhan mewn mwy nag un digwyddiad, o'i gymharu â 36% o rai di-Gymraeg.

16% o oedolion Cymru oedd wedi mynychu digwyddiad Cymraeg, ac roedd gan 66% o'r rhain allu yn y Gymraeg.

Roedd rhwng 42% a 43% o rai â gallu a oedd o leiaf yn 'weddol' yn y Gymraeg wedi mynychu digwyddiad Cymraeg, a 30% o rai a oedd â 'pheth' gallu yn yr iaith. Roedd 89% o'r rhai a oedd ag o leiaf allu 'gweddol' yn y Gymraeg wedi mynychu o leiaf un digwyddiad Cymraeg.

Y prif rwystrau rhag mynychu yng Nghymru oedd prinder amser (o gwmpas 40+%), cost (o gwmpas 25%) ac ymrwymadau teuluol (o gwmpas 20%).

Y rhai mwyaf tebygol o fynychu digwyddiadau oedd rhai â chymwysterau addysgol, a phobl ifanc 16-24 oed â Safon Uwch, a rhai 25-54 â Safon Uwch, heb salwch tymor hir.

Y rhai uchaf oll oedd rhai â gradd ac â pheth gallu yn y Gymraeg.

Roedd 36% yn mynychu digwyddiad cerddorol o leiaf 2-3 gwaith y flwyddyn, ac 18% yn mynychu dramâu o leiaf 2-3 gwaith y flwyddyn.

O'i gymharu â'r patrymau hyn, ymddengys bod patrymau mynychu digwyddiadau a gweithgareddau ymysg dysgwyr Cymru'n gryf.

## 7.7 CYNWYS: GRAFFIAU A THABLAU

### I GRAFFIAU

- 1 Gostyngiad yn nifer y dysgwyr, yn ôl oed a lefel ddysgu
- 2 Rhyw ymatebwyr yr holiadur (canrannau)
- 3 Oedran ymatebwyr yr holiadur (canrannau)
- 4 Ardal Magwraeth yr ymatebwyr (canrannau)
- 5 Ardal byw yr ymatebwyr (canrannau)
- 6 Gallu teuluoedd yr ymatebwyr i siarad Cymraeg (canrannau)
- 7 Defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd yn awr (canrannau)
- 8 Lefel uchaf yr addysg a gafodd ymatebwyr (canrannau)
- 9 Cymhwyster uchaf yr ymatebwyr yn y Gymraeg (canrannau)
- 10 Dosbarth Cymraeg cyntaf yr ymatebwyr (canrannau)
- 11 Prif reswm ymatebwyr dros ddysgu'r Gymraeg (canrannau)
- 12 Amllder Defnyddio'r Gymraeg ymysg ymatebwyr (niferoedd)
- 13 Amllder defnyddio'r Gymraeg ymysg ymatebwyr yn ôl amllder mynychu Canolfan Gymraeg (niferoedd)
- 14 Amllder mynychu Canolfan Gymraeg (canrannau)
- 15 Amllder mynychu Canolfan Gymraeg yn ôl ardaloedd (niferoedd)
- 16 Amllder defnyddio'r Gymraeg gartref yn ôl gallu'r teulu i siarad Cymraeg (niferoedd)
- 17 Cyfle i siarad Cymraeg yn yr ardal, yn ôl ardal (niferoedd)
- 18 Amllder mynychu digwyddiadau (niferoedd)
- 19 Cyfle i siarad Cymraeg (canrannau)
- 20 Sgôr amllder darllen (canrannau)
- 21 Amllder gwrando ar Radio Cymru (canrannau)
- 22 Amllder gwyllo S4C (canrannau)
- 23 Defnyddio mwy o Gymraeg na 5 mlynedd yn ôl (niferoedd)
- 24 Defnyddio mwy o Gymraeg yn ôl man byw (niferoedd)
- 25 Defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r teulu (niferoedd)
- 26 Defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r teulu'n gyffredinol (niferoedd)
- 27 Defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith (niferoedd)
- 28 Defnyddio mwy o Gymraeg yn yr ardal (niferoedd)
- 29 Defnyddio mwy o Gymraeg yn y capel (niferoedd)
- 30 Defnyddio mwy o Gymraeg yn y dafarn (niferoedd)
- 31 Defnyddio mwy o Gymraeg mewn gweithgareddau a digwyddiadau (niferoedd)
- 32 Defnyddio mwy o Gymraeg yn y Ganolfan Gymraeg (niferoedd)
- 33 Nifer Ffrindiau newydd (niferoedd)
- 34 Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu mewn Canolfan Gymraeg (niferoedd)
- 35 Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu mewn gweithgareddau (niferoedd)
- 36 Ffrindiau newydd yn ôl amllder cymdeithasu yn yr ardal (niferoedd)
- 37 Sgôr mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfryngau (niferoedd)

## II TABLAU

- 1 Lefel dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007/08 – 2008/09 yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR
- 2 Rhyw dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007/08 – 2008/09 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR
- 3 Oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2007/08 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR
- 4 Oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2008/09 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR
- 5 Canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardaloedd yr ymchwil yn ôl Cyfrifiad 2001
- 6 Holiaduron – Ardaloedd, nifer a ddsbarthwyd a nifer a ddychwelwyd
- 7 Nifer yn mynychu gweithgareddau a digwyddiadau (niferoedd a chanrannau) yn y ddau fis diwethaf
- 8 Cyfle i siarad Cymraeg yn ôl ardal (canrannau)
- 9 Niferoedd yn mynychu digwyddiadau (niferoedd a chanrannau)
- 10 Niferoedd yn mynychu gweithgareddau (niferoedd a chanrannau)
- 11 Defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol yn ôl sefyllfaoedd (niferoedd a chanrannau)
- 12 Defnyddio mwy o Gymraeg mewn gwahanol leoliadau (canrannau)

## 8 LLYFRYDDIAETH

Aitchison, J. a Carter, H. (1994) *A Geography of the Welsh Language 1961-1991*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Areny, M. et al. (2000) *The Catalan Language in Catalonia, Spain*. Leeuwarden/Ljouwert: Mercator Education.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003) Cyfrifiad 2001: Prif Ystadegau am y Gymraeg. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar gael ar: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/331.doc> [Cyrchwyd 20 Gorffennaf 2010]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008) Arolygon Defnydd Iaith 2004 – 2006. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd ar gael ar: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Amcangyfrifon%20Arolygon%20Defnydd%20Iaith%20Cyfyngau%20Hyder.pdf> [Cyrchwyd 17 Hydref 2010]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) Adolygiad Blynyddol 2009 – 2010. Ar gael ar: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/20100723%20GC%20D%20Adolygiad%20Blynyddol%20Fersiwn%20Derfynol%20Gwe.pdf> [Cyrchwyd 16 Hydref 2010]

Carulla, M. (1990) *The Catalan Language Today*, Barcelona, Departament de Cultura, Generalitat de Catalunya.

CBAC (2004) *Bwletin Arholiadau Cymraeg i Oedolion*. Rhifyn 2: Rhagfyr 2004, Caerdydd.

Cyngor Celfyddydau Cymru (2010) *Arts in Wales Volume 1*

Cyngor Ewrop (2007) *Second Periodic Report presented to the Secretary General of the Council of Europe in accordance with Article 15 of the Charter; Spain*. Strasbourg: Cyngor Ewrop.

Crowe, R.M. (1988) *Yr Wippan yn Israel*. Canolfan Ymchwil Cymraeg i Oedolion, Aberystwyth.

CYD (1992) *Iaith Ifanc: Hyrwyddo a Chadw'r Defnydd o'r Gymraeg ymhlith Pobl Ifanc*. Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Douwes, R. et al. (2010) *Languages and Language Education in Fryslân: the role and position of Frisian in the province of Fryslân and in Frisian education*. Leeuwarden/Ljouwert: Mercator European Research Centre on Multilingualism and Language Learning, Fryske Akademy.

England, A. (1992) 'Canolfannau Cymraeg' yn CYD (1992: 46 – 52).

Estyn (2004) *Ansawdd y Ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i Oedolion*. Estyn, Caerdydd: Arolygiaeth ei mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Eustat (2010) Ystadegau Llywodraeth Cymuned Ymreolus y Basgiaid. Ar gael ar: <http://www.eustat.es/bancopx/Dialog/Saveshow.asp> [Cyrchwyd 3 Awst 2010]

- Evas, J. (1999) *Rhwystrau ar Lwybr Dwyieithrwydd*. Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caerdydd.
- Fishman, J.A. (1991) *Reversing Language Shift*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Gardner, N. (2005) *The Basque Language in Education in Spain*. Leeuwarden/Ljouwert: Mercator Education.
- Fusina, J. (2000) *The Corsican Language in Education in France*. Leeuwarden/Ljouwert: Mercator Education.
- Gruffudd, H. (1991) 'Chwilio am Ganolfannau newydd i'r iaith', *Barn*, 339, Ebrill 1991, tt. 3-6
- Gruffudd, H. (1995) *Y Gymraeg a Phobl Ifanc*. Papurau Ymchwil mewn Addysg Barhaus, Prifysgol Abertawe
- Gruffudd, H., Meek, E., a Miller, A. (2006) *Gwerthusiad o Cyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg*. Abertawe: Cyngor Iaith Llais y Lli.
- Gweithgor Cenedlaethol Dysgu Anffurfiol (2009) *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Dysgu Anffurfiol*.
- HABE (2010) Gwybodaeth am ariannu Basgeg i Oedolion, Presupuestos y subvenciones. Ar gael ar: [http://www.habe.euskadi.net/s23-4728/es/contenidos/informacion/aurrekontuak/es\\_9680/aurrekontuak.html](http://www.habe.euskadi.net/s23-4728/es/contenidos/informacion/aurrekontuak/es_9680/aurrekontuak.html) [Cyrchwyd 17 Rhagfyr 2010]
- Hicks, D. (1998) Euskara-Basque – cyhoeddwyd yn y *Scotsman* a *Contact Bulletin*. Ar gael ar: <http://www.akerbeltz.or/rannsachadh/eskara.htm> [Cyrchwyd 20 Hydref 2009]
- Jones, R. (2005) *Cenedl Ddwyieithog? Agweddau defnyddwyr at ddysgu'r Gymraeg*. Cyngor Defnyddwyr Cymru.
- Lightbown, P.M. a Spada, N. (1999) *How languages are learned*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Iaith Pawb*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg*. Dogfen gwybodaeth rhif 083/2010. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Morris, S.D. (2003) Language Planning Strategies for Integrating Adult Learners: Crossing the bridge between Yish and Xish. Yn *Actes del 2n Congr s Europeu sobre Planificaci  Lingüística / Proceedings of the 2<sup>nd</sup> European Conference on Language Planning* (tt. 204 – 216). Barcelona: Generalitat de Catalunya.
- Morris, S.D. (2005) *Cymhellion a Llwyddiant Oedolion sy'n dysgu Gymraeg: Astudiaeth o gyrsiau dwys yn ninas Abertawe*. Traethawd MPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe.
- Newcombe, L.P. (2007) *Social Context and Fluency in L2 Learners: The Case of Wales*. Clevedon: Multilingual Matters.

Pircher, K. et al. (2002) *The German Language in Education in South Tyrol*.  
Leeuwarden/Ljouwert: Mercator Education.

Reynolds, C. (2004) *Dysgwyr Cymraeg i Oedolion: Cymhelliant ac Agwedd*.  
Traethawd MPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe.

SCYA (2003) *Gwerthuso Rhaglen Genedlaethol Cymraeg i Oedolion*. Sefydliad  
Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil mewn Addysg, Abertawe.

Y Tiwtor (2009) 'Nantgwrtheyrn yfory', Rhifyn 6, Pasg 2009. Ar gael ar:  
<http://www.ytiwtor.org/rhifyn6/newyddion/newyddion14.htm> [Cyrchwyd 17 Hydref  
2010]

